Ofcom

## Y Swyddfa Gyfathrebiadau

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026

2025
2026

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Y Swyddfa Gyfathrebiadau

## Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026

Cyflwynir i'r Senedd yn unol â Pharagraffau 11 a 12 o Atodlen 1 o Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar y 9 Gorffennaf 2026

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan Weinidogion Cymru

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon gan Dr Caoimhe Archilbold MLA, y Gweinidog dros yr Economi yng Ngogledd Iwerddon.

©Hawlfraint Ofcom 2026

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-Government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â’r cyhoeddiad hwn atom i ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk

ISBN 978-1-5286-6525-4

E03613868 06/26

SG/2026/148

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi’i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd.
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


Ein pwerau a'n dyletswyddau 6
Neges y Cadeirydd 8
Adroddiad y Prif Weithredwr 9

**ADRODDIAD PERFFORMIAD 11**

Uchafbwyntiau 2025/2026 12
Rheoleiddio ar gyfer twf 14
Cynnydd i gyflawni'r Cynllun Gwaith 16
Y prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd 43
Ymgysylltu â rhanddeiliaid 46
Egwyddorion rheoleiddio Ofcom 53
Adolygiad Ariannol 57
Cyfrifoldeb Corfforaethol 62
Adroddiad ar Gynaliadwyedd 65

**ATEBOLRWYDD 69**

Llywodraethu a Chyfrifoldeb 70
Cipolwg ar Lywodraethu 81
Atebolrwydd 92
Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu 95
Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio 96
Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Pobl 100
Ein gweithwyr 102
Adroddiad taliadau 105
Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol 114

## DATGANIADAU ARIANNOL 119

Datganiad o incwm a gwariant 120
Datganiad o'r sefyllfa ariannol 121
Datganiad o newidiadau mewn ecwiti 122
Datganiad o lif arian 123
Nodiadau i'r cyfrifon 124

## ATODIADAU 161

Atodiad 1: Datganiadau rheoleiddio 162
Atodiad 2: Gweithgaredd Gorfodi 173
Atodiad 3: Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu 174
Atodiad 4: Proffil amrywiaeth ein gweithwyr 179
Atodiad 5: Sicrwydd a Chydymffurfiaeth Sbectrwm 181
Atodiad 6: Trwydded sbectrwm 182
Atodiad 7: Cynaliadwyedd 187



Mae pob unigolyn sy’n ymddangos yn y ffotograffau trwy gydol yr adroddiad yn gydweithwyr Ofcom.

# Ein pwerau a'n dyletswyddau

## Cenhadaeth Ofcom yw gwneud i gyfathrebiadau weithio i bawb.

Rydym yn rheoleiddio telathrebu llinell sefydlog a symudol, darlledu teledu a radio, fideo-ar-alw a gwasanaethau ar-lein, post, a'r sbectrwm radio a ddefnyddir gan ddyfeisiau diwifr. Rydym yn helpu busnesau ac unigolion yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu a'u diogelu rhag triniaeth ac arferion niweidiol. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth, buddsoddiad, arloesedd a thwf fel sail ar gyfer cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr. Mae Ofcom yn rheoleiddio platfformau rhannu fideo sydd wedi'u sefydlu yn y DU, gwasanaethau ar-lein sy'n cynnal cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr (fel cyfryngau cymdeithasol), gwasanaethau negeseuon a pheiriannau chwilio sy'n gweithredu yn y DU.

Rydym yn awdurdod cyhoeddus annibynnol ac yn atebol i'r Senedd a thrwy'r llysoedd, ac er mwyn cyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Rydym yn rhoi cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith o ran darparwr gwasanaeth band eang cyffredinol ar gyfer y DU) ac mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

Sefydlwyd Ofcom o dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 ac mae'n gweithredu o dan nifer o Ddeddfau Seneddol. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn nodi mai ein prif ddyletswydd wrth gyflawni ein swyddogaethau yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu ac hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol trwy hyrwyddo cystadleuaeth. Mae gennym hefyd ddyletswydd statudol i roi sylw i ddymunolrwydd hyrwyddo twf economaidd, gan sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn cefnogi buddsoddiad, arloesedd a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithredu'n effeithlon. O ran gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau cyfathrebiadau, cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr; amlinellir ein pwerau cystadleuaeth yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yn llywio cyfeiriad ein gwaith ac yn cynnwys sicrhau'r canlynol:

- bod gan y DU ystod eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- gwneud y defnydd gorau posibl o sbectrwm radio;
- bod ystod eang o raglenni teledu a radio o ansawdd uchel yn cael eu darparu gan wahanol sefydliadau, sy'n apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaeth;
- bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu sarhaus, triniaeth annheg ac nad oes tarfu diangen ar breifatrwydd ar y teledu a'r radio;
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol;
- bod dinasyddion yn y DU yn cael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol ar wasanaethau ar-lein rheoleiddiedig, trwy sicrhau bod darparwyr yn gwneud defnydd priodol o systemau a phrosesau sydd wedi'u cynllunio i leihau'r risg o niwed o'r fath;
- bod rhwymedigaeth gwasanaeth cynhwysol ar wasanaethau post wedi'i sicrhau yn y DU;
- bod seilwaith digidol ledled y DU yn gryf, yn ddiogel ac yn wydn.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond, yn wahanol i faes teledu a radio, nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am delathrebu, gwasanaethau post na diogelwch ar-lein. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn rhoi cyngor i achwynwyr ac yn eu cyfeirio at y cynlluniau datrys anghydfodau amgen (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.

Ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

## Pwerau Ofcom o ran cyfraith cystadleuaeth

Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddiol a nodir uchod, mae gennym bwerau mewn perthynas â materion cyfathrebiadau i:


- orfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a cham-drin safle dominyddol, a ddiffinnir yn Neddf Cystadleuaeth 1998;
- ymchwilio i farchnadoedd a gwneud cyfeiriadau o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

Rydym yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer cystadleuaeth neu bwerau sectorol mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar y gofynion deddfwriaethol penodol.

## Ein gwerthoedd

Er mwyn gwneud i gyfathrebiadau weithio i bawb, rydym yn: hyrwyddo dewis, sicrhau safonau ac atal niwed. Rhagoriaeth, cydweithredu, grymuso, ystwythder a pharch yw'r geiriau sy'n esbonio orau sut rydym yn gweithio a'r ffordd rydyn ni'n gwneud pethau yn Ofcom.

Mae ein gwerthoedd yn llywio'r ffordd rydym yn trin ein gilydd, yn gweithio gyda'n gilydd, yn ymwneud â'n rhanddeiliaid, yn barnu perfformiad ac yn cydweithio i gyflawni ein blaenoriaethau. Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac maent yn cefnogi'r sefydliad yr ydym am fod.



# Neges y Cadeirydd

## Syr Ian Cheshire



Roedd yn bleser ac yn anrhydedd dod yn Gadeirydd newydd ar Ofcom ym mis Mehefin 2026. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r flwyddyn o weithgarwch cyn i mi gyrraedd, ac mae'n dyst i bwysigrwydd ac amrywiaeth y gwaith y mae Ofcom yn ei wneud ar ran y cyhoedd yn y DU. Hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd, yr Arglwydd Grade, am ei rôl yn goruchwylio'r gwaith hyn dros y pedair blynedd diwethaf.

Ar adeg pan mae cyllidebau aelwydydd o dan bwysau gwirioneddol, mae Ofcom yn rheoleiddiwr sy'n sicrhau bod pobl yn cael bargen dda. Rydym yn diogelu cynulleidfaoedd a chwsmeriaid rhag niwed, ac yn sicrhau eu bod yn elwa ar gystadleuaeth, arloesedd a buddsoddiad ar draws y sector cyfathrebiadau.

Yn aml mae hyn yn golygu dal cwmnïau i gyfrif trwy gamau gorfodi. Pan mae Ofcom yn gwneud hyn, rydym yn ofalus i ddilyn proses gyfreithiol a sicrhau bod ein penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth glir. Fel gyda chyrff gorfodi eraill, gall cymryd y dull hwn olygu bod ymchwiliadau yn cymryd amser i'w cwblhau; ond yn hollbwysig, mae'n helpu i sicrhau eu bod nhw'n deg ac yn gadarn.

Defnyddiodd Bwrdd Ofcom yr wyf bellach yn aelod ohono ei arbenigedd helaeth i graffu a herio rhaglen Ofcom yn wrthrychol drwy gydol cyfnod yr adroddiad hwn. Mae'r Bwrdd hefyd yn diogelu annibyniaeth Ofcom, fel bod ein penderfyniadau yn parhau i fod yn rhydd o ddylanwad pleidiol neu fasnachol. Wrth i ni gefnogi'r tîm gweithredol yn eu gwaith, bydd yr egwyddorion hyn yn parhau i'n llywio.

Yn ehangach, mae Ofcom yn cael ei ddal i gyfrif gan graffu seneddol. Mae ein gwaith yn cael ei archwilio gan gynrychiolwyr etholedig ym mhedair prifddinas gwledydd y DU. Eleni, gwnaethom ymddangos gerbron 18 pwyllgorau dethol a grwpiau hollbleidiol ledled y DU. Mae ein penderfyniadau yn cael eu harchwilio yn rheolaidd gan lysoedd a thribiwnlysoedd o dan broses apelio drylwyr. Ac wrth gwrs, rydym yn dal ein hunain yn atebol i bobl a busnesau trwy ein hymgynghoriadau, ein digwyddiadau cyhoeddus a'r adroddiad hwn ei hun.

Edrychaf ymlaen at gefnogi Ofcom i gynnal ei effeithiolrwydd, ei annibyniaeth a'i atebolrwydd yn y blynyddoedd i ddod.

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Y Fonesig Melanie Dawes, DCB



Mae Ofcom yn gweithio mewn byd o newid eithriadol. Mae gwrthdaro byd-eang yn cyflwyno bygythiadau i gadwyni cyflenwi ac yn cynyddu costau byw. Mae gwasanaethau newydd yn tarfu ar fodelau busnes ar draws yr economi – ac mae hyn yn arbennig o wir yn y cyfryngau a thechnoleg. Mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn creu cyfleoedd enfawr ac, ar yr un pryd, yn creu peryglon newydd o ran niwed ar-lein gan wanhau, o bosib, ymddiriedaeth yn yr hyn y mae pobl yn ei weld a'i glywed.

Fel rheoleiddiwr, rhan o rôl Ofcom yw cofleidio'r newid hwn a'r cyfleoedd ar gyfer twf ac arloesi, gan sicrhau bod defnyddwyr a dinasyddion yn parhau i fwynhau'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt.

Mae hyn yn dechrau gyda chysylltedd da. Bum mlynedd yn ôl, gwnaethom roi hyder i adeiladwyr rhwydwaith ffeibr y byddem yn cadw at gynllun rheoleiddio cyson, hirdymor. Gwnaethom gadw'r addewid hwnnw eleni, gan gwblhau ein hadolygiad diweddaraf o'r farchnad band eang cyfanwerthu. Gwnaethom gadw at ddull sydd o blaid twf, sydd wedi bod yn sail i fuddsoddiad o £3-6bn y flwyddyn mewn band eang ffeibr llawn, wedi darparu ffeibr llawn i 82% o gartrefi yn y DU ac wedi dod â chyflymder gigabit cyflym iawn i naw o bob deg o bobl.

Mae angen i ddefnyddwyr ffonau symudol wybod y byddant yn cael darpariaeth signal da gartref ac yn y gwaith, cyn iddynt gymryd cytundeb. Felly eleni, gwnaethom lansio Mapio eich Ffôn Symudol, adnodd cynhwysfawr ar gyfer cymharu cwmpas a pherfformiad rhwydweithiau o fewn codau post y DU. Mae eisoes wedi cael ei ddefnyddio gan fwy na miliwn o bobl. Er mwyn helpu i wella darpariaeth symudol, gwnaethom alluogi galwadau ffôn bob dydd dros loerennau, arwerthu tonnau awyr newydd i wasanaethu ardaloedd prysur fel stadia pêl-droed a gweithredu arloesiadau ym maes rheoli sbectrwm a fydd yn rhoi hwb i signalau symudol a Wi-Fi.

Hon oedd y flwyddyn gyntaf hefyd i Ofcom gael pwerau llawn fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU. Rhaid i filoedd o wasanaethau ar-lein nawr ddiogelu eu defnyddwyr yn y DU rhag niwed, ac rydym wedi bod yn cymryd camau pan fyddant yn methu – trwy agor ymchwiliadau i bron i 100 o wasanaethau, a chodi 18 o ddirwyon. Gall rhieni wybod nawr bod plant yn cael eu diogelu'n well ar-lein. Mae cwmnïau gan gynnwys X, Telegram, Discord a Reddit wedi cyflwyno rheolaethau oedran effeithiol o amgylch cynnwys oedolion neu gynnwys a allai fod yn niweidiol, ac mae miliynau o ymweliadau â safleoedd pornograffi bellach yn gofyn am wiriadau tebyg.

Mae angen i bobl hefyd ymddiried, pan fyddant yn postio llythyr, y bydd yn cyrraedd pan ddylai. Eleni, rhoesom ddirwy o £21 miliwn i'r Post Brenhinol am fethu â chyrraedd ei dargedau dosbarthu. Mae perfformiad y cwmni wedi bod yn annerbyniol. Rydym wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol yn ei amserlen ddosbarthu i wneud iawn am y gostyngiad yn y nifer o lythyrau, ond rydym yn glir bod yn rhaid iddynt wella eu gwasanaeth craidd i'r cyhoedd.

Ym maes teledu a radio, gwnaethom gwblhau gwaith i ddiweddaru ein rheoleiddio ar gyfer byd o wasanaethau cystadleuol, dyfeisiau lluosog ac ymddygiad cynulleidfa sy'n newid. Aethom ati i foderneiddio'r ffordd rydym yn rheoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a rhoi rheolau ar waith i sicrhau bod eu cynnwys yn parhau i fod ar setiau teledu clyfar a siaradwyr. Gall gwylwyr a gwrandawyr hefyd fod yn sicr, os ydyn nhw'n cwyno i Ofcom am raglen, y byddwn yn asesu pob achos. Eleni, gwnaethom archwilio 65,968 o gŵynion, cwblhau 25 o ymchwiliadau a chanfod bod 14 yn torri ein rheolau. Lle nad oedd darlledwyr yn cynnal safonau, gwnaethom gymryd camau clir i orfodi ein rheolau.

Dyma rai o'r meysydd lle mae Ofcom yn dod ag eglurder a hyder i ddefnyddwyr. Trwy gyfnodau cythryblus, mewn sector lle mae newid cyflym yn debygol o barhau, rydym yn parhau i fod yn gadarn yn ein cenhadaeth i wneud i gyfathrebiadau weithio i bawb.



# ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Mae'r adran hon yn egluro sut rydym wedi perfformio yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gwaith Ofcom.

Rydym yn edrych ar effaith ein gwaith ar ran pobl a busnesau yn y DU.

# Uchafbwyntiau 2025/2026

## Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw

### Galluogi gwell band eang

Bydd ein fframwaith rheoleiddio tymor hir newydd ar gyfer y sector band eang yn parhau i hyrwyddo cystadleuaeth, arloesedd a buddsoddiad yn y farchnad hanfodol hon.

### Help darpariaeth i ddefnyddwyr

Fe wnaethom lansio Mapio eich Ffôn Symudol, adnodd cynhwysfawr sy'n datgelu darpariaeth a pherfformiad symudol 4G/5G lleol yng nghodau post y DU.

### Diwygio'r gwasanaeth post

Bydd ein newidiadau i rwymedigaethau'r Post Brenhinol yn ei alluogi i wneud gwelliannau anghenrheidiol i ddibynadwyedd perfformiad. Fe'i daliwyd i gyfrif gennym hefyd, gan roi dirwy o £21 miliwn iddynt am beidio â chyrraedd targedau cyflawni.

## Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

### Gweithredu Deddf y Cyfryngau

Fe wnaethom gwblhau ein gwaith i ddiweddaru rheoliadau o dan y Ddeddf y Cyfryngau. Fe wnaethom foderneiddio sut rydym yn rheoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a nodi sut dylai eu cynnwys barhau i fod ar gael ar setiau teledu clyfar a seinyddion clyfar.

### Helpu darlledu gwasanaeth cyhoeddus i oroesi a ffynnu

Yn dilyn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom nodi cynllun manwl ar gyfer eu diogelu a'u cynnal dros y blynyddoedd nesaf.

### Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd

Eleni, fe wnaethom gau 65,968 o gŵynion (8,544 o achosion), cwblhau 25 o ymchwiliadau, a chanfod 14 achos a oedd yn torri ein rheolau darlledu. Lle roedd darlledwyr wedi methu â chynnal safonau, fe wnaethom gymryd camau i orfodi ein rheolau.

# Bywyd mwy diogel ar-lein

### Diogelu plant rhag pornograffi

Fe wnaethom fynnu bod gwasanaethau pornograffi yn atal plant rhag cael gafael ar y cynnwys hwn, gan ddefnyddio gwiriadau oedran effeithiol iawn. Erbyn hyn, mae angen archwiliadau ar filiynau o ymweliadau dyddiol â safleoedd pornograffig.

### Blwyddyn o weithredu

Fe wnaethom ymchwilio i bron i 100 o wasanaethau ar-lein am beidio â chydymffurfio â'r cyfreithiau, a chymryd camau yn erbyn llawer ohonynt. Roedd hynny'n cynnwys dirwyon i chwe gwasanaeth a beidiodd â chynnal gwiriadau oedran effeithiol.

### Mynd i'r afael â'r cynnwys mwyaf niweidiol

Fe wnaethom gwblhau ein rheoliadau o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Fel rhan o hyn, fe wnaethom sefydlu codau ymarfer a chanllawiau gyda'r nod o atal plant rhag dod ar draws y mathau mwyaf niweidiol o gynnwys.

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

### Arloesi mewn sbectrwm

Fe wnaethom arwerthu tonnau awyr i ganiatáu i weithredwyr symudol ddarparu gwasanaethau cyflymach a gwell. Mae'r amleddau 'mmWave' hyn bellach ar gael mewn 68 o ardaloedd dwysedd uchel lle mae galw mawr am ddata symudol.

### O loerennau i ffonau clyfar

Cyn bo hir, bydd ffonau clyfar safonol yn gallu derbyn signalau o'r gofod, yn dilyn ein penderfyniadau i ganiatáu i gwmnïau rhwydweithiau symudol a lloeren bartneru a darparu gwasanaethau 'uniongyrchol i ddyfeisiau' i ddefnyddwyr ffonau yn y DU.

### Rhannu sbectrwm i hybu cysylltiadau

Bydd ein cynlluniau yn golygu mai'r DU fydd y wlad gyntaf yn Ewrop i rannu tonnau awyr ar draws gwasanaethau symudol a Wi-Fi. Bydd hyn yn arwain at fand eang di-wifr gwell, signalau cryfach mewn lleoliadau prysur a chefnogaeth ar gyfer technolegau newydd.

# Rheoleiddio ar gyfer twf

Drwy gydol y flwyddyn, mae agwedd Ofcom at reoleiddio wedi adlewyrchu ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer rheoleiddio ar gyfer twf, wedi'i alluogi gan gystadleuaeth, arloesedd a buddsoddiad a'n dyletswydd i ystyried twf economaidd yn y DU. Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiadau drwy ein gwaith rheoleiddio economaidd yn y sectorau telegyfathrebiadau, drwy ddefnyddio sbectrwm a drwy symleiddio a lleihau'r baich ar y diwydiant lle bo hynny'n bosibl.

Mae cysylltiadau band eang cyflym iawn yn seilwaith cenedlaethol hanfodol, sy'n sail i gynhyrchiant ar draws pob sector o'r economi. Rydym wedi gosod y rheolau ar gyfer rhwydweithiau sefydlog tan 2031 fel rhan o'n cynllun deng mlynedd i feithrin cystadleuaeth a hyrwyddo buddsoddiad. Mae hyn ochr yn ochr â dyletswyddau canolfannau ddata newydd sy'n cryfhau cadernid a diogelwch y gwasanaethau digidol y mae'r economi'n dibynnu arnynt ar gyfer twf. Mae hyn eisoes yn dod â manteision ar draws yr economi – o gysylltiadau cyflymach a mwy dibynadwy i bobl a busnesau, i brisiau cystadleuol i gwsmeriaid sy'n parhau i wynebu heriau ariannol. Yn ein sectorau'n gyffredinol, mae pobl yn cael gwell gwasanaethau am eu harian.

Mae darpariaeth symudol yn ffactor pwysig arall sy'n galluogi twf a chynhyrchiant. Mae saith miliwn o bobl yn elwa o gyflymderau 4G cyflymach eleni, ac mae cyfanswm o 16,500 cilomedr sgwâr o 'fannau di-gyswllt' wedi cael eu dileu ar draws y DU. Fe wnaethom gefnogi adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o uno Vodafone/Three y llynedd. Arweiniodd hyn at y cwmnïau'n ymrwymo'n gyhoeddus i fuddsoddi £11 biliwn dros gyfnod o wyth mlynedd, a fydd yn gwella perfformiad a chapasiti eu rhwydwaith yn sylweddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom hefyd lansio gwiriwr darpariaeth newydd Ofcom, Mapio eich Ffôn Symudol, gan ailwampio'r data y mae defnyddwyr yn gallu cael gafael arno o ran ansawdd a darpariaeth symudol. Bydd hyn yn annog darparwyr i gystadlu ar berfformiad a buddsoddi ymhellach mewn rhwydweithiau gwell.

Mae ein dull o reoli sbectrwm radio'r DU wedi datgloi manteision mawr. Drwy gadarnhau y byddwn yn awdurdodi defnyddio'r rhan fwyaf o fandiau sbectrwm symudol ar gyfer gwasanaethau lloeren uniongyrchol i ddyfeisiau, y DU yw'r wlad gyntaf yng Ngorllewin Ewrop lle mae gweithredwyr symudol yn gallu ymuno â chwmnïau lloeren i ganiatáu i ffonau clyfar gael signal o'r gofod. Bydd hyn yn darparu signal i ardaloedd o'r wlad sydd ddim yn cael eu gwasanaethu gan rwydweithiau symudol daearol, gan ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol.

Drwy awdurdodi darparwyr band eang lloeren fel Starlink ac Amazon Leo, fe wnaethom barhau â'n gwaith ehangach i alluogi gwasanaethau lloeren i gefnogi twf a chysylltiadau ar draws y DU. Hyd yma, rydym wedi awdurdodi naw trwydded orbit lloeren sydd ddim yn ddaearsefydlog. Mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn parhau i gynyddu, gyda dros 110,000 o gysylltiadau gweithredol yn 2025, i fyny o tua 87,000 y flwyddyn flaenorol.

Fe wnaethom hefyd gwblhau ein harwerthiant o sbectrwm 'tonnau milimedr' amledd uchel iawn i'w ddefnyddio gan weithredwyr rhwydweithiau symudol, a fydd yn cefnogi gwell cysylltiadau i bobl mewn ardaloedd prysur fel canolfannau trafnidiaeth a stadia.

> Yn ogystal â cheisio hyrwyddo twf yn y rheolau a osodwn, rydym yn ymdrechu i osgoi beichiau diangen ar y diwydiant.

Yn yr un modd, drwy alluogi mwy o rannu sbectrwm, rydym yn cael y budd mwyaf i'r DU o'i donnau awyr gwerthfawr a chyfyngedig. Gwnaethom ymrwymo i agor trwyddedu mynediad a rennir i sbectrwm mmWave capasiti uchel ar gyfer rhwydweithiau preifat. Mae busnesau fel y diwydiant modurol a phorthladdoedd prysur yn gallu cael mynediad at y sbectrwm hwn drwy offeryn hunanwasanaeth ar-lein.

Fe wnaethom benderfynu galluogi Wi-Fi a gwasanaethau symudol i rannu'r band 6 GHz, gan helpu i ddiwallu'r galw am ddata yn y dyfodol drwy gynyddu capasiti ar gyfer defnydd bob dydd mewn ardaloedd prysur, yn ogystal ag ar gyfer technolegau mwy newydd fel realiti rhithwir a AI. Mae hyn yn golygu mai'r DU yw'r wlad gyntaf yn Ewrop i ymrwymo i gael y ddwy dechnoleg wahanol hyn yn rhannu band amledd.

Ym maes darlledu, bydd gweithredu Deddf y Cyfryngau yn helpu gwylwyr a gwrandawyr i barhau i fwynhau allbwn economi greadigol y DU. Rydym wedi moderneiddio trwyddedau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i adlewyrchu eu defnydd o chwaraewyr ar-alw i gyflawni eu cylchoedd gwaith. A bydd ein cynigion yn sicrhau bod chwaraewyr ffrydio darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael amlygrwydd priodol ar setiau teledu clyfar, er mwyn iddynt allu parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd yn yr amgylchedd cyfryngau modern.

Mae cydweithio rhwng rheoleiddwyr rhyngwladol yn hanfodol, o ystyried natur ddi-ffiniau'r heriau rydym yn eu hwynebu a chyflymder y newid mewn arloesedd digidol. Mae ein gwaith parhaus gyda'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) wedi helpu i wneud y DU yn lle deniadol i arloeswyr technoleg. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Fforwm â'i raglen o arloesi rheoleiddiol, gan adeiladu ar beilot yr Hyb AI Digidol i hwyluso ymgysylltiad arloeswyr â rheoleiddwyr. Ym mis Mawrth, daeth y fforwm â 200 o gynrychiolwyr o ddiwydiant, cymdeithas sifil, y byd academaidd, y llywodraeth a rheoleiddwyr at ei gilydd i ganolbwyntio ar AI Cynhyrchiol Cyfrifol. Mae'r Fforwm hefyd yn treialu Llyfrgell Ddigidol i wella hygyrchedd rheoleiddio digidol a rhwyddineb cydymffurfio, wedi'i ariannu gan Gronfa Arloesi AI y Swyddfa Arloesi Rheoleiddio.

Yn ogystal â cheisio hybu twf yn y rheolau rydym yn eu gosod, rydym yn ymdrechu i osgoi beichiau diangen ar y diwydiant. Rydym yn gwneud hyn mewn dwy ffordd: nodi cyfleoedd i ddadreoleiddio lle nad oes angen rheolau mwyach neu lle maent wedi dyddio; a mynd ati i symleiddio ein dull rheoleiddio, er mwyn i fusnesau sy'n rhyngweithio â ni wynebu llai o gostau a chael gwasanaeth mwy effeithlon.




Yn 2025/26, fe wnaethom y canlynol:

- lleihau'r gofynion rheoleiddio sydd wedi'u gosod ar y Post Brenhinol, gan ganiatáu i'r cwmni wireddu arbedion blynyddol yr amcangyfrifir a fydd werth rhwng £250m a £425m;
- cael gwared â rheoleiddiwr, gan ymgorffori swyddogaethau'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn yn Ofcom ac arbed tua £6.7m dros bum mlynedd;
- dadreoleiddio'r sector radio masnachol, gan roi mwy o hyblygrwydd iddo addasu i newidiadau mewn anghenion cynulleidfaoedd, ar yr un pryd â diogelu'r ddarpariaeth o newyddion lleol;
- penderfynu peidio â chynnal adolygiad o'r farchnad na gosod rhagor o reoleiddio yn y farchnad negeseuon ap-i-berson, gan arbed costau gweinyddol sylweddol i weithredwyr ac Ofcom;
- lansio fersiwn beta o'n Gwasanaeth Cymorth Digidol (DSS) pwrpasol, i helpu busnesau i ddeall eu gofynion rheoleiddio o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein; a
- cefnogi ymrwymiadau twf y llywodraeth, gan gynnwys drwy gyfrannu at Gynllun Symleiddio Blynyddol yr Adran Gwyddoniaeth, ArloesEDD a Thechnoleg gyda'r nod o leihau'r baich rheoleiddio ar y diwydiant.

# Cynnydd i gyflawni ein Cynllun Gwaith

Mae'r adran hon yn egluro'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn ein meysydd blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn, a'r effaith ar bobl a busnesau.

Rydym yn cyhoeddi Cynllun Gwaith Ofcom bob mis Mawrth. Mae'r Cynllun hwn yn egluro'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni dros y flwyddyn ariannol i ddod, er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb ar draws y DU a'i gwledydd.

Roedd y meysydd gwaith a bennwyd ar gyfer 2025/26 yn ystyried yr hyn a oedd yn digwydd yn y farchnad gyfathrebiadau a newidiadau yn anghenion pobl a busnesau, yn erbyn cefndir o sectorau deinamig sy'n parhau i fuddsoddi ac arloesi, yn ogystal â lefelau uchel o chwyddiant. Roedd ein cynllun yn cydnabod y ddibyniaeth gynyddol ar rwydweithiau cyfathrebiadau'r DU o ran y ffordd rydym yn byw, yn gweithio, yn siopa ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ymgynghori ar ein cynllun bob blwyddyn i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu'r adborth a gawn gan bartïon sydd â diddordeb, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau Ofcom. Mae'r Cynllun Gwaith hefyd yn cynnwys ein rhaglen waith, sy'n egluro prif weithgareddau'r flwyddyn.

**Nodiadau i'r darllenydd:** Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Drwy'r testun, mae "eleni" yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol honno. Yn yr un modd, oni nodir hynny, mae misoedd yn cyfeirio at y mis perthnasol yn y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, mae "Awst" yn golygu Awst 2025, mae "Ionawr" yn golygu Ionawr 2026.



# Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw

Mae pobl ledled y DU yn dibynnu bob dydd ar wasanaethau ffôn, band eang a phost dibynadwy i weithio a chadw mewn cysylltiad â'r bobl maent yn eu hadnabod. Rydym yn sicrhau bod cwmnïau'n diwallu anghenion cwsmeriaid, yn datrys problemau pan fyddant yn codi ac yn cymryd camau i gadw rhwydweithiau'n gadarn ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd wedi gosod rheolau i hyrwyddo buddsoddiad mewn telegyfathrebiadau, sy'n gwella gwasanaethau ac yn helpu i dyfu'r economi.

## Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Fe wnaethom gyflwyno fframwaith rheoleiddio tymor hir newydd ar gyfer y farchnad band eang, sydd wedi'i ddylunio i barhau i hyrwyddo cystadleuaeth, arloesedd a buddsoddiad yn y sector hanfodol hwn.
- Wrth i lawer o aelwydydd ei chael yn anodd ymdopi â chostau byw, fe edrychom ar fforddiadwyedd gwasanaethau ffôn, band eang a theledu. Yn y sectorau hyn yn gyffredinol, mae pobl yn cael mwy am eu harian.
- Fe wnaethom gymryd amrywiaeth o gamau i fynd i'r afael â thwyll. Fe wnaethom ymchwilio i gwmnïau sy'n cael eu hamau o fod yn gysylltiedig â sgamiau, gosod rheolau newydd i ddiogelu cwsmeriaid symudol rhag negeseuon twyllodrus, a gweithio ar lawr gwlad gyda chyrff sy'n gorfodi'r gyfraith i fynd i'r afael â sgamiau unigol.
- Fe wnaethom fonitro sut mae cwmnïau'n cadw rhwydweithiau telegyfathrebiadau'r DU yn ddiogel ac yn gadarn, ac fe wnaethom roi dirwy i ddau gwmni am beidio â chadw pobl mewn cysylltiad â'r gwasanaethau brys bob amser.
- Fe wnaethom lansio Mapio eich Ffôn Symudol, adnodd cynhwysfawr sy'n datgelu darpariaeth a pherfformiad symudol 4G/5G lleol yn eich ardal cod post.
- O ran y post, rydym wedi newid rhwymedigaethau'r Post Brenhinol i sicrhau i wneud y gwelliannau anghenrheidiol i ddibynadwyedd a chefnogaeth. Fe wnaethom hefyd ddal y Post Brenhinol i gyfrif, gan roi dirwy o £21m iddo am beidio â chyrraedd ei dargedau danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn 2024/25.

## Pam mae hyn yn bwysig

- Mae'r gwaith o gyflwyno band eang sy'n gallu delio â gigadidyn mynd rhagddo, yn parhau gan helpu i sbarduno economi'r DU, datgloi potensial cymunedau anghysbell, galluogi enillion cynhyrchiant a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt ddod yn fwy digidol.
- Wrth i gostau byw gynyddu, mae angen cynnyrch fforddiadwy ar aelwydydd sy'n diwallu eu hanghenion bob dydd. Mae'r DU yn elwa o farchnadoedd cyfathrebu hynod gystadleuol, ac fe wnaeth 1.6 million o bobl newid i fargen ffôn neu fand eang well eleni.
- Mae angen signal da ar ddefnyddwyr ffonau symudol lle maent yn byw ac yn gweithio. Mapio eich Ffôn Symudol yw'r adnodd mwyaf cywir ar gyfer cymharu perfformiad a darpariaeth symudol yn y DU, ac mae bron i filiwn o bobl wedi'i ddefnyddio'n barod.
- Twyll yw'r drosedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gan achosi gofid ariannol ac emosiynol i'w dioddefwyr. Rydym yn parhau i ymchwilio i sgamiau niweidiol a mynd i'r afael â nhw.
- Mae sicrhau bod ein rhwydweithiau telegyfathrebiadau'n ddiogel ac yn gadarn yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr ac i fusnesau, sydd angen iddynt fod yn ddibynadwy a chael eu diogelu rhag methiannau a bygythiadau. Mae hynny'n cynnwys cadw pobl mewn cysylltiad â gwasanaethau 999 pryd bynnag y bydd eu hangen arnynt.
- Mae'r gwasanaeth post yn dal yn fath hanfodol o gysylltiad i filiynau o bobl yn y DU. Ond nid yw'n gynaliadwy ar ei ffurf bresennol, felly fe wnaethom newidiadau i helpu i ddiogelu'r gwasanaeth a'i wneud yn fwy dibynadwy.

## Ein gwaith eleni

### Band eang gwell ledled y DU

Ers i Ofcom roi rheoliadau newydd ar waith ar gyfer y farchnad band eang bum mlynedd yn ôl, y DU sydd wedi cyflwyno band eang sy'n gallu delio â gigadid gyflymaf ledled Ewrop. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae cwmnïau rhwydwaith wedi buddsoddi rhwng £3bn a £6bn bob blwyddyn, ac mae darpariaeth ffeibr llawn wedi cynyddu'n aruthrol o lai na chwarter o adeiladau i gyrraedd bron i wyth o bob deg.

Ym mis Mawrth, fe wnaethom adeiladu ar y cynnydd hwn drwy gwblhau'r gwaith o nodi sut byddwn yn rheoleiddio'r farchnad dros y pum mlynedd nesaf. Fel o'r blaen, fe wnaethom ganolbwyntio ar osod rheolau sy'n galluogi cystadleuaeth a buddsoddiad yn y sector, er mwyn i ansawdd a darpariaeth rhwydweithiau barhau i wella wrth i'r gwaith o gyflwyno ffeibr llawn ddechrau ar ei gam olaf.

Yn ôl cynlluniau gan rwydweithiau band eang y DU, gyda'r cymorth cywir, bydd ffeibr llawn ar gael i bron i 29 miliwn o adeiladau erbyn diwedd 2027 - ymhell dros naw o bob deg. Mae pob cysylltiad newydd yn golygu bod cartref neu fusnes yn gallu gwneud mwy ar-lein – o weithio a dysgu gartref, ffrydio a chwarae gemau o ansawdd uchel, i wella effeithlonrwydd a dibynadwyedd i fusnesau bach ac adeiladau cyhoeddus. Bydd y rhwydweithiau newydd yn helpu i hybu twf economaidd a chynhyrchiant ledled y wlad.



### Helpu pobl gyda chostau byw

Mae llawer o bobl ledled y wlad yn dal i'w chael yn anodd ymdopi â phwysau ariannol. Mae Ofcom yn gweithio'n galed i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu fforddiadwy ac yn gallu chwilio am fargeinion da.

Roedd ein hadroddiad ar brisiau ac ymgysylltu â defnyddwyr ym mis Chwefror yn egluro beth mae pobl yn ei dalu a sut maent yn ymgysylltu â'r farchnad gyfathrebu. Gwelsom fod pobl yn cael mwy am eu harian, gan fod prisiau termau real y rhan fwyaf o wasanaethau telegyfathrebiadau wedi aros yn sefydlog neu wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf.

Prisiau band eang cyflymach a gwasanaethau symudol llawn data sy'n gostwng gyflymaf. Mae hyn yn golygu y gallai llawer o gwsmeriaid newid i fand eang sy'n gallu delio â gigadid a thalu'r un faint, neu lai, nag y maent yn ei dalu ar hyn o bryd am gysylltiad safonol neu gyflym iawn. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cost set arferol o wasanaethau symudol wedi gostwng un rhan o bump – er bod faint o ddata mae pobl yn ei ddefnyddio ar eu ffôn ar gyfartaledd wedi mwy na dyblu.

Daeth rheolau newydd Ofcom i rym y llynedd, gan roi eglurder a sicrwydd i gwsmeriaid ynghylch yr hyn y byddant yn ei dalu am wasanaeth ffôn, band eang neu deledu dros gyfnod eu contract. Mae ein hasesiad cychwynnol yn awgrymu bod y rheolau'n rhoi mwy o eglurder ynghylch yr hyn y bydd cwsmeriaid yn ei dalu adeg gwerthu, gan ei gwneud yn haws iddynt siopa o gwmpas.

A dyna beth mae pobl yn ei wneud. Newidiodd tua 1.6 miliwn o gwsmeriaid eu darparwr llinell dir neu fand eang yn ystod y flwyddyn ers i ni lansio ein proses Newid Un Cyffyrddiad, sydd bellach yn gweithio ar draws rhwydweithiau. Mae'n golygu mai'r cyfan sydd angen i bobl ei wneud yw cysylltu â'u darparwr newydd, a fydd yn mynd i'r afael â'r gwaith trosglwyddo i gyd. Mae newid symlach yn annog cystadleuaeth, ac mae dros 300 o ddarparwyr wedi ymrwymo. Er mwyn gwneud yn siŵr bod y broses yn gweithio'n dda, fe wnaethom gyhoeddi diweddariad ym mis Mehefin ar ein rhaglen orfodi Newid Un Cyffyrddiad, sy'n dal cwmnïau i gyfrif o ran gwneud newidiadau un cam yn gyflym ac yn hawdd.

Rydym hefyd yn gwneud yn siŵr bod cwmnïau'n glynu wrth ein rheolau diogelu defnyddwyr. O ganlyniad i'n camau gorfodi ar BT yn ystod y flwyddyn flaenorol, mewn perthynas â darparu gwybodaeth a chrynodeb o gontractau, mae BT bellach wedi ad-dalu neu wedi credydu £18m i gyfrifon cwsmeriaid.





## Camau cadarn yn erbyn twyll

Twyll yw'r drosedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, ac mae diogelu pobl rhag y risg o golli arian i sgamwyr yn bwysicach nag erioed.

Fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â sgamiau ffôn a negeseuon testun, fe wnaethom agor ymchwiliad ym mis Ebrill i weld a oedd y darparwr telegyfathrebiadau Primo Dialler wedi camddefnyddio rhifau ffôn a oedd wedi cael eu hail-neilltuo iddo, gan gynnwys i gyflawni sgamiau. Mae ein hymchwiliad yn parhau. Ac ym mis Mehefin, fe wnaethom orchymyn i'r darparwr telegyfathrebiadau Tismi rwystro pob galwad a neges yn ymwneud â rhifau penodol a neilltuwyd iddo, ar ôl i ni gael gwybodaeth a oedd yn dangos bod y rhifau hyn wedi cael eu cysylltu â thwyll neu gamddefnydd difrifol.

Fe wnaethom gau bwlch ym mis Ebrill a oedd yn peri risg i breifatrwydd a diogelwch defnyddwyr ffonau symudol, drwy wahardd yr arfer o lesio rhifau ffôn o'r enw 'teitlau byd-eang'. Mae rhwydweithiau symudol yn defnyddio'r rhain i anfon a derbyn negeseuon signalau. Weithiau maent yn cael eu lesio gan rwydweithiau symudol; ond gallant syrthio i'r dwylo anghywir, a gall troseddwyr eu defnyddio i ryng-gipio a dargyfeirio galwadau a negeseuon, neu i gael gafael ar wybodaeth fel data personol defnyddwyr symudol.

Nid yw ymdrechion blaenorol dan arweiniad y diwydiant i fynd i'r afael â'r broblem wedi gweithio, felly fe wnaethom gymryd y cam o wahardd yr arfer o lesio teitlau byd-eang ar unwaith. Bydd y rheolau newydd yn golygu bod y Deyrnas Unedig ar flaen y gad o ran atal camddefnydd gan grwpiau troseddol.

Yna, ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gynnig canllawiau llymach ar sut dylai cwmnïau telegyfathrebiadau ddiogelu pobl rhag galwadau rhyngwladol sy'n dynwared rhifau symudol yn y DU. Mae troseddwyr sydd wedi'u lleoli dramor yn aml yn dynwared y rhifau 07 hyn, gan ei fod yn gallu gwneud pobl yn fwy tebygol o ateb. Fe wnaethom gynnig y dylai cwmnïau ffôn atal ID galwr galwadau sy'n ymddangos fel pe baent yn dod o ffôn symudol o'r DU yn trawsrwydweithio dramor, oni bai eu bod yn gallu gwirio ei ddilysrwydd.

Ym mis Hydref, fe wnaethom nodi rheolau newydd i ddarparwyr symudol ddiogelu eu cwsmeriaid rhag negeseuon twyllodrus. Mae cwmnïau symudol wedi cymryd camau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ganfod ac amharu ar negeseuon testun sgam, gan rwystro tua 600 miliwn bob blwyddyn. Ond mae negeseuon twyllodrus yn parhau i achosi niwed a gofid sylweddol, ac rydym yn disgwyl i'r diwydiant wneud mwy fyth i ddiogelu pobl a busnesau.

Mae Ofcom hefyd yn gweithio ar lawr gwlad gyda chyrff gorfodi'r gyfraith i fynd i'r afael ag achosion unigol o dwyll. Ym mis Chwefror, yn dilyn ymchwiliad yn ymwneud ag Ofcom, cafwyd pedwar unigolyn yn euog o ddefnyddio technoleg 'SMS blaster' i anfon miloedd o negeseuon testun sgam mewn ymgais i dwyllo cymudwyr Llundain. Cyflawnwyd yr euogfarn diolch i gydweithio agos rhwng Ofcom, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, gweithredwyr rhwydweithiau symudol a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

## Diogelu a grymuso cwsmeriaid

Dylai defnyddwyr wybod bod Ofcom o'u plaid. Ym mis Mai, fe wnaethom gyhoeddi ein hymchwil rheolaidd yn dangos pa sgoriau mae cwsmeriaid band eang, symudol a lein ffôn yn y DU wedi eu rhoi i'w darparwyr am eu gwasanaeth i gwsmeriaid – gan gynnwys amseroedd aros galwadau, sut maent yn delio â chwynion, a chanlyniadau cyffredinol.

Roedd lefelau bodlonrwydd â delio â chwynion ar gyfer gwasanaethau symudol, band eang a llinell dir i gyd yn sylweddol uwch nag mewn ymchwil flaenorol. Fe welsom arwyddion hefyd bod cwmnïau wedi gwella sut maent yn delio â chwynion.

Ond roedd gan gwsmeriaid symudol a band eang fwy o reswm dros gwyno, ac roedd yr amser aros ar gyfartaledd ar gyfer galwadau wedi cynyddu 13 eiliad i 2 funud 1 eiliad – yn ogystal â'r amser a gymerwyd i osod gwasanaethau band eang a llinell dir, o un diwrnod i 11 diwrnod. Felly mae gan ddarparwyr waith i'w wneud o hyd i wella bodlonrwydd cwsmeriaid.

Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom osod rheolau cryfach a fydd yn caniatáu i gwsmeriaid telegyfathrebiadau uwchgyfeirio cwynion sydd heb eu datrys i gynllun Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod yn gynt. Mae cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR) yn cael eu darparu gan gyrff annibynnol sy'n cynnal asesiadau diduedd o gwynion heb eu datrys rhwng cwsmer a'i ddarparwr. Y nod yw sicrhau bod y broses o ddelio â chwynion yn deg ac yn effeithiol. Ar ôl ymgynghoriad, rydym wedi lleihau'r amser cyn y gall defnyddwyr gael mynediad at Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod o wyth i chwe wythnos ar ôl iddynt gwblhau eu cwyn gychwynnol. Daeth y newid hwn i rym ym mis Ebrill 2026.

Trwy'r flwyddyn rydym wedi parhau i gyhoeddi ein ffigurau chwarterol am y cwynion a gafwyd am y prif gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau ffôn symudol, llinell dir, band eang a theledu-drwy-dalu yn y DU. Er na allwn ymchwilio i gwynion unigol, mae'r data hwn yn grymuso cwsmeriaid ac yn ein helpu i ddeall y rhesymau dros unrhyw anfodlonrwydd ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

## Cadw pobl mewn cysylltiad mewn argyfwng

Mae gan Ofcom rôl bwysig yn sicrhau bod rhwydweithiau telegyfathrebiadau'r DU yn ddiogel ac yn gadarn. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod gwasanaethau galwadau brys 999 yn ddibynadwy ac yn hygyrch. Does neb angen ffôn yn fwy nag yn ystod argyfwng, ac os nad yw cwmnïau'n llwyddo i gadw pobl mewn cysylltiad bob amser, yna rydym yn gweithredu.

Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom roi dirwy o £122,500 i'r darparwr band eang Gigaclear am beidio â darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy am leoliad galwyr i'r gwasanaethau brys. Rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2024, pan ffoniodd unrhyw gwsmer Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd Gigaclear (VoIP) 999 neu 112, roedd gwybodaeth anghywir am eu lleoliad yn cael ei rhoi i'r gwasanaethau brys. Effeithiodd hyn ar gyfanswm o 948 o alwadau a gallai fod wedi gwneud ymateb brys yn fwy heriol.

Ym mis Medi, fe wnaethom roi dirwy o £700,000 i Vonage am fethiannau mewn galwadau i 999. Rhwng 23 Hydref a 3 Tachwedd 2023, nid oedd gan Vonage y prosesau cywir i ganfod newidiadau i'r rhwydwaith a allai effeithio ar alwadau brys. Roedd goruchwyliaeth y cwmni o'i rwydwaith yn annigonol, ac roedd yn golygu nad oedd rhai cwsmeriaid busnes yn gallu cysylltu â'r gwasanaethau brys.

Yn dilyn y ddau ymchwiliad hyn, fe wnaethom lansio rhaglen fonitro ffurfiol i astudio cydymffurfiad darparwyr â'u dyletswyddau o ran galwadau brys. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac rydym yn casglu mwy o dystiolaeth gan ddarparwyr cyn ystyried y camau nesaf. Mae gennym hefyd ymchwiliadau sy'n parhau i BT a Three, a lansiwyd gennym ym mis Rhagfyr ar ôl cyfnodau segur dros yr haf a wnaeth darfu ar wasanaethau galwadau symudol ledled y wlad, gan gynnwys i'r gwasanaethau brys.

## Cefnogi cwsmeriaid agored i niwed

Ym mis Mai, canfu astudiaeth gan Ofcom fod 999 BSL, gwasanaeth cyfnewid fideo sy'n cysylltu defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) byddar â'r gwasanaethau brys, yn llwyddo i achub bywydau.

Ers 2022 rydym wedi mynnu bod cwmnïau ffôn a band eang yn cynnig gwasanaeth cyfnewid fideo 24/7 am ddim i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i wneud y galwadau hyn drwy ap symudol a gwefan bwrpasol. Mae'r ap wedi cael ei lwytho i lawr bron i 30,000 o weithiau a chafodd ei ddefnyddio i wneud tua 18,000 o

alwadau yn ystod 2024/25. Nid yw'r gwasanaeth wedi cael bron dim cwynion ac amcangyfrifir ei fod yn achub bywydau dau berson bob blwyddyn.

Technoleg arall a allai achub bywydau yw larymau teleofal – systemau personol sydd wedi'u cynllunio i helpu unigolion oedrannus, anabl neu agored i niwed i sbarduno cymorth prydlon gan roddwyr gofal neu'r gwasanaethau brys. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom roi dirwy o £23.8m i Virgin Media ar ôl iddo beidio â diogelu cwsmeriaid teleofal yn ystod ei raglen i symud cwsmeriaid o linellau tir analog i linellau tir digidol. Fe wnaeth ymyriadau ar y gwasanaeth atal dyfeisiau teleofal rhag cysylltu â chanolfannau monitro larwm tra roedd y datgysylltiad ar waith. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod cyfnodau pontio'n cael eu rheoli'n ofalus a bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu rhag niwed, yn ogystal â nodi a chefnogi unigolion a allai fod yn agored i niwed. Rydym yn parhau i fonitro cynlluniau mudo darparwyr yn ofalus ac yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r diwydiant ar faterion mudo, gan gynnwys ar ddatblygu'r Siarter wirfoddol ar gyfer Moderneiddio Telegyfathrebiadau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, sy'n cefnogi moderneiddio'r rhwydwaith ar yr un pryd â diogelu defnyddwyr yn briodol.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym hefyd wedi monitro gwaith gweithredwyr symudol yn agos wrth iddynt ddiffodd rhwydweithiau 3G hŷn. Rydym wedi croesawu eu hymdrechion i gyfathrebu â chwsmeriaid a darparu cymorth iddynt, gan gynnwys rhai agored i niwed – er enghraifft drwy gynnig gostyngiadau ar ffonau newydd. Fe wnaethom gyhoeddi data darpariaeth 2G perthnasol i helpu sectorau a allai ddefnyddio SIMs trawsrwydweithio rhyngwladol, yn enwedig y sector teleofal, fel rhan o'n gwaith gyda'r diwydiant teleofal, y Llywodraeth a Virgin Media O2 cyn iddo roi'r gorau i drawsrwydweithio am i mewn ar ei rwydwaith 2G. Fe wnaethom hefyd ddarparu gwybodaeth dechnegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Siarter Diffodd 2G yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

Mae darparu cyngor yn faes arall lle gall Ofcom helpu pobl mewn angen. Ym mis Mai, fe wnaethom gyhoeddi canllaw clir ar gyfer cwsmeriaid telegyfathrebiadau a allai fod yn dioddef cam-drin domestig, aflonyddu neu drais. Fe wnaethom amlinellu rhai pethau i ddioddefwyr fod yn ymwybodol ohonynt, a sut i gymryd camau i ddiogelu eu hunain.

## Eich helpu i fapio eich ffôn symudol

Mae signal gwael yn gallu bod yn rhwystredig i ddefnyddwyr ffonau symudol, felly mae'n bwysig bod pobl yn gallu gweld pa ddarparwr sy'n cynnig y gwasanaeth a'r cryfder signal gorau lle maen nhw'n byw neu'n gweithio.

Ym mis Mehefin, fe wnaethom lansio Mapio eich Ffôn Symudol, sef gwiriwr sy'n datgelu perfformiad a darpariaeth 4G a 5G lleol – hyd at lefel ardal cod post. Dyma'r adnodd mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael yn y DU ar gyfer cymharu perfformiad a darpariaeth symudol. Mae bron i filiwn o bobl wedi'i ddefnyddio'n barod.

Roedd ein hadroddiad Materion Symudol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn edrych ar brofiadau pobl o ddefnyddio rhwydweithiau ledled y DU ac yn tynnu sylw at ffactorau fel cyflymder llwytho i lawr a chyfraddau cysylltu. Fe wnaethom asesu lefelau defnydd newidiol cysylltiadau 2G, 3G, 4G a 5G wrth i dechnoleg symudol barhau i ddatblygu. Fe wnaethom hefyd ddadansoddi sut mae'r gwahanol weithredwyr



rhwydwaith yn buddsoddi mewn cysylltiadau newydd ac yn eu cyflwyno.

Ac ym mis Tachwedd, fe wnaeth ein hadroddiad Cysylltedd y Cenhedloedd blynyddol edrych ar seilwaith symudol a band eang a sut mae pobl a busnesau yn y DU yn defnyddio'r cysylltiadau maent yn dibynnu arnynt bob dydd. Gwelsom fod y DU yn defnyddio mwy a mwy o ddata. Roedd cyfanswm y data symudol sy'n cael ei ddefnyddio gan Brydeinwyr wedi cynyddu un rhan o bump eleni, gan gyrraedd dros 1.2 biliwn GB bob mis. Mae hynny'n cyfateb i ffrydio 400 miliwn o gemau pêl-droed mewn HD, gwylio 315 biliwn o TikToks, neu anfon 1.3 cwadriliwn o negeseuon WhatsApp testun yn unig. Er mwyn cadw i fyny â'r galw, mae rhwydweithiau symudol yn defnyddio '5G llawn', gan roi profiad cyflymach, gwell a mwy dibynadwy i ddefnyddwyr.

## Gweithio gyda phartneriaid byd-eang i wella diogelwch telegyfathrebiadau

Ym mis Tachwedd, fe wnaeth Ofcom gynnull rheoleiddwyr ac asiantaethau'r llywodraeth o'r DU, UDA, Canada, Awstralia a Seland Newydd, gan arwain at ddatganiad ar y cyd ar gydweithio'n agosach i gryfhau diogelwch a chadernid rhwydweithiau telegyfathrebiadau a mynd i'r afael â'r risg o sgamiau a thwyll ymysg defnyddwyr.

Mae bygythiadau diogelwch telegyfathrebiadau yn fyd-eang, ac mae marchnadoedd yn dod yn fwyfwy cydgysylltiedig. Mae'r datganiad ar y cyd yn ymrwymo awdurdodau i gryfhau cydweithrediad yn y sector telegyfathrebiadau, gan helpu i atal gweithredwyr maleisus a diogelu uniondeb seilwaith.

Y llofnodwyr yw Ofcom; y Comisiwn Cyfathrebiadau Ffederal (UDA); Arloesi, Gwyddoniaeth a Datblygu Economaidd (Canada); yr Adran Materion Cartref (Awstralia); a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (Seland Newydd).

## Gwarchod y post

Mae'r post yn dal yn fath pwysig o gysylltiad i filiynau o bobl yn y DU. Ond mae'r ffordd rydym yn ei ddefnyddio wedi newid yn ddramatig. Ugain mlynedd yn ôl, roedd y Post Brenhinol yn danfon 20 biliwn o lythyrau'r flwyddyn. Mae hynny bellach wedi gostwng i 6.5 biliwn yn 2025 ac mae disgwyl iddo ostwng ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Post Brenhinol wedi colli cannoedd o filiynau o bunnoedd dros y blynyddoedd diwethaf.

Er mwyn helpu i ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol mewn byd cyfathrebu sy'n newid, rydym wedi nodi diwygiadau i'r gwasanaeth post i helpu'r Post Brenhinol i wella dibynadwyedd a pherfformiad. Ym mis Gorffennaf, ar ôl ymgynghoriad eang, fe wnaethom newidiadau i'r rhwymedigaethau sy'n cael eu gosod ar y cwmni.

Hyd yn hyn, mae'r Post Brenhinol wedi gorfod danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos o dan y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol. Mae ein hymchwil yn dangos y byddai gostyngiadau bach yn nhargedau danfon y Post Brenhinol yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr y post. Mae cwsmeriaid yn dweud wrthym eu bod yn poeni mwy am fforddiadwyedd a dibynadwyedd na chyflymder danfon.

Bydd y rhwymedigaethau newydd yn caniatáu i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos – o fewn tri diwrnod gwaith i'w casglu – o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fe wnaethom hefyd newid targedau danfon presennol y Post Brenhinol – danfon 90% yn hytrach na 93% o bost Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol, a danfon 95% yn hytrach na 98.5% o bost Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod. Mae'r targedau newydd hyn yn dal yn uchel yn ôl safonau rhyngwladol.

Rydym yn amcangyfrif y gallai'r Post Brenhinol wireddu arbedion cost net blynyddol o rhwng £250m a £425m drwy roi'r newid hwn ar waith, rhywbeth nad yw wedi'i wneud hyd yn hyn – gan alluogi'r cwmni i fuddsoddi mwy mewn gwella perfformiad o ran danfon.

## Gwneud yn siŵr bod y Post Brenhinol yn cyflawni

Mae perfformiad diweddar y Post Brenhinol o ran cyrraedd ei dargedau danfon wedi bod yn wael. Mae miliynau o lythyrau pwysig yn cyrraedd yn hwyr a dydy pobl ddim yn cael yr hyn maen nhw'n talu amdano pan fyddan nhw'n prynu stamp. Mae'r methiannau hyn yn annerbyniol, ac mae cwsmeriaid yn disgwyl ac yn haeddu gwell.

Felly, ym mis Hydref, fe wnaethom roi dirwy o £21m i'r Post Brenhinol am fethu cyrraedd ei dargedau danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth ym mlwyddyn ariannol 2024/25. Dyma'r trydydd tro yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ni ganfod bod y cwmni wedi torri ei rwymedigaethau, ar ôl i ni roi dirwy o £5.6m iddo ym mis Tachwedd 2023 a £10.5m ym mis Rhagfyr 2024.

Hyd yn oed ar ôl ystyried tywydd eithriadol, dim ond 77% o bost Dosbarth Cyntaf a ddanfonodd y Post Brenhinol ar amser a 92.5% o bost Ail Ddosbarth. Yn




ogystal â dirwyo'r cwmni, rydym wedi parhau i fonitro perfformiad gwasanaeth y Post Brenhinol yn agos ac wedi egluro, os na fydd perfformiad yn gwella, y bydd camau pellach yn dilyn.

## Cadw post yn fforddiadwy

Mewn camau pellach i wella cynaliadwyedd y gwasanaeth post a sicrhau ei fod yn gwasanaethu cwsmeriaid, ym mis Tachwedd fe wnaethom ddechrau gofyn am farn ar ddulliau gweithredu ar gyfer prisio stampiau yn y dyfodol. Mae pris stamp Dosbarth Cyntaf wedi codi o 85c i £1.70 yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ac mae stampiau Ail Ddosbarth wedi codi o 66c i 87c dros yr un cyfnod. Fel sydd i'w weld yn Ffigur 1, mae ein dadansoddiad o farchnadoedd rhyngwladol yn awgrymu bod prisiau llythyrau yn y DU yn is na'r rhai mewn gwledydd tebyg eraill.

**Ffigur1: Pris post nad yw'n flaenoriaeth a phost blaenoriaeth mewn gwledydd eraill ym mis Awst 2025**

| Gwlad | Post nad yw'n flaenoriaeth (100g) | Post blaenoriaeth (100g) |
|---|---:|---:|
| Awstralia | £1.66 | N/A* |
| Denmarc | £3.39 | £4.55 |
| Ffrainc | £2.42 | N/A* |
| Yr Eidal | £2.57 | £2.61 |
| Y Deyrnas Unedig | £0.87 | £1.70 |

**Yn Awstralia a Ffrainc, nid oes unrhyw gynnyrch sy'n debyg iawn o ran nodweddion i gynnyrch blaenoriaeth neu gynnyrch post D+1, sef yr hyn a elwir yn y DU yn Ddosbarth Cyntaf*

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ceisio sicrhau gwasanaeth fforddiadwy a chynaliadwy drwy osod cap diogelu ar bris stampiau Ail Ddosbarth, gan roi hyblygrwydd prisio i'r Post Brenhinol o ran stampiau Dosbarth Cyntaf. Mae'r cap Ail Ddosbarth presennol yn rhedeg tan fis Mawrth 2027, felly rydym wedi dechrau ystyried a ddylid rhoi cap newydd ar waith.

Rydym hefyd yn edrych ar 'dariff cymdeithasol' ar gyfer prisiau stampiau – cynllun disgownt wedi'i dargedu ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed a allai roi mwy o help i'r rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran fforddio anfon llythyrau.

## Perfformiad parseli

Fe wnaeth ein hymchwil diweddaraf i brofiadau defnyddwyr o ddanfon parseli, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, ganfod bod y bodlonrwydd cyffredinol cyfartalog yn weddol uchel, sef 78% a heb newid ers y llynedd. Fodd bynnag, mae pobl yn cael profiadau gwahanol yn dibynnu ar ba gwmni parseli sy'n danfon eu pecyn.

Dywedodd dros ddwy ran o dair o gwsmeriaid eu bod wedi cael problem danfon yn ystod y chwe mis diwethaf, gan gynnwys: oedi; parseli'n cael eu gadael mewn lleoliad amhriodol; gyrrwr y danfoniad ddim yn curo'n ddigon uchel; a pheidio â chael digon o amser i ateb y drws.

Rydym yn pwyso ar weithredwyr parseli i barhau i wella eu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl agored i niwed.

# Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

Mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, mae'n hanfodol bod darlledwyr yn parhau i ddiwallu anghenion amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Rydym yn helpu i sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael y gwasanaethau maen nhw eu heisiau, gan gefnogi darlledwyr i fynd i'r afael â'r heriau maent yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Rydym hefyd yn helpu i ddiogelu gwylwyr a gwrandawyr drwy osod y rheolau ar gyfer darlledwyr a drwy weithredu pan fydd y rheolau hynny'n cael eu torri. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried yr hawl i ryddid mynegiant er mwyn galluogi darlledwyr i wneud penderfyniadau golygyddol annibynnol i ddiwallu anghenion eu cynulleidfaoedd.

## Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Wrth gwblhau ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom rybuddio bod yn rhaid i ddarlledwyr a chwmnïau ffrydio, cwmnïau cyfryngau cymdeithasol, y Llywodraeth ac Ofcom i gyd weithredu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector hynod werthfawr hwn. Fe wnaethom nodi cynllun chwe phwynt manwl i'w ddiogelu.
- Fe wnaethom lansio adolygiad o'n rheoliadau darlledu. Rydym yn archwilio pa newidiadau sydd eu hangen i gefnogi cynulleidfaoedd lle bynnag y maent yn gwylio neu'n gwrando, a sut i gefnogi arloesedd, buddsoddiad, twf a chystadleuaeth deg ac effeithiol yn y sector ar yr un pryd.
- Fe wnaethom gwblhau ein gwaith i ddiweddaru rheoliadau cyfredol o dan y Ddeddf Cyfryngau. Fe wnaethom foderneiddio sut rydym yn rheoleiddio ITV, STV, Channel 4, S4C a Channel 5. Ac fe wnaethom nodi sut dylai cynnwys gwasanaeth cyhoeddus barhau i fod ar gael ar setiau teledu clyfar a seinyddion clyfar.
- Fel rydym yn ei wneud bob blwyddyn, fe wnaethom adrodd ar sut mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y wlad. Eleni, gwelsom fod cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i newyddion y BBC am gywirdeb ac ymddiriedaeth, ond fe wnaethom annog Bwrdd a Gweithrediaeth y BBC i afael yn gadarnach a gweithredu'n gyflym ac yn dryloyw pan mae dadleuon neu fethiannau'n codi.
- Fe wnaethom benderfynu y gallai'r BBC fwrw ymlaen â chynlluniau i lansio tair gorsaf radio digidol newydd, ond fe wnaethom ei rwystro rhag lansio un sy'n deillio o Radio 2, nac estyniad i Radio 5 Sports Extra, a allai niweidio cystadleuaeth yn y farchnad.
- Fe wnaethom ddyrannu cyllid ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol ac fe wnaethom ddyfarnu trwyddedau radio digidol i orsafoedd mewn 40 ardal ledled y DU, o Gaerwrangon i Ynysoedd y Gorllewin.
- Fe wnaethom barhau i osod a gorfodi safonau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau teledu, radio a ffrydio. Eleni, fe wnaethom gau 65,968 o gŵynion (yn ymwneud â 8,544 o achosion), cwblhau 25 o ymchwiliadau, a chanfod 14 achos a oedd yn torri ein rheolau darlledu. Lle'r oedd darlledwyr wedi methu â chynnal safonau, fe wnaethom gymryd camau i orfodi ein rheolau. Ym mhob achos, fe wnaethom ystyried yr hawl i ryddid mynegiant.



## Pam mae hyn yn bwysig

- Mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn helpu i feithrin cymdeithas wybodus drwy newyddion diduedd y gellir ymddiried ynddo. Mae'n cynnal diwylliant y DU, yn adlewyrchu safbwyntiau amrywiol ac yn cynnig cynnwys sy'n dod â chymunedau at ei gilydd. Mae ein cynllun gweithredu wedi'i gynllunio i'w ddiogelu.
- Deddf y Cyfryngau yw'r darn pwysicaf o ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ers dros ddau ddegawd. Mae wedi'i dylunio i ddiogelu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar yr un pryd â meithrin arloesedd – er mwyn i gynulleidfaoedd allu darganfod a mwynhau'r rhaglenni maen nhw'n eu caru, ac er mwyn i economi greadigol y DU barhau i ffynnu.
- Mae dwyn y BBC i gyfrif yn dal yn ganolog i'n gwaith. Drwy ganfod lle mae angen iddo wella, mae Ofcom yn helpu i sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu'r DU gyfan yn effeithiol.
- Oherwydd ei fodel cyllido unigryw, gallai'r BBC gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth. Rydym yn adolygu newidiadau i'w wasanaethau i ddiogelu buddiannau cynulleidfaoedd.
- Mae gorsafoedd radio cymunedol yn rhoi llais i gannoedd o gymunedau lleol ar hyd a lled y DU. A hwythau'n cael eu gyrru gan waith caled a brwdfrydedd gwirfoddolwyr, maent yn adlewyrchu cymysgedd eang o ddiwylliannau a diddordebau drwy eu cynnwys a gynhyrchir yn lleol.
- Dylid diogelu gwylwyr a gwrandawyr rhag cynnwys niweidiol ar y teledu a'r radio. Rydym yn asesu pob cwyn a gawn ac yn ymchwilio i faterion a godir o dan ein rheolau.
- Mae rhyddid mynegiant yn un o gonglfeini cymdeithas Prydain a democratiaeth y DU. Nid yw Ofcom yn sensro cynnwys: dim ond ar ôl i raglen gael ei darlledu y bydd ein pwerau'n berthnasol. Hefyd, rydym bob amser yn ystyried hawliau rhyddid mynegiant pan fyddwn yn asesu cwynion ac yn ymchwilio i gynnwys teledu a radio. Mae hyn yn cynnwys hawl darlledwyr i rannu syniadau a gwybodaeth, a'i chynulleidfoaedd i'w derbyn
- Nid llyfr rheolau sefydlog, digyfnewid yw ein Cod Darlledu. Mae wedi cael ei gynllunio i gael ei addasu a'i ddiwygio o bryd i'w gilydd, gan gynnwys drwy ganllawiau, fel ei fod yn adlewyrchu anghenion a disgwyliadau newidiol y cyhoedd a chymdeithas y DU. Eleni, roedd ein canllawiau diwygiedig ar wleidyddion fel cyflwynwyr yn ystyried eglurder cyfreithiol newydd a barn ymatebwyr i ymgynghoriad cyhoeddus. O ran hen ffilmiau a sioeau, mae ein hymchwil cynulleidfa yn dangos bod y rheolau presennol yn dal yn briodol.

## Ein gwaith eleni

Mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, mae'n hanfodol bod darlledwyr yn parhau i ddiwallu anghenion amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Rydym yn helpu i sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael y gwasanaethau maen nhw eu heisiau, gan gefnogi darlledwyr i fynd i'r afael â'r heriau maent yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol.

### Sicrhau dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Mae gan gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus hanes hir a balch yn y DU. Ond yng nghanol tirwedd cyfryngau sy'n esblygu'n gyflym, a gyda mwy o ddewis i gynulleidfaoedd nag erioed o'r blaen, mae ei safle dan fygythiad.

Yn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, Argyfwng Darlledu, ym mis Gorffennaf fe wnaethom rybuddio bod yn rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau rhannu fideos, y Llywodraeth ac Ofcom i gyd weithredu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector. Fe wnaethom nodi cynllun gweithredu chwe phwynt:

- Amlygrwydd a hwylustod canfod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar blatfformau trydydd parti fel YouTube. Mae angen i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus chwilio am ffyrdd newydd o gysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol ar y platfformau hyn fel bod modd gweld a dod o hyd i'w cynnwys
- Cyllid sefydlog a digonol i gynnal amrywiaeth eang o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys newyddion a rhaglenni plant.
- Eglurder ar frys ynghylch sut bydd teledu'n cael ei ddosbarthu yn y dyfodol.
- Partneriaethau mwy uchelgeisiol ymysg y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.
- Buddsoddi mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau er mwyn i bawb allu defnyddio gwasanaethau digidol ac ymwneud yn feirniadol â newyddion a chynnwys.
- Proses reoleiddio symlach sy'n cael gwared ar gyfyngiadau diangen sydd wedi dyddio.

Yn dilyn yr adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, rydym wedi lansio adolygiad o'n rheoliadau darlledu. Rydym yn nodi lle mae modd dileu hen reoliadau neu reoliadau diangen. Rydym hefyd yn edrych i weld pa newidiadau sydd eu hangen i gefnogi cynulleidfaoedd lle bynnag y maent yn gwylio neu'n gwrando, a sut i gefnogi arloesedd, buddsoddiad, twf a chystadleuaeth deg ac effeithiol yn y sector ar yr un pryd.



Rydym wedi parhau i ystyried sut gall cynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn amgylchedd sy'n symud fwyfwy ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – yn enwedig newyddion a rhaglenni plant – ar y platfformau mae pobl yn troi atyn nhw amlaf.

## Gweithredu Deddf y Cyfryngau

Deddf y Cyfryngau 2024 oedd y newid mwyaf i reoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn dau ddegawd. Cafodd ei dylunio i ddiogelu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac i feithrin arloesedd, er mwyn i gynulleidfaoedd y DU allu mwynhau'r gwasanaethau, y cynnwys fideo a'r rhaglenni maen nhw'n eu caru. Gwaith Ofcom yw rhoi'r newidiadau ar waith.

Rydym bellach wedi cwblhau ein corff sylweddol o waith i ddiweddaru rheoliadau cyfredol o dan y Ddeddf Cyfryngau. Rydym wedi cyhoeddi trwyddedau wedi'u diweddaru i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol - ITV, STV, Channel 4 a Channel 5. Mae'r rhain yn caniatáu iddynt fodloni cwotâu cynnwys drwy eu hapiau ar-alw, yn hytrach na dim ond ar sianeli 'llinol' traddodiadol. Rydym hefyd wedi moderneiddio'r rheolau ar gyfer darlledu digwyddiadau chwaraeon mawr ar y teledu, gan ymestyn y cwmpas i wasanaethau ffrydio. Bydd y rhain yn berthnasol unwaith y bydd y Llywodraeth wedi cychwyn darpariaethau perthnasol y Ddeddf. Fe wnaethom hefyd gwblhau ein gwaith polisi o ran newyddion lleol ar radio masnachol, gan ddechrau nawr y broses o gyhoeddi trwyddedau wedi'u diweddaru i ddod â'r newidiadau hyn i rym.

Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom argymell y dylai rheolau amlygrwydd, sy'n gwneud cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn weladwy i gynulleidfaoedd, fod yn berthnasol i 15 llwyfan teledu cysylltiedig – gan gynnwys rhai Apple, Freely a Samsung. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu dilyn ein hargymhellion. Fe wnaethom hefyd gynnig yn fanwl sut dylai amlygrwydd weithio, gyda Chod Ymarfer a Chanllawiau drafft ym mis Ionawr. Byddwn yn cwblhau ein Cod a'n Canllawiau ochr yn ochr â datganiad yn nes ymlaen eleni.

Mae Deddf y Cyfryngau yn ymestyn gofynion safonau newydd i wasanaethau fideo ar-alw poblogaidd, yn debyg i'r rhai sy'n berthnasol i sianeli teledu. Ym mis Mai, fe wnaethom anfon adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol ar farchnad fideo ar-alw'r DU i helpu'r Llywodraeth i benderfynu pa wasanaethau y dylai'r rheolau newydd fod yn berthnasol iddynt. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi adolygiad o fesurau diogelu cynulleidfaoedd fel sgoriau oedran a rhybuddion cynnwys sy'n cael eu darparu gan wasanaethau fideo ar-alw.

Defnydd arall o gyfryngau sy'n cynyddu yw seinyddion clyfar a chynorthwywyr llais. Ym mis Hydref, fe wnaethom ymgynghori ar argymhellion drafft i'r Llywodraeth y dylai Siri Apple, Alexa Amazon a Google Assistant orfod cynnig gwasanaethau radio yn y DU. Fe wnaethom osod yr argymhellion terfynol ym mis Mawrth, ac yn nes ymlaen eleni byddwn yn ymgynghori ar y Cod Ymarfer drafft ynghylch sut dylai platfformau dynodedig gyflawni eu rhwymedigaethau newydd.

Mae Cod Gwasanaethau Mynediad Ofcom yn sicrhau bod pobl sydd ag amhariad ar eu clyw a'u golwg yn gallu cael gafael ar wasanaethau hanfodol fel is-deitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain ar amrywiaeth o sianeli a phlatfformau teledu. Fe wnaeth ein hadroddiad ym mis Mai ddangos bod yr holl sianeli darlledu perthnasol wedi bodloni neu ragori ar eu gofynion cyfreithiol i ddarparu

gwasanaethau mynediad yn 2024. Dros y misoedd nesaf byddwn yn cyhoeddi Cod newydd ar gyfer gwasanaethau mynediad ar apiau ffrydio, gan godi'r rhain i safonau tebyg i deledu traddodiadol.

## Ein hadroddiad blynyddol ar y BBC

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom gyhoeddi ein hwythfed adroddiad blynyddol ar y BBC, gan asesu ei berfformiad o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys canfyddiadau ail 'Adolygiad Cyfnodol' Ofcom o'r BBC, a oedd yn edrych ar berfformiad y BBC hyd yma dros gyfnod y siarter bresennol. Mae ein hadroddiad yn darparu sylfaen dystiolaeth i'r Llywodraeth ei defnyddio wrth iddi gynnal ei hadolygiad newydd o'r siarter.

Eleni, fe wnaethom weld fod y BBC yn dal yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd, yng nghanol pwysau cyllido a thirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym. Mae tua 83% o oedolion y DU yn defnyddio ei wasanaethau bob wythnos. Mae'r BBC hefyd wedi sicrhau lefelau da o fodlonrwydd ymysg cynulleidfaoedd yn gyffredinol, ac mae arwyddion cynnar bod ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau yn gwella.

Fe wnaethom weld fod cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i newyddion y BBC am gywirdeb ac ymddiriedaeth, ond bod y BBC wedi wynebu argyfwng sylweddol yn ddiweddar yn ymwneud â phenderfyniadau golygyddol yn ei allbwn newyddion a materion cyfoes. Fe wnaethom annog Bwrdd a Gweithrediaeth y BBC i gael mwy o reolaeth dros bethau a gweithredu'n gyflym ac yn agored pan mae dadleuon neu fethiannau'n codi. Fe wnaethom bwysleisio y bydd mynd i'r afael yn dryloyw â phryderon cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd a sut mae'r BBC yn dal ei hun i gyfrif pan fydd pethau'n mynd o chwith hefyd yn hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Byddwn yn edrych ar y ffactorau sy'n sail i ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn y BBC a byddwn yn adrodd ar hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn nes ymlaen eleni.

Daeth ein hadroddiad i'r casgliad, er mwyn ymateb i heriau a pharhau i fod yn berthnasol yn y dyfodol, y dylai'r BBC fanteisio ar ei gryfderau. Dylai hefyd barhau i fynd i'r afael â meysydd lle mae angen iddo wella, gan gynnwys y canlynol:

- ymgysylltu'n ddyfnach â chynulleidfaoedd llai bodlon – gan gynnwys rhai ar incwm is;
- arloesi a chymryd risgiau i gyffroi ac ymgysylltu â gwylwyr a gwrandawyr, gan sicrhau bod cynnwys ar gael lle mae pobl eisiau ei wylio;
- adeiladu ar ei strategaeth 'Ar draws y DU' i ddarparu amrywiaeth o gynnwys sy'n cael ei greu yng nghymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU, ac ar eu cyfer, gan gefnogi eu heconomïau creadigol ar yr un pryd; a
- buddsoddi mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, i helpu cynulleidfaoedd i ymgysylltu'n feirniadol â newyddion a gwasanaethau ar-lein.

## Penderfyniadau ar radio'r BBC

Fel rheoleiddiwr y BBC, mae gan Ofcom rôl o ran ystyried effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn y farchnad ddarlledu. Eleni, fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar ei gynlluniau ar gyfer gorsafoedd radio newydd.

Ar ôl ymgynghori, fe wnaethom ddod i'r casgliad ym mis Gorffennaf y gallai'r BBC fwrw ymlaen â chynlluniau i lansio tair gorsaf newydd ar gyfer setiau radio DAB: Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind. Cyfyngedig fyddai effaith y gorsafoedd hyn ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, a fyddai'n cael ei gyfiawnhau gan eu gwerth cyhoeddus. Lansiwyd y gorsafoedd ac maent bellach ar gael i wrandawyr yn y DU drwy setiau radio DAB a BBC Sounds.

Fe wnaethom hefyd benderfynu na allai'r BBC lansio sianel arfaethedig yn deillio o BBC Radio 2, a fyddai'n darlledu cerddoriaeth a chynnwys o'r 50au, y 60au a'r 70au. Er y gallai ddarparu rhywfaint o werth



cyhoeddus, ni fyddai hyn yn ddigon i gyfiawnhau'r effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ac fe wnaethom ddod i'r casgliad na allai ymestyn oriau Radio 5 Sports Extra, newid arfaethedig arall. Er y gallai gynnig rhywfaint o werth cyhoeddus, ni fyddai'n ddigon i gyfiawnhau'r effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

## Channel 4

Fe wnaethom barhau i fonitro pa mor dda mae Channel 4 yn cyflawni ei ddyletswyddau, drwy ein hymateb blynyddol i'w Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau i helpu polisi Channel 4 ynghylch comisiynu rhaglenni. Roedd hyn er mwyn adlewyrchu gallu Channel 4 i wneud cynnwys ar gyfer ei phrif sianel, ar ôl llacio'r cyfyngiadau yn Deddf y Cyfryngau.

## Cefnogi radio lleol a chymunedol


Mae gorsafoedd radio cymunedol yn rhoi llais i gannoedd o gymunedau lleol ar hyd a lled y DU. A hwythau'n cael eu gyrru gan waith caled a brwdfrydedd gwirfoddolwyr, maent yn adlewyrchu cymysgedd eang o ddiwylliannau a diddordebau drwy eu cynnwys a gynhyrchir yn lleol.

Cyhoeddwyd cynnydd sylweddol i'r Gronfa Radio Gymunedol ym mis Mai, sy'n rhaglen grant i gefnogi costau gweithredu gorsafoedd radio cymunedol trwyddedig Ofcom. Mae'r gronfa'n cael ei dyrannu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac yn cael ei gweinyddu gan Ofcom. Ym mis Chwefror, fe wnaethom gyhoeddi bod Panel y Gronfa Radio Cymunedol wedi cael 115 o geisiadau am gyllid ac wedi dyfarnu grantiau i 47 o orsafoedd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.' Ym mis Mawrth, dywedodd y Llywodraeth y byddai arian a ddarperir i Gronfa Radio Cymunedol yn cynyddu i £1 miliwn y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf, gan helpu i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor bron i 400 o orsafoedd radio cymunedol.

Er gwaethaf y gwerth y mae gorsafoedd radio cymunedol yn ei ddarparu i grwpiau lleol ledled y wlad, mae rhai'n ei chael hi'n anodd ei werthuso. Fe wnaeth ymchwil Ofcom ym mis Mehefin 2025 ganfod ei bod yn hanfodol mesur ac adrodd ar effaith cyllid, gwirfoddoli a mentrau eraill yn llwyddiannus er mwyn creu gorsaf radio gynaliadwy ac effeithiol. Mae'n gallu arwain at fwy o gyfleoedd cyllido, llwyddiant wrth recriwtio gwirfoddolwyr, a chefnogaeth gymunedol gryfach. Yn dilyn yr ymchwil, fe wnaethon greu set o adnoddau y mae gorsafoedd radio cymunedol yn gallu eu defnyddio i ddangos y budd cymdeithasol y maent ei gynnig i'w cymunedau.

### Helpu radio lleol i fynd ar yr awyr

Mae DAB ar raddfa fach yn dechnoleg arloesol sy'n darparu llwybr rhad ar gyfer rhoi gwasanaethau cymunedol, masnachol lleol a cherddoriaeth arbenigol ar y tonnau awyr digidol. Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom barhau i ddyfarnu trwyddedau DAB ar raddfa fach mewn ardaloedd ar draws y DU, gan alluogi amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd i elwa o'r dechnoleg hon. Ac ym mis Medi fe wnaethom agor y cyfnod ymgeisio ar gyfer yr wythfed rownd o drwyddedau amlblecs radio DAB ar raddfa fach mewn 40 ardal ar hyd a lled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.



## Ymchwil i lywio ein gwaith o reoleiddio'r cyfryngau

Mae Ofcom yn ymchwilio i sectorau cyfryngau'r DU er mwyn llywio ein gwaith o reoleiddio, bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a deall sut mae'r marchnadoedd hyn yn gwasanaethu'r cyhoedd.

**Agweddau ac arferion y cyfryngau**

Ym mis Mai, fe wnaethom gyhoeddi ein hastudiaethau blynyddol ar sut mae pobl yn meddwl am eu bywydau ar-lein ac ar y cyfryngau a sut maent yn defnyddio'r rhain – Defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt a'r Cyfryngau ym mywydau, gyda'r ail ohonynt yn ei ugeinfed flwyddyn erbyn hyn. Ymysg canfyddiadau eleni oedd bod y defnydd o AI yn cynyddu, ond nad yw pawb yn ymddiried ynddo; mae technoleg yn chwarae rhan gynyddol mewn iechyd, ffitrwydd a llesiant; mae pobl o bob oed yn gallu adnabod cynnwys sy'n dylanwadu ac yn hysbysebu; ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu adnabod sgamiau a phroffiliau ffug.

Ein hadroddiad blynyddol mawr arall yn y maes hwn yw Cyfryngau'r Genedl, ein harchwiliad o arferion cyfryngau'r genedl. Fe wnaeth adroddiad eleni ym mis Gorffennaf ddangos mai YouTube sy'n arwain y gad wrth i ffrydio gymyd drosodd ein setiau teledu, a dyma'r lle cyntaf y mae gwylwyr iau yn mynd pan fyddant yn rhoi dyfais ymlaen. Mae'r cynnwys mae cynulleidfaoedd yn ei wylio ar YouTube wedi esblygu, gyda hanner fideos mwyaf poblogaidd y llwyfan bellach yn debycach i deledu traddodiadol, gan gynnwys cyfweliadau ffurf hir a sioeau gemau.

**Cael gafael ar newyddion**

Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad diweddaraf ar sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion yn y DU. Fe wnaethom edrych ar ddefnydd oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau yn y DU ar draws teledu, radio, print ac ar-lein, gan ystyried sut a ble mae pobl yn hoffi cael eu newyddion. Fe wnaeth ein hymchwil dynnu sylw at lefel uchel yn gyffredinol o ddefnyddio newyddion yn y DU, gyda mwy o bobl yn mynd ar-lein i'w gael. Nid yw'n syndod bod dewisiadau'n amrywio yn ôl oedran, ac mae ymddiriedaeth yn dal yn ffactor pwysig i bobl o bob oed.

**Sector darlledu sy'n cynrychioli'r DU**

Mae Ofcom yn dal i ganolbwyntio ar sicrhau bod y diwydiant darlledu yn gwasanaethu cynulleidfaoedd drwy gyflogi'r doniau gorau o bob rhan o gymdeithas. Fe wnaeth ein nawfed astudiaeth flynyddol o weithlu'r sector ddangos bod pobl anabl yn dal i gael eu tangynrychioli'n sylweddol ar draws teledu a radio. Fe wnaethom alw ar ddarlledwyr i wella cynrychiolaeth pobl anabl, ac i fynd i'r afael â bylchau yn y data economaidd-gymdeithasol maent ei gasglu.


## Edrych yn fanwl ar gŵynion blynyddol

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom barhau i ddiogelu gwylwyr a gwrandawyr rhag cynnwys niweidiol, gan helpu i sicrhau safonau uchel a chynnal ymddiriedaeth yng nghyfryngau darlledu'r DU. Ddiwedd 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein crynodeb blynyddol o'r rhaglenni teledu y cafwyd y nifer mwyaf o gwynion amdanynt yn ystod y flwyddyn galendr. Mae hwn yn cofnodi nifer y cwynion ac yn adlewyrchu sut mae cynulleidfaoedd yn poeni'n fawr am yr hyn maent yn ei wylio ar y teledu.

Eleni, cawsom gyfanswm o 65,968 o gŵynion gan bobl a oedd yn gwrthwynebu rhywbeth ar y teledu neu'r radio (ychydig yn is na 72,442) y llynedd. Roedd rhai genres yn dal i ddenu craffu – yn enwedig rhaglenni teledu realaeth, a oedd yn cynrychioli dros hanner y deg rhaglen y cafwyd y nifer mwyaf o gŵynion amdanynt. Rydym yn adolygu pob cwyn rydym yn ei chael, gan sicrhau bod pob darlledwr yn gorfod cadw at yr un safonau uchel.

Mewn sawl achos, efallai y byddwn yn cael mwy nag un gŵyn am raglen benodol neu fwy nag un mater o fewn rhaglen. Rydym yn asesu pob mater fel un achos, felly arweiniodd y 65,968 o gŵynion a gawsom yn 2025/26 at 11,932 o achosion. Ar ôl asesu'r cwynion hyn, fe wnaethom gau 8,544 o achosion, cwblhau 25 o ymchwiliadau, a chanfod 14 achos a oedd yn torri ein rheolau darlledu. Lle roedd darlledwyr wedi methu â chynnal safonau, fe wnaethom gymryd camau i orfodi ein rheolau. Ym mhob achos, fe wnaethom ystyried yr hawl i ryddid mynegiant.

**Ffigur 2:Data tueddiadau ar gyfer cwynion ac achosion**



## Gweithredu yn erbyn darlledwyr

Fe wnaethom gymryd camau cadarn eleni yn erbyn nifer o ddarlledwyr am dorri ein rheolau.

Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom roi dirwy o £3,500 i'r darlledwr Markaz-Al-Huda am iaith casineb wrth-semitaidd. Daeth hyn ar ôl i'w wasanaeth radio cymunedol, Salaam BCR, ddarlledu araith gan arweinydd sefydliad crefyddol ym Mhacistan. Fe wnaethom ganfod fod y datganiadau yn y rhaglen hon yn gyfystyr ag iaith casineb wrth-semitaidd a thriniaeth ddifrïol ac ymosodol o Iddewon.

Ym mis Hydref, fe wnaethom ganfod fod rhaglen ddogfen y BBC Gaza: How to Survive a Warzone wedi camarwain y gynulleidfa'n sylweddol.

Roedd ein hymchwiliad yn dilyn adolygiad y BBC ei hun, a wnaeth ganfod fod y rhaglen wedi torri un o Ganllawiau Golygyddol y BBC ar gywirdeb. Fe gawsom 20 o gŵynion am y rhaglen, ac fe wnaethom ganfod fod y methiant i ddatgelu bod gan dad y llefarydd swydd yng ngweinyddiaeth Hamas yn camarwain yn sylweddol. Gan fod hwn yn achos difrifol o dorri ein rheolau, fe wnaethom orchymyn y BBC i ddarlledu datganiad ar ein canfyddiadau.

Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom roi dirwy o £375,000 i sianel deledu grefyddol am dorri ein rheolau darlledu sawl gwaith. Fe wnaethom ymchwilio i ddwy raglen ar y Word network, ar ôl derbyn cwynion gan wylwyr ac yn dilyn ein gwaith monitro ein hunain. Fe wnaeth un rhaglen honiadau di-sail bod modd trin cyflyrau meddygol difrifol drwy ddefnyddio cynhyrchion didrwydded penodol a oedd yn cael eu hyrwyddo ar y rhaglen. Roedd ail raglen yn hyrwyddo ac yn gwneud honiadau di-sail bod defnyddio cynnyrch penodol neu gysylltu â gweinidogaeth grefyddol yn effeithiol o ran trin cyflyrau meddygol difrifol neu leddfu anawsterau ariannol. Roedd y darlledwr wedi methu diogelu gwylwyr yn ddigonol rhag niwed.

## Cwynion gan Wylwyr a a gwrandawyr

Ar ddiwedd 2025, cyhoeddwyd ein crynodeb blynyddol o'r rhaglenni teledu y cwynwyd amdanynt fwyaf yn ystod y flwyddyn galendr. Mae hyn yn cwmpasu nifer y cwynion ac yn adlewyrchu sut mae cynulleidfaoedd yn poeni'n fawr am yr hyn maen nhw'n ei wylio ar y teledu.

Dangosodd y ffigurau fod cwynion yn is nag yn 2024. Parhaodd rhai genres i ddenu craffu – yn enwedig teledu realiti, a oedd yn fwy na hanner y deg rhaglen a gwynwyd amdanynt fwyaf

## Gwleidyddion fel cyflwynwyr

Mae ein rheolau'n caniatáu i wleidyddion gyflwyno rhaglenni ar deledu a radio, ond ni allant gyflwyno rhaglenni newyddion. Er mwyn sicrhau bod y rhan hon o'r Cod Darlledu yn glir, ac yn adlewyrchu barn y cyhoedd, fe wnaethom lansio ymgynghoriad ym mis Mai i edrych ar y ddadl ynghylch gwleidyddion fel cyflwynwyr newyddion neu faterion cyfoes. Ein nod oedd ei gwneud yn glir nad oes modd defnyddio gwleidyddion fel darllenwyr newyddion, cyfwelwyr newyddion na gohebwyr newyddion mewn unrhyw fath o raglen, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol eithriadol.

Fe wnaethom gynnig y newid hwn yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys GB News v Ofcom ym mis Chwefror 2025. Roedd hyn egluro, yn ôl y gyfraith, na all rhaglen gael ei hystyried yn rhaglen newyddion ac yn rhaglen materion cyfoes ar yr un pryd. Roedd ein cynnig hefyd yn adlewyrchu'n well realiti'r amgylchedd cyfryngau sy'n esblygu, lle mae'r gwahaniaeth rhwng cynnwys newyddion a materion cyfoes wedi dod yn fwy aneglur, a lle mae hi'n dod yn fwy cyffredin defnyddio gwleidyddion i gyflwyno rhaglenni.

Roedd yr ymatebion i'n hymgynghoriad wedi'u pegynu. Roedd rhai eisiau i ni ymestyn ein gwaith rheoleiddio i atal gwleidyddion rhag cyflwyno rhaglenni heb fod yn newyddion, gan gynnwys rhaglenni materion cyfoes; ond mae'r Cod Darlledu eisoes yn cynnwys rheolau cryf sy'n mynnu bod darlledwyr i gyflwyno'r newyddion gyda dieudrwydd dyledus ac yn cynnal didueddrwydd dyladwy ar faterion (a materion mawr) gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau, neu ar bolisi cyhoeddus cyfredol. Yn unol â rhyddid mynegiant, nid ydym yn atal gwleidyddion rhag cyflwyno nac ymddangos ar raglenni teledu neu radio – ar yr amod nad ydynt yn sefyll mewn etholiad presennol.

Yn dilyn hynny, ym mis Hydref, fe wnaethom ddiweddaru ein canllawiau ynghylch gwleidyddion fel cyflwynwyr. Mae'r canllawiau diwygiedig yn nodi'n glir pe bai Aelod Seneddol yn cyflwyno newyddion mewn rhaglen nad yw'n newyddion, yna mae'n debygol y byddai ei statws fel AS yn ffactor perthnasol wrth ystyried a chafodd y newyddion hynny eu cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy. Fe wnaethom egluro y byddem hefyd yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol eraill – gan gynnwys, er enghraifft, natur a phwnc y newyddion dan sylw, a safbwynt gwleidyddol yr AS ar y mater hwnnw – fel rhan o asesiad cyd-destunol llawn o'r rhaglen gyfan. Mewn rhaglenni newyddion, nid oes modd defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd neu ohebydd oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Fe wnaethom hefyd ddiweddaru'r diffiniad o 'wleidydd' yn y canllawiau i roi mwy o eglurder.

## Cynnwys hŷn mewn byd modern

Gwelsom drafodaeth eleni am hen ffilmiau a rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu ar deledu yn y DU. Yn benodol, gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut mae cynulleidfaoedd yn teimlo am rywfaint o'r cynnwys mewn ffilmiau a rhaglenni hŷn, a beth ddylai dull gweithredu Ofcom fod.

Mewn erthygl ar ein gwefan, fe wnaethom egluro nad sensor yw Ofcom. Mae rhyddid mynegiant wrth galon ein rheolau darlledu – ac nid yw'r rheolau hyn yn atal darlledu cynnwys a all fod yn dramgwyddus neu'n ddadleuol i rai cynulleidfaoedd. Fe wnaethom ailadrodd, er bod gan ddarlledwr ryddid golygyddol i benderfynu ar y rhaglenni neu'r ffilmiau mae'n eu darlledu, mae'r trothwy 9pm ar waith i ddiogelu plant rhag cynnwys a allai fod yn anaddas iddyn nhw.

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn bwysig iawn yn y maes hwn. Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod cynulleidfaoedd yn cydnabod bod iaith sy'n gallu bod yn dramgwyddus yn gallu chwarae rôl bwysig ar y teledu a'r radio. Ond maent hefyd eisiau i ddarlledwyr fod yn ofalus yn hyn o beth, yn enwedig er mwyn diogelu plant a phan fydd iaith wahaniaethol yn cael ei defnyddio.

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod gwylwyr yn gwerthfawrogi cael eu rhybuddio am gynnwys sydd wedi dyddio ac a allai fod yn wahaniaethol ar y teledu cyn penderfynu ei wylio, gan barhau i gael y cyfle i'w weld.



# Bywyd mwy diogel ar-lein

Hon oedd blwyddyn gyntaf Ofcom o orfodi fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, ar ôl i'n pwerau newydd cyntaf ddod i rym ym mis Mawrth 2025. Bellach, rhaid i filoedd o wasanaethau ar-lein ddiogelu eu defnyddwyr yn y DU rhag niwed, ac rydym yn cymryd camau pan na fyddant yn cyrraedd y nod – gan agor ymchwiliadau i bron i 100 o wasanaethau, a chodi nifer o ddirwyon. Eleni, gwnaethom hefyd gwblhau rheoliadau a fydd yn dechrau gwneud y byd ar-lein yn fwy diogel i bawb, yn enwedig plant.

## Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Fe wnaethom fynnu bod gwasanaethau pornograffi yn atal plant rhag cael gafael ar y cynnwys hwn, gan ddefnyddio gwiriadau oedran hynod effeithiol. Erbyn hyn, mae angen archwiliadau ar filiynau o ymweliadau dyddiol â safleoedd pornograffig. Mae platfformau cymdeithasol a negeseua mawr, gan gynnwys X, Telegram, Discord a Reddit, hefyd wedi cyflwyno rheolaethau oedran i atal plant rhag cael gafael ar gynnwys i oedolion neu gynnwys niweidiol.
- Fe wnaethom ymchwilio i bron i gant o wasanaethau am beidio â chydymffurfio â'r cyfreithiau, a chymryd camau yn erbyn llawer ohonynt. Roedd hynny'n cynnwys 16 o ddirwyon i chwe gwasanaeth ar-lein nad oeddynt wedi cynnal gwiriadau oedran effeithiol.
- Fe wnaethom osod pedwar gofyniad clir i'r gwefannau a'r apiau sy'n cael eu defnyddio amlaf gan blant yn y DU, sy'n mynnu eu bod yn egluro beth maen nhw'n ei wneud i ddiogelu pobl ifanc o dan 18 oed ar eu gwasanaethau, ac yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella ar unwaith.
- Fe wnaethom sefydlu codau ymarfer a chanllawiau cryf gyda'r nod o atal plant rhag dod ar draws cynnwys sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio, anhwylderau bwyta a phornograffi. Rhaid i wasanaethau ar-lein hefyd diogelu plant rhag deunydd sy'n gysylltiedig â chasineb at fenywod a deunydd treisgar, cas neu sarhaus, bwlio ar-lein a heriau peryglus.
- Fe wnaethom nodi canllawiau i gwmnïau technoleg fynd i'r afael â niwed tuag at fenywod a merched ar-lein. Fe wnaethom nodi naw cam y dylai cwmnïau eu cymryd i fynd i'r afael â phroblemau fel cam-drin sy'n gysylltiedig â chasineb at fenywod, trais rhywiol, aflonyddu, stelcian a cham-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau.
- Fe wnaethom barhau i gynnal amrywiaeth o ymchwil yn edrych ar sut mae pobl yn profi bywyd ar-lein. Fe wnaethom archwilio meysydd risg a niwed presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan helpu i lywio sut rydym yn blaenoriaethu ac yn cyflawni ein gwaith.

## Pam mae hyn yn bwysig

- Mae gwneud y byd ar-lein yn fwy diogel i bawb yn y DU yn flaenoriaeth i Ofcom, Llywodraeth y DU a'r gymdeithas ehangach. Mae cefnogaeth gyhoeddus eang i reoleiddio yn y maes hwn. Er enghraifft, mae 80% o oedolion yn cefnogi gwiriadau oedran ar gyfer safleoedd pornograffi.
- Mae ein gwaith diogelwch ar-lein yn canolbwyntio'n benodol ar ddiogelu plant. Rydym wedi egluro sut mae'n rhaid i gwmnïau technoleg ddefnyddio mesurau sicrhau oedran i leihau cysylltiad plant â'r mathau mwyaf niweidiol o gynnwys ac ymddygiad.
- Mae trais yn erbyn menywod a merched yn broblem sylweddol yn y byd ar-lein ac all-lein, ac mae amrywiaeth o niwed ar-lein yn cael effaith anghymesur ar ddefnyddwyr benywaidd. Mae ein canllawiau newydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â hynny.
- Mae'r dirwedd ar-lein yn gymhleth ac yn newid yn gyson. Mae ein hymchwil reolaidd yn ein galluogi i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r dirwedd hon a'r risgiau y gallai eu hachosi, yn ogystal â chaniatáu i ni fod yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd. Y dystiolaeth sy'n cael ei darparu gan ein hymchwil yw conglfaen i'n gwaith yn y maes hwn.

## Ein gwaith eleni

### Blwyddyn o weithredu

Dyma'r flwyddyn pan ddechreuodd Ofcom orfodi ar raddfa fawr ei threfn diogelwch ar-lein newydd. Fe wnaethom lansio ymchwiliadau i bron i gant o wasanaethau ar-lein a oedd, yn ein barn ni, yn methu yn eu rhwymedigaethau i ddiogelu defnyddwyr yn y DU rhag niwed. Bydd llawer o ddefnyddwyr wedi sylwi ar newidiadau tuag at fyd mwy diogel ar-lein – er enghraifft, cyflwyno gwiriadau oedran yn eang i leihau'r risg bod plant yn dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol; argaeledd cynyddol cyfrifon penodol i bobl ifanc yn eu harddegau; a newidiadau i negeseuon i'w gwneud yn anoddach i oedolion gysylltu â phlant nad ydynt yn eu hadnabod. Ond mae newidiadau eraill yn llai gweladwy, ac mae llawer mwy i'w wneud, gyda thechnoleg newydd a thueddiadau cynnwys yn peri risgiau ychwanegol.

Drwy gydol y broses, rydym wedi cymryd gofal i ddilyn prosesau cyfreithiol priodol a sicrhau bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth glir. Yn yr un modd â chyrff gorfodi eraill, mae defnyddio'r dull hwn yn golygu ei bod yn gallu cymryd amser i gwblhau ymchwiliadau; ond mae'n helpu i sicrhau eu bod yn deg ac yn gadarn.

Fe wnaethom ganolbwyntio ein sylw ar ba mor debygol a difrifol yw niwed, gan adlewyrchu disgwyliad y Llywodraeth y dylai rheoleiddio diogelwch ar-lein fod yn ystwyth, wedi'i dargedu ac wedi'i addasu i risgiau sy'n esblygu. Bob cam o'r ffordd, rydym wedi ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol y Llywodraeth ar gyfer diogelwch ar-lein.

Yn unol â blaenoriaeth y Llywodraeth o ran defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar risg a thystiolaeth, rydym wedi sefydlu tîm data a gwybodaeth i ddod â gwybodaeth o'n swyddogaeth brysbennu, ein hymchwil, ein harch-gwynion a'n partneriaethau â sefydliadau arbenigol at ei gilydd. Rydym yn gweithio'n agos gyda chyrff gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau cudd-wybodaeth, yn ogystal â sefydliadau cymdeithas sifil, i nodi niwed anghyfreithlon sy'n dod i'r amlwg, deall sut maent yn dod i'r amlwg ar draws gwahanol wasanaethau, a blaenoriaethu ein hymateb.

### Gwiriadau oedran ar gyfer safleoedd pornograffi

Ym mis Ebrill, cyn y dyddiad cau ym mis Gorffennaf, dechreuodd darparwyr pornograffi ar-lein roi mesurau sicrhau oedran ar waith ar draws miloedd o safleoedd ar gyfer defnyddwyr yn y DU, gan atal pobl ifanc o dan 18 oed rhag dod i gysylltiad â deunydd i oedolion.

Mae hyn yn cynnwys y 10 gwefan fwyaf poblogaidd sydd i gyd yn cynnal gwiriadau oedran bellach – mae hyn yn cyfrif am chwarter y bobl sy'n ymweld â safleoedd oedolion yn y DU. Rydym yn mynd ar drywydd rhaglen orfodi drylwyr i fynd i'r afael â safleoedd nad ydynt wedi cydymffurfio eto, gydag ymchwiliadau i dros 80 o wefannau pornograffi yn cael eu cynnal eleni. Mae nifer yr ymwelwyr â safleoedd pornograffi yn y DU wedi gostwng traean ers mis Gorffennaf, ac rydym yn asesu a yw hyn wedi arwain at lai o blant yn cael mynediad i'r safleoedd hyn.

Mae'r gwiriadau oedran newydd hyn yn newid mawr, angenrheidiol mewn normau ar-lein o ran argaeledd pornograffi i bobl ifanc dan 18 oed. Mae ymchwil wedi dangos bod dros chwarter plant wedi gweld pornograffi ar-lein erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol uwchradd. Ac mae Ofcom wedi canfod bod 80% o oedolion yn cefnogi gwiriadau oedran i atal hyn rhag digwydd.

Mae hyn, a'r defnydd o gwiriadau oedran ehangach sy'n cael eu nodi isod, yn ymwneud â Blaenoriaeth Strategol y Llywodraeth i sicrhau bod cwmnïau'n defnyddio technoleg sicrhau oedran yn effeithiol i ddiogelu plant rhag niwed ar-lein ac yn buddsoddi mewn datblygiadau technolegol.



## Defnydd ehangach o wiriadau oedran

Mae amrywiaeth o wasanaethau poblogaidd, gan gynnwys X, Telegram, Reddit, TikTok, Bluesky, Discord, Xbox a Steam, wedi cyflwyno gwiriadau oedran i helpu i atal plant rhag cael gafael ar gynnwys niweidiol. Rydym yn sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn effeithiol, yn bodloni ein canllawiau ac yn ceisio osgoi cyfyngiadau diangen ar gynnwys.

Mae apiau cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd y DU – gan gynnwys Tinder, Grindr, Bumble a Hinge – hefyd yn defnyddio gwiriadau oedran erbyn hyn, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer cyswllt amhriodol rhwng oedolion a phlant, sy'n creu risg fod plant yn agored i gael eu cam-drin. Mae Roblox, y llwyfan gemau, hefyd wedi rhoi archwiliadau ar waith i gefnogi profiadau sy'n briodol i oedran, gan gynnwys yn ei system sgwrsio.

**Ymchwiliad i X oherwydd delweddau Grok**
Ym mis Ionawr, Ofcom oedd un o'r rheoleiddwyr cyntaf yn y byd i weithredu ar adroddiadau pryderus fod cyfrif sgwrsfot Grok AI ar X yn cael ei ddefnyddio i greu a rhannu ffugiadau dwfn rhywiol diraddiol o bobl go iawn, gan gynnwys plant, a allai fod yn droseddau. Fe wnaethom lansio ymchwiliad i safle microflogio X. Ein nod oedd penderfynu a oedd y llwyfan wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau i ddiogelu pobl yn y DU rhag cynnwys sy'n anghyfreithlon yma. Ar ôl i ni gyhoeddi ein hymchwiliad, dywedodd X ei fod wedi rhoi mesurau ar waith i atal y cyfrif Grok rhag cael ei ddefnyddio i greu delweddau personol o bobl. Mae ein hymchwiliad yn parhau. Mae hyn hefyd yn ymwneud â Blaenoriaeth Strategol y Llywodraeth i sicrhau bod y bygythiadau o gynnwys a gweithgareddau wedi'u cynhyrchu gan AI yn cael eu lliniaru'n effeithiol.




**Ymchwiliadau eraill**
Rhai o'r achosion eraill yn ystod y flwyddyn oedd ymchwiliadau i nifer o wasanaethau pornograffig am nad oedd sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith, ac o bosibl am dorri dyletswyddau i ddiogelu plant rhag deunydd i oedolion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Pedwar cwmni, sydd gyda'i gilydd yn rhedeg 34 o safleoedd pornograffi, gan edrych ar eu gofynion archwilio oedran (Gorffennaf). Fe wnaethom flaenoriaethu'r cwmnïau hyn ar sail y risg o niwed allai gael ei achosi gan y gwasanaethau maent eu gweithredu a nifer eu defnyddwyr. Gyda'i gilydd, mae gan y gwefannau hyn dros naw miliwn o ymwelwyr unigryw bob mis yn y DU.
- Duplanto Ltd, sy'n rhedeg safle pornograffi (Awst).
- Pum cwmni arall, sydd gyda'i gilydd yn rhedeg o leiaf 22 o safleoedd pornograffi, o dan ofynion archwilio oedran (Medi).
- Kick Online Entertainment SA, sy'n gyfrifol am y wefan pornograffi Motherless.com. Fe wnaethom roi dirwy o £800,000 i'r cwmni ym mis Chwefror ar ôl canfod methiannau o ran gwiriadau oedran. Fe wnaethom roi dirwy o £30,000 arall i'r cwmni hefyd am beidio ag ymateb i'n ceisiadau statudol am wybodaeth. Byddwn yn rhoi cosb ddyddiol o £200 i'r cwmni nes bydd yn ymateb, neu am gyfnod o 60 diwrnod, pa un bynnag yw'r cynharaf.
- Dirwy o £50,000 i Itai Tech Ltd (Tachwedd).
- Dirwy o £1 miliwn i AVS Group Ltd, sy'n rhedeg 18 o wefannau i oedolion, am beidio â chael gwiriadau oedran cadarn, ynghyd â £50,000 am beidio ag ymateb i geisiadau am wybodaeth (Rhagfyr). Yna, fe wnaethom gadarnhau bod y cwmni wedi cyflwyno proses sicrwydd oedran newydd.
- Dau benderfyniad dros dro yn erbyn 8579 LLC a Kick Online Entertainment SA, hefyd am beidio â defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i ddiogelu plant rhag cynnwys pornograffig. Tra bod ein hymchwiliad i 8579 LLC yn mynd rhagddo, fe wnaethom gwblhau ein hymchwiliad i Kick Online Entertainment SA ym mis Mawrth, a rhoi dirwy o £800,000 am beidio â chydymffurfio â'i ddyletswyddau diogelwch ar-lein.

Ym mis Mawrth, fe wnaethom roi dirwy o £450,000 i 4chan, gwasanaeth bwrdd delweddau dienw, am beidio â chydymffurfio â gofynion archwilio oedran ar-lein y DU. Fe wnaethom fynnu bod y llwyfan yn rhoi mesurau sicrwydd oedran hynod effeithiol ar waith erbyn 2 Ebrill neu wynebu cosb ddyddiol o £500. Fe wnaethom hefyd roi dirwy o £50,000 i'r cwmni am beidio ag asesu'r risg y bydd pobl yn y DU yn dod ar draws cynnwys

anghyfreithlon ar ei safle. Mae hyn yn hanfodol i gadw defnyddwyr y DU yn ddiogel: er mwyn rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu pobl, yn enwedig plant, rhaid i ddarparwyr ddeall yn gyntaf sut gallai niwed ddigwydd ar eu platfformau. Rhaid i'r cwmni nawr gynnal asesiad risg cynnwys anghyfreithlon addas a digonol neu wynebu cosb ddyddiol o £200.

Yn unol â Blaenoriaeth Strategol y Llywodraeth i reoleiddio gwasanaethau bach sy'n peri risg yn effeithiol, fe wnaethom sefydlu tasglu a rhaglen orfodi sy'n canolbwyntio ar y rhain. Arweiniodd hyn at gamau gorfodi yn erbyn saith gwasanaeth rhannu ffeiliau mewn perthynas â deunydd cam-drin plant yn rhywiol. Fe wnaethom hefyd gymryd camau yn erbyn darparwr fforwm trafod hunanladdiad ar-lein; a Novi Ltd, sy'n darparu gwasanaeth sgwrsfot cydymaith cymeriad AI, mewn perthynas â'i gydymffurfiad ag gwiriadau oedran.

Fe wnaethom hefyd gadarnhau bod y gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol Snapchat – mewn ymateb uniongyrchol i gamau gweithredu gan ein tîm gorfodi – wedi gwella ei asesiad risg o gynnwys anghyfreithlon ac y bydd yn rhoi amrywiaeth eang o fesurau diogelwch ar waith i ddiogelu'r cyhoedd yn y DU.

**Ymchwilio i fforwm hunanladdiad ar-lein**
Ym mis Ebrill, fe wnaethom agor ymchwiliad i weld a oedd darparwr fforwm hunanladdiad ar-lein wedi methu cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Ar ôl cael ymateb cyfyngedig i geisiadau am wybodaeth, a gwybodaeth anfoddhaol am y camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr y Deyrnas Unedig rhag cynnwys anghyfreithlon, fe wnaethom archwilio a yw'r darparwr yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau. Ym mis Mai 2026, fe wnaethom gwblhau ein hymchwiliad, gan roi dirwy o £950,000 i'r gwasanaeth am achosion difrifol o dorri'r Ddeddf a dweud pe na bai'r gwasanaeth yn cydymffurfio y byddem yn paratoi cais i'r llys am orchymyn i'w rwystro yn y DU.

## Hyrwyddo atebolrwydd i ddefnyddwyr

Mae Blaenoriaethau Strategol y Llywodraeth yn nodi'n glir bod yn rhaid i blatfformau gymryd y camau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch defnyddwyr, ac mae ein holl waith cydymffurfio a gorfodi yn ceisio sbarduno newid lle bo angen. Rydym hefyd wedi bod yn glir ynghylch lle gwelwn ddiffygion ym mherfformiad cwmnïau, er enghraifft yn ein galwad i weithredu gan y chwe gwasanaeth sy'n cael eu defnyddio fwyaf gan blant ym mis Mawrth.

## Diogelu pobl ar-lein

**Bywyd mwy diogel ar-lein i blant**
Mae llawer o gwmnïau technoleg yn cymryd camau i wella diogelwch plant. Er enghraifft, cyhoeddodd Meta welliannau i Teen Accounts, a chyflwynodd TikTok adnoddau newydd i gefnogi defnyddwyr a'i gwneud yn haws adrodd ar gynnwys sy'n peri pryder, yn 2025/26. Ond mae angen llawer mwy.

Ar ddechrau'r flwyddyn, fe wnaethom gwblhau ein gwaith i sefydlu codau ymarfer a chanllawiau sy'n diogelu plant rhag niwed ar-lein. Rydym yn nodi 40 o fesurau ymarferol i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein gyflawni eu dyletswyddau plant o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Mae hyn yn cynnwys atal plant rhag dod ar draws y cynnwys mwyaf niweidiol sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio, anhwylderau bwyta, a phornograffi. Rhaid i wasanaethau ar-lein hefyd weithredu i ddiogelu plant rhag deunydd sy'n gysylltiedig â chasineb at fenywod a deunydd treisgar, cas neu sarhaus, bwlio ar-lein a heriau peryglus.

Yn unol â Blaenoriaeth y Llywodraeth i ymgorffori diogelwch drwy ddylunio, mae'r Codau hyn yn cynnwys llawer o fesurau ataliol, gan gynnwys argymhellion ynghylch ffrydiau mwy diogel; gwiriadau oedran effeithiol; camau cyflym i fynd i'r afael â chynnwys niweidiol; mwy o ddewis a chefnogaeth i blant; prosesau adrodd a chwyno haws; a gofynion llywodraethu cryf mewn cwmnïau. Yna, ym mis Mehefin, fe wnaethom nodi rhagor o fesurau diogelu ar-lein gyda'r nod o atal plant rhag cael eu hudo drwy ffrydiau byw, a defnyddio adnoddau AI i ganfod a chael gwared ar gynnwys niweidiol o ffrydiau plant.

Ym mis Mawrth, fe wnaethom ysgrifennu at y chwe gwefan ac ap sy'n cael eu defnyddio fwyaf gan blant yn y DU – Facebook, Instagram, Roblox, Snapchat, TikTok a YouTube – gan fynnu eu bod yn amlinellu'r hyn maen nhw'n ei wneud i ddiogelu plant drwy orfodi gofynion oedran sylfaenol ar eu gwasanaethau. Fe wnaethom hefyd osod pedwar gofyniad clir ar gyfer camau pellach, fel bod cwmnïau technoleg yn cael eu dal i gyfrif yn gyhoeddus am ddarparu'r amgylchedd ar-lein mwyaf diogel posibl i blant yn y DU: polisïau isafswm oedran effeithiol; mesurau diogelu dibynadwy rhag meithrin perthnasoedd amhriodol; ffrydiau mwy diogel i blant; a rhoi diwedd ar brofi cynnyrch ar blant dan 18 oed. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi datganiad ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a oedd yn atgyfnerthu ein dull cyffredin a hyblyg o sicrhau oedran.

**Diogelu menywod a merched ar-lein**

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn broblem sylweddol yn y byd ar-lein ac all-lein, ac mae defnyddwyr benywaidd yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan amrywiaeth o niwed ar-lein. Ym mis Tachwedd, ar ôl misoedd o waith ymgysylltu â dioddefwyr a grwpiau arbenigol, gwnaethom gwblhau canllawiau ar gyfer cwmnïau technoleg i fynd i'r afael â niwed i ddefnyddwyr benywaidd yn y DU. Gwnaethom nodi naw mesur y gall cwmnïau eu cymryd i fynd i'r afael â cham-drin a thrais rhywiol sy'n gysylltiedig â chasineb at fenywod; ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol; stelcio a rheolaeth orfodol; a cham-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau i annog pobl i ddefnyddio'r Canllawiau hyn, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad dilynol yn 2027.

**Cefnogi rhieni sy'n galaru**

Ym mis Medi, gwnaethom gyhoeddi canllawiau i gwmnïau technoleg ynghylch yr wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei chadw ar weithgarwch ar-lein plentyn, pe bai crwner yn ymchwilio i farwolaeth y plentyn hwnnw. Pan fydd plentyn yn marw drwy hunanladdiad, mae'n hanfodol bod ceisiadau am wybodaeth gan deuluoedd sy'n galaru'n cael eu trin yn briodol. Felly, ym mis Rhagfyr, gwnaethom wahodd safbwyntiau ar ein canllawiau arfaethedig i'r diwydiant ynghylch sut dylai cwmnïau ymateb yn yr achosion hyn.

Mae ein canllawiau drafft yn nodi'r camau ymarferol y dylai darparwyr eu cymryd i gydymffurfio â'r gyfraith. Dylai teuluoedd sy'n galaru wynebu'r baich angenrheidiol lleiaf posibl ar adegau o drallod a galar dwys. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, gwnaethom ofyn am fewnbwn gan grŵp o rieni sy'n galaru ynghylch sut y gellir rheoli'r broses yn effeithiol ac mewn ffordd dosturiol.

Mae hyn yn adlewyrchu Blaenoriaeth Strategol y Llywodraeth sef bod rhieni a gofalwyr yn cael eu trin â pharch pan fyddant yn gofyn am wybodaeth gan wasanaethau yn dilyn marwolaeth plentyn, a, thrwy Ofcom, mae gan grwneriaid fynediad at ddata i ddeall sut gallai gweithgarwch ar-lein fod wedi cyfrannu at farwolaeth plentyn.

> Rydym wedi gosod pedwar gofyniad clir ar gyfer camau pellach: polisïau isafswm oedran effeithiol; amddiffyniadau meithrin perthynas amhriodol ar-lein; ffrydiau mwy diogel ar gyfer plant; a rhoi'r gorau i brofi cynnyrch ar blant a phobl ifanc dan-18.

**Mynd i'r afael ag uwch-gŵynion**

Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn caniatáu i sefydliadau cymwys, sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau ar-lein neu'r cyhoedd, godi 'uwch-gŵynion' gydag Ofcom, a gwnaethom sefydlu'r broses hon ym mis Ionawr.

Mae uwch-gŵynion yn galluogi sefydliadau cymwys i gyflwyno tystiolaeth a ffeithiau i ni, gan dynnu sylw at nodweddion gwasanaethau ar-lein – neu ymddygiad eu perchnogion – sydd â risg o achosi niwed mewn meysydd fel profiadau ar-lein neu'r hawl i ryddid mynegiant. Mae hyn yn galluogi sefydliadau allanol i helpu Ofcom drwy nodi risgiau sylweddol i ddefnyddwyr neu'r cyhoedd. Mae gennym gyfnod penodol i ystyried uwch-gŵyn a chyhoeddi ymateb.



## Ymchwilio i'r byd ar-lein i lywio ein gwaith

Mae Ofcom yn rheoleiddiwr sy'n gweithredu ar sail tystiolaeth. O ran diogelwch ar-lein, mae ein rhaglen ymchwil yn ein helpu i ddeall y byd ar-lein cymhleth a rhoi'r cyfreithiau ar waith yn effeithiol. Mae'n ymdrin â phedwar prif faes: gweithgarwch ac ymddygiad defnyddwyr; risg a niwed ar-lein; dyluniad a nodweddion gwasanaethau; a mesurau a thechnolegau diogelwch. Rydym wedi sefydlu sylfaen dystiolaeth gref ar brofiadau plant ar-lein, gan gynnwys ymchwil tracio ar raddfa fawr, astudiaethau ansoddol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant drwy gyfryngwyr dibynadwy. Rydym yn cyhoeddi ein holl gynlluniau a chanfyddiadau, ac yn cydweithio ag ymchwilwyr yn y DU a thramor. Eleni, gwnaethom archwilio amrywiaeth o bynciau pwysig.

**Camdriniaeth mewn chwaraeon**

Ym mis Mai, gwnaethom weithio mewn partneriaeth â Kick It Out, sy'n ymgyrchu yn erbyn gwahaniaethu yn y byd pêl-droed, i ddeall profiadau pobl ym myd chwaraeon y mae niwed ar-lein wedi effeithio arnynt. Roedd yr adroddiad a ddeilliodd o hyn yn tynnu sylw at ddyfnder yr her yn y maes hwn. Mae rhai pynditiaid a phobl o'r byd chwaraeon wedi dioddef casineb a sarhad ar-lein sydd wedi gwneud iddynt ofni gadael eu cartrefi neu wneud eu gwaith yn effeithiol. Dywedon nhw wrthym eu bod am i blatfformau orfodi eu telerau gwasanaeth, ac nad yw'r adnoddau diogelwch presennol yn mynd yn ddigon pell i ddiogelu pobl rhag casineb a cham-drin ar-lein. Ac, ym mis Chwefror, gwnaethom gyhoeddi partneriaeth ag Uned Blismona Pêl-droed y DU, y Gymdeithas Bêl-droed, yr Uwch Gynghrair, Cynghrair Pêl-droed Lloegr, Pêl-droed WSL, Cymdeithas Pêl-droedwyr Proffesiynol a Kick It Out, gyda gweithgor newydd sy'n ceisio rhannu gwybodaeth am y casineb a'r cam-drin ar-lein y mae pobl sy'n gweithio ym maes pêl-droed proffesiynol yn eu hwynebu.

**Camwybodaeth a thwyllwybodaeth**

Hefyd ym mis Mai, gwnaethom adrodd ar yr amrywiaeth o rwystrau a heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth adnabod camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein. Mathau o wybodaeth anghywir yw'r rhain sy'n cael eu lledaenu naill ai'n anfwriadol (camwybodaeth) neu gyda bwriad maleisus (twyllwybodaeth). Gan adeiladu ar ein hymchwil a'n tystiolaeth flaenorol yn y maes hwn, roedd yr astudiaeth yn edrych ar y dulliau, y negeseuon a'r lleisiau dibynadwy a allai daro tant gyda gwahanol grwpiau o bobl wrth ddod ar draws deunydd camarweiniol. Daeth hyn ar ôl i ni sefydlu ein Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein yn ffurfiol a phenodi'r aelodau. Mae'r pwyllgor yn rhoi cyngor i Ofcom ar feysydd o'n gwaith sy'n ymwneud â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2025, rhoddodd y Pwyllgor gyngor i Ofcom ar sut mae twyllwybodaeth yn gallu cael ei defnyddio i dwyllo pobl ar-lein. Yr Arglwydd Allan o Hallam, aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom, yw cadeirydd y pwyllgor ac mae'r aelodau'n dod o'r byd academaidd, y sector technoleg a sefydliadau cymdeithas sifil.

**Ffugiadau dwfn**

Un math heriol iawn o gamwybodaeth yw ffugiadau dwfn: delweddau, fideos neu sain sy'n defnyddio AI i ddarlunio pobl, yn aml gyda'r nod o niweidio enw da eu gwrthrych neu gamarwain y gynulleidfa. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi papur trafod yn edrych ar sut gellid defnyddio gwahanol adnoddau a thechnegau i ddod o hyd i ddeunydd ffugiadau dwfn. Daeth hyn wrth i'n hymchwil ddatgelu bod 85% o oedolion o blaid cynnwys labeli ar blatfformau ar-lein i ddangos bod AI wedi cael ei ddefnyddio i greu cynnwys, ond dim ond un o bob tri sydd wedi label o'r fath.

Mae'r gwaith hwn o fonitro technoleg a gwylio'r gorwel yn cefnogi ffocws y Llywodraeth ar ddeall sut gall newid technolegol greu risgiau newydd a chynnig cyfleoedd i wella diogelwch.

**Menywod a merched**

Wrth i bryder cymdeithasol gynyddu ynghylch y potensial i gymunedau ar-lein hyrwyddo casineb at fenywod, gwnaethom gomisiynu gwaith ymchwil ansoddol yn edrych ar sut mae rhai dynion yn ymgysylltu â'r 'manosffer' – sef clwstwr o safleoedd, blogiau a fforymau ar-lein sy'n hyrwyddo mathau penodol o wrywdod, casineb at fenywod a gwrthwynebiad i ffeministiaeth. Roedd yr astudiaeth hon yn ystyried rôl y cynnwys hwn ym mywydau dynion a sut mae'n siapio eu barn a'u hymddygiad. Roedd yn dilyn ein canllawiau ar ddiogelu menywod a merched, a oedd yn nodi cam-drin sy'n gysylltiedig â chasineb at fenywod fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Mae'r canllawiau'n gosod disgwyliadau clir ar gyfer sut dylai platfformau leihau niwed drwy ddylunio, llywodraethu a chynnig cymorth i ddefnyddwyr, yn unol â blaenoriaeth y Llywodraeth o gynhwysiant a chadernid. Gwnaethom hefyd adrodd ym mis Gorffennaf ar brofiadau ar-lein 23 o fenywod sy'n gweithio ym maes gwleidyddiaeth, gan gynnwys Aelodau Seneddol presennol a chyn-Aelodau Seneddol. Clywsom sut mae casineb a cham-drin cyson ar-lein yn effeithio ar sut maen nhw'n byw eu bywydau bob dydd – yn y gwaith ac ar-lein. Mae'r math hwn o gam-drin yn atal rhai menywod rhag mynd i fyd gwleidyddiaeth yn gyfan gwbl, gyda rhai'n dweud ei fod yn ffactor wrth dynnu'n ôl o fywyd gwleidyddol.

**Ymddygiad ar-lein**

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd gwaith ymchwil a oedd yn tynnu sylw at wahanol agweddau ar fywydau plant ar-lein yn y DU. Roedd ein tri adroddiad yn ymdrin â gwariant plant ar-lein a niwed ariannol posibl; mesur defnydd plant o'r rhyngrwyd yn oddefol; a dyluniad platfformau ac ymddygiad defnyddwyr. Roeddent yn edrych yn fanwl ar y gwahanol weithgareddau a themâu sy'n cyfrannu at brofiadau plant o'r byd ar-lein. Roedd y canfyddiadau'n cynnwys: twf serth yn y nifer o blant 10 i 12 oed sy'n defnyddio gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol poblogaidd; plant 8 i 14 oed yn treulio bron i dair awr y dydd ar-lein ar gyfartaledd; YouTube a Snapchat yn cyfrif am dros hanner yr amser sy'n cael ei dreulio ar-lein gan y grŵp oedran hwn; a bod dros hanner y plant wedi gwario arian ar-lein yn ystod y mis diwethaf.

Yn dilyn hyn, ym mis Rhagfyr gwnaethom gyhoeddi Ein Gwlad Ar-lein, sef ein hastudiaeth flynyddol o sut mae oedolion a phlant yn y DU yn profi bywyd ar-lein. Datgelodd adroddiad eleni fod pobl yn y DU yn treulio hyd yn oed mwy o amser ar-lein nag erioed – pedair awr a hanner y dydd, ar gyfartaledd. Gwelsom hefyd fod oedolion yn llai cadarnhaol am effaith y rhyngrwyd, gyda dim ond traean o oedolion yn teimlo ei fod yn dda i gymdeithas – i lawr o 40% y llynedd.



*Ffynhonnell: Plant a Rhieni: adroddiad agweddau a defnydd o gyfryngau 2025*

## Llythrennedd yn y Cyfryngau

Mae Ofcom yn diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau. Felly, mae gan ymwybyddiaeth o'r cyfryngau rôl sylfaenol i'w chwarae yn ein cenhadaeth gyffredinol, a'n blaenoriaethau i bobl yn y DU gael gafael ar y cyfryngau maen nhw'n ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi, a byw bywyd mwy diogel ar-lein. Mae ein gwaith yn y maes hwn, yn ogystal â mynd i'r afael â'n dyletswyddau statudol, yn adlewyrchu Blaenoriaethau Strategaeth y Llywodraeth i sicrhau bod egwyddorion arferion gorau yn cael eu mabwysiadu ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddylunio, i ddarparu amddiffyniad ychwanegol i ddefnyddwyr sy'n oedolion, ac i sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth ac yn gallu eu hadnabod.

Ym mis Hydref 2024, gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth tair blynedd a chynllun gweithredu ar gyfer 2024-5 yn nodi gweithgareddau i'w cyflawni ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth honno. Mae tri maes craidd i'r strategaeth:

- Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso
- Ymgysylltu â Phlatfformau
- Pobl a Phartneriaethau

Ym mis Rhagfyr 2025, gwnaethom gyhoeddi cynllun cyflawni a oedd yn adrodd ar y gweithgareddau a ddarparwyd ar gyfer 14 mis cyntaf y strategaeth. Roedd y cynllun hwn hefyd yn nodi gweithgareddau i'w cyflawni tan fis Mawrth 2027.

Mae uchafbwyntiau'r cyfnod hwn yn cynnwys:

- **gwaith ymchwil** ar nodweddion dylunio perswadiol a niwed ariannol i blant a Gwella dealltwriaeth defnyddwyr o ble a sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol;
- diweddaru'r **adnoddau gwerthuso** gan gynnwys y Banc Canlyniadau, pecyn cymorth gwerthuso;
- ymgynghori â rhanddeiliaid ar ein Datganiad o Argymhellion;
- lansio prosiect **'Lleisiau Gwybodus'** i gefnogi pleidleiswyr tro cyntaf i adnabod camwybodaeth a thwyllwybodaeth fel rhan o'r etholiadau yng Nghymru a'r Alban; a
- datblygu **'Cymuned o Gorfforaethau'** o'r sectorau cyfathrebiadau a thu hwnt a'u cefnogi i gymryd rhan mewn cymorth sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer eu gweithluoedd a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad canol tymor o'n strategaeth tair blynedd ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'r gwerthusiad yn dangos bod Ofcom yn symud ymlaen tuag at y canlyniadau a'r nodau a nodwyd ganddo dros 18 mis cyntaf cyfnod y strategaeth.

## Cydweithredu byd-eang i fynd i'r afael â heriau di-ffiniau

Mae cydweithrediad rhyngwladol yn hanfodol i fynd i'r afael â niwed ar-lein sy'n croesi ffiniau cenedlaethol yn ogystal â chefnogi disgwyliad y Llywodraeth y dylai'r DU chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o feithrin consensws byd-eang a rhannu arferion gorau o ran diogelwch ar-lein.

Mae'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang yn dod â rheoleiddwyr diogelwch ar-lein o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Ofcom, at ei gilydd. Eleni, mae'n nodi egwyddorion ar gyfer sut dylai rheoleiddwyr fynd i'r afael â sicrwydd oedran, a fydd yn helpu i lywio gwaith Ofcom a'n partneriaid rheoleiddio rhyngwladol dros y blynyddoedd nesaf.

Mae hyn yn ymwneud â Blaenoriaeth Strategol y Llywodraeth y dylai cydweithredu rhyngwladol alluogi syniadau newydd i fynd i'r afael â diogelwch ar-lein i gael eu rhannu, gan greu consensws byd-eang ar ddiogelwch ar-lein.

## Egluro rheolau diogelwch ar-lein i bawb

Mae'r drefn diogelwch ar-lein newydd yn gymhleth ac yn eang. Yn ogystal â gorfodi'r rheolau newydd, mae'n bwysig ein bod yn helpu pawb yn y DU i ddeall beth maen nhw'n ei olygu'n ymarferol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, ac fel rhan o'n dyletswyddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn i ddadansoddi'r rheolau newydd mewn ffordd hygyrch

Er enghraifft, cyn i reolau newydd ar gyfer gwirio oedran ddod i rym ym mis Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi esboniad ynghylch pam roedd gwiriadau oedran yn cael eu cyflwyno, sut byddant yn gweithio a beth maen nhw'n ei olygu i ddefnyddwyr. Gwnaethom nodi gwahanol ddulliau o wirio oedran defnyddwyr a rhwymedigaethau gwasanaethau i gadw gwybodaeth bersonol defnyddwyr yn ddiogel. Gwnaethom hefyd gyfeirio at ein hymchwil ein hunain sy'n dangos bod y mwyafrif helaeth o oedolion (80%) yn cefnogi cynnal gwiriadau oedran i ddiogelu plant.

O dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, rhaid i wasanaethau ar-lein ddiogelu pobl yn y DU rhag cynnwys sy'n ymwneud â gwerthu arfau a chyllyll anghyfreithlon, yn ogystal â chynnwys sy'n hyrwyddo trais. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Cyllyll ym mis Mai, gwnaethom egluro sut bydd rheolau diogelwch ar-lein yn helpu i fynd i'r afael â throseddau cyllyll. Rydym hefyd yn cymryd camau i ddiogelu defnyddwyr yn y DU rhag gweld cynnwys niweidiol sy'n ymwneud â chyllyll ac arfau bygythiol eraill.

I nodi Wythnos Gwrth-fwlio ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi canllaw ar sut mae rheolau diogelwch ar-lein yn mynnu bod cwmnïau'n mynd i'r afael â'r risg o fwlio i'w defnyddwyr. Buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gynghrair Gwrth-fwlio i rannu awgrymiadau i rieni a gofalwyr a allai fod yn poeni am eu plant yn cael eu bwlio ar-lein.

Ym mis Rhagfyr, gwnaethom nodi sut mae rheoleiddio ar-lein yn ymdrin â sgwrsfotiau AI, sy'n dechnoleg ryngweithiol sy'n denu mwy a mwy o sylw. Mae rhai pobl yn defnyddio sgwrsfotiau AI ar gyfer gwaith, astudio, ymchwil, adloniant neu i gael sgwrs. Ond wrth i'r defnydd o sgwrsfotiau gynyddu, mae'r potensial ar gyfer niwed yn cynyddu hefyd. Mae rhai sgwrsfotiau AI yn dod o dan reolau diogelwch ar-lein, felly roedd ein hesboniad yn nodi sut mae'n rhaid i'r gwasanaethau hyn asesu a lleihau'r risg o niwed i'w defnyddwyr, yn enwedig plant.

Mae hyn yn ymwneud â blaenoriaeth strategol y Llywodraeth bod rhieni, gofalwyr a phlant yn deall y risgiau ac yn cael eu cefnogi i gadw'n ddiogel rhag niwed ar-lein.

## Blaenoriaethu ein gwaith diogelwch ar-lein ar gyfer y flwyddyn i ddod

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn canolbwyntio ar y meysydd lle mae'r niwed mwyaf difrifol, a lle dylai cwmnïau technoleg ddarparu'r diogelwch mwyaf i'w defnyddwyr.

**Diogelu plant ar-lein**
Rydym yn disgwyl i wasanaethau atal cam-drin plant yn rhywiol a meithrin perthynas amhriodol â phlant, a lleihau cysylltiad plant â chynnwys niweidiol. Dylid cynnwys diogelwch plant yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau, llywodraethu a gwneud penderfyniadau ar lefel uwch.

**Mynd i'r afael â chynnwys terfysgol a chasineb**
Rhaid i wasanaethau ganfod a chael gwared ar gynnwys terfysgol a chasineb anghyfreithlon yn gyflym ac yn gyson, gan leihau ei ledaeniad a'i effaith. Yn dilyn yr ymosodiad terfysgol ym Manceinion ym mis Hydref 2025, gwnaethom sefydlu rhaglen gydymffurfio barhaus i benderfynu a oes gan y cwmnïau cyfryngau cymdeithasol mwyaf fesurau digonol ar gyfer asesu a chael gwared ar ddeunydd terfysgaeth a chasineb anghyfreithlon yn gyflym.

**Mynd i'r afael â niwed yn erbyn menywod a merched**
Mae aflonyddu, camfanteisio a chamddefnyddio delweddau personol yn cael effaith benodol ar fenywod a merched. Rydym yn disgwyl i gwmnïau wneud mwy na mynd i'r afael â'r cynnwys hwn yn adweithiol. Rhaid iddynt ymgorffori diogelwch drwy ddylunio yn eu systemau, eu nodweddion a'u hadnoddau riportio. Rhaid i'r adnoddau hyn fod yn syml ac yn effeithiol.

Rydym yn disgwyl i bob cwmni sydd o fewn cwmpas ein rheolau ddangos bod eu mesurau diogelwch yn effeithiol yn ymarferol, nid dim ond mewn theori. A phan fyddwn yn gweld bylchau neu fethiannau sylweddol, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd camau gorfodi fel rydym wedi'i wneud eleni.

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU

Mae sbectrwm radio'r DU yn adnodd cenedlaethol hanfodol. Mae'r tonnau awyr di-wifr hyn yn cefnogi twf ac arloesedd, yn sail i wasanaethau cyfathrebu hanfodol ac yn galluogi pobl a busnesau i gadw mewn cysylltiad. Ofcom sy'n gyfrifol am reoli ein sbectrwm, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn effeithlon.

## Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Gwnaethom arwerthu tonnau awyr i'w defnyddio o'r newydd – y rhai a ryddhawyd amlaf ar yr un pryd – er mwyn galluogi cwmnïau ffonau symudol i ddarparu gwasanaethau cyflymach a gwell. Mae'r amleddau mmWave hyn ar gael mewn 68 o ardaloedd dwysedd uchel a threfi a dinasoedd ledled y DU lle mae galw mawr am ddata symudol.
- Cyn bo hir, bydd ffonau clyfar safonol yn gallu derbyn signalau o'r gofod, yn dilyn ein penderfyniadau. Mae rhwydweithiau symudol bellach yn ymuno â chwmnïau lloeren i ddarparu gwasanaethau 'uniongyrchol i ddyfeisiau' i ffonau ar hyd a lled y DU, er mwyn i ddefnyddwyr allu gwneud galwadau, anfon negeseuon testun a defnyddio data mewn ardaloedd lle nad oes signal daearol.
- Rydym yn bwriadu sicrhau mai'r DU fydd y wlad gyntaf yn Ewrop i rannu tonnau awyr ar draws gwasanaethau symudol a Wi-Fi. Bydd hyn yn arwain at fand eang di-wifr gwell, signalau cryfach mewn lleoliadau prysur, a chefnogaeth ar gyfer technolegau sy'n defnyddio llawer o ddata – fel realiti rhithwir a AI.

'Drwy sbectrwm, rydyn ni'n helpu i ddod â manteision sylweddol i aelwydydd, busnesau a'r economi ehangach y DU.'

## Pam mae hyn yn bwysig

- Mae sbectrwm di-wifr wrth galon llawer o ddiwydiannau'r DU, sy'n galluogi pobl a dyfeisiau i gysylltu a chyfathrebu bob dydd. Drwy ei reoli'n ofalus, rydym yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, yn ogystal â datgloi cyfleoedd newydd ar gyfer busnes a diwallu'r galw technolegol.
- Mae modd defnyddio'r sbectrwm mmWave ar gyfer 5G a rhaglenni sydd angen llawer iawn o ddata neu gyflymderau uchel iawn. Bydd hynny'n golygu gwell signal symudol yn ninasoedd, trefi, gorsafoedd a lleoliadau chwaraeon y DU.
- Bydd technoleg uniongyrchol i ddyfeisiau yn cynnig signal symudol hanfodol mewn ardaloedd anghysbell, yn cefnogi galwadau brys mewn ardaloedd nad yw mastiau symudol yn eu cyrraedd, ac yn darparu signal wrth gefn yn ystod cyfnodau segur ar y rhwydwaith.
- Drwy ganiatáu rhannu sbectrwm, rydym yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gartrefi, busnesau ac economi ehangach y DU. Mae'n golygu y gall cwmnïau symudol a band eang wella eu cynnyrch, gan greu mwy o gyfleoedd ar gyfer arloesi, twf a buddsoddi.

## Ein gwaith eleni

### Gwella signal symudol

Eleni, gwnaethom gynnal arwerthiant sbectrwm a fydd yn arwain at wasanaethau symudol gwell i bobl ledled y wlad.

Lansiwyd yr arwerthiant ym mis Medi ar gyfer trwyddedau i ddefnyddio tonnau awyr yn y bandiau 26 GHz a 40 GHz, a elwir yn sbectrwm tonnau milimetr (mmWave). Gellir defnyddio hyn ar gyfer technoleg symudol, gan gynnwys 5G a rhaglenni arloesol sy'n gofyn am lawer iawn o ddata, cyflymderau uchel iawn, neu'r ddau. Bydd mmWave yn arwain at fwy o gapasiti a chyflymder gwell mewn dinasoedd, trefi mawr ac ardaloedd prysur fel gorsafoedd rheilffordd, stadia pêl-droed a lleoliadau cyngherddau. Gallai hefyd gefnogi gwasanaethau arloesol, o realiti rhithwir i awtomeiddio mewn ffatrïoedd.

Roedd ein harwerthiant wedi sicrhau bod 5.4 GHz o donnau awyr ar gael – dyma'r nifer fwyaf i ni eu rhyddhau ar un adeg erioed. Gwnaethom ddyfarnu'r sbectrwm mewn 68 o ardaloedd 'dwysedd uchel' – trefi a dinasoedd lle nodwyd galw mawr am ddata symudol.

Ar ddiwedd yr arwerthiant ym mis Hydref, EE, O2 a Vodafone-Three oedd y cynigwyr llwyddiannus, pob un yn ennill 800 MHz o sbectrwm yn y band 26 GHz ac 1 GHz o sbectrwm yn y band 40 GHz.

Gwnaethant ymrwymo i dalu £13m yr un am y capasiti newydd hwn. Trosglwyddwyd cyfanswm refeniw o £39m i'r Llywodraeth er budd y pwrs cyhoeddus.

### Galwadau ffôn o'r gofod

Ym mis Rhagfyr, roedd enghraifft arall o arloesedd er budd defnyddwyr y DU – gwnaethom nodi penderfyniadau terfynol ynghylch sut y gellir defnyddio lloerennau i ddod â galwadau, data a negeseuon testun i ffonau symudol.

Mae rhwydweithiau symudol nawr yn gweithio â chwmnïau lloeren i ddarparu gwasanaethau 'uniongyrchol i ddyfeisiau' i ffonau clyfar arferol ar hyd a lled y DU. Mae hyn yn golygu bod lloerennau'n pelydru signalau i ffonau er mwyn iddyn nhw allu gwneud galwadau, anfon negeseuon testun a defnyddio data mewn 'mannau di-gyswllt' lle nad oes darpariaeth symudol. Hyd yma, dim ond gyda chyfarpar arbenigol yr oedd hyn yn bosibl, a oedd fel arfer yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau fel y Llynges Frenhinol a thimau Achub Mynydd.



Bydd y dechnoleg newydd o fudd i gymunedau gwledig ac anodd eu cyrraedd sydd â darpariaeth anghyson neu ardaloedd sy'n dioddef cyfnodau segur. I'w ddefnyddwyr, bydd yn rhoi diwedd ar rwystredigaethau fel galwadau heb eu cysylltu a negeseuon heb eu hanfon mewn mannau di-gyswllt symudol.

### Rhannu tonnau awyr i alluogi cysylltiadau newydd

Ym mis Ionawr, gwnaethom gynnig y camau nesaf mewn cynlluniau i fastiau symudol a llwybryddion Wi-Fi ddefnyddio rhannau o'r un band amledd i drosglwyddo eu signalau, gan ddatgloi manteision sylweddol i aelwydydd, busnesau ac economi ehangach y DU.

Yn y gorffennol, mae signalau symudol a Wi-Fi wedi gorfod defnyddio gwahanol rannau o sbectrwm radio i osgoi ymyriant. Ond byddai ein cynigion yn golygu mai'r DU fyddai'r wlad gyntaf yn Ewrop i ymrwymo i rannu amleddau sbectrwm radio – yn benodol y band 6 GHz uchaf – rhwng y ddwy dechnoleg wahanol hyn.

Yn gynharach eleni, daethom â phartneriaid o bob cwr o'r byd at ei gilydd i drafod gwireddu'r dull newydd hwn. Roedd ein gweithdy yn canolbwyntio ar sut i wneud i rannu weithio, gan archwilio'r goblygiadau ymarferol yn fanwl.

Byddai'r dull newydd yn darparu cynnydd sylweddol mewn capasiti ar gyfer defnyddwyr Wi-Fi a signal symudol. Bydd cwmnïau band eang yn gallu darparu band eang di-wifr uwch i fusnesau, diwydiant a chartrefi. Bydd cwmnïau symudol yn gallu ymdopi â'r galw mewn lleoliadau prysur, cefnogi technolegau sy'n defnyddio llawer o ddata – fel realiti rhithwir a AI – a pharatoi ar gyfer cyflwyno 6G yn y dyfodol.

Drwy helpu cwmnïau symudol a band eang i wella eu cynnyrch ac i ymdopi â mwy a mwy o draffig data, gallai ein cynigion greu rhagor o gyfleoedd ar gyfer arloesi, twf a buddsoddi yn y DU.

Eleni, gwnaethom hefyd benderfynu caniatáu i'r band amledd 6 GHz is gael ei ddefnyddio'n wahanol. Bydd yr amleddau hyn, sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd ar gyfer Wi-Fi pŵer isel a dan do, ar gael cyn bo hir ar gyfer Wi-Fi pŵer uchel a Wi-Fi awyr agored hefyd. Bydd hyn yn helpu i ddod â band eang o ansawdd uchel i leoedd mor amrywiol â stadia chwaraeon, ffatrïoedd uwch-dechnoleg, ysbytai, gorsafoedd rheilffordd a phrifysgolion.

## Rhagor o arloesi

Rydym am alluogi defnyddwyr sbectrwm presennol i dyfu ac arloesi a chaniatáu i wasanaethau newydd rannu'r adnodd sbectrwm cyfyngedig rydym yn ei reoli.

Ym mis Rhagfyr, gwnaethom nodi manylion math newydd o drwydded tymor byr ar fyr rybudd ar gyfer defnydd dan do ac yn yr awyr agored, lle gallai cymysgedd o ddefnyddwyr rannu mynediad at y band 2320-2340 MHz. Gallai'r math newydd hwn o drwydded gefnogi amrywiaeth o bethau – fel camerâu 5G yn ffilmio straeon newyddion, cynnwys chwaraeon, darpariaeth symudol dros dro, a digwyddiadau arddangos rhwydwaith preifat.



# Y prif risgiau a materion sy’n achosi ansicrwydd

Mae rheoli risg yn effeithiol yn chwarae rhan bwysig yn ein gallu i gyflawni ein hamcanion. Yma rydym yn nodi’r chwe phrif risg sy’n wynebu Ofcom a’r strategaethau rydym yn eu defnyddio i’w rheoli.

## Cyflwyniad

Mae ein fframwaith rheoli risg menter yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd ac yn cael ei gefnogi gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac uwch arweinwyr, gan ein helpu i fonitro a lliniaru bygythiadau posibl.


Mae ein dull o reoli risg yn ein helpu i aros yn ystwyth ac yn ymatebol i dirwedd reoleiddio sy’n esblygu. Mae’n adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi twf ac arloesedd cynaliadwy, diogelu buddiannau defnyddwyr a chynnal ein nodau rheoleiddio. Mae’r fframwaith hwn yn cryfhau hyder yn ein gallu i ddelio’n effeithiol ag ansicrwydd ar yr un pryd â meithrin ymddiriedaeth a chadernid yn y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio.

## Parodrwydd i dderbyn risg

Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn pennu lefel y risg rydym yn fodlon ei derbyn er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol a’n huchelgeisiau strategol. Rydym yn agored i gymryd risgiau gwybodus lle mae hyn yn cefnogi arloesedd a thwf, datblygiad rheoleiddio a chanlyniadau gwell i bobl yn y DU. Ar yr un pryd, rydym yn mabwysiadu dull gofalus o ymdrin â risgiau ariannol, gweithredol a rhai sy’n ymwneud â phobl er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a gwerth am arian. Ar gyfer risgiau sy’n gysylltiedig â diogelwch, ychydig iawn o awydd sydd gennym o hyd.

Yn gyffredinol, rydym yn defnyddio dull cytbwys sy’n seiliedig ar dystiolaeth o ymdrin â risg, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i lywodraethu cyfrifol, tryloywder, cadernid a rheoleiddio effeithiol.

Ffigur 3: Awydd risg



# Y prif risgiau yn fanwl

| Risg | Disgrifiad | Crynodeb o'r Asesiad Risg a Rheoli |
|---|---|---|
| **1: Rheoli ein hamgylchedd rheoleiddio** | Gall methu â rhagweld, dylanwadu ar neu baratoi ar gyfer newidiadau i'r cylch gwaith rheoleiddio neu i newidiadau ehangach sy'n effeithio ar sut mae rheoleiddwyr yn gweithredu, neu i sicrhau'r ffordd orau o addasu i newidiadau yn y ffordd y mae ein sectorau'n gweithredu, arwain at gostau sylweddol, oedi, neu hyd yn oed analluedd i gyflawni amcanion rheoleiddiol a sefydliadol yn effeithiol. | Drwy weithio'n agos gyda llywodraethau a seneddau ledled y DU, rheoleiddwyr eraill, y diwydiant a'r cyhoedd yn y DU ac yn rhyngwladol, gallwn wella ein gallu i ragweld a pharatoi ar gyfer unrhyw newidiadau. Mae ein strategaeth gorfforaethol a'n rheolaethau llywodraethu yn sicrhau ein bod yn rheoli'r risg hon yn effeithiol. Mae llwyddiant parhaus yn gofyn i ni fod yn wybodus, yn ystwyth ac yn ymatebol. Hyd yn oed gyda fframwaith rheoli effeithiol iawn, mae potensial risg yn parhau a bydd angen ei fonitro a'i reoli'n ofalus. |
| **2: Rheoleiddiwr dibynadwy** | Colli ymddiriedaeth yn Ofcom fel rheoleiddiwr o ganlyniad i fethiannau i wneud, neu gael eu gweld yn gwneud, penderfyniadau annibynnol, diduedd, amserol, effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er budd dinasyddion a defnyddwyr y DU, a ccc y DU yn ehangach. | Mae ymddiriedaeth yn Ofcom yn ganolog i'n gallu i weithredu er budd pobl a busnesau yn y DU. Mae gennym reolaethau llywodraethu, prosiectau a phobl cadarn ar waith i sicrhau bod gennym y sgiliau a'r arbenigedd i wneud ein gwaith yn effeithiol, i gyfleu'r hyn rydym yn ei wneud yn dryloyw ac yn glir, ac i ymateb i'r hyn rydym yn gwybod sy'n bwysig yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio yng ngoleuni'r amgylchedd domestig a rhyngwladol. |
| **3: Ymateb i newidiadau mewn technoleg, marchnadoedd ac ymddygiad defnyddwyr** | Methiant i fonitro, deall a gweithredu ar newidiadau technolegol cyflym, annisgwyl sy'n tarfu neu dueddiadau a datblygiadau yn y diwydiant yn y dyfodol sy'n effeithio ar ymddygiad y diwydiant neu ddefnyddwyr. Gall hyn gyfyngu ar ein gallu i fabwysiadu dull rhagweithiol mewn marchnadoedd cyfathrebiadau, gan arwain at heriau diogelu defnyddwyr, manteision cyfyngedig i ddefnyddwyr, llesteirio arloesedd a cholli cyfleoedd. | Mae ein sectorau'n symud yn gyflym, ac yn cael eu gyrru gan ddatblygiadau technolegol, buddsoddiad ac arloesedd. Yn ei hanfod mae hi'n anodd rhagweld newid ansicr sy'n gallu tarfu, ond mae'n angenrheidiol er mwyn i reoleiddio gefnogi anghenion defnyddwyr a dinasyddion yn y dyfodol, ac er mwyn ei ddileu lle nad oes ei angen mwyach. Rydym yn credu bod ein rheolaethau presennol yn effeithiol. Rydym yn gwneud hyn drwy wylio'r gorwel, gan gynnwys gyda phartneriaid y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, dadansoddi tueddiadau, ymchwil defnyddwyr a gwybodaeth am y farchnad, yn ogystal ag ymgysylltu allanol. Wrth baratoi ein Cynllun Busnes Tair Blynedd, gwnaethom werthuso'r risgiau hyn yn systematig er mwyn gwella effeithiolrwydd ein rheolaethau. |

| Risg | Disgrifiad | Crynodeb o'r Asesiad Risg a Rheoli |
|---|---|---|
| **4: Rheolaeth ariannol gadarn** | Gall methu â rheoli ein harian a'n materion ariannol yn effeithiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio arwain at ansefydlogrwydd ariannol, gan beryglu ein heffeithiolrwydd a'n henw da. | Mae cynllunio a rheoli arian yn effeithiol yn hanfodol i lwyddiant Ofcom. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cyflawni ein hamcanion a darparu gwerth am arian a hyder yn ein gwaith. Mae rheolaethau ariannol cadarn ar waith, cytunwyd ar setliad ein hadolygiad o wariant ar gyfer 2025-28, ac rydym yn parhau i gryfhau ein gwaith cynllunio. |
| **5: Pobl a diwylliant** | Gallai methu â gweithredu strategaeth pobl sy'n galluogi Ofcom i ddenu, cymell, datblygu, a chadw talent ragorol gyfyngu'n sylweddol ar ein gallu i gyflawni ein cenhadaeth a'n strategaeth. | Gall newidiadau yn yr economi a'r dirwedd cyflogaeth effeithio ar ein gallu i ddenu ac i gadw'r bobl orau. Rydym yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol heriol ar gyfer sgiliau allweddol mewn meysydd fel seiber, technoleg, TGCh, a data a AI. Rydym yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ein strategaethau talent ac adnoddau a chynllunio gweithlu strategol. Mae ein polisïau pobl cryf a'n ffocws ar ddatblygu staff yn cryfhau'r hyn a gynigiwn o ran gyrfaoedd a'n gallu i ddatblygu a chadw cydweithwyr talentog. |
| **6: Gwybodaeth a seiberddiogelwch** | Gall methu â chynnal trefniadau gwybodaeth a seiberddiogelwch effeithiol sy'n diogelu cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd ein data a'n systemau arwain at ddigwyddiadau maleisus a/neu ddamweiniol yn ymwneud â data, mynediad heb awdurdod at systemau, tarfu ar weithrediadau, a cholli ymddiriedaeth yn ein gallu i ddiogelu gwybodaeth sensitif. | Mae lefel sylweddol o risg yn datblygu yn y maes hwn, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn trefniadau gwybodaeth a seiberddiogelwch. Mae gennym fesurau a rheolaethau diogelwch TGCh cadarn ar waith, gan gynnwys achrediad ISO 27001, gwybodaeth a monitro bygythiadau'n barhaus, a hyfforddiant cynhwysfawr ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch gwybodaeth. Mae'r rhain yn golygu ein bod yn cael ein diogelu'n dda ac yn gallu ymateb yn gyflym i fygythiadau ac adfer ar eu hôl. |

# Ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Gwaith yn y Gwledydd

Wrth wneud ein gwaith, rhaid i ni ystyried yr holl wledydd, rhanbarthau, diwylliannau, cymunedau a thirweddau sy'n rhan o'r DU.

Bydd ein swyddfeydd yn Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Llundain, Warrington a Manceinion yn rhoi cyfle i ni weithio'n uniongyrchol â llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a sefydliadau a chymunedau lleol i sicrhau ein bod yn ystyried safbwyntiau, buddiannau ac anghenion pawb ledled y DU.

Yn ogystal, mae gennym Bwyllgorau Cynghori statudol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac aelodau Bwrdd ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a benodir gan Lywodraethau Cymru a'r Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn y drefn honno, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Gwladol y DU. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob rhan o'r DU.

Er bod llawer o'n gwaith yn berthnasol ar draws y DU, yma rydym yn tynnu sylw at rywfaint o waith penodol rydym wedi'i wneud ym mhob un o wledydd y DU dros y flwyddyn ddiwethaf.



### Cymru

- Cyn 7fed etholiad y Senedd, daethom â rhanddeiliaid at ei gilydd i nodi dyletswyddau statudol Ofcom yn ystod etholiadau a'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Gwnaethom hefyd gefnogi gweithgarwch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i helpu pleidleiswyr ifanc a newydd eu hetholfreinio i drin a thrafod gwybodaeth wleidyddol ar-lein.
- Rhoesom dystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd fel rhan o'i ymchwiliad i ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gefnogi craffu seneddol.
- Ar ôl cyhoeddi Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, gwnaethom gynnal trafodaeth banel gyda darlledwyr a rhanddeiliaid yn y cyfryngau yng Nghymru ar y goblygiadau i gynulleidfaoedd a'r sector sgrin.
- Gwnaethom gynnal trafodaeth bwrdd crwn ar seilwaith a chysylltedd yn Llangefni, a oedd yn rhoi cyfle i randdeiliaid o bob rhan o ogledd Cymru rannu gwybodaeth ac adborth ar ddarpariaeth ffonau symudol, gwasanaethau post, band eang sefydlog a chadernid rhwydweithiau.
- Croesawodd Pwyllgor Cynghori Cymru dri aelod newydd: Dr Ruth Mullineux-Morgan, Shayoni Lynn a'r Athro Matthew Williams. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod allanol ar Ynys Môn, gan gyfuno trafodaethau rhanddeiliaid ar gysylltedd ag ymgysylltu ar draws y sector darlledu a'r cyfryngau.

## Yr Alban

- Gwnaethom gynnull rhanddeiliaid cyn etholiad Senedd yr Alban i egluro rôl statudol Ofcom, gan gynnwys cyfrifoldebau a rheolau darlledu sy'n ymwneud ag etholiadau o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Roedd ein gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn canolbwyntio ar gamwybodaeth, algorithmau a chyfryngau cymdeithasol, wedi'i gefnogi gan ymgyrch ymwybyddiaeth ddigidol sy'n seiliedig ar bobl ifanc cyn etholiad Holyrood.
- Gwnaethom ymddangos ddwywaith gerbron Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban ar reoleiddio'r BBC, trwyddedu STV a chyflwr darlledu yn yr Alban, a gerbron Pwyllgor Materion Albanaidd Senedd y DU ar ddiwygio'r Gwasanaeth Post Cyffredinol a'i effaith ar gymunedau gwledig ac ynysoedd.
- Gan gefnogi arloesedd a thwf, gwnaethom gynnal digwyddiadau CivTech a chynnal trafodaethau yng Nghaeredin ar Gyfryngau'r Genedl: Yr Alban a dyfodol cysylltedd digidol, gan ddod â llywodraethau, diwydiant, y byd academaidd a grwpiau defnyddwyr at ei gilydd. Gwnaethom gynnal digwyddiadau yn ein swyddfa yng Nghaeredin ar ein hadroddiad Cyfryngau'r Genedl: yr Alban ac ar ddyfodol cysylltedd digidol gyda chynrychiolaeth o lywodraethau'r DU a'r Alban, diwydiant, y byd academaidd a chyrff defnyddwyr.
- Ym mis Tachwedd 2025, cyfarfu Bwrdd Ofcom yng Nghaeredin, gan ymweld â'r National Robotarium i edrych ar gyfleoedd i gydweithio drwy wella trwyddedu sbectrwm ar gyfer ymchwil ac arloesi ym maes roboteg a AI, ochr yn ochr â derbyniad rhanddeiliaid ar flaenoriaethau ar gyfer sector cyfathrebu'r Alban.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi arwain a chefnogi penodiadau i rolau Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban a'r Bwrdd, ac ailbenodi aelod o Fwrdd MG ALBA. Cyfarfu'r Pwyllgor Cynghori hefyd yn Dumfries, a hwyluswyd gan South of Scotland Enterprise, i glywed safbwyntiau lleol ar gysylltedd a'r economi greadigol ehangach.

## Gogledd Iwerddon

- Daethom â rhanddeiliaid telegyfathrebiadau at ei gilydd ar gyfer cynhadledd ar gysylltedd digidol, gan ganolbwyntio ar gyflwyno ffeibr llawn i'r eithaf, cyrraedd cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu a chryfhau cadernid y rhwydwaith. Gwnaethom hefyd gyfrannu at weithgorau'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir a Chynllun Gweithredu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar Ffonau Symudol, ac mae'r naill a'r llall yn ceisio gwella'r ddarpariaeth symudol ar draws y rhanbarth.
- Rhoesom dystiolaeth i Bwyllgor Cydredol Cynulliad Gogledd Iwerddon dros yr Economi a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, fel rhan o'i ymchwiliad i ddarpariaeth telegyfathrebiadau a chydnerthedd busnesau a chwsmeriaid domestig agored i niwed yn dilyn effaith Storm Éowyn.
- Gwnaethom gynnull digwyddiad yn Adeiladau'r Senedd ar wella diogelwch ar-lein i fenywod a merched, comisiynu archwiliad o ddarpariaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a chychwyn dwy raglen sawl blwyddyn o hyd i gefnogi meddwl beirniadol plant ar-lein a dinasyddiaeth ddigidol oedolion. Wrth i reoliadau diogelwch ar-lein gael eu datblygu, gwnaethom sicrhau bod gwleidyddion lleol, swyddogion y llywodraeth a sefydliadau dinesig yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, a bod ystyriaethau sy'n benodol i Ogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn llawn.
- Yn unol â'n rhwymedigaethau cydraddoldeb statudol, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb wedi'i ddiweddaru ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys cynllun gweithredu diwygiedig sy'n adlewyrchu cylch gwaith presennol Ofcom.
- Yn olaf, croesawodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon ddau aelod newydd, sef Uel Johnston a Maeve Connolly, ac ailbenodwyd aelod presennol Aodhan O'Donnell am ail dymor.



## Lloegr

- Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Phwyllgor Cynghori Lloegr, gan ddarparu sesiynau briffio ar bolisi a defnyddio gwybodaeth gan aelodau i lywio dealltwriaeth Ofcom o faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion yn Lloegr, gan gynnwys safbwyntiau rhanbarthol a lleol.
- Gwnaethom ymgysylltu ar sail lleoedd ar draws rhanbarthau Lloegr y tu allan i Lundain, gan gwrdd â rhanddeiliaid lleol i sicrhau bod profiadau cymunedau ledled Lloegr yn sail i waith datblygu polisi a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom.
- Gwnaethom ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac awdurdodau cyfun, gan gynnwys cyrff maer a dinas-ranbarth, i gasglu tystiolaeth am gysylltedd, cynhwysiant digidol a chanlyniadau i ddefnyddwyr, ac i ddeall amrywiadau rhanbarthol yn Lloegr.
- Buom yn gweithio gyda sefydliadau defnyddwyr a chymdeithas sifil, gan gynnwys cyrff eiriolaeth ac elusennau, drwy ymgynghoriadau, trafodaethau bwrdd crwn a thrafodaethau wedi'u targedu i lywio gwaith Ofcom ar delegyfathrebiadau, post a chynhwysiant digidol.
- Yn olaf, croesawodd ein Pwyllgor Cynghori ar gyfer Lloegr dri aelod newydd, sef Richard Bellamy, Kavya Sharma ac Andrew Squires May. Penodwyd Richard Bellamy yn Gadeirydd, ac ailbenodwyd Caroline Gardner am ail dymor.

# Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol

Mae meysydd cyfrifoldeb Ofcom yn fyd-eang eu natur. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r cyd-destun rhyngwladol a chydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid rhyngwladol ar draws ein sectorau i sicrhau'r canlyniadau cywir i bobl ac i fusnesau yn y DU. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys rheoleiddwyr tramor y diwydiant, cymdeithas sifil a'r byd academaidd.

Mae ein gwaith rhyngwladol hwnnw'n helpu i lywio sut rydym yn dylunio ac yn gweithredu rheoleiddio yn y DU. Rydym hefyd yn rhannu ein harbenigedd â phartneriaid tramor, ac yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiadau rheoleiddiol yn y sectorau sy'n bwysig i ni. Mae'r cydweithrediad hwn yn helpu i greu cyd-ddealltwriaeth o'r adnoddau sydd ar gael i reoleiddwyr a, lle bo hynny'n bosibl, osgoi gwahaniaethau diangen rhwng trefniadau rheoleiddio cyfatebol yn y DU a thramor.

## Yn Ewrop a'r tu hwnt

O ran y farchnad a rheoleiddio, rydym yn wynebu tueddiadau a heriau tebyg i lawer o'r sefydliadau cyfatebol, yn enwedig o ran rheoleiddio platfformau digidol a'r amgylchedd gwybodaeth.

Mae gweithio gyda **phartneriaid yn yr UE** yn rhan bwysig o'n gwaith rhyngwladol.

- Rydym yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddiogelwch ar-lein o dan y cytundeb gweinyddol a lofnodwyd gennym yn 2024, sy'n ceisio gwella cydlyniant o ran sut rydym yn gweithredu ein rheolau diogelwch ar-lein priodol. Yn 2025, gwnaethom sefydlu grŵp cydweithredu tairochrog gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Comisiwn eDdiogelwch yn Awstralia ac ymrwymo'n ffurfiol i gydweithio ar ddiogelwch ar-lein. Mae'r grŵp wedi cynnal dau gyfarfod lefel uchel hyd yma, a oedd yn canolbwyntio ar wella diogelwch plant ar blatfformau ar-lein.
- Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn sgyrsiau rheoleiddio ar lefel Ewropeaidd ehangach, gan gynnwys drwy ein haelodaeth o'r Grŵp Rheoleiddwyr Annibynnol sy'n grŵp o 37 awdurdod rheoleiddio cyfathrebiadau Ewropeaidd, a Llwyfan Ewropeaidd yr Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA) sef rhwydwaith o 56 o reoleiddwyr cyfryngau Ewropeaidd.

Hefyd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein **cysylltiadau y tu hwnt i Ewrop**, gan weithio gyda rheoleiddwyr a llywodraethau o bob cwr o'r byd, ar draws ein holl feysydd gwaith, gan gynnwys cydweithio ym maes rheoleiddio yn y DU, ym maes galwadau a negeseuon testun sgam, AI ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Gwnaethom gyhoeddi datganiad ar y cyd ag asiantaethau partner o Ganada, Awstralia, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau i gryfhau'r cydweithrediad ar ddiogelwch telegyfathrebiadau. Wrth i ni baratoi i ysgwyddo pwerau a chyfrifoldebau newydd fel rhan o'r Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid sydd ar y gweill, gan gynnwys ar ddiogelwch a chadernid canolfannau data, rydym wedi ymgysylltu â'n cymheiriaid yn Ewrop ac yn fyd-eang i ragweld heriau a chefnogi ein dyluniad ar gyfer trefn oruchwylio sy'n cyd-fynd ag awdurdodaethau rhyngwladol eraill.

Nid yw ein hymgysylltiad rhyngwladol â diogelwch ar-lein wedi'i gyfyngu i Ewrop chwaith, gan fod llawer o'r gwasanaethau ar-lein rydym yn eu rheoleiddio – a'r heriau diogelwch rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw – yn rhai byd-eang. Rydym wedi gweithio gyda chymheiriaid ledled y byd, gan gynnwys Awstralia, Brasil, Canada, Ffrainc, yr Almaen, Indonesia, Malaysia, Singapore a'r Unol Daleithiau. Bydd datblygu ac ehangu rhwydweithiau a chysylltiadau rhyngwladol cryf yn y maes rheoleiddio newydd hwn yn hanfodol i lwyddiant ein gwaith rheoleiddio domestig. Gwnaethom Gadeirio'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN) yn 2024 a 2025, ac rydym bellach yn gwasanaethu ar Gyngor Arweinyddiaeth GOSRN yn 2026. Mae'r rhwydwaith bellach yn ei bedwaredd flwyddyn ac mae'n gweithredu ei strategaeth tair blynedd (2025-2027), sy'n ceisio gwella cysondeb o ran rheoleiddio diogelwch ar-lein drwy alluogi rheoleiddwyr i rannu gwybodaeth, profiad a datblygu arferion gorau ar y cyd. Fel rhan o Gyngor Arweinyddiaeth GOSRN, rydym yn parhau i dyfu a datblygu'r rhwydwaith.

Gwnaethom hefyd barhau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau a gweithgorau rheoleiddwyr rhyngwladol ehangach ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, fel y Rhwydwaith Gorfodi Cyfathrebiadau Digymell (UCENet) a'r Fforwm Gwrth-dwyll Rheoleiddiol Anffurfiol Byd-eang (GIRAF). Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn fforymau a chynullfannau sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid fel Fforwm Llywodraethu'r Rhyngrwyd (IGF), Cynghrair Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Gwybodaeth UNESCO, a'r Sefydliad Cyfathrebiadau Rhyngwladol (IIC).

## Sefydliadau rhynglywodraethol

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU yn yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU), asiantaeth arbenigol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer telegyfathrebiadau, technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, ac mae hefyd yn arwain y grŵp rhanbarthol Ewropeaidd yn yr ITU fel Cadeirydd Com-ITU, Pwyllgor Polisi'r ITU, yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT). Eleni, gwnaethom arwain dirprwyaeth o'r DU i Gynulliad Datblygu Telegyfathrebiadau'r Byd yr ITU (WTDC-25), y prif gyfarfod a gynhelir bob pedair blynedd lle cytunir ar flaenoriaethau a chynlluniau'r ITU ar gyfer y sector datblygu. Rydym wedi dechrau paratoi i arwain dirprwyaeth Ewropeaidd i gyfarfod llywodraethu lefel uchaf yr ITU, y Gynhadledd Plenipotenswyr (PP-26), yn ddiweddarach eleni, a bydd Ofcom hefyd yn arwain y gwaith o ddirprwyo yn y DU, gan gynnwys ar faterion sy'n ymwneud â lloeren, sbectrwm, seiber ac diogelu plant ar-lein.

Gwnaeth Ofcom hefyd barhau i gynrychioli'r DU ar Gyngor llywodraethu'r ITU, ac rydym yn awyddus i gael ein hailethol i'r Cyngor yn PP-26.

Rydym hefyd yn parhau i ddal swyddi arwain eraill yn CEPT. Mae'r rhain yn cynnwys Cadeirydd Grŵp Paratoi'r Gynhadledd ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC-27) sydd ar y gweill.

Rydym yn cefnogi Llywodraeth y DU yn yr Undeb Post Cyffredinol (UPU), y corff rhynglywodraethol sy'n rheoli prisiau post rhyngwladol rhwng Darparwyr Gwasanaeth Post Cyffredinol, ac rydym yn gweithio'n agos â chyd-weinidogion a rheoleiddwyr post rhyngwladol, gan gynnwys yn y Pwyllgor Rheoleiddio Gwasanaethau Post Ewropeaidd (CERP) o fewn CEPT.

Mae Ofcom yn parhau i gymryd rhan yng ngwaith datblygu polisi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan gynnwys drwy'r Gweithgor ar Wasanaethau a Seilwaith Cysylltedd (WPCSI), lle rydym yn gwasanaethu fel Is-gadeirydd. Rydym hefyd yn cymryd rhan yng ngwaith y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Economaidd (NER) a'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio (RPC), yn ogystal â chymryd rhan yn y fenter Rheoleiddio Gwell yn yr Oes Ddigidol (BRIDGE). Mae gennym hefyd swydd arwain ym Mhwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar reoleiddwyr y cyfryngau mewn amgylchedd platfformau, o dan awdurdod ei Bwyllgor Llywio ar Gymdeithas Cyfryngau a Gwybodaeth.



# Ein gwaith gyda grwpiau a sefydliadau eraill

## Gweithio dros ddefnyddwyr

Mae deall buddiannau ac ymddygiad defnyddwyr yn hanfodol i'n gwaith. Rydym yn defnyddio ymchwil marchnad i helpu i lywio ein gwaith a rhoi cipolwg ar sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebiadau – a sut maen nhw'n teimlo amdanyn nhw. Mae Ein Gwlad Ar-lein, Cyfryngau'r Genedl, Cysylltedd y Cenhedloedd, Defnydd Oedolion o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt, Defnydd Plant o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt – pob un ohonyn nhw'n adroddiadau blynyddol – yn tynnu sylw at y tueddiadau hyn ac yn eu dadansoddi, ar draws ystod o sectorau a gwasanaethau.

Derbyniodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom 53,320 o alwadau, ffurflenni gwe, negeseuon e-bost a llythyrau yn uniongyrchol gan aelodau o'r cyhoedd yn 2025/26. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan ddefnyddwyr yn ein helpu ni i lywio ein gwaith o lunio polisïau a gorfodi. Mae defnyddwyr hefyd yn cysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebiadau, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

## Diwydiant a'r llywodraeth

Mae Ofcom yn gweithio ag amrywiaeth o gwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, yn ogystal â grwpiau defnyddwyr, llywodraethau'r DU a sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU a'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.

## Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post

Wrth arfer ein swyddogaethau, mae'n ofynnol i ni ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y DU ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post. Cafodd y Datganiad Blaenoriaethau Strategol a osodwyd gan y llywodraeth bresennol ei ddynodi ym mis Ebrill 2026 ac mae'n nodi pum blaenoriaeth polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y sectorau. Gan fod y dyddiad dynodi y tu allan i'r cyfnod adrodd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn, mae'r ddogfen hon yn adrodd ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni mewn perthynas â Datganiad Blaenoriaethau Strategol 2019.

Yn 2025/26 rydym wedi ystyried y pedair blaenoriaeth a nodwyd yn Natganiad Blaenoriaethau Strategol 2019 yn y ffyrdd canlynol:

- **Seilwaith digidol o'r radd flaenaf:** Rydym wedi parhau i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad yn y farchnad telegyfathrebiadau, gan gynnwys cyhoeddi datganiad terfynol ein Hadolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau ar gyfer 2026-31 ym mis Mawrth 2026. Mae cyflawni ein dyletswyddau sbectrwm hefyd wedi cefnogi arloesedd, gan gynnwys ein penderfyniad i ganiatáu i weithredwyr symudol ddarparu cysylltedd uniongyrchol i ddyfeisiau.
- **Hybu buddiannau cwsmeriaid telegyfathrebiadau:** Rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o reolau i sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth glir ar bob cam o broses y contract. Rydym hefyd wedi cyflwyno prosesau newid ar gyfer defnyddwyr telegyfathrebiadau er mwyn iddynt allu newid darparwyr yn hawdd ac yn gyflym. Drwy ein hymgysylltiad â darparwyr telegyfathrebiadau, mae llawer bellach yn cynnig tariffau cymdeithasol gwirfoddol. Rydym yn parhau i fynd i'r afael â sgamiau ac yn monitro cydymffurfiad y diwydiant â rheolau defnyddwyr.
- **Seilwaith telegyfathrebiadau diogel a chadarn:** Rydym yn parhau i fonitro cydymffurfiad â dyletswyddau diogelwch Darparwyr Cyfathrebiadau. Wrth i'r Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid symud drwy'r Senedd Brydeinig, rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac yn paratoi ar gyfer ehangu ein cyfrifoldebau rheoleiddio, gan gynnwys rheoleiddio diogelwch gweithredol canolfannau data.
- **Gwasanaethau post:** Ar ôl cyhoeddi ein hymgynghoriad ym mis Ionawr 2025 ar gynigion i ddiwygio'r rhwymedigaeth gwasanaeth post cyffredinol, gwnaethom gyhoeddi datganiad ym mis Gorffennaf 2025. Roedd hwn yn nodi ein penderfyniad i wneud newidiadau i'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a'r newidiadau cyfatebol i rwymedigaeth y Post Brenhinol i ddarparu mynediad i'w rwydwaith llythyrau.

## Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Diogelwch Ar-lein

Dros y 12 mis diwethaf, mae Ofcom wedi cyflwyno ei raglen diogelwch ar-lein wrth i'r drefn reoleiddio newydd symud i'r cam cyflawni. Wrth wneud hynny, rydym wedi ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol y Llywodraeth ar gyfer diogelwch ar-lein, a ddynodwyd ar 2 Gorffennaf 2025. Fel y disgrifir uchod, mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn ein gwaith polisi, goruchwylio a gorfodi wrth i ddiogelwch ar-lein symud o'r cam sefydlu i'r cam cyflawni.

- **Diogelwch drwy ddylunio:** Mae Ofcom wedi gwreiddio mesurau diogelu rhagweithiol yn y drefn diogelwch ar-lein, yn enwedig ar gyfer plant. Mae ein Canllawiau Asesu Risg yn rhoi cyfarwyddyd cynhwysfawr i gwmnïau ynghylch sut mae gwreiddio diogelwch drwy ddylunio, datblygu a rhoi eu gwasanaethau ar waith, gan gynnwys adnewyddu asesiadau risg o leiaf unwaith y flwyddyn a phryd bynnag y bydd newidiadau sylweddol yn cael eu cyflwyno. Roedd y gwaith hwn yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gryfach, gan gynnwys galwadau statudol am dystiolaeth ar sicrhau oedran a chynnwys niweidiol, ac ymchwil ehangach i brofiadau plant ar-lein. Gwnaethom hefyd adolygu dros 100 o Gynnwys Anghyfreithlon ac Asesiadau Risg Plant i ddeall sut mae dyluniad platfformau'n effeithio ar ddefnyddwyr yn ymarferol. Mae ein Codau Ymarfer yn cynnwys mesurau ataliol sydd wedi'u dylunio i gyfyngu ar gyswllt rhwng plant ac oedolion, ac atal cynnwys niweidiol rhag cael ei argymell i blant. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar ddefnyddio adnoddau AI i sicrhau bod cynnwys anghyfreithlon a niweidiol yn cael ei rwystro cyn y gellir ei gyhoeddi a'i rannu, ac ar newidiadau dylunio i wasanaethau ffrydio byw sy'n cael eu defnyddio gan blant. Rydym hefyd wedi annog defnydd eang o ddulliau sicrhau oedran i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu yn well.
- **Tryloywder ac atebolrwydd:** yn unol â'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol Diogelwch Ar-lein, roedd Ofcom wedi cryfhau tryloywder ac atebolrwydd ar draws y drefn. Gwnaethom gyhoeddi canllawiau adrodd ar dryloywder terfynol a bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r fframwaith tryloywder statudol. Atgyfnerthwyd atebolrwydd o fewn gwasanaethau drwy ofynion asesu risg, lle nodwyd y byddai angen mwy o eglurder arnom ynghylch goruchwyliaeth ac ymyrraeth uwch lle'r oedd asesiadau'n tanddatgan niwed. Gwnaeth Ofcom hefyd gefnogi teuluoedd sy'n galaru a chrwneriaid drwy bwerau gwybodaeth statudol a chanllawiau wedi'u diweddaru.
- **Rheoleiddio ystwyth:** Mabwysiadodd Ofcom ddull gweithredu seiliedig ar risg a thystiolaeth ar gyfer rheoleiddio, gan dargedu gweithgarwch lle'r oedd niwed ar ei waethaf. Gwnaethom gryfhau galluoedd gwybodaeth a data a gweithio'n agos â chyrff gorfodi'r gyfraith a chymdeithas sifil. Roedd hyn yn sail i orfodi yn erbyn platfformau cyrhaeddiad uchel a gwasanaethau bach ond risg uchel, gan gynnwys camau yn erbyn gwasanaethau rhannu ffeiliau a ddefnyddir i ddosbarthu deunydd cam-drin plant yn rhywiol a gorfodaeth yn erbyn fforwm trafod hunanladdiad ar-lein. Yn dilyn yr ymosodiad terfysgol ym Manceinion ym mis Hydref 2025, gwnaethom lansio rhaglen gydymffurfio a oedd yn asesu systemau platfformau mawr ar gyfer mynd i'r afael â chasineb anghyfreithlon a chynnwys terfysgol.
- **Cynhwysedd a gwydnwch:** Gwnaeth Ofcom gefnogi cynhwysiant a gwydnwch drwy gryfhau dulliau o ymdrin â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth, hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddylunio, a chyhoeddi canllawiau i fynd i'r afael â niwed sy'n effeithio ar fenywod a merched, gan gynnwys cam-drin sy'n seiliedig ar gasineb at fenywod a cham-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau.
- **Technoleg ac arloesi:** Gwnaeth Ofcom annog arloesi mewn technolegau diogelwch ar yr un pryd â chefnogi defnydd effeithiol yn ymarferol, gan gynnwys drwy'r Labordy Technoleg Diogelwch Ar-lein, hysbysiadau technoleg a chydweithredu rhyngwladol i fynd i'r afael â niwed trawsffiniol. Mae ein gwaith polisi hefyd yn hyrwyddo arloesedd, er enghraifft yn ein hargymhellion y dylai gwasanaethau ddefnyddio offer AI cywir ac effeithiol i ganfod cynnwys niweidiol, ac yn ein hargymhellion ynghylch achredu technoleg ragweithiol ar gyfer Hysbysiadau Technoleg.

## Cyd-reoleiddwyr

Mae gan Ofcom bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo ar-alw. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r codau hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Pan fydd angen, gall yr Awdurdod Safonau Hysbysebu gyfeirio darlledwyr at Ofcom.

Mae gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) bwerau cydredol o dan ddeddfwriaeth benodol i ddiogelu defnyddwyr, ac o fewn fframwaith cyfraith cystadleuaeth ar gyfer y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i sicrhau bod dulliau gweithredu cyson a chydgysylltiedig yn cael eu defnyddio mewn perthynas â'r materion lle mae gennym bwerau cydredol, ac rydym yn trafod pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i arwain ymhob achos.

# Egwyddorion rheoleiddio Ofcom

## Pryd rydyn ni'n rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda rhagfarn yn erbyn ymyrraeth, ond gyda pharodrwydd i ymyrryd yn brydlon ac yn effeithiol lle bo angen

Bydd Ofcom yn ymyrryd lle mae dyletswydd statudol benodol i weithio tuag at nod na all marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

## Sut rydyn ni'n rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol o gyflawni ei amcanion

Bydd Ofcom yn ymdrechu i sicrhau bod ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran y ffordd y cânt eu penderfynu a'r canlyniad.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol clir a adolygir yn gyhoeddus gydag amcanion datganedig.

## Sut rydyn ni'n cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn gosod trefniadau rheoleiddio ar farchnad.

## Rheoleiddio gwell

Rydym yn credu bod ‘rheoleiddio’n well’ yn golygu sicrhau bod rheolau’n cael eu targedu’n briodol; peidio â rhoi gormod o faich ar fusnesau; a pheidio â chreu rhwystrau diangen rhag arloesi, buddsoddi a datblygu dewis neu gystadleuaeth yn y farchnad.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, ac mae nifer y dogfennau a gyhoeddwn wedi cynyddu – yn bennaf oherwydd y drefn diogelwch ar-lein newydd. Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o’r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar sectorau sy’n cael eu rheoleiddio o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau Ofcom yn 2025/26.

Tabl 1: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2025/26

| O’r 75 Prif Ddatganiad a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn: | Nifer | % |
|---|---|---|
| Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd | 13 | 17% |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 56 | 75% |
| Llai o reoleiddio | 5 | 7% |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 1 | 1% |

Mae golwg gyffredinol ar y prif ddatganiadau a phenderfyniadau rydym wedi’u gwneud yn ystod y flwyddyn, ar gael yn Atodiad 1..

## Ymgynghoriadau

Mae ymgynghoriadau cyhoeddus yn caniatáu i bobl a sefydliadau ymateb i’n cynigion cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Os bydd cyfnod ymgynghori’n rhy fyr, efallai na fydd gan y rhai sydd â barn bwysig ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghori, mae angen i ni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth yma. Mae Ffigur 2 yn cynnwys dadansoddiad o hyd ein hymgynghoriadau fesul sector.

Tabl 2: Dadansoddiad o hyd ymgynghoriadau: 2025/26

| Sector | Cyfnod ymgynghori sydd o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori o lai na 10 wythnos |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 5 | 3 |
| Darlledu | 3 | 20 |
| Sbectrwm | 6 | 12 |
| Y Cod Cyfathrebiadau Electronig | - | 14 |
| Diogelwch Ar-lein | 3 | 6 |
| Arall | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **18** | **56** |
| **2025/26** | **24%** | **76%** |
| (yn 2024/25) | 29% | 71% |

## Gwneud penderfyniadau’n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae’n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben. Mae hyn yn amrywio yn ôl effaith y polisi yn y sector a natur yr ymatebion rydym yn eu cael. Mae Ffigur 3 yn cynnwys dadansoddiad o’r amser mae’n ei gymryd i gyhoeddi’r penderfyniad ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben, fesul sector.

Tabl 3: Hyd yr amser i gyhoeddi penderfyniad, 2025/26

| Sector | Cyfartaledd yr wythnosau i gyhoeddi’r penderfyniad |
|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 25 |
| Darlledu | 14 |
| Sbectrwm | 22 |
| Y Cod Cyfathrebiadau Electronig | 3 |
| Diogelwch Ar-lein | 23 |
| Post | 13 |
| **Cyfartaledd 2025/26** | **15** |
| Cyfartaledd 2024/25 | 14 |

## Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Rydym yn defnyddio'r asesiadau hyn i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni wneud y penderfyniadau hynny. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi eu gwneud, ac mae ein hymrwymiad iddynt yn cael ei bwysleisio yn ein canllawiau asesu effaith.

Mae'r canllawiau'n cydnabod pwysigrwydd effeithiau ansoddol wrth asesu ein penderfyniadau. Mae ein hasesiadau effaith wedi cynnwys crynodebau clir o effeithiau tebygol cynnig ac maen nhw'n cyfeirio'r darllenydd at adrannau penodol yr ymgynghoriad sy'n cynnwys dadansoddiad pellach.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r asesiadau effaith rydym wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhestr lawn wedi'i chyhoeddi yn Atodiad 1.

**Tabl 4: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd**

| Sector | Nifer y dogfennau ymgynghori | Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 8 | 8 |
| Darlledu | 23 | 18 |
| Sbectrwm | 18 | 18 |
| Post | - | - |
| Y Cod Cyfathrebiadau Electronig | 14 | 14 |
| Diogelwch Ar-lein | 9 | 6 |
| Arall | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **74** | **65** |

Yn 2025/26, roedd 89% (2024/25: 94%) o'r ymgynghoriadau wedi cynnwys asesiad effaith, a bod cyfeiriad penodol ato mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd yn ofynnol nac yn briodol cynnal asesiad effaith, neu efallai ei fod yn ymhlyg yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.



## Asesu effaith ar gydraddoldeb

Mae gennym rwymedigaethau statudol hefyd i ystyried yr effaith ar grwpiau penodol o bobl fel rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn esbonio y byddwn, fel arfer, yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn cysylltiad â pholisïau a phrosesau newydd neu ddiwygiedig. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau'n deg o ran eu dyluniad, ac yn sicrhau canlyniadau cymesur i grwpiau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o'n hymgynghoriadau'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n crynhoi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol posibl rydym wedi'u nodi, yn ogystal â sut rydym yn bwriadu lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl.

Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn ystyried yr effeithiau posibl ar grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli neu sydd dan anfantais, rydym yn parhau i adolygu ein setiau data a nodi lle gallai fod angen rhagor o ymchwil arnom i edrych ar brofiadau grwpiau penodol, a'u gwella pan fo modd. Rydym ym ymdrechu i wneud ein proses ymgynghori mor agored a chynhwysol â phosibl er mwyn i ni gasglu amrywiaeth eang o safbwyntiau, a rhoi cyfle i wahanol grwpiau rannu eu safbwyntiau cyn i ni newid dim.[1]

1. Hefyd, mae'r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth a chynhwysiad yn ein gwaith rheoleiddio ar gael yn ein diweddariadau cynnydd.

## Ymchwil diogelwch ar-lein

Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau diogelwch ar-lein, rydym wedi buddsoddi mewn rhaglen ymchwil gynhwysfawr ac amlddisgyblaethol, gan ddarparu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'n gwaith rheoleiddio. Mae gan Ofcom dimau amrywiol sy'n gyfrifol am waith ar ddata ac ymchwil mewn gwahanol feysydd, fel a ganlyn:

Mae ein tîm **Ymchwil a Gwybodaeth** yn arwain ar ddeall ymddygiad, profiadau ac agweddau defnyddwyr, ac yn monitro beth mae gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn ei wneud i gadw eu defnyddwyr yn ddiogel ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi dadansoddiad cyfannol o dirwedd ar-lein y DU drwy ein hadroddiad Ein Gwlad Ar-lein blynyddol. Eleni, lansiodd y tîm adnoddau newydd i ddeall profiadau plant ar-lein, gan gynnwys ein Traciwr Diogelwch Plant Ar-lein cyntaf, Panel Mewnwelediad Plant Ar-lein ac astudiaeth Mesur Defnydd Goddefol Ar-lein Plant.

Mae gan ein tîm **Deall Ymddygiad** arbenigedd mewn seicoleg, ymchwil ymddygiadol ac economeg ymddygiadol, sy'n dod â thystiolaeth ar ymddygiad yn y byd go iawn i waith Ofcom. Eleni, defnyddiodd y tîm archwiliadau ymddygiad, gêm ddifrifol, a threialon rheoli ar hap (RCTs) i archwilio rhyngweithio defnyddwyr â mesurau diogelwch gwasanaethau a hyrwyddo cydymffurfiad ymysg gwasanaethau â'n gwaith rheoleiddio.

Mae ein tîm **ymchwilio i Lythrennedd yn y Cyfryngau** yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ymwybyddiaeth oedolion a phlant o'r cyfryngau, yn ogystal ag ymchwil ar bynciau perthnasol cysylltiedig fel dylunio perswadiol a chamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Mae ein tîm **Economeg a Dadansoddeg** yn ein helpu i ddeall cymhellion busnesau ar-lein, nodweddion marchnadoedd ar-lein a goblygiadau newid ar les defnyddwyr y rhyngrwyd. Mae eu dadansoddiad yn rhoi cipolwg ar wasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r effaith y mae'r Ddeddf yn ei chael ar ddiogelwch ar-lein.



Mae ein timau **Polisi Technoleg** a **Thechnoleg Diogelwch Ar-lein** yn darparu arbenigedd technegol wrth asesu technolegau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n cael eu defnyddio gan wasanaethau ar-lein, gan gynnwys ymchwil i effeithiau gwasanaethau chwilio AI cynhyrchiol a gwerthuso mesurau diogelu rhag ffugiadau dwfn.

Mae rhestr o'r ymchwil rydym yn ei chynnal yn ystod y flwyddyn ar gael yn Atodiad 1.

# Adolygiad Ariannol

Er bod Ofcom yn uniongyrchol atebol i'r Senedd, daw ein cyllid gan gwmnïau a sefydliadau sy'n gweithio yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio (edrychwch ar Tabl 5).

Dros y degawd diwethaf, mae ein ffioedd cyffredinol ar gyfer ein dyletswyddau craidd wedi aros yn gyson i raddau helaeth o ran arian, sy'n golygu bod cost go iawn ein gwaith rheoleiddio wedi gostwng mewn termau real. Rydym wedi parhau i flaenoriaethu gwerth am arian a dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd yn ein holl weithgareddau a gweithrediadau.

Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys casglu a throsglwyddo'r ffioedd trwydded o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol gan ddeiliaid trwyddedau darlledu, a dirwyon a chosbau a roddwyd i randdeiliaid.

Mae'r rhain i gyd wedi'u nodi yng nghyfrifon Adran 400 ac nid ydynt yn rhan o'n cyfrifon blynyddol.

O ganlyniad, mae Ofcom yn gyfrannwr net i Drysorlys EF; casglodd £520.4m o ffioedd a chosbau yn 2025/26, a chafodd £155.1m ei gadw i ariannu ein gwaith rheoli sbectrwm a dyletswyddau eraill. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein nes bydd system ffioedd y diwydiant ar gyfer y drefn honno yn cael ei chyflwyno cyn bo hir. Trosglwyddwyd y balans i'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg a Thrysorlys EF.

## Perfformiad ariannol

Cynyddodd ein cyllideb o £213.5m yn 2024/25 i £227.6m yn 2025/26, cynnydd o £14.1m, sy'n adlewyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer y dyletswyddau a ddangosir yn y Tabl 5 isod.

Yn 2025/26, roedd ein gwariant terfynol o £223.0m 2.0% (£4.6m) yn is na'n cyllideb, yn bennaf oherwydd ein bod wedi gallu cyflawni ein Cynllun Gwaith heb fod angen cael gafael ar gynlluniau wrth gefn a oedd yn cael eu dal yn erbyn ymgyfreitha a chostau annisgwyl wrth reoleiddio diogelwch ar-lein.

**Tabl 5: Dadansoddiad o gyllid o un flwyddyn i'r llall**

| Cyllideb (£'m) | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| Dyletswyddau craidd[2] | 139.1 | 140.0 | 140.5 | 143.8 |
| Diogelwch Ar-lein | 41.6 | 47.0 | 66.0 | 72.6 |
| Deddf Cyfryngau | - | - | 4.8 | 6.1 |
| Gwasanaethau Cyfradd Premiwm | - | - | 1.0 | 4.0 |
| DRCF a'r Hyb AI * | - | 0.6 | 1.2 | 1.1 |
| **Cyfamswm** | **180.7** | **187.6** | **213.5** | **227.6** |

* Darparwyd cyllid o £0.8m i Ofcom ar ran y Fforwm ym mis Hydref 2025, gan gynyddu ein cyllideb o £226.8m i £227.6m.

Mae Nodyn 2 i'r cyfrifon yn darparu cysoniad o'r gwariant gweithredol cyfrifyddu ariannol o £229.0m i'r alldro o £223.

2. Mae cyllid y Ddeddf Diogelwch Telegyfathrebiadau a Bwydydd Llai Iach a ddatgelwyd ar wahân yn flaenorol bellach wedi'u cynnwys yn y dyletswyddau Craidd

**Tabl 6: Alldro 2025/26 yn ôl math o wariant allweddol (£m)**

| Math o wariant | 2025/26 | 2024/25 | Symudiad (£m) | Symudiad (%) |
|---|---|---|---|---|
| Staff | 153.1 | 139.4 | 13.7 | 10% |
| TGCh | 26.1 | 22.4 | 3.7 | 17% |
| Ystadau | 16.3 | 17.0 | (0.7) | (4%) |
| Ymchwil a Gwasanaethau Proffesiynol | 15.4 | 14.6 | 0.8 | 5% |
| Staff Dros Dro, Hyfforddi a Recriwtio | 4.5 | 5.7 | (1.2) | (21%) |
| Teithio | 2.3 | 2.1 | 0.2 | 10% |
| Cerbydau ac Offer Maes | 1.9 | 2.5 | (0.6) | (24%) |
| Arall | 3.4 | 2.6 | 0.8 | 31% |
| **Cyfanswm** | **223.0** | **206.3** | **16.7** | **8%** |

## Gwariant gweithredu

Roedd dwy ran o dair o'n gwariant gweithredu yn ymwneud â chostau staff a gynyddodd £16m. Y prif reswm am hyn oedd y cynnydd mewn nifer y staff oherwydd twf yn ein dyletswyddau diogelwch ar-lein, dyletswyddau newydd ar gyfer Ddeddf y Cyfryngau a rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd, a drosglwyddwyd i Ofcom pan gaeodd yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (PSA) ar gyllideb gyffredinol is. Ar gyfer ein dyletswyddau craidd, mae arbedion effeithlonrwydd staff arfaethedig yn gwrthbwyso cynnydd mewn chwyddiant cyflogau. Gweler Nodyn 5 y cyfrifon (tudalen 138) am fanylion ynghylch cyfanswm y bobl sy'n cael eu cyflogi gan Ofcom a sut mae hyn wedi newid rhwng y blynyddoedd.

Roedd gwariant gweithredu arall yn 2025/26 (ac eithrio clirio a dyfarnu sbectrwm) wedi cynyddu £3.8m i £74.3m (2024/25: £70.5m), fel yr amlinellir yn Nodyn 6 y cyfrifon (tudalen 139).

Mae'r prif amrywiadau gweithredu ers y flwyddyn flaenorol yn deillio o'r ffactorau canlynol:

- Roedd costau TGCh (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir yn allanol) wedi cynyddu £3.7m, o ganlyniad i fuddsoddi mewn systemau i gefnogi'r gwaith o reoleiddio dyletswyddau newydd.
- Cynyddodd ffioedd proffesiynol £1.0m i gefnogi ein seilwaith digidol a gwella ffyrdd effeithlon a diogel o weithio.
- Roedd costau staff dros dro a recriwtio wedi gostwng £1.2m; gwnaethom ddefnyddio mwy o staff dros dro yn 2024/25 i lenwi bylchau sgiliau tymor byr mewn Diogelwch Ar-lein.
- Gostyngodd costau ymchwil £0.2m gyda gostyngiad mewn gofynion ymchwil parhaus ar gyfer dyletswyddau Deddf y Cyfryngau (roedd 2024/25 yn cynnwys gwaith gweithredu untro).



# Gwarged/diffyg am y flwyddyn ariannol

## Adennill gormod/dim digon o'r costau

Mae'r refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ein dyletswyddau a chyflawni ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail ein datganiad o egwyddorion codi ffioedd. Mae hwn yn nodi'r union arian y mae angen ei gasglu i gyflawni rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn y ddwy flynedd ariannol sy'n dilyn, neu caiff ei wrthbwyso yn erbyn yn y derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) a gedwir.

Mae Nodyn 2 y cyfrifon yn Adran C yr Adroddiad Blynyddol yn cysoni cyfanswm y gwariant gweithredu yn ôl y sector a reoleiddir, fel y cyflwynir yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i alldro costau gweithredu terfynol Ofcom.

Mae incwm gweithredu o £229.1m yn 2025/26 (2024/25: £211.0m) yn cynnwys cyfrifoldebau craidd Ofcom. Gweler Nodyn 3 y cyfrifon (tudalen137) am ddadansoddiad o incwm yn ôl y sector perthnasol sy'n cael ei reoleiddio. Mae'r incwm gohiriedig ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, ac yn dod i gyfanswm o £7.7m (2024/25: £14.2m).

## Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae Ofcom yn cael incwm gan randdeiliaid a derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i dalu am gostau ariannol darparu'r gwasanaethau hynny heb gynnwys incwm anweithredol. Mae'r costau hyn yn cynnwys prynu asedau anghyfredol. Mae'r gwarged cyfrifyddu ar ôl treth ar gyfer y flwyddyn, a gofnodwyd yn y datganiad incwm a gwariant, yn adlewyrchu gwarged o £0.4m (2024/25: gwarged o £1.6m). Yn y flwyddyn gyfredol, roedd yr incwm a dderbyniwyd i dalu costau arian parod eitemau cyfalaf yn fwy na chostau anariannol yr asedau gan gynnwys dibrisiant ac amorteiddiad, gan arwain at warged bach.


## Arian ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EF

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau gan sefydliadau sy'n gweithredu yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Byddwn yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar gyfer y trafodion hyn. Cyflwynodd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ddiwygiadau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a geir mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill nad oes modd iddo godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer.

Mae gweddill y refeniw a gasglwyd yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EF, yr Adran Gyllid a Phersonél - Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol 1991, Rhifau 998, 1710 a 1709 yn y drefn honno, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y datganiadau ariannol hyn yn Nodyn 24 i'r cyfrifon. Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 casglodd Ofcom £520.4m (2024/25: £613.7m) ar ran Trysorlys EF. Mae rhagor o fanylion ar gael yng nghyfrifon Adran 400. Cadwodd Ofcom £155.1m (2024/25: £151.1.m) i ariannu rhai o'n cyfrifoldebau craidd, gan gynnwys rheoli sbectrwm a chwblhau gwaith paratoi ar gyfer diogelwch ar-lein, cyn sefydlu'r drefn ffioedd ar gyfer y maes hwnnw o'n gwaith. Trosglwyddwyd cyfanswm o £404.3m (sy'n cynnwys derbyniadau arwerthiant sbectrwm) i gyfrifon y llywodraeth yn y flwyddyn ariannol.

Ffigur 4: Dadansoddiad yn ôl math o dderbynneb Adran 400



## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio. Roedd gan gydweithwyr a ymunodd o hen reoleiddwyr pan gafodd Ofcom ei sefydlu, yr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â'u buddion wedi'u diffinio. Mae'r ddau gynllun ar gau i newydd-ddyfodiaid, a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r adeg hon ymlaen, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu cael mynediad at gynllun Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio. Mae nodiadau 1(j) ac 20 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion ar hyn.

Roedd y prisiadau actiwaraidd ar gyfer y naill gynllun buddion wedi'u diffinio a'r llall ar ddyddiad y prisiad ffurfiol diwethaf, sef 31 Mawrth 2024, a wneir pob tair blynedd, yn dangos diffyg o £0.4m mewn cyllid cyfun. Mae prisiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio yn dangos diffyg o £0.4m. Mae holl rwymedigaethau prisiadau cynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) wedi cael eu prynu i mewn, ac felly nid oes gwarged na diffyg.

Mae'r gwarged o £12.3m yn y cynllun pensiwn wedi'i ddiffinio a ariennir a symiau eraill y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi o dan y Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS 19). Mae hwn yn brisiad cyfrifyddu yn hytrach na phrisiad actiwaraidd, ac mae'n cael ei baratoi ar sail wahanol. Un o'r prif wahaniaethau yw bod yr atebolrwydd yn cael ei ddisgowntio yn unol â'r arenillion ar fondiau o ansawdd uchel sydd, o dan amodau presennol y farchnad, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i bennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad y prisiadau actiwaraidd ym mis Mawrth 2024.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol i Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac i gynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Mae taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredu, fel y'u cyfrifir o dan IAS 19, yn cael eu cynnwys yn alldro'r gwariant gweithredu a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffau a godir ar gyfranddeiliaid bob blwyddyn.

Oherwydd y gwaith lliniaru risg rhwng Ofcom, ac ymddiriedolwyr ac actiwarïaid y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi gan flwydd-daliadau. Fel rhan o'r gweithgareddau parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau pensiwn yn cael eu hystyried yn y dyfodol. Mae cynllun prynu yn cyfeirio at bolisi yswiriant a brynir yn enw'r ymddiriedolwr ac sy'n cael ei ddal fel ased yn y cynllun. Bydd Ofcom yn parhau i reoli'r broses weinyddol a'r taliadau parhaus i aelodau. Ar ben hynny, mae Ofcom yn penderfynu pa rwymedigaethau a buddion y dylid eu cynnwys yn y cynllun prynu.


## Tariffau

Cyhoeddodd Ofcom ei dablau tariff 2025/26 ar 28 Mawrth 2025. Gwelwyd cynnydd yng nghyllideb wreiddiol Ofcom o £204.5m i £226.8m ym mlwyddyn ariannol 2025/26, cynnydd o £22.3m o un flwyddyn i'r llall. Mae'r cynnydd cyllidebol hwn yn adlewyrchu cynnydd yng nghap gwariant Ofcom ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, er mwyn darparu ar gyfer gwaith paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd.

Roedd y cynnydd hwn yn cael ei ariannu'n bennaf drwy gadw derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) ac nid tariffau rhanddeiliaid gan eu bod yn ymwneud â gwariant perthnasol a ariennir gan y ffynhonnell incwm hon.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 5 isod, ac eithrio costau sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau newydd a'r sectorau telegyfathrebiadau, mae'r tariffau'n cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd tair blynedd.

**Ffigur 5: Tueddiadau ariannu tair blynedd**




Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r gofyniad cyllido ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y siart uchod yn cynrychioli addasiadau i'r flwyddyn flaenorol sydd wedi'u hymgorffori yn ein ffioedd.

# Cyfrifoldeb Corfforaethol

## Ymrwymiad Ofcom i gyfrifoldeb corfforaethol

Rydym yn gryfach fel sefydliad pan fyddwn ni'n gysylltiedig â'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, ac rydym yn ymdrechu i leihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau.

- Rydym wedi mabwysiadu a hyrwyddo arferion cynaliadwy lle bo hynny'n bosibl, er mwyn chwarae ein rhan i leihau allyriadau carbon cyffredinol y DU.
- Rydym wedi meithrin cysylltiadau agos ag ysgolion a sefydliadau i egluro'r gwaith rydym yn ei wneud a'r cyfleoedd rydym yn eu cynnig fel cyflogwr. Rydym yn cynnal cynlluniau profiad gwaith, prentisiaethau ac interniaethau y mae galw mawr amdanynt, yn ogystal â rhaglen recriwtio graddedigion sefydledig.
- Rydym yn cefnogi ein cydweithwyr i wneud gwahaniaeth i gymunedau lleol, yn enwedig yn y dinasoedd lle mae ein prif swyddfeydd – Belfast, Caerdydd, Caeredin, Llundain a Manceinion.

### Polisi amgylcheddol

Mae gan Ofcom system rheoli amgylcheddol sydd wedi'i hachredu gan ISO 14001, sy'n darparu dull strwythuredig o reoli effeithiau amgylcheddol a sbarduno gwelliant parhaus. Rydym yn rheoli ein hôl troed carbon yn weithredol, yn gwella effeithlonrwydd ynni ar draws ein hystâd ac yn lleihau gwastraff, tra'n gwreiddio arferion caffael a gweithredol cynaliadwy i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol ac arferion gorau.



## Ysgolion a sefydliadau

Rydym yn cynnig lleoliadau profiad gwaith rheolaidd, yn ogystal â gwneud gwaith allgymorth mewn ysgolion gyda phartner symudedd cymdeithasol arbenigol, Visionpath. Mae hyn yn ein helpu i ganfod, i hyfforddi ac i gefnogi pobl ifanc i gymryd y cam cyntaf yn eu gyrfa, gan gynnwys gwneud cais am ein rhaglenni prentisiaeth.

Ym mis Ebrill, gwnaethom gefnogi pum myfyriwr o aelwydydd incwm is i gymryd rhan yn rhaglen profiad gwaith â thâl wyth diwrnod Dyfodol Technoleg Sefydliad EY, sy'n rhoi'r cyfleoedd, y profiadau a'r gefnogaeth i bobl ifanc i'w helpu i ddechrau gyrfaoedd yn ein diwydiant. Gwnaethom hefyd groesawu 23 o fyfyrwyr o raglen Busnes a Thechnoleg Smart Futures Sefydliad EY ym mis Hydref, gan helpu'r myfyrwyr i feithrin sgiliau a dysgu mwy am yrfaoedd ym maes polisi a rheoleiddio technoleg.

Yn ystod yr haf, cynhaliodd ein tîm economeg raglen profiad gwaith yn Llundain, Caeredin a Manceinion, gan roi cyfle i wyth myfyriwr, drwy gais agored, ddysgu rhagor am y proffesiwn economeg yn Ofcom. Cynhaliodd y tîm economeg hefyd ddau ddiwrnod gwybodaeth Safon Uwch yn Llundain yn ystod y gwanwyn a'r hydref, ar gyfer dros 60 o fyfyrwyr o dair ysgol mewn cymunedau cymdeithasol amrywiol.

Yn 2025, gwnaethom gryfhau ein hymrwymiad i greu sefydliad mwy cynhwysol a hygyrch. Gwnaethom adnewyddu ein partneriaeth â ReciteMe a pharhau i weithio'n agos gyda'r Growth Company, Tech Vets, RSMP, FedCap, a'r Grŵp Swyddi Amrywiaeth – sydd i gyd yn cefnogi ehangu mynediad at gyflogaeth drwy gysylltu cyflogwyr â thalent sy'n cael ei thangynrychioli, cefnogi newid gyrfa, a hyrwyddo arferion recriwtio teg a chynhwysol. Gwnaethom hefyd lansio partneriaeth newydd gyda GoodWork London, gan ehangu ein cyrhaeddiad drwy ei rwydwaith o sefydliadau cyfeirio, colegau, elusennau a mentrau cymdeithasol.

Rydym yn falch o fod wedi rhagori ar ein targed recriwtio ar gyfer y rhywiau ar lefel uwch eleni. Roedd 60% o'r swyddi uwch wedi'u llenwi gan fenywod, gan gefnogi ein nod o sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn uwch arweinyddiaeth erbyn 2026. Rydym hefyd yn parhau i ehangu ein hôl troed daearyddol, gyda 26% o swyddi eleni'n cael eu llenwi y tu allan i Lundain. Mae hyn yn cynnwys recriwtio staff ar draws ein lleoliadau gan gynnwys Manceinion, Caeredin, Warrington, Caerdydd a Baldock.

Mae symudedd mewnol hefyd yn parhau i dyfu, gyda 42% o'r holl swyddi'n cael eu llenwi gan staff mewnol, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddatblygu gyrfaoedd.

Rydym hefyd wedi parhau â'n hymrwymiadau o dan y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Diogelu a'r Cynllun Ymrwymiad Anabledd, gan sicrhau bod ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol yn cael cyfweliad, gan gynnal cefnogaeth gref i'n cydweithwyr presennol ar yr un pryd.

## Graddedigion

Gwnaeth Ofcom recriwtio 23 o raddedigion newydd ar gyfer ein rhaglen i raddedigion ym mis Medi. Roedd gweithio gyda phartneriaid recriwtio ac asesu arbenigol yn golygu ein bod yn gallu recriwtio graddedigion o safon uchel o gefndiroedd amrywiol ar draws llwybrau ein rhaglenni – gan gynnwys polisi, economeg, polisi sbectrwm a pheirianneg sbectrwm. Yn ystod y rhaglen ddwy flynedd, gall graddedigion ddatblygu ystod eang o sgiliau technegol ac ymddygiadol yn eu dewis faes, gan adeiladu ar eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad presennol.

## Prentisiaethau ac interniaethau

### Prentisiaethau

Gwnaethom barhau â'n partneriaeth â Visionpath i ddarparu rhaglen brentisiaeth wedi'i thargedu at recriwtio pobl ifanc o dan anfantais gymdeithasol sy'n gadael yr ysgol. Ar ôl misoedd o waith allgymorth gydag ysgolion, bwtcamps sgiliau a mentora, ym mis Ebrill gwnaethom gynnal asesiad gyda'r nod o lenwi 11 rôl prentisiaeth. Gwnaeth y myfyrwyr a ddewiswyd ymuno ag Ofcom ym mis Medi, gan gofrestru ar gyfer prentisiaethau mewn meysydd yn cynnwys polisi, economeg, peirianneg, cydymffurfiaeth a rheoli cyfleusterau.

Ym mis Hydref, gwnaethom lansio'r rhaglen am y bumed flwyddyn, gan weithio mewn tua 20 o ysgolion lle buom yn ymgysylltu â dros 500 o ddisgyblion o gymunedau economaidd-gymdeithasol is. Fel rhan o'r rhaglen hon, gwnaethom gyflwyno diwrnodau gwybodaeth a bwtcamps sgiliau i feithrin sgiliau yn y gweithle a helpu'r disgyblion i adnabod a harneisio eu cryfderau. Roedd gan bob disgybl fentor yn Ofcom am dri mis i'w helpu i baratoi ar gyfer asesiadau ac i wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfa. O'r rhaglen hon, ein nod yw recriwtio saith prentis ar lwybrau gan gynnwys polisi, peirianneg, rheoli prosiectau, gweinyddu busnes, seiberddiogelwch a rheoli cynnyrch. Byddant yn ymuno â ni ym mis Medi 2026.

Yn ogystal â phrentisiaid sydd newydd adael yr ysgol, ar hyn o bryd mae gennym fwy na 50 o gydweithwyr sydd eisoes wedi cofrestru ar brentisiaethau i ennill sgiliau ychwanegol fel cymwysterau proffesiynol gan Sefydliad y Cyfrifwyr Rheoli Siartredig, y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac MBA Uwch Arweinwyr.

### Interniaethau

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnig interniaeth wyth wythnos â thâl dros yr haf i 28 o fyfyrwyr a graddedigion prifysgol yn Ofcom, gan gynnwys 24 o interniaid o'r rhaglen 10,000 o Interniaid Du, yr oeddem yn falch o'i chefnogi am y bedwaredd flwyddyn. Yn ystod y rhaglen, caiff interniaid gyfle i weithio ar amrywiaeth o brosiectau, yn ogystal ag ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu pellach. Anogir a chefnogir interniaid i wneud cais am unrhyw swyddi gwag mewnol, gan gynnwys yn ein rhaglen i raddedigion, gyda phedwar o'n graddedigion a dderbyniwyd ym mis Medi 2025 wedi bod ar interniaeth gyda ni o'r blaen.

## Gwirfoddoli

Rydym yn cefnogi ein cydweithwyr i roi'n ôl i'r gymuned. Gellir defnyddio ein habsenoldeb gwirfoddoli yn hyblyg i alluogi cydweithwyr i gynnig eu gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gweithio fel ynadon, cefnogi pobl ifanc mewn lleoliadau academaidd, a gwirfoddoli yn y gymuned.

## Caethwasiaeth fodern

Rydym yn adolygu ein polisïau a'n harferion yn barhaus er mwyn mynd i'r afael â phroblem ddifrifol caethwasiaeth fodern. Rydym yn asesu ein contractau i ganfod risgiau ac os byddwn yn dod o hyd i rai, byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i'w monitro a'u rheoli'n effeithiol. Rydym yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar gaethwasiaeth fodern i ddangos sut rydym yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn.



# Adroddiad ar Gynaliadwyedd

## Datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd canfod, asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac rydym yn parhau i ymrwymo i ddatgelu'n dryloyw sut mae ystyriaethau hinsawdd wedi'u gwreiddio yn ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a gweithredol. Yn unol â dull gweithredu fesul cam Trysorlys EF ar gyfer datgeliadau ariannol sy'n ymwneud â'r hinsawdd ar gyfer cyrff cyhoeddus, rydym yn parhau i gysoni ein hadroddiadau cynaliadwyedd â fframwaith y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD), fel y'i haddaswyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Yn ystod 2025/26, gwnaethom adrodd ar wybodaeth ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF ar wneud cais i'r TCFD. Mae'r canllawiau hyn yn dehongli ac yn defnyddio fframwaith y TCFD mewn ffordd sy'n gymesur â chyrff y sector cyhoeddus ac sy'n cefnogi adrodd cyson ar draws llywodraeth ganolog. Mae ein datgeliadau ar gyfer 2025/26 yn mynd i'r afael â'r colofnau TCFD canlynol a argymhellir:

- Llywodraethu
- Strategaeth
- Rheoli Risg
- Metrigau a Thargedau

Mae'r dull hwn yn dal yn cyd-fynd ag amserlen gweithredu TCFD y Llywodraeth. Yn unol â'r amserlen honno, rydym yn bwriadu ehangu ein datgeliadau i gynnwys y golofn strategaeth mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol, wrth i fethodolegau a disgwyliadau ar gyfer cyrff yn y sector cyhoeddus barhau i ddatblygu.

## Llywodraethu

Mae goruchwylio materion hinsawdd a chynaliadwyedd yn rhan o strwythurau llywodraethu sefydledig Ofcom. Cyflawnir y cyfrifoldeb gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (HSEC) a'r Bwrdd Gweithrediadau, sydd, gyda'i gilydd, yn goruchwylio perfformiad amgylcheddol, cydymffurfiad â'r EMS a chynnydd yn erbyn amcanion cynaliadwyedd y cytunwyd arnynt. Ar ran Bwrdd Ofcom, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn ystyried materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd fel rhan o'i oruchwyliaeth ehangach o reoli risg a rheolaeth fewnol.

Mae Ofcom wedi mabwysiadu Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth, sy'n gosod targedau cynaliadwyedd heriol ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog. Mae perfformiad o ran yr ymrwymiadau hyn yn cael ei fonitro drwy'r System Reoli Amgylcheddol ac yn cael ei adrodd drwy sianeli llywodraethu sefydledig. Mae hyn yn sicrhau bod perfformiad amgylcheddol, gan gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnyddio adnoddau a gwastraff, yn cael ei oruchwylio'n briodol a'i wella'n barhaus.

## Strategaeth

Fel rhan o broses cynllunio busnes flynyddol Ofcom, rydym yn ystyried y gallai risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd a chynaliadwyedd effeithio ar gadernid a pharhad ein gweithrediadau a'n cadwyn gyflenwi ochr yn ochr â blaenoriaethau sefydliadol ehangach. Pan fydd ystyriaethau hinsawdd neu gynaliadwyedd yn berthnasol i amcanion strategol, cynlluniau cyflawni neu benderfyniadau buddsoddi, adlewyrchir hyn yn ein Cynllun Gwaith a'n dogfennau ategol. Wrth asesu risgiau i'n strategaeth, rydym yn ystyried a oes goblygiadau materol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd neu gynaliadwyedd a sut dylid rheoli'r rhain.

## Rheoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Rydym yn rheoli effeithiau amgylcheddol Ofcom drwy system rheoli amgylcheddol sydd wedi'i hachredu gan ISO 14001, sy'n darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer nodi agweddau amgylcheddol, gosod amcanion a thargedau, monitro perfformiad, a sicrhau cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â disgwyliadau adrodd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Mae risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hystyried fel rhan o'n fframwaith rheoli risg menter, gydag asesiadau rheolaidd i bennu eu perthnasedd. O ystyried natur cylch gwaith rheoleiddio Ofcom a gweithrediadau swyddfa yn bennaf, nid yw risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hystyried yn brif risgiau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y potensial i newid yn yr hinsawdd effeithio ar gydnerthedd gweithredol, cadwyni cyflenwi, rheoli ystadau a chynllunio ariannol hirdymor. Mae'r risgiau hyn yn parhau i gael eu monitro ac yn cael eu hadlewyrchu mewn cofrestrau risg corfforaethol a phrosesau adolygu rheolwyr.

## Perfformiad o ran targedau allyriadau

Yn 2025/26, parhaodd Ofcom i wneud cynnydd o ran lleihau allyriadau carbon o'n gweithrediadau, gydag allyriadau'n dal yn sylweddol is na llinell sylfaen 2017/18. Mae hyn yn adlewyrchu gwelliannau parhaus mewn effeithlonrwydd ystadau, arferion gweithredol a ffyrdd o weithio. Ar sail dwyster, mae allyriadau fesul cyfwerth ag amser llawn hefyd yn dal yn sylweddol is na'r flwyddyn sylfaen, sy'n dangos enillion effeithlonrwydd parhaus wrth i'r sefydliad esblygu.

Roedd allyriadau o ddefnydd ynni a thanwydd yr ystâd (Cwmpas 1 a Chwmpas 2) 64% yn is na llinell sylfaen 2017/18, gan adlewyrchu gwelliannau parhaus o ran rheoli ynni ac effeithlonrwydd ystadau. Mae'r gostyngiad hwn yn fwy na'r gyfradd sy'n gysylltiedig â phrif darged Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth.



Wrth ystyried cyfanswm yr allyriadau ar draws yr holl gwmpasau, mae Ofcom yn dal yn agos at gyflawni prif ostyngiad Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth yn erbyn gwaelodlin 2017/18. Mae'r bwlch bach sy'n weddill yn adlewyrchu newidiadau i Ofcom ers y flwyddyn waelodlin yn bennaf, gan gynnwys twf yn ein presenoldeb cenedlaethol a rhanbarthol ac ehangu ein cyfrifoldebau rheoleiddio.

**Tabl 7: Newid mewn FTE ac allyriadau carbon**

| Ofcom | 2017/18 | 2025/26 | % newid | Targed |
|---|---|---|---|---|
| tCO2e | 1,728 | 1,034 | (40%) | (58%) |
| Aelod Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) | 893 | 1,682 | 88% | |
| tCO2e fesul FTE | 1.93 | 0.61 | (68%) | |

## Allyriadau Cwmpas 3 a theithio busnes

Mae'r newidiadau i gyfrifoldebau rheoleiddio wedi cynyddu'r angen am deithio busnes domestig a rhyngwladol, sy'n dal i gynrychioli cyfran sylweddol o ôl troed allyriadau cyffredinol Ofcom. Er bod allyriadau teithiau busnes (Cwmpas 3) wedi gostwng 5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, maent yn dal yn uwch na llinell sylfaen 2017/18. Mae Ofcom yn parhau i fonitro'r allyriadau hyn ac i hyrwyddo ffyrdd carbon is o weithio lle bo hynny'n ymarferol.

Mae ein cynnydd ar y targedau Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth ar gyfer 2025/26 yn cael ei nodi isod. Mae data cynaliadwyedd llawn, gan gynnwys methodoleg ategol a gwybodaeth sylfaenol am ddefnydd, ar gael yn Atodiad 7 yr adroddiad hwn.

| Mesur | | Targed | Cynnydd 2025/26 |
|---|---|---|---|
| **Lliniaru newid yn yr hinsawdd: gweithio tuag at sero net erbyn 2050** | **Prif darged:** Targed Lleihau Allyriadau Cyffredinol | 58% | 40% |
| | **Prif darged:** Targed Lleihau Allyriadau Uniongyrchol (cwmpas 1 yn unig) | 33% | 65% |
| | **Is-darged:** Ceir fflyd y llywodraeth i fod yn gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) erbyn 31 Rhagfyr 2022 | 25% | 13% |
| | **Is-darged:** fflyd ceir a faniau'r llywodraeth i fod yn gerbydau allyriadau sero yn y bibell ôl erbyn 31 Rhagfyr 2027. | 100% | 13%[3] |
| | **Is-darged:** Lleihau'r allyriadau o hediadau busnes domestig | 30% | 46% |
| | **Is-darged:** adrodd am y pellter a deithiwyd mewn hediadau busnes rhyngwladol | | Wedi'i gynnwys yn Atodiad 7 |
| **Lleihau gwastraff a hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau (ar draws holl leoliadau Ofcom)** | **Prif darged:** Lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir | 15% | 31% |
| | **s-darged:** Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi i lai na 5% o'r gwastraff cyffredinol | 5% | 100% |
| | **Is-darged:** Cynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu i 70% o'r gwastraff cyffredinol o leiaf | 70% | 50% |
| | **Is-darged:** Cael gwared ar blastig un-tro gan ddefnyddwyr (CSUP) | | Mae Ofcom wedi cael gwared ar yr holl gytleri a chwpanau coffi un-tro ac wedi rhoi mygiau a chytleri y gellir eu hailddefnyddio yn eu lle. |
| | **Is-darged:** Mesur ac adrodd ar wastraff bwyd erbyn 2022, ar gyfer ystadau sydd â mwy na 50 o staff cyfwerth ag amser llawn a neu dros 500m2 o arwynebedd llawr sy'n cynnig gwasanaeth bwyd | | Included in Annex 7 |
| | **Is-darged:** Lleihau faint o bapur mae'r llywodraeth yn ei ddefnyddio o leiaf | 50% | 98% |
| **Lleihau ein defnydd o ddŵr (ar draws holl leoliadau Ofcom)** | **Prif darged:** Lleihau defnydd dŵr | 8% | 19% |
| | **Is-darged:** Sicrhau bod yr holl ddŵr a ddefnyddir yn cael ei fesur | | Dim ond ar y safleoedd nad ydynt yn cael eu gweithredu gan landlord y mae modd mesur faint o ddŵr mae Ofcom yn ei ddefnyddio. |

3. Yn ystod 2025/26, mae Ofcom wedi newid 5 fan maint canolig disel am rai cwbl drydanol. Yn amodol ar ofynion gweithredol, byddwn yn parhau i ddechrau defnyddio cerbydau cwbl drydanol sy'n gweithio tuag at y targed.

## Adrodd ar gynaliadwyedd yn y dyfodol

Mae Ofcom yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac yn deall bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn gweithredu ac yn cyflawni ein dyletswyddau statudol. Rydym wedi parhau i leihau ôl troed carbon gweithgareddau sydd â'r effaith amgylcheddol fwyaf sylweddol, gan gynnwys gwella effeithlonrwydd ynni ar draws ein hystâd, newid i ddefnyddio cerbydau trydan ac allyriadau isel yn ein fflyd a chynyddu'r defnydd ohonynt, hyrwyddo ffyrdd digidol o weithio, a pheidio â chludo unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.

Rydym yn parhau i weithredu System Reoli Amgylcheddol sydd wedi'i hachredu'n ffurfiol, sy'n darparu dull strwythuredig a systematig o reoli ein cyfrifoldebau amgylcheddol. Mae'r System Reoli Amgylcheddol yn cefnogi'r gwaith o fesur ein hôl troed amgylcheddol, yn ein galluogi i nodi a rheoli risgiau a chyfleoedd, ac yn sbarduno gwelliant parhaus mewn perfformiad amgylcheddol.

Drwy'r fframwaith hwn, rydym yn parhau i wneud y canlynol:

- gweithredu'n unol â Pholisi Amgylcheddol Ofcom, gan ddangos ein hymrwymiad i wella ein perfformiad amgylcheddol;
- defnyddio'r cylch Cynllunio–Gwneud–Gwirio–Gweithredu sy'n sail i safonau system reoli ISO, i gryfhau systemau, prosesau a rheolaethau;
- nodi agweddau amgylcheddol y gweithgareddau y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt, ac asesu eu heffeithiau posibl ar yr amgylchedd;
- deall a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol a gofynion eraill, gan ddefnyddio hyn i asesu beth sy'n gweithio'n dda a lle mae angen gwella ymhellach;
- gosod amcanion mesuradwy a thargedau sy'n cyd-fynd â'r ymrwymiadau a nodir yn ein Polisi Amgylcheddol;
- diffinio camau gweithredu a chynlluniau clir i gyflawni'r amcanion hyn a chydymffurfio â'n rhwymedigaethau;
- grymuso cydweithwyr i gyfrannu at uchelgeisiau cynaliadwyedd Ofcom a dal y sefydliad i gyfrif drwy'r rhaglen Hyrwyddwyr Gwyrdd.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn dal yn rhan annatod o drefn lywodraethu Ofcom, ac i'n penderfyniadau a'n gweithrediadau o ddydd i ddydd, gan gefnogi gwelliant parhaus dros y tymor canolig a'r tymor hir.




Y Fonesig Melanie Dawes DCB
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

7 Gorffennaf 2026

# ATEBOLRWYDD

Mae'r adran hon yn nodi sut rydym yn cael ein rheoli a'n llywodraethu.

# Llywodraethu ac Atebolrwydd

## Trosolwg llywodraethu, gan yr Arglwydd Grade o Yarmouth, y Cadeirydd blaenorol

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol ar gyfer 2025/26, ar ôl cwblhau fy mhedair blynedd fel Cadeirydd Ofcom. Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut mae Ofcom yn mynd ati i lywodraethu, gan gynnwys sut mae'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu.

Eleni, roedd Ofcom ym mlwyddyn gyntaf ei Gynllun Busnes Tair Blynedd. Mae'r cynllun yn sail i ddull gweithredu Ofcom ar gyfer materion gweithredol gan gynnwys cyllidebu, ac mae'n sail hefyd i flaenoriaethau polisi a'r broses o greu pob Cynllun Gwaith blynyddol. Fel rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer blwyddyn dau, fe wnaethom ddiweddaru ein barn ar ein cyd-destun allanol a'n risgiau ehangach a nodi lle'r oedd gwaith newydd yn dod i'r amlwg, yn ogystal ag elfennau mwy sefydledig ein gwaith rheoleiddio. Roedd hyn yn caniatáu i ni adnewyddu ein blaenoriaethau polisi i sicrhau ein bod yn dechrau'r flwyddyn nesaf gyda'n ffocws lle mae angen iddo fod.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i bennu cyfeiriad strategol ein polisi rheoleiddio er mwyn darparu camau rheoleiddio effeithiol i ddefnyddwyr. Rydym wedi goruchwylio'r gwaith o weithredu rhagor o'n dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ac wedi cyrraedd cerrig milltir pwysig, fel y gofynion ar gyfer sicrwydd oedran ac asesiadau risg effeithiol iawn. Rydym wedi cyhoeddi'r codau a'r canllawiau terfynol ar Diogelu Plant ac Diogelu Menywod a Merched. Rydym wedi ymgynghori ar ragor o fesurau ar gyfer y codau Niwed Anghyfreithlon ac Diogelu Plant i adlewyrchu adborth rhanddeiliaid ac ar ddyletswyddau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth i deuluoedd plant sydd wedi marw.

Rydym hefyd wedi dechrau cymryd camau cadarn ar ddiogelwch ar-lein, gan gynnwys defnyddio ein pwerau gorfodi yn erbyn gwasanaethau ar-lein sydd hyd yma wedi methu yn eu dyletswyddau i ddiogelu eu defnyddwyr, ac wedi dechrau rhoi dirwyon pan nad yw gwasanaethau'n cydymffurfio. Rydym wedi nodi ein pedwar disgwyliad craidd o ran diogelwch plant y dylai'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio fwyaf gan blant eu bodloni, a byddwn yn glir gyda defnyddwyr ynghylch sut mae'r disgwyliadau hyn wedi cael eu bodloni.

Fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar Ddiogelwch Ar-lein, sy'n nodi'r newidiadau rydym wedi'u gweld gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, gan dynnu sylw at feysydd lle mae cynnydd cadarnhaol wedi bod, fel defnyddio sicrwydd oedran gan y 100 darparwr pornograffig uchaf, a nodi meysydd lle rydym yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau fynd ymhellach, fel sicrhau prosesau digonol ar gyfer cael gwared ar gynnwys anghyfreithlon yn gyflym. Rydym yn nodi ein safbwyntiau terfynol ar weithredu'r drefn ffioedd a chosbau diogelwch ar-lein, ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad. Rydym hefyd wedi sefydlu'r Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein ac wedi cymeradwyo ei gynllun gwaith cyntaf. Fe wnaethom drafod nodyn cyngor cyntaf y Pwyllgor, ar ddeall niwed ariannol ar-lein, yn ein cyfarfod ym mis Tachwedd.

Yn ogystal â diogelwch ar-lein, rydym wedi ennill dyletswyddau newydd o dan Ddeddf y Cyfryngau 2024 ac mae'r Bwrdd wedi goruchwylio'r rhaglen i ddechrau gweithredu'r dyletswyddau newydd hyn. Rydym wedi trafod y rheoliadau wedi'u diweddaru ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r rheoliadau newydd sy'n berthnasol i feysydd fel darparwyr fideo ar-alw, ac argaeledd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau a dyfeisiau cysylltiedig. Rydym wedi nodi'r risgiau a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ac wedi sicrhau bod y gwaith newydd yn cael ei drefnu a'i ariannu'n briodol.

Arweiniodd y Bwrdd ddatblygiad yr Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026-2031, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth. Roedd y darn sylweddol hwn o waith yn destun trafodaeth helaeth gan y Bwrdd i asesu'r opsiynau a sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr. Bu'r Bwrdd hefyd yn goruchwylio lansiad y gwasanaeth Mapio Eich Ffôn Symudol, sy'n rhoi gwell dealltwriaeth i ddefnyddwyr o ansawdd y ddarpariaeth symudol yn eu hardal, fel rhan o'r strategaeth i ymestyn cystadleuaeth yn y farchnad symudol i gynnwys ansawdd yn ogystal â phris.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o bwysigrwydd strategol y gwasanaeth post ac mae wedi trafod dyfodol y post ar sawl achlysur. Rydym wedi arwain y gwaith o ddiwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y Post Brenhinol ac wedi cael diweddariadau rheolaidd gan y weithrediaeth i sicrhau ein bod yn parhau i weithredu ar ran y defnyddiwr.

Rydym yn goruchwylio'r gwaith o alluogi gwasanaethau diwifr yn economi'r DU drwy drafod Sbectrwm yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd wedi cefnogi cynigion i rannu'r band 6 GHz Uchaf rhwng Wi-Fi a symudol er mwyn sicrhau manteision ar unwaith i ddefnyddwyr a'r economi. Rydym hefyd wedi trafod sut gall defnyddio gwasanaethau lloeren uniongyrchol i ddyfeisiau wella cysylltedd mewn cymunedau gwledig ac anghysbell.

Yn ogystal â phennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer penderfyniadau polisi, mae'r Bwrdd yn cefnogi'r weithrediaeth drwy gymeradwyo'r Cynllun Gwaith blynyddol a'r gyllideb, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n briodol i dimau. Mae'r Bwrdd hefyd yn trafod risg yn rheolaidd a'r angen i gydbwyso llunio polisïau hyderus ac uchelgeisiol â dull gofalus lle bo angen. Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar risgiau i'r amgylchedd rheoleiddio y mae Ofcom yn gweithredu ynddo a sut mae ein rhanddeiliaid yn ystyried ein hagwedd at reoleiddio.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cefnogi gweithrediad llyfn Ofcom drwy oruchwylio materion corfforaethol. Rydym wedi cymeradwyo trefniadau eiddo newydd ar gyfer nifer o'n swyddfeydd, gan roi sicrwydd i gydweithwyr a gwella ein gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd wedi cymeradwyo rhaglen Trawsnewid Ofcom, sydd wedi'i dylunio i wella effeithlonrwydd y sefydliad ymhellach.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ein rôl yn hyrwyddo twf economaidd, sydd, yn ein barn ni, yn gydnaws â'n dyletswyddau rheoleiddio. Mae llawer o'n penderfyniadau rheoleiddio, o gefnogi darlledwyr yn y sector cyhoeddus i hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau telegyfathrebiadau a galluogi mwy o ddefnydd masnachol o sbectrwm, yn cyfrannu at dwf ac arloesedd. Rydym wedi ceisio sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn gymesur ar gyfer y cwmnïau a'r sectorau rydym yn eu gwasanaethu, gyda chanllawiau ar gydymffurfio yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau mwy a llai.

Mae Ofcom yn rheoleiddio ar ran y Deyrnas Unedig gyfan a'r gwledydd ynddi, ac fe wnaeth y Bwrdd barhau â'i draddodiad o ymweld ag un o'r gwledydd datganoledig mewn digwyddiad i randdeiliaid a chyfarfod o'r Bwrdd. Eleni, aeth y Bwrdd i Gaeredin a manteisio ar y cyfle i ymweld â'r National Robotarium ym Mhrifysgol Heriot Watt, yn ogystal â chwrdd â rhanddeiliaid o'r diwydiant o bob rhan o'r Alban mewn derbyniad anffurfiol.

Cynhaliodd y Bwrdd weithdai ar faterion gan gynnwys cadernid ariannol ein rhanddeiliaid a chywirdeb gwybodaeth yn oes deallusrwydd artiffisial (AI), fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, yn ogystal â chael sesiynau briffio ar amrywiaeth o bynciau yn ystod y flwyddyn. Yn niwrnod strategaeth blynyddol ein Bwrdd, fe wnaethom edrych ar ddefnydd plant o gyfryngau cymdeithasol, y defnydd sy'n dod i'r amlwg o AI asiantol gan ddefnyddwyr, y meysydd sy'n dod i'r amlwg ym maes technoleg sy'n debygol o weld buddsoddiad a goblygiadau'r tueddiadau hyn i Ofcom.

Mynychodd aelodau'r Bwrdd wyth cinio anffurfiol gyda chydweithwyr o bob rhan o Ofcom yn ystod y flwyddyn. Mae aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r cyfle yn sgil hyn i gwrdd â chydweithwyr, deall rhagor am ddiwylliant Ofcom a sut mae ein timau yn cyflawni ein rhaglen waith.

Eleni, fe wnaethom ymgysylltu â hwylusydd allanol i gynnal gwerthusiad o'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd. Nododd yr adolygiad nifer o feysydd cryf gan gynnwys trefniadau llywodraethu cryf, goruchwyliaeth effeithiol, a pherthynas adeiladol sydd wedi hen ennill ei phlwyf rhwng y Bwrdd a'r weithrediaeth.

Rydym wedi croesawu un aelod anweithredol newydd i Fwrdd Ofcom. Ymunodd George Walker, aelod Bwrdd yr Alban, ym mis Mawrth 2026 ac mae ganddo brofiad helaeth o reoleiddio, llywodraethu a diogelu defnyddwyr yn y sector cyhoeddus.

Ymunodd Oliver Griffiths, Cyfarwyddwr y Grŵp Diogelwch Ar-lein, â'r Bwrdd ym mis Chwefror 2026 fel aelod gweithredol.

Daeth tymor Bob Downes i ben ar 31 Ionawr 2026 fel aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod o'r Bwrdd ar ran yr Alban. Roedd ei wybodaeth am yr Alban a'i brofiad rheoleiddio eang yn sicrhau bod ei gyfraniadau i'r Bwrdd bob amser yn werthfawr ac yn wybodus. Rydym yn ddiolchgar iddo am ei waith dros ei gyfnod o wyth mlynedd.

Daeth fy nhymor fy hun i ben ar 30 Ebrill 2026 a dymunaf yn dda i'm holynydd [enw] wrth arwain Ofcom at lwyddiant yn y dyfodol.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Fonesig Melanie Dawes, y Bwrdd, yr Uwch Reolwyr a'r holl gydweithwyr am eu cefnogaeth drwy gydol fy rôl fel Cadeirydd.

Michael Grade
Cadeirydd tan 30 Ebrill 2026

Arglwydd Grade o Yarmouth



# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn crynhoi trefniadau llywodraethu Ofcom, gan gynnwys cyfansoddiad ein Bwrdd, sut mae ein fframwaith llywodraethu'n gweithredu'n ymarferol (gan gynnwys ein strwythur llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd) a'r pethau allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26.

## Ein Trefniadau Llywodraethu

Fel corfforaeth statudol, mae prif ofynion cydymffurfio Ofcom o ran llywodraethu yn cael eu nodi yn y ddeddfwriaeth berthnasol (yn cynnwys Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau (2002), y Ddeddf Cyfathrebiadau (2003), y Ddeddf Gwasanaethau Post (2011), Deddf yr Economi Ddigidol (2010), Deddf yr Economi Ddigidol (2017), y Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) (2021), y Ddeddf Diogelwch Ar-lein (2023), Deddf y Cyfryngau (2024) ac unrhyw ddeddfwriaethau atodol eraill sy'n berthnasol neu Orchmynion ynddynt) sy'n pennu materion fel dibenion y sefydliad a phenodi ein Haelodau.

Mae Aelodau Bwrdd Ofcom hefyd yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus yn ogystal â Chod Ymddygiad Ofcom ei hun. Mae ein dull llywodraethu corfforaethol cyffredinol yn seiliedig ar, ond nid yn rhwym wrth God Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig 2024 ("Cod y Deyrnas Unedig") a'i ganllawiau cysylltiedig, yn amodol ar lle ystyrir bod rhai egwyddorion yn anghymesur neu'n llai perthnasol yn achos Ofcom a/neu mae gofynion eraill yn cael eu gosod ar Ofcom drwy statud.

## Sut mae cod llywodraethu corfforaethol y DU 2024 yn cyfrannu at ein dull gweithredu a lle byddwn yn gwyro oddi wrtho

Rydym yn ceisio cymhwyso egwyddorion a darpariaethau Cod y DU i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ac yn briodol, ar gyfer Corff Statudol. Dyma enghreifftiau o sut mae egwyddorion Cod y DU wedi cyfrannu at ein dull gweithredu:

- **Arweinyddiaeth a Phwrpas y Bwrdd:** mae gan ein Bwrdd strategaeth a gwerthoedd clir, ac mae'n gallu bodloni ei hun bod y rhain a'i ddiwylliant yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ein Bwrdd, y mae'r mwyafrif o'r aelodau yn Aelodau Anweithredol, yn cynnig syniadau a her wrthrychol annibynnol ar sut rydym yn cyflawni ein nodau strategol.
- **Rhannu Cyfrifoldebau:** mae Cadeirydd ein Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd. Mae ein Haelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu arnyn nhw i raddau helaeth wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau eu bod yn dal yn annibynnol.
- **Cyfansoddiad, Olyniaeth a Gwerthuso:** Cynhelir gwerthusiad blynyddol ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau'r bwrdd. Fel arfer, cynhelir gwerthusiad allanol bob tair blynedd. Fel y nodir isod, nid yw Ofcom yn penodi ei aelodau Bwrdd.
- **Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol:** mae ein Pwyllgor Risg ac Archwilio yn goruchwylio'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith i reoli ein risgiau, ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith. Ym mhob un o'i gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cael adroddiad ar y Gofrestr Risg Strategol a'r rheolaethau ariannol a gweithredol craidd. Adolygir effeithiolrwydd y swyddogaeth rheoli risg yn flynyddol.

- **Taliadau:** mae ein Hadroddiad Taliadau yn egluro sut rydym yn sicrhau bod ein harferion a'n polisïau taliadau yn cefnogi ein nodau strategol, a bod ein taliadau i staff yn helpu Ofcom i gyflawni ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion.

Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle nad yw'n bosibl dilyn Cod y DU ac, yn yr amgylchiadau hynny, rydym wedi ceisio parhau i ddilyn ysbryd Cod y DU cyn belled ag y bo hynny'n briodol. Un enghraifft o hyn yw penodiadau i'n Bwrdd; er nad ydym yn gwneud ein penodiadau ein hunain, mae ein Pwyllgor Pobl yn adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad y Bwrdd bob blwyddyn ac rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg a'r Llywodraethau datganoledig i gefnogi eu hymgyrchoedd recriwtio a'u gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae'r rôl Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cael ei chyflawni gan y Dirprwy Gadeirydd ac, er nad yw ein haelodau anweithredol yn cael eu hailethol bob blwyddyn, cynhelir adolygiad blynyddol o berfformiad cyfarwyddwyr anweithredol.

Fel Corff Statudol, nid ydym yn cynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol, fodd bynnag, rydym yn ymgynghori'n flynyddol ar ein Cynllun Gwaith ac ar gynigion polisi rheoleiddio mawr i sicrhau bod lleisiau ein rhanddeiliaid yn cael eu clywed.

## Ein Bwrdd: Gweithgareddau a Phwrpas

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol a pharodrwydd y sefydliad i dderbyn risg, a dyma'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ar faterion sydd o arwyddocâd i Ofcom o safbwynt strategol, rheoleiddiol neu enw da. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn helpu i gyflawni diben a strategaeth Ofcom ac mae'n arbennig o bwysig wrth i gylch gorchwyl Ofcom dyfu. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo, drwy ei fframwaith llywodraethu, i wneud penderfyniadau priodol ar y lefel gywir yn Ofcom, ac i sicrhau atebolrwydd, gwerth hirdymor a sut rydym yn cyflawni ein pwrpas o hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion.
Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol pwrpasol sy'n cynnwys datganiad o egwyddorion llywodraethu sy'n llywio gweithgareddau'r Bwrdd. Mae'r Fframwaith yn edrych ar gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd a'r materion sydd wedi cael eu cadw i'r Bwrdd benderfynu arnyn nhw, gan gynnwys y canlynol:

- cymeradwyo Cynllun Gwaith blynyddol ac amcanion hirdymor Ofcom;
- cymeradwyo fframwaith polisi rheoleiddio strategol cyffredinol Ofcom;
- cymeradwyo cyllideb flynyddol, polisi ariannol cyffredinol a Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom;
- cymeradwyo cyfrifon ac adroddiad blynyddol Ofcom;
- rheoli risg, rheolaethau mewnol a chydymffurfiad; a
- chynnal adolygiad ffurfiol a rheolaidd o berfformiad y Bwrdd ei hun, a pherfformiad pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol.

## Penodiadau i'r Bwrdd

Penodir aelodau i'n Bwrdd yn unol â phrosesau penodiadau cyhoeddus y DU. Mae Cadeirydd a mwyafrif Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu penodi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, am gyfnod o bedair blynedd. Mae Aelod yr Alban, Aelod Cymru ac Aelod Gogledd Iwerddon yn cael eu penodi gan Weinidogion yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Economi Gogledd Iwerddon yn y drefn honno, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol. Pan geisir aelodau'r Bwrdd sydd â phrofiad penodol o ddarlledu, mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros benodi'r aelodau hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan Gadeirydd ac Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, ac mae'n rhaid cael sêl bendith Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg wrth benodi'r Prif Weithredwr.
Rydym yn cydnabod nad yw cyfansoddiad y Bwrdd yn cynrychioli poblogaeth y DU yn llawn. Fel yr uchod, rydym yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg a'r Llywodraethau datganoledig i sicrhau bod ein dulliau recriwtio yn y dyfodol yn cyd-fynd â'n hymrwymiad strategol i fod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol. Bydd cael Bwrdd sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau ein cymdeithas yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer holl ddefnyddwyr a dinasyddion y DU. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi penodi un aelod Anweithredol o'r Bwrdd ac un aelod Gweithredol sydd, rhyngddynt, ag ystod eang o arbenigedd a fydd yn ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio.

# Rolau'r Bwrdd

## Y Cadeirydd

Cadeirydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am gadeirio a rhoi arweiniad i'r Bwrdd. Mae'r cyfrifoldebau eraill yn cynnwys:

- arwain y Bwrdd i lunio strategaeth Ofcom ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol;
- hybu safonau uchel o ran priodoldeb;
- darparu asesiad o berfformiad Aelodau Anweithredol unigol o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr;
- sicrhau bod Bwrdd Ofcom yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a bod cofnodion cyfarfodydd yn nodi penderfyniadau yn gywir; a
- chynrychioli barn Ofcom yn allanol.

## Aelodau Anweithredol

Mae'r mwyafrif o aelodau ein Bwrdd yn Aelodau Anweithredol, ac mae gan bob un ohonyn nhw brofiad a sgiliau helaeth i'w cynnig i'r Bwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod cydbwysedd da o sgiliau ar gael i Ofcom wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau, ac wrth bennu'r polisi a'r cyfeiriad strategol – gan gynnwys y fframwaith adnoddau i weithredu Ofcom.

## Y Prif Weithredwr

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros redeg Ofcom o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'i thîm. Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli a Pholisi i weithredu fel y pwyllgor gweithredol ar gyfer rheoli'r sefydliad a pherfformiad ei swyddogaethau rheoleiddio. Ar y Bwrdd hwn y mae'r Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Grŵp, a Chyfarwyddwyr Cyllid a Phobl, Diwylliant a'r Gweithle.

Mae'r Bwrdd Rheoli a Pholisi yn sicrhau bod y strategaethau a'r polisïau y cytunir arnynt ar lefel Bwrdd yn cael eu cyfleu a'u gweithredu'n effeithiol ar draws Ofcom. Mae'r Uwch Dîm Rheoli ehangach yn chwarae rôl arwain ehangach o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad.

Mae Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad hwn yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Ddogfen Fframwaith gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw, a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

# Aelodau'r Bwrdd adeg cyhoeddi

## Syr Ian Cheshire



### Cadeirydd ac Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

**Penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 3 Mehefin 2026**

Treuliodd Syr Ian ei yrfa weithredol mewn busnesau manwerthu, busnesau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid mewn rolau arweinyddiaeth uwch a masnachol, yn ddiweddarach fel Prif Weithredwr Grŵp Kingfisher Plc o 2008 a 2015 a chyn hynny roedd yn brif weithredwr B&Q Plc o fis Mehefin 2005. Cyn hynny, bu'n dal rolau Cyfarwyddwr Anweithredol FTSE 100 yn Barclays Plc (ac fel Cadeirydd Barclays Bank UK), Whitbread Plc, lle'r oedd yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a BT Group Plc a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau.

Roedd hefyd yn Gadeirydd Channel 4 tan Ebrill 2025 ac yn Gadeirydd ymddiriedolaeth fuddsoddi'r DU Menhaden Resource Efficiency Plc tan fis Mai 2023 (ac ymddeolodd o'u Bwrdd ym mis Medi 2024). Ef oedd y prif gyfarwyddwr anweithredol yn Swyddfa'r Cabinet y DU a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Roedd Syr Ian hefyd yn Gadeirydd Consortiwm Manwerthu Prydain, Cadeirydd Grŵp Arweinwyr Corfforaethol Tywysog Cymru ar Newid Hinsawdd, Llywydd Grŵp Llywydd y Fforwm Anabledd Busnes a chadeirydd Tasglu Marchnadoedd Ecosystemau a Thasglu GR.

Cafodd Syr Ian ei urddo'n farchog gan y Brenin yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2014 am ei wasanaethau i Fusnes, Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd ac mae'n Chevalier o Ordre National du Merite Ffrainc.

## Tamara Ingram



### Dirprwy Gadeirydd, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 2 Rhagfyr 2024**

Mae Tamara wedi cael gyrfa helaeth ym maes hysbysebu, marchnata a chyfathrebu digidol yn ymestyn dros 35 mlynedd. Mae wedi dal sawl swydd arweiniol yn y diwydiannau creadigol ac roedd yn Gadeirydd Byd-eang Wunderman Thompson hyd 2020. Mae hi hefyd wedi gwasanaethu fel Prif Weithredwr Byd-eang J. Walter Thompson, Cadeirydd a Phrif Weithredwr Grey, a Phrif Weithredwr McCann Worldgroup a Saatchi a Saatchi yn Llundain.

Ar hyn o bryd, mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol yn Marks and Spencer Group plc ac yn Gadeirydd yr elusen iechyd, Asthma + Lung UK. Mae hi hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn Intertek Group plc, Reckitt Benckiser Group plc, a Chwmnïau Marsh & McLennan.

Mae Tamara hefyd yn hyfforddwr busnes sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth. Arferai fod yn Gadeirydd pwyllgor codi arian y Royal Court, ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol Sage Group plc a Serco Group plc. Dyfarnwyd OBE iddi am ei chyfraniad i dwristiaeth fel Cadeirydd Visit London yn 2012.

## Yr Arglwydd Allan o Hallam



### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Tachwedd 2024**

Mae gan Richard bron i 30 mlynedd o brofiad ym maes datblygu polisi cyfathrebu a thechnoleg. Ers 2010, mae wedi bod yn Aelod anetholedig o Dŷ'r Arglwyddi, ar ôl iddo gael ei wneud yn arglwydd am oes sef Barwn Allan o Hallam, o Ecclesall yn sir De Swydd Efrog. Mae wedi bod yn aelod nad yw'n perthyn i unrhyw grŵp ers 2 Hydref 2024 ac arferai fod yn gysylltiedig â phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol.

Dechreuodd ei yrfa broffesiynol gyda'r GIG, fel Datblygwr Systemau, gan adeiladu rhwydweithiau cyfrifiadurol a systemau gwybodaeth ar gyfer Avon FHSA. Rhwng 1997 a 2005 roedd yn Aelod Seneddol dros Sheffield Hallam, a bu hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Wybodaeth tan 2001. Ymunodd â Cisco Systems yn 2005, gan ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus tan 2009, lle bu'n arwain gwaith y cwmni ar yr holl faterion polisi telathrebu gyda gwleidyddion a rheoleiddwyr. Yna, rhwng 2009 a 2019 bu'n gweithio yn Facebook (Meta bellach) fel Is-lywydd Polisi Cyhoeddus; gan arwain tîm o fwy na 70 o arbenigwyr polisi ar draws EMEA, gan weithredu fel uwch wneuthurwr penderfyniadau ar gwestiynau polisi sensitif.

Ar hyn o bryd mae ganddo rolau Bwrdd Anweithredol gyda Chwmnïau Buddiannau Cymunedol New Automotive a'r Ganolfan Data Cyhoeddus. Mae ei rolau Anweithredol blaenorol yn cynnwys bod yn Aelod o Fwrdd Arsyllfa Cyfryngau Digidol Ewrop, Cadeirydd Tasglu Pŵer y Cyfryngau ac Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Dinas Sheffield.

## Karen Baxter



### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod o'r Bwrdd ar ran Gogledd Iwerddon) ac Aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 28 Mawrth 2022**


Dechreuodd Karen ei gyrfa 30 mlynedd yn plismona yng Ngogledd Iwerddon, gan ennill profiad mewn ystod amrywiol o ymchwiliadau cymhleth gan gynnwys diogelu, lladdiad, gwrthderfysgaeth, a throseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae ehangder y gwaith hwn wedi rhoi dealltwriaeth ddofn iddi o anghenion unigryw cymunedau yng Ngogledd Iwerddon.

Yn 2018, penodwyd Karen fel Comander a Chydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Troseddau Economaidd, gan fod yn gyfrifol yn strategol am yr ymchwiliadau ariannol mwyaf difrifol yn y Deyrnas Unedig. Roedd ei rôl yn cwmpasu arweinydd gweithredol yr heddlu ar gyfer Atal Seiberdroseddau, a bu'n cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol a'r trydydd sector i fynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg yn y maes ariannol a thwyll.

Yn 2020, ymunodd Karen ag UK Finance fel Rheolwr Gyfarwyddwr y Strategaeth Wybodaeth, gan ymgysylltu â sefydliadau ariannol allweddol yn yr adolygiad o wybodaeth ariannol a gweithio gyda nifer o sectorau ar gyflwyno'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

Ym mis Medi 2022, ymunodd Karen â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), fel Cyfarwyddwr Gorfodi, Gwybodaeth a Chymorth Arbenigol. Mae hi'n arwain amrywiaeth o swyddogaethau, gan gynnwys gwybodaeth, data a gwaith fforensig digidol, sydd i gyd yn cefnogi gweithgareddau gorfodi a goruchwylio marchnad yr FCA.

## Dr Angela Dean



### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, (Aelod o'r Bwrdd ar ran Lloegr) Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac Aelod o'r Pwyllgor Pobl

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018**

Ar hyn o bryd, mae Angela yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog ac yn Gadeirydd ei Bwrdd Prosiectau Cyfalaf. Mae'n Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus. Mae wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar nifer o sefydliadau nid-er-elw gan gynnwys Cadeirydd International House Trust, Is-gadeirydd Coleg King's Llundain, ymddiriedolwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac aelod o'r Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

Roedd gyrfa weithredol Angela ym maes cyllid rhyngwladol, yn bennaf fel Rheolwr Gyfarwyddwr Morgan Stanley lle bu'n arwain tîm ymchwil technoleg byd-eang. Roedd yn aelod o Weithgor Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer materion yng nghyswllt cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ym maes buddsoddi.

## Will Harding



### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd ac Aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio

**Penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 3 Hydref 2022**

Mae gan Will bron i 30 mlynedd o brofiad yn y diwydiant cyfryngau. Dechreuodd ei yrfa fel ymgynghorydd rheoli gyda KPMG, cyn treulio pum mlynedd yn BBC Worldwide (BBC Studios erbyn hyn) lle bu'n gweithio ar draws gweithrediadau masnachol a rhyngwladol y BBC.

Yn ddiweddarach, helpodd i lansio ask.com yn y DU cyn symud i Sky, lle daeth yn Gyfarwyddwr Masnachol a Gweithrediadau ei fusnes cyfryngau newydd.

Ymunodd â GCap Media plc yn 2006 fel Cyfarwyddwr Strategaeth Grŵp.

Ar ôl i Global Media ac Entertainment Ltd brynu GCap Media yn 2008, cafodd ei benodi'n Brif Swyddog Strategaeth Global ac ymunodd â phrif fwrdd Global. Yn ystod ei gyfnod yn Global, roedd Will yn gyfrifol am sefydlu'r Global Academy, sef ysgol y wladwriaeth ar gyfer pobl ifanc o bob cefndir sydd eisiau dechrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Fe wnaeth roi'r gorau i'w ddyletswyddau ar Fwrdd Global Media ac Entertainment Ltd ym mis Rhagfyr 2020.

Ers 2021, mae'n un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Primedia, y prif grŵp cyfryngau a hysbysebion sy'n canolbwyntio ar Affrica, ac roedd yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Addysg Baker Dearing rhwng 2021 a 2024. Daeth yn un o Ymddiriedolwyr yr elusen Addysg a Chyflogwyr yn 2024.

## Syr Clive Jones



### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod o'r Bwrdd ar ran Cymru), Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys a Chadeirydd y Pwyllgor Etholiadau

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 12 Chwefror 2024**

Cafodd Clive Jones ei eni a'i fagu yng nghymoedd de Cymru, a threuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd gwaith yn ITV fel newyddiadurwr, cynhyrchydd a golygydd gyda YTV a TV-AM ac yn ddiweddarach fel Prif Swyddog Gweithredol Central Television a Grŵp Teledu Carlton. Bu hefyd yn Rheolwr Gyfarwyddwr ITV Network ac ef oedd Prif Swyddog Gweithredol cyntaf ITV News and Regions, ar ôl creu ITV plc.

Hyfforddodd fel newyddiadurwr gyda'r Yorkshire Post ar ôl graddio o'r LSE.

Mae Clive hefyd yn gadeirydd Sightsavers, elusen yn y DU ar gyfer pobl sy'n colli golwg ac yn gyn-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Runnymede, sef prif felin drafod cydraddoldeb hiliol y DU, ac ef yw Ombwdsmon y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr. Cadeiriodd y Pwyllgor Argyfyngau Brys, roedd ar fwrdd S4C a'i gangen fasnachol S4C Masnachol am chwe blynedd, ac mae'n gyn-gadeirydd Cronfa Eiddo Deallusol Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru.

## Ben Verwaayen



### Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2016**

Ar hyn o bryd mae Ben yn Bartner Cyffredinol gyda chronfa fuddsoddi Keen Venture Partners, ac mae'n aelod o sawl Bwrdd, gan gynnwys Akamai yn yr Unol Daleithiau a Renewi Ltd, cwmni blaenllaw yn yr economi gylchol yn y BeNeLux a'r DU. Mae'n gyn-Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent. Mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd Endemol ac yn Aelod o Fwrdd AkzoNobel yn yr Iseldiroedd a Bharti Airtel, gweithredwr gwasanaethau symudol, yn India.

## George Walker



### Aelod Anweithredol (Aelod Bwrdd ar ran yr Alban)

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Mawrth 2026**

Mae George yn Gyfarwyddwr Anweithredol profiadol sydd â phrofiad eang o reoleiddio, llywodraethu a diogelu defnyddwyr yn y sector cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'n Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn y Rheolydd Pensiynau ac yn Gadeirydd Social Investment Scotland, ac mae wedi bod yn Gadeirydd Rheoleiddiwr Tai'r Alban ac yn Gadeirydd Dros Dro Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban.

Mae ei waith wedi canolbwyntio ar sefydliadau sy'n gweithredu mewn amgylcheddau sy'n fwyfwy digidol ac sy'n cael eu gyrru gan ddata, gyda phwyslais cryf ar ymddiriedaeth defnyddwyr. Mae gan George ddiddordeb ers tro byd mewn diogelwch ar-lein a rheoleiddio digidol, yn enwedig effaith gwasanaethau cyfathrebu ar unigolion a chymunedau. Yn gynharach yn ei yrfa, bu'n gweithio ym maes rheoli asedau yn y DU ac yn rhyngwladol, gan roi persbectif masnachol iddo ar sut mae sefydliadau mawr yn gweithredu.

# Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd

## Y Fonesig Melanie Dawes



### Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 2 Mawrth 2020**

Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Melanie yn Ysgrifennydd Parhaol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2015-2020). Mae wedi ysgwyddo rolau uwch ar draws y Gwasanaeth Sifil, gan weithio mewn partneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Dechreuodd ar ei gyrfa fel economegydd, a threuliodd 15 mlynedd yn y Trysorlys, lle bu'n Gyfarwyddwr Materion Ewropeaidd. Roedd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Ysgrifenyddiaeth Materion Economaidd a Domestig yn Swyddfa'r Cabinet rhwng 2011 a 2015, a chyn hynny bu'n aelod o Fwrdd CThEF fel Pennaeth Treth Busnes. Bu'n Gyfarwyddwr Cyffredinol Treth Busnes o fis Tachwedd 2007, a oedd yn cynnwys bod yn gyfrifol am yr holl drethi a thollau busnes, yn ogystal ag arwain perthynas yr adran â busnesau mawr. O 2009 ymlaen, bu hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth gyffredinol CThEF fel adran.

Mae hi wedi ysgwyddo rolau anweithredol, gan gynnwys gyda'r corff defnyddwyr Which?, ac mae'n un o Noddwyr y Patchwork Foundation sy'n annog pobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan mewn democratiaeth.

## Natalie Black CBE



### Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp, Seilwaith a Chysylltedd

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 11 Tachwedd 2024**

Ymunodd Natalie ag Ofcom yn 2024 fel Cyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Cyfathrebu a Rhwydweithiau (Seilwaith a Chysylltedd erbyn hyn) ac fel Aelod Gweithredol o'r Bwrdd. Mae hi hefyd yn gyfrifol am arwain gwaith Ofcom ar oblygiadau AI.

Cyn hynny, Natalie oedd Comisiynydd Masnach Ei Fawrhydi cyntaf y DU ar gyfer Asia a'r Môr Tawel. Wedi'i lleoli yn Singapore, bu'n arwain strategaeth a gweithrediadau masnach y DU ar draws 15 o wledydd a hi oedd Uwch Swyddog Economaidd cyntaf y DU i ASEAN. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys Cytundeb Economi Ddigidol cyntaf y DU, sicrhau bargeinion buddsoddi newydd o Awstralia a Japan ac ymuno â Chytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel.

Yn y DU, Natalie oedd Dirprwy Bennaeth Uned Polisi'r Prif Weinidog lle bu'n goruchwylio'r Adolygiad o AI (2017) ac yn sefydlu ac yn arwain yr Uned Niwed Ar-lein drawslywodraethol gyntaf. Mae gan Natalie dros 10 mlynedd o brofiad ym maes seiberddiogelwch ac arweiniodd y Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol fel Dirprwy Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr y Swyddfa Seiberddiogelwch yn Swyddfa'r Cabinet ar ôl ymuno â'r Gwasanaeth Sifil o London2012, lle'r oedd yn Bennaeth Staff i'r Cyfarwyddwr Diogelwch.

Mae Natalie yn Athro Gwadd mewn Ymarfer yn Ysgol Economeg Llundain ac yn Arweinydd Byd-eang Ifanc Fforwm Economaidd y Byd. Arferai fod yn un o ymddiriedolwyr Bletchley Park a chyd-sefydlodd GBxAsia (British Tech Advisers erbyn hyn) i gefnogi cydweithio rhwng ecosystemau technoleg y DU ac Asia.

Graddiodd Natalie o LSE ac Ysgol Harvard Kennedy, lle bu'n ysgolhaig Fulbright.

## Oliver Griffiths



Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp, Diogelwch Ar-lein

**Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 9 Chwefror 2026**

Oliver yw ein Cyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Diogelwch Ar-lein ac mae'n gyfrifol am waith Ofcom i wneud bywyd yn fwy diogel ar-lein. Ymunodd ag Ofcom o'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach, lle'r oedd yn Brif Weithredwr, ac arferai fod yn gyfrifol am drafodaethau masnach rhwng y DU ac UDA yn yr Adran Masnach Ryngwladol.

Mae Oliver wedi gwasanaethu fel Llywydd busnes technoleg ariannol newydd, wedi bod ar dîm arweinyddiaeth Banc Buddsoddi Gwyrdd y DU, ac wedi dal swyddi yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Fusnes, ar ôl dechrau ei yrfa fel cyfreithiwr corfforaethol yn Freshfields. Ers 2023, mae wedi bod yn aelod o fwrdd Cronfa'r Bartneriaeth Hinsawdd Fyd-eang.



# Aelodau a adawodd yn ystod y flwyddyn/ ar ôl y cyfnod adrodd

## Bob Downes

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran yr Alban), Aelod o'r Bwrdd Cynnwys ac Aelod o'r Pwyllgor Pobl.

**Penodwyd o 1 Chwefror 2018 i 31 Ionawr 2026**

Bob yw Cadeirydd yr Asiantaeth Farchnata Ganolog yn yr Alban ac mae'n gyfarwyddwr anweithredol annibynnol gyda KUBE Networks yn Glasgow. Arferai fod yn Gadeirydd Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban. Mae hefyd wedi cadeirio Corff Goruchwylio Annibynnol y Comisiwn ar gyfer Rheoleiddio Cyfathrebiadau yn Iwerddon tan 2024 a oedd wedi goruchwylio gwell Model Llywodraethu Rheoleiddio yn Iwerddon gan Eir. Mae Bob yn gynghorydd i nifer o fusnesau technoleg bach. Mae ganddo gefndir mewn telegyfathrebiadau, sefydliadau celfyddydol a diwylliannol a gyda phrifysgolion busnes a thechnoleg.

## Arglwydd Grade o Yarmouth CBE

Cadeirydd, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
Aelod o'r Pwyllgor Pobl.

**Penodwyd o 1 Mai 2022 i 30 Ebrill 2026**


Mae Michael wedi cael gyrfa hir ym maes darlledu, gan gynnwys gyda London Weekend Television, y BBC, ITV a Channel 4. Mae wedi bod yn gadeirydd ar Stiwdios Ffilm Shepperton/Pinewood, y BBC ac ITV. Mae'n gyd-sylfaenydd y cwmni GradeLinnit, sydd wedi cynhyrchu ar gyfer y theatr.

Mae'n Gadeirydd Imagineear Ltd, sy'n darparu arddangosiadau digidol ar gyfer atyniadau byw, ac ar Fwrdd Cynghori Grŵp Arora ar Ehangu Heathrow, ac mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd gydag Ocado, First Leisure Corporation, Camelot, y Rheolydd Codi Arian Elusennol ac Amgueddfa Cyfryngau Bradford, yn ogystal â bod yn aelod o gyn-Gomisiwn Cwynion y Wasg ac yn un o ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Wyddoniaeth.

Mae Michael Grade yn eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi fel Arglwydd nad yw'n perthyn i unrhyw grŵp seneddol. Cafodd ei gyfnod fel arglwydd ei greu ym mis Ionawr 2011.

# Cipolwg ar Lywodraethu

## Pwyllgorau'r Bwrdd









Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli a Pholisi i weithredu fel y pwyllgor gweithredol ar gyfer rheoli'r sefydliad a pherfformiad ei swyddogaethau rheoleiddio. Mae'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol.

## Amrywiaeth Bwrdd Ofcom (ar 31 Mawrth 2026)




## Deiliadaeth mewn rôl Bwrdd Ofcom (ar 31 Mawrth 2026)



## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26

| Aelod | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** (cynhaliwyd deg cyfarfod yn ystod y flwyddyn) |
|---|---|
| Michael Grade (Cadeirydd) | 10 |
| Tamara Ingram (Dirprwy Gadeirydd) | 9 |
| Richard Allan | 10 |
| Karen Baxter | 10 |
| Natalie Black | 10 |
| Melanie Dawes | 10 |
| Angela Dean | 10 |
| Oliver Griffiths | 1 (allan o 1) |
| Will Harding | 10 |
| Clive Jones | 10 |
| Ben Verwaayen | 9 |
| George Walker | 1 (allan o 1) |
| Bob Downes | 8 (allan o 8) |

Gadawodd Ben Downes y Bwrdd ar 31 Ionawr 2026. Ymunodd Oliver Griffiths â'r Bwrdd ar 9 Chwefror 2026. Ymunodd George Walker â'r Bwrdd ar 1 Mawrth 2026. Gadawodd Michael Grade Ofcom ar 30 Ebrill 2026.

### Gwybodaeth Reoli

Mae ein Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybodaeth reoli yn rheolaidd er mwyn gallu adolygu perfformiad a gallu Ofcom. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a chyllid rheolaidd, adolygu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom, adolygu'r broses o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gwaith Ofcom, y polisïau risg a'r gofrestr risgiau strategol, a data corfforaethol arall.

### Gweinyddu'r Bwrdd

Ysgrifennydd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bwrdd, ac mae'n cadw ac yn diweddaru prif weithdrefnau a pholisïau'r Bwrdd, cofnodion corfforaethol a chylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd a Materion sy'n cael eu Cadw ar gyfer y Bwrdd. Ysgrifennydd y Gorfforaeth sydd hefyd yn cynnal ac yn adolygu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom (gan gynnwys Dirprwyaethau Awdurdod a chylch gorchwyl Pwyllgor y Bwrdd) ac, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid, Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom.

Roedd deg o gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Roedd y cyfarfodydd a drefnwyd yn cael eu cynnal bob mis, heblaw am fis Awst a mis Ionawr. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal Sesiwn Strategaeth ym mis Hydref bob blwyddyn, lle mae strategaethau tymor canolig-tymor hir yn cael eu hystyried, a thrafodaethau'n cael eu cynnal ar faterion strategol a pherthnasol. Mae papurau'r Bwrdd sy'n berthnasol i agenda holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, fel y bo'n briodol, tua wythnos cyn y cyfarfod drwy borth digidol diogel.

## Ein Bwrdd: Gweithgareddau

Mae'r siart ganlynol yn nodi sut mae'r Bwrdd wedi neilltuo ei agenda yn ystod y cyfnod adrodd.

| | |
|---|---|
| Rheoli risg, materion cyfreithiol a llywodraethu corfforaethol - 13% | 13% |
| Strategaeth a chynllunio busnes – 10% | 10% |
| Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw - 17% | 17% |
| Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi – 9% | 9% |
| Byw bywyd mwy diogel ar-lein – 21% | 21% |
| Galluogi gwasanaethau diwifr yn economi'r DU - 12% | 12% |
| Cryfhau Ofcom, partneriaethau, sgiliau a gallu - 7% | 7% |

### Enghreifftiau o weithgareddau a wnaed gan y bwrdd

**Rheoli risg, materion cyfreithiol a llywodraethu corfforaethol**

- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024/25
- Penodi aelodau i Fwrdd, paneli a phwyllgorau Ofcom
- Diweddariadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio
- Adolygu polisïau risg a'r gofrestr risg strategol
- Adolygu prosesau ymgyfreitha
- Adolygiad o orfodaeth
- Sefydlu'r Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein
- Pecynnau gwybodaeth rheolaidd am gyllid a rheoli pobl
- Datganiad ar gaethwasiaeth fodern 2025
- Adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor 2025/26
- Adroddiad iechyd a diogelwch blynyddol 2025

**Strategaeth a chynllunio busnes**

- Adolygiadau o gyflawni yn erbyn Cynllun Gwaith 2024/25
- Cynllun Gwaith a chyllideb 2025/26, gan gynnwys blaenoriaethau sefydliadol strategol Ofcom
- Cynllun Busnes Tair Blynedd 2025-28
- Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau
- Twf economaidd a diwygio rheoleiddio

**Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt**

- Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026-2031
- Lansio Mapio eich Ffôn Symudol
- Diweddariad ar farchnadoedd symudol
- Diweddariad ar y Post a'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol
- Fframwaith Diogelwch Telegyfathrebiadau
- Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid a chanolfannau data

**Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi**

- Adolygiad o'r Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus
- Gwaith y Bwrdd Cynnwys
- Rhaglen weithredu Deddf y Cyfryngau
- Rhaglen waith y BBC ac adolygu'r Siarter
- Argaeledd ac amlygrwydd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus
- Ymgynghoriad ar god safonau Fideo Ar-alw

**Byw bywyd mwy diogel ar-lein**

- Rhaglen waith Diogelwch Ar-lein a diweddariadau
- Rhaglen a nodyn cyngor y Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein
- Ffioedd a chosbau Diogelwch Ar-lein
- Adroddiad blynyddol Diogelwch Ar-lein
- Sicrhau ymrwymiadau gan y gwasanaethau mwyaf i ddiogelu defnyddwyr sy'n blant

**Galluogi gwasanaethau diwifr yn yr economi ehangach**

- Diweddariadau ar y rhaglen sbectrwm
- System trwyddedu sbectrwm

**Cryfhau Ofcom, partneriaethau, sgiliau a gallu**

- Diweddariadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Pobl
- Rhaglen Trawsnewid Ofcom
- Strategaeth ystadau
- Strategaeth gweithlu y tu allan i Lundain

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd

Mae Ofcom wedi ymrwymo i ddatblygiad parhaus ei aelodau Bwrdd, ac rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ddatblygu gwybodaeth er mwyn i'r aelodau allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae pob aelod Bwrdd a benodir o'r newydd yn cael rhaglen gynefino gynhwysfawr a phwrpasol wrth ymuno ag Ofcom, sy'n cynnwys cyfarfodydd gyda phob Cyfarwyddwr Grŵp ac aelodau o'u timau. Mae'r broses gynefino hefyd yn cynnwys dyletswyddau aelodau a gweithdrefnau'r Bwrdd, prosesau rheoli mewnol, strategaethau a chynllunio, mesurau a ddefnyddir i fonitro perfformiad a'r Polisi Rheoli Risg ynghyd â'r Archwiliad Mewnol ac Allanol.

Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael cyflwyniadau a chyfarfodydd briffio ar wahanol agweddau ar Gynllun Gwaith Ofcom yn ystod y flwyddyn.

## Adolygiad o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Bwrdd

Cwblhawyd adolygiad dan arweiniad allanol o effeithiolrwydd Bwrdd Ofcom a'i Bwyllgorau ym mis Ionawr 2026 gan Independent Audit Limited (IAL). Mae IAL wedi llofnodi'r Cod Ymarfer ar gyfer adolygwyr Bwrdd Annibynnol a chawsant eu penodi yn dilyn proses dendro[4]. Ystyriodd yr adolygiad bapurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau, arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor Risg ac Archwilio a'r Pwyllgor Pobl. Casglodd IAL adborth hefyd drwy holiaduron a chyfweliadau gydag aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Weithrediaeth. Aeth IAL i gyfarfod o'r Bwrdd i drafod canlyniadau'r adolygiad ac i ateb cwestiynau'r cyfarwyddwyr.

## Casgliad cyffredinol

Yn seiliedig ar yr adolygiad, daeth y Bwrdd i'r casgliad bod ganddo nifer o feysydd cryf gan gynnwys trefniadau llywodraethu cryf, goruchwyliaeth effeithiol, a pherthynas adeiladol sydd wedi hen ennill ei phlwyf gyda'r Weithrediaeth.

Nododd yr adolygiad fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r Bwrdd bellach yn gweithredu ar lefel strategol briodol. Ystyrir bod y Bwrdd mewn sefyllfa dda i gyflawni ei gyfrifoldebau presennol, gan gydnabod yr angen i barhau i esblygu mewn ymateb i amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym ac sy'n effeithio ar y sectorau mae Ofcom yn eu rheoleiddio, a'r defnyddwyr yn y sectorau hyn.

## Canfyddiadau allweddol

Nododd yr adolygiad nifer o feysydd lle mae'r Bwrdd yn perfformio'n arbennig o gryf:

- Perthynas gref ac effeithiol rhwng y Bwrdd a'r Weithrediaeth, wedi'i seilio ar natur agored, parch at ei gilydd a hyder mewn gallu gweithredol.
- Prosesau sefydledig y Bwrdd, gan gynnwys gosod agendâu'n effeithiol, rheoli cyfarfodydd a chofnodi, gyda chefnogaeth Ysgrifenyddiaeth uchel ei pharch y Cwmni.
- Diwylliant Bwrdd colegol ac ymgysylltiol, gyda chyfarwyddwyr anweithredol yn dod ag ystod eang o brofiad, yn paratoi'n drylwyr, yn darparu her adeiladol ac yn cyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau ar y cyd.
- Defnydd effeithiol o ddiwrnodau strategaeth, gweithdai a sesiynau briffio i gefnogi dealltwriaeth y Bwrdd ar draws cylch gwaith eang Ofcom.
- Cadeirio cynhwysol ac effeithiol, gan alluogi trafodaeth gytbwys a chyfranogiad gweithredol gan holl aelodau'r Bwrdd.
- Pwyllgorau sy'n gweithredu'n dda, gan ddarparu dyfnder priodol o graffu a herio.

4. Yn unol â phrosesau caffael Ofcom, cynhaliwyd proses dendro gystadleuol i nodi a phenodi IAL. Gwnaed y penodiad gan Ysgrifennydd y Gorfforaeth. Nid oes gan IAL unrhyw gysylltiadau eraill ag Ofcom.






## Elfennau i'w datblygu

Roedd yr adolygiad hefyd yn tynnu sylw at feysydd lle dylai'r Bwrdd barhau i ddatblygu ei effeithiolrwydd, gan adlewyrchu graddfa a chyflymder y newid yn amgylchedd gweithredu Ofcom. Bydd y meysydd hynny, wedi'u crynhoi isod, yn cael eu hystyried yn llawn gan y Cadeirydd a'r Bwrdd maes o law, gan nodi y byddai Cadeirydd newydd yn ymuno ag Ofcom ym mis [Mehefin 2026]:

- Datblygu dealltwriaeth gliriach a rennir o "restr trosolwg" y Bwrdd, gan gynnwys cyfrifoldebau, risgiau a rhanddeiliaid Ofcom, i gefnogi blaenoriaethu amser y Bwrdd a ffocws yr agenda a chaniatáu integreiddio strategaeth Ofcom yn llawn.
- Cryfhau trafodaethau sy'n edrych tua'r dyfodol ac ar sail senarios, yn enwedig mewn perthynas â risgiau strategol, technolegol, enw da a geowleidyddol sy'n dod i'r amlwg.
- Trafodaeth bellach y Bwrdd ar y sgiliau, y profiad a'r safbwyntiau a fydd bwysicaf ar gyfer cyfansoddiad y Bwrdd dros y blynyddoedd nesaf, a sut y dylid mynd i'r afael ag unrhyw fylchau. Er nad yw'r Bwrdd yn penodi ei aelodau, efallai y bydd ffyrdd creadigol o ganfod ac ymateb i unrhyw fylchau, gan gynnwys yn amrywiaeth y Bwrdd
- Parhau i wella papurau'r Bwrdd, gan gynnwys cyfleu'n gliriach yr hyn sy'n ofynnol gan y Bwrdd a safbwyntiau cliriach i gefnogi trafodaeth strategol â ffocws.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel yn ei holl waith. Mae Ofcom yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus ac, i gefnogi hyn, mae Ofcom wedi sefydlu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch buddiannau Aelodau. Mae Cod Ymddygiad y Bwrdd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

Mae Ofcom yn mynd ati'n synhwyrol a phriodol i reoli gwrthdaro posib rhwng buddiannau sydd gan Aelodau'r Bwrdd, neu a all godi o bryd i'w gilydd, i sicrhau nad yw gweithredoedd Aelodau yn bwrw amheuaeth dros ddidueddrwydd a gwrthrychedd Ofcom. Rhaid i Aelodau sicrhau hefyd bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus'.

Mae Ofcom yn cadw Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol. Rhwng datganiadau blynyddol, mae'n rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth pan fydd eu buddiannau'n newid er mwyn newid y Gofrestr yn unol â hynny a, phan fydd angen, codi unrhyw wrthdaro posibl gyda'r Cadeirydd a/neu Fwrdd llawn Ofcom. Mae hyn yn cefnogi'r modd i gynnal cofnod cyfredol o fuddiannau Aelodau, a chyhoeddir gwybodaeth berthnasol ar wefan Ofcom.

# Pwyllgorau'r Bwrdd a Byrddau Statudol

Wrth arfer dyletswyddau Ofcom dan y ddeddfwriaeth berthnasol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd, yn unol ag awdurdod a chylch gorchwyl sydd wedi'u diffinio'n glir.

Mae gan Ofcom hefyd nifer o gyrff eraill sy'n cyflawni rôl lywodraethu neu gynghori i'r Bwrdd. Disgrifir gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau a'r cyrff hyn isod.

## Y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys yr Aelodau Anweithredol canlynol o'r Bwrdd: Angela Dean (Cadeirydd), Karen Baxter a Will Harding. Gwahoddir Cadeirydd Bwrdd Ofcom, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol, y Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant a Dirprwy Ysgrifennydd y Gorfforaeth i gyfarfodydd y Pwyllgor, yn yr un modd â'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys, ymysg pethau eraill, systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gynnwys adolygu effeithiolrwydd y systemau hynny. Nodir rôl a chyfrifoldebau llawn y Pwyllgor Risg ac Archwilio, ynghyd â gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd, yn Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar dudalennau 96-99.

## Y Pwyllgor Pobl

Mae aelodaeth y Pwyllgor Pobl yn cynnwys yr Aelodau Anweithredol canlynol o'r Bwrdd: Tamara Ingram (Cadeirydd) ac Angela Dean. Roedd Michael Grade yn aelod o'r Pwyllgor tan i'w dymor ddod i ben ar 30 Ebrill 2026. Prif bwrpas y Pwyllgor Pobl yw darparu safbwynt cynnar, tymor hir a strategol ar feysydd sy'n ymwneud â Phobl a Gweithlu Ofcom, a gwerthuso (drwy ymgynghori â'r Prif Weithredwr) a herio o bryd i'w gilydd y cynnydd a wnaed ar Strategaeth Pobl a Diwylliant Ofcom (pan gaiff hyn ei ystyried yn briodol). Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd gan reolwyr Ofcom bod mesurau a chynlluniau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli talentau, datblygu talentau a chynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli perfformiad, diwylliant a gwerthoedd, ac ymgysylltu â chydweithwyr, ynghyd â meysydd eraill yn ymwneud â phobl i ategu perfformiad, sgiliau ac arbenigedd Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Pobl hefyd yn pennu'r egwyddorion cyffredinol a'r paramedrau perfformiad ynghyd â'r polisi taliadau ar draws Ofcom, ac mae'n ystyried ac yn cymeradwyo telerau ac amodau unigol gwasanaethau, gan gynnwys trefniadau taliadau'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Grŵp a chydweithwyr allweddol eraill. Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses o benodi Aelodau Gweithredol y Bwrdd a Chyfarwyddwyr Grŵp eraill, ac yn cymeradwyo'r cynlluniau olyniaeth ar gyfer Bwrdd Ofcom, y Cyfarwyddwyr Grŵp a rolau allweddol eraill. Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl dair gwaith yn ystod 2025/26 yn ogystal ag ystyried a chytuno ar amrywiaeth o faterion drwy ohebiaeth rhwng cyfarfodydd ffurfiol.

## Y Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys ar bob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, pob gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol, a phob gwasanaeth radio analog cenedlaethol (hynny yw, masnachol ar draws y DU), a'u gwasanaethau cyd-ddarlledu digidol.

Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amserlennu darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau. Mae gan y Pwyllgor Etholiadau awdurdod dirprwyedig hefyd i wneud penderfyniadau ar gwynion sy'n ymwneud â'r safonau a osodwyd gan Ofcom mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni a ddarlledir yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys hyd at bum aelod. Clive Jones yw Cadeirydd y Pwyllgor Etholiadau, ac fe gafodd ei benodi gan Fwrdd Ofcom ym mis Ebrill 2024. Dewisir aelodau pwyllgor o blith y Bwrdd Cynnwys a/neu Ofcom, yn ôl penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor, gyda chworwm o dri aelod (mae angen i ddau ohonynt fod yn Aelodau o'r Bwrdd Cynnwys). Cyfarfu'r Pwyllgor Etholiadau ar gyfer sesiwn friffio cyn yr etholiad ym mis Mawrth 2026 ond ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor yn 2025/26.

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys wedi ei sefydlu o dan Adran 12(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cyflawni rôl gynghori i Fwrdd Ofcom ar agweddau sy'n ymwneud â chynnwys mewn penderfyniadau neu faterion sydd wedi eu cadw ar gyfer y Bwrdd.

Yn ystod 2025/26, parhaodd y Bwrdd Cynnwys â'i waith i ddeall, i ddadansoddi ac i hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion. Roedd yn edrych ar faterion lle'r oedd buddiannau dinasyddion yn ymestyn y tu hwnt i fuddiannau defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar fudd y cyhoedd. Bu'r aelodau'n ystyried ac yn cyfrannu at ddatblygiad polisi Ofcom yn ei gyfarfodydd ffurfiol, weithiau mewn is-grwpiau neu'n unigol. Ar ben hynny, roedd yr Aelodau'n parhau i helpu Ofcom i osod a gorfodi ansawdd a safonau ar gyfer teledu a radio.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, dyma'r Aelodau Anweithredol oedd ar y Bwrdd Cynnwys: Clive Jones (Cadeirydd), Simon Bucks, Peter Horrocks, Peter MacMahon, Maria McCann, Ruth McElroy, Yolisa Phahle, Kim Shillinglaw, Karen Marsh (a elwir yn Kate, o 1 Tachwedd 2025 ymlaen) ac Aelod Gweithredol: Cristina Nicolotti Squires. Roedd Dekan Apajee a Bob Downes yn aelodau Anweithredol o'r Bwrdd Cynnwys, tan 31 Hydref 2025 a 31 Ionawr 2026 yn y drefn honno. Roedd Alison Marsden yn Aelod Gweithredol a ddaeth i'w chyfarfod olaf ar 30 Medi 2025 cyn gadael Ofcom ym mis Chwefror 2026.

Cyfarfu'r Bwrdd Cynnwys chwe gwaith yn 2025/26.

## Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

Mae Adran 20 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y DU. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw rhoi cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r DU a wasanaethir gan y Pwyllgor, mewn perthynas â materion cyfathrebiadau a materion post. Yn ychwanegol at Aelodau penodedig y Pwyllgorau Cynghori, mae'r Aelod o Fwrdd Ofcom, Aelod o'r Bwrdd Cynnwys a'r Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar gyfer y gwledydd yn gwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori fel sylwedyddion.

Mae rôl y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, ynghyd â rôl Aelodau Gwledydd y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn werthfawr o ran helpu Ofcom i ystyried materion penodol yng ngwledydd datganoledig y DU wrth lunio a gweithredu ein polisïau.

Cyfarfu pob un o'r Pwyllgorau Cynghori bedair gwaith yn 2025/26. Mae gwybodaeth am y meysydd allweddol ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau Cynghori yn ystod y flwyddyn ar gael ar ein gwefan. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, dyma oedd Aelodau'r Pwyllgor Cynghori a'r sylwedyddion:

## Pwyllgor Cynghori Lloegr

**Aelodau: Richard Bellamy** (Cadeirydd o 1 Awst 2025 ymlaen), **Caroline Gardner, Edleen John, Mauro Mortali, Kavya Sharma** (o 1 Mehefin 2025 ymlaen) ac **Andrew Squires May** (o 1 Mehefin 2025 ymlaen).

Roedd Paula Carter yn Gadeirydd y Pwyllgor tan 31 Gorffennaf 2025 ac roedd Aaqil Ahmed yn Aelod tan 31 Mai 2025.

**Sylwedyddion: Angela Dean** (Bwrdd Ofcom), **Yolisa Phahle** (Bwrdd Cynnwys - Aelod penodedig ar gyfer Lloegr 1 Tachwedd 2025) a **Robert Hammond** (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl).

Roedd Dekan Apajee (Bwrdd Cynnwys) yn sylwedydd tan 31 Hydref 2025.

## Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon

**Aelodau: Colm Murphy** (Cadeirydd), **Uel Johnston** (o 17 Tachwedd 2025 ymlaen), **Aodhan O'Donnell, Paul Wickens, Maeve Connolly** (o 1 Mawrth 2026 ymlaen) a **Michael Wilson.**

Roedd Jackie Neill yn aelod tan 5 Rhagfyr 2025.

**Sylwedyddion: Karen Baxter** (Bwrdd Ofcom), **Maria McCann** (Bwrdd Cynnwys) a **Carrie Matchett** (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/ Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl).

## Pwyllgor Cynghori'r Alban

**Aelodau: Jessica McBeath** (Cadeirydd), **Ashe Hussain, Polly Tolley, Caroline Di Stefano, Matthew Springford** (o 1 Rhagfyr 2025) a **Cameron Speirs.**

Roedd Stephen O'Donnell yn Aelod rhwng 1 Gorffennaf ac 8 Hydref 2025.

**Sylwedyddion: George Walker** (Bwrdd Ofcom - Aelod Bwrdd penodedig ar gyfer yr Alban 1 Mawrth 2026) a **Peter MacMahon** (Bwrdd Cynnwys).

Roedd Bob Downes (Bwrdd Ofcom) yn sylwedydd tan 31 Ionawr 2026.

## Pwyllgor Cynghori Cymru

**Aelodau: Aled Eirug** (Cadeirydd), **Angharad Evans, Geraint Strello, Matthew Williams** (o 1 Mawrth 2026), **Shayoni Lynn** (o 1 Mawrth 2026) a **Ruth Mullineux-Morgan** (o 1 Mawrth 2026).

Roedd Karen Lewis ac Amanda Rees yn Aelodau tan 10 Mehefin 2025 a 26 Chwefror 2026 yn y drefn honno.

**Sylwedyddion: Clive Jones** (Bwrdd Ofcom), **Ruth McElroy** (Y Bwrdd Cynnwys) a **Rachel Burr** (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

## Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein

Mae Adran 152 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu ac yn cynnal Pwyllgor Cynghori ar dwyllwybodaeth a chamwybodaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf ym mis Mai 2025.

Mae'n cynnwys cadeirydd a benodir gan Ofcom sy'n Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom sydd â phrofiad o faterion diogelwch ar-lein, ac aelodau eraill a benodir gan Fwrdd Ofcom sy'n gallu cynrychioli buddiannau defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU, ac sydd ag arbenigedd mewn atal a delio â thwyllwybodaeth a chamwybodaeth ar-lein.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei nodyn cyngor cyntaf ym mis Tachwedd 2026 ar Ddeall Niwed Ariannol Ar-lein. Bydd ei nodiadau cyngor sydd ar y gweill yn ymdrin â gwybodaeth ffug a sïon di-sail yn ystod adegau o argyfwng, a bygythiadau ar sail gwybodaeth sy'n berthnasol i etholiadau'r DU.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, dyma aelodau'r Pwyllgor: Richard Allan (Cadeirydd), Elisabeth Costa, Jeff Howard, Will Moy a Devika Shanker-Grandpierre. Roedd Mark Scott yn aelod tan 28 Chwefror 2026.

Cyfarfu'r Pwyllgor naw gwaith yn 2025/26.

## Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 16 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu ac yn cynnal Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau mewn cyfathrebiadau. Mae'n darparu cyngor cadarn, annibynnol, pragmatig ac adeiladol. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn ystod y camau cynnar o ddatblygu polisi, er mwyn iddynt allu rhoi cyngor i sicrhau bod llais defnyddwyr (yn enwedig llais y rhai sy'n llai tebygol o gael eu clywed) yn cael ei ystyried o'r cychwyn.

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn rhoi cyngor i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebiadau sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl anabl.

Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom, ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl, sefydlwyd bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff a'r llall yn ystod 2012. Ond, nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o arbenigwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, sydd â phrofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn aelodau'r Panel - Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, aelodau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl oedd Helen Froud (Cadeirydd), Carrie Matchett (Aelod ar ran Gogledd Iwerddon), Rachel Burr (Aelod ar ran Cymru), Robert Hammond (Aelod ar ran Lloegr), Sarah O'Neill (Aelod ar ran yr Alban o 5 Ionawr 2026 ymlaen), yr Athro Judith Clifton, Lenna Cumberbatch, Dr Michelle Goddard, Grant Davis, David Warburton-Broadhurst, Rhian Johns a Dr Michael Wardlow. Wrth ddisgwyl i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo Aelod newydd dros yr Alban, Helen Froud oedd yn cynrychioli defnyddwyr yr Alban yn ogystal â'i rôl fel Cadeirydd newydd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau.

Cyfarfu'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn ffurfiol un ar ddeg o weithiau yn 2025/26, gan ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau strategol o sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael yn gyffredinol fel hawl i bawb, safonau gwasanaeth rhagorol a gwasanaeth i gwsmeriaid, a gwrando ar lais y defnyddiwr. Cyflwynodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau raglen eang o gyngor polisi arbenigol, drwy gyfarfodydd ac ymatebion i ymgynghoriadau, gan ddefnyddio eu hymchwil eu hunain ac ymchwil eu partneriaid sy'n cynrychioli defnyddwyr, ac adeiladu ar eu hymgysylltiad â rhanddeiliaid ledled y DU.

Fe wnaeth y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ymgysylltu'n rheolaidd ag Ofcom a chyrff defnyddwyr mewn cyfarfodydd a rhyngddynt, ynghylch fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebiadau, ar y rhaglen newid i VOIP a chysylltedd yng nghefn gwlad, cynghori Ofcom a'r diwydiant ar y goblygiadau i ddefnyddwyr wrth ddiffodd 2G a 3G, ac ymgysylltu ag Ofcom a'r Post Brenhinol ar ddyfodol rheoleiddio'r gwasanaethau post. Roedd y Panel hefyd wedi hyrwyddo ei ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd ag Ofcom a oedd yn edrych ar well cynhwysiant mewn ymchwil i ddefnyddwyr anabl a defnyddwyr sydd â chyflyrau hirdymor a'i ymchwil i fusnesau gwledig, trefol a micro, gan ehangu ei wybodaeth am ddibyniaeth defnyddwyr ledled y DU ar wasanaethau cysylltedd hanfodol drwy gomisiynu prosiect ymchwil defnyddwyr ar effaith cyfnodau segur rhwydwaith.

Mae gan y Panel gylch gwaith nawr i gynghori ar ran defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau o ran Diogelwch Ar-lein ac ar ddiogelu defnyddwyr rhag problemau gwasanaeth cyfradd premiwm. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau wedi gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn ar yr olaf ac ers mis Chwefror 2026, roedd ei aelodaeth yn cynnwys cyn Gadeirydd Panel Defnyddwyr PSA, Rhian Johns. O ran y cyntaf (Diogelwch Ar-lein), rôl y Panel yn 2025/26 fu deall lle mae yn y sefyllfa orau i gynghori Ofcom ar Ddiogelwch Ar-lein a chyflawni ei rôl gyffredinol o ddod â llais y defnyddiwr i Ofcom mewn perthynas â niwed ar-lein i ddefnyddwyr, gan ddefnyddio ac adeiladu ar ei rwydwaith rhanddeiliaid presennol ac edrych i'r byd academaidd i gryfhau ei ymwybyddiaeth ymhellach.

## Grŵp Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Grŵp Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm (OSAG) yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [www.ofcom.org.uk/about-ofcom/structure-and-leadership/ofcom-spectrum-advisory-group](www.ofcom.org.uk/about-ofcom/structure-and-leadership/ofcom-spectrum-advisory-group)


Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, aelodau'r Grŵp Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm oedd Gavin Young (Cadeirydd), yr Athro Mischa Dohler, Peter Hadinger, Dr Robert Pepper, Ros Singleton, Alastair Davidson, Dr Abhaya Sumanasena, Dimitra Simeonidou, Kirsty McBeath, Graham Louth, Dr Philip Kalmus, Brandy Sykes (o 1 Ionawr 2026) a Sophie Lyddon (Aelod ex-officio).

Roedd Wassim Chourbaji yn Aelod tan 31 Rhagfyr 2025.

Cyfarfu'r Grŵp hwn dair gwaith yn 2025/26.

## Amrywiaeth

Roedd amrywiaeth ein poblogaeth anweithredol ehangach yn y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, y Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl ar ddiwedd y cyfnod adrodd fel a ganlyn:




## Y Bwrdd Rheoli a Pholisi

Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli a Pholisi i weithredu fel y pwyllgor gweithredol ar gyfer rheoli'r sefydliad a pherfformiad ei swyddogaethau rheoleiddio.

Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cadeirio'r Bwrdd Rheoli a Pholisi. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Grŵp, y Cyfarwyddwr Pobl, Diwylliant a'r Gweithle, a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae Ysgrifennydd y Gorfforaeth yn bresennol ac mae uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad. Cyfarfu'r Bwrdd Rheoli a Pholisi 10 gwaith yn 2025/26.


**Roedd aelodaeth y Bwrdd Rheoli a Pholisi ar ddiwedd y cyfnod adrodd fel a ganlyn:**

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Y Fonesig Melanie Dawes DCB | Prif Weithredwr |
| Luisa Affuso | Prif Economegydd, Cyfarwyddwr Grŵp Economeg a Dadansoddeg |
| Martin Ballantyne | Cwnsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Grŵp Cyfreithiol |
| Natalie Black CBE | Cyfarwyddwr Grŵp, Seilwaith a Chysylltedd |
| Kate Davies | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth ac Ymchwil (o 1 Medi 2025) |
| Oliver Griffiths | Cyfarwyddwr Grŵp, Diogelwch Ar-lein |
| Jessica Hill | Cyfarwyddwr Pobl, Diwylliant a'r Gweithle |
| Richard Hornby | Cyfarwyddwr Cyllid (o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen) |
| Cristina Nicolotti Squires | Cyfarwyddwr Grŵp, Darlledu a'r Cyfryngau |
| Melissa Tatton CBE | Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Grŵp Corfforaethol |
| David Willis | Cyfarwyddwr Grŵp, Sbectrwm |

### Aelodau'r Bwrdd Rheoli a Pholisi a adawodd yn ystod y flwyddyn

| Enw | Rôl |
| --- | --- |
| Atif Moghal[5] | Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (tan 30 Mehefin 2025) |
| Yih-Choung Teh | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth ac Ymchwil (tan 30 Ebrill 2025) |
| Ed Leighton | Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Strategaeth ac Ymchwil (1 Mai tan 30 Medi 2025) |

### Amrywiaeth y Bwrdd Rheoli a Pholisi ar 31 Mawrth 2026




## Ein Huwch Dîm Rheoli

Mae ein Huwch Dîm Rheoli yn cyflawni rôl arwain ehangach o ddydd i ddydd ar draws Ofcom ac mae'n cynnwys pob Cyfarwyddwr Grŵp, y Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, Cyfarwyddwr Pobl, Diwylliant a'r Gweithle, a Chyfarwyddwr Cyfathrebiadau.



5. Ailgydio yn ei rôl fel Pennaeth Cyllid a Chyllid Strategol

# Atebolrwydd

O dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ac ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Hefyd, anfonir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom at yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu'n gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Disgrifir y ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus rydym yn ei gael, a'n perthynas â'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn y cyswllt hwn, yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r Datganiad Cyfrifon ar sail busnes byw.

## Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ein cynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ein gwefan. Lle bo modd, mae Ofcom yn sicrhau bod y data rydym yn ei greu a'i gasglu yn cael ei rannu â'r cyhoedd, gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae data agored Ofcom ar gael ar un porth cyhoeddus ar ein gwefan ac ar y porth data.gov.uk, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau'r Llywodraeth ganolog a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2025/26, roedd Ofcom wedi ymateb i 657 o geisiadau am wybodaeth (447 o geisiadau yn 2024/25) o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, roeddem wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 76% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Yn ystod 2025/26, cafodd Ofcom 75 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (55 o geisiadau yn 2024/25) hefyd. Pan fo gennym wybodaeth berthnasol, fe wnaethom ddarparu'r wybodaeth honno.

## Ymgysylltu

Mae Ofcom yn ceisio ystyried safbwyntiau amrywiaeth eang o bartïon sydd â diddordeb wrth wneud penderfyniadau polisi. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/ Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol a'r Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein, rydym hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys drwy gymryd rhan yn Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU a'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol), Sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.

Mae ymgynghori hefyd yn rhan bwysig o broses Ofcom o wneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i'r rhai y gallai mater penodol effeithio arnyn nhw, neu sy'n pryderu am fater penodol, gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn y byddwn yn penderfynu sut byddwn yn gweithredu.

O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ein holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ddull ymgynghori Ofcom, a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod 2025/26, ar gael yn adran Egwyddorion Rheoleiddio Ofcom ar dudalennau 54 yn yr Adroddiad Perfformiad.

## Diogelwch

Ofcom continued to strengthen its security arrangements across physical, cyber, information and personnel security to protect our people, assets, information and operations. Our security activity remained aligned with the Government Functional Standard for Security, and we continued to assess and manage risks in line with our organisational risk appetite. Threat assessments, security reviews and internal assurance work helped ensure that we maintained a proportionate and robust approach to our protective security obligations across the organisation.

## Diogelwch Personél

Roedd Ofcom wedi parhau i gryfhau ei drefniadau diogelwch ar draws diogelwch ffisegol, seiber, gwybodaeth a staff i ddiogelu ein pobl, ein hasedau, ein gwybodaeth a'n gweithrediadau. Roedd ein gweithgarwch diogelwch yn dal i gyd-fynd â Safon Swyddogaethol y Llywodraeth ar gyfer Diogelwch, ac fe wnaethom barhau i asesu a rheoli risgiau yn unol ag archwaeth risg ein sefydliad. Roedd asesiadau bygythiadau, adolygiadau diogelwch a gwaith sicrwydd mewnol wedi helpu i sicrhau ein bod yn cynnal dull cymesur a chadarn o ymdrin â'n rhwymedigaethau diogelwch amddiffynnol ar draws y sefydliad.

## Diogelwch Ffisegol

Fe wnaethom barhau i gynnal a gwella'r rheolaethau diogelwch ffisegol effeithiol ar draws ein hystâd, gan sicrhau bod cydweithwyr, ymwelwyr ac asedau'n cael eu diogelu. Roedd systemau rheoli mynediad, gwyliadwriaeth fideo a mesurau diogelu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, wedi'u llywio gan Asesiadau o Ba mor Atyniadol yw Ofcom Fel Targed, a gynhaliwyd gyda phartneriaid diogelwch y llywodraeth. Roedd gwaith yn parhau i fireinio trefniadau ymateb i ddigwyddiadau a sicrhau bod safonau diogelwch priodol yn cael eu cynnal mewn safleoedd aml-denant. Roedd gweithgarwch Diogelwch Ffisegol yn dal yn cyd-fynd â'r parodrwydd i dderbyn risg a'r mesurau diogelu a nodir yn ein strategaeth ddiogelwch.

## Seiberddiogelwch

Roedd seiberddiogelwch yn dal yn flaenoriaeth allweddol o ystyried ein rôl reoleiddio a'r dirwedd bygythiadau sy'n esblygu. Roeddem yn gweithredu model diogelwch haenog gan gynnwys monitro bygythiadau'n barhaus, canfod ymyrraeth, rheolaethau mynediad cadarn a thechnolegau diogelu. Rydym wedi parhau i gynnal asesiadau rheolaidd o fygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth, efelychiadau sy'n seiliedig ar senarios a phrofion agored i niwed, gan helpu i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a dilysu effeithiolrwydd y rheolaethau presennol. Cafodd ein trefniadau ymateb i ddigwyddiadau eu hymarfer a'u mireinio ymhellach i sicrhau llwybrau uwchgyfeirio clir a gweithgarwch adfer prydlon. Roedd cydweithio â phartneriaid gorfodi'r gyfraith a chyrff seiber cenedlaethol yn cefnogi mesurau rhannu gwybodaeth ac yn cryfhau ein parodrwydd i ymateb i ddigwyddiadau seiber.

## Diogelwch Gwybodaeth

Roedd gweithgarwch Diogelwch Gwybodaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu cywirdeb, cyfrinachedd ac argaeledd data ar draws fformatau digidol a ffisegol. Roedd ein model llywodraethu yn sicrhau bod arferion trin gwybodaeth yn cael eu goruchwylio'n effeithiol a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data'r DU, ac fe wnaethom barhau i godi ymwybyddiaeth y sefydliad drwy ganllawiau wedi'u targedu a hyfforddiant gorfodol.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ymchwilio i 82 o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â gwybodaeth, ac roedd 66 ohonynt yn achosion o dorri diogelwch data personol. Nid oedd angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am hyn a chymerwyd camau priodol i atal hyn rhag digwydd eto. Rydym wedi cadw ardystiad ISO 27001.

## Rheoli Parhad Busnes a Chadernid Sefydliadol

Cynhaliodd Ofcom ddull strwythuredig o ymdrin â pharhad busnes a chadernid sefydliadol yn ystod 2025/26. Cafodd ein cynlluniau rheoli digwyddiadau a pharhad busnes eu hadolygu a'u hymarfer, ar sail asesiadau o'r effaith ar fusnes wedi'u diweddaru a dysgu o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Roedd ymarferion sy'n seiliedig ar senarios a chydweithio ar draws timau yn cefnogi gwelliannau parhaus i'r trefniadau ymateb ac adfer, ac roedd goruchwyliaeth uwch arweinwyr yn sicrhau cysondeb â'n blaenoriaethau gweithredol a'n parodrwydd i dderbyn risg.

## Polisi chwythu'r chwiban a llinell gymorth

Mae ein polisi chwythu'r chwiban yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd â'r canllawiau arferion gorau. Mae gennym Swyddogion Chwythu'r Chwiban dynodedig ond rydym hefyd yn defnyddio llinell gymorth chwythu'r chwiban, sy'n cael ei chynnal a'i gweinyddu'n allanol, ac mae hyn yn caniatáu i gydweithwyr ddatgelu'n ddienw.

## Datgelu er lles y cyhoedd

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond mewn sector rydym yn ei reoleiddio, gysylltu ag Ofcom os oes ganddyn nhw bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2025/26, cafodd Ofcom 76 o ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.



# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu



O dan Ddeddf y Swyddfa Cyfathrebiadau 2002, Atodlen 1, cymal 11(1)(B), mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg wedi cyfarwyddo Ofcom i baratoi datganiad cyfrif ar sail croniadau bob blwyddyn sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r sefydliad a'i incwm a'i wariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'n ofynnol i mi wneud y canlynol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT), gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw; a
- darparu'r holl wybodaeth y mae'n ei hystyried yn berthnasol i baratoi cyfrifon i'r Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol (C&AG);
- chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, gan sicrhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.
- darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r archwilwyr yn gofyn amdano a mynediad heb gyfyngiad i bobl o fewn y corff sy'n dal gwybodaeth berthnasol;

Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau Ofcom, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac yn cadarnhau eu bod ar y cyfan, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, yn ogystal ag unrhyw gasgliad a ddefnyddir i benderfynu ar y farn hon.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Ofcom yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



Y Fonesig Melanie Dawes DCB
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

7 Gorffennaf 2026

# Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Yn ystod 2025/26, parhaodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar berfformiad Ofcom o ran ei gyllideb ac ar gyflwyno adroddiadau ariannol. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn seiberddiogelwch Ofcom, a rheoli gwybodaeth a data. Rhoddwyd diweddariadau ar y gofrestr risg Strategol ym mhob cyfarfod, a chafodd y Pwyllgor archwiliad manwl rheolaidd o un o'r chwe risg strategol.

## Presenoldeb Aelodau yn ystod 2025/26

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2025/26. Dyma Aelodau'r Pwyllgor yn ystod 2025/26 a'u presenoldeb:

| Aelod | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Angela Dean (y Cadeirydd) | 5 |
| Karen Baxter | 5 |
| Will Harding | 5 |

## Trosolwg

Ar ran Bwrdd Ofcom, mae'n bleser gennyf roi crynodeb o waith a chwmpas y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar gyfer y cyfnod ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol, ar ran Bwrdd Ofcom, am oruchwylio priodoldeb ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, llywodraethu risg, rheolaethau a systemau mewnol, a datganiadau ariannol Ofcom. Mae'r Pwyllgor yn cynnal y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), sef archwilwyr allanol Ofcom, gan gynnwys adolygu ei ffioedd a hyd a lled ei archwiliad o ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae hyn yn cynnwys ei asesiad o risgiau camddatganiadau o bwys ac afreoleidd-dra o bwys, ei annibyniaeth, ei adnoddau ac effeithiolrwydd y broses archwilio.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio gyda darparwr archwilio mewnol Ofcom, i sefydlu Cynllun Blynyddol i archwilio elfennau penodol o Ofcom, ac wedyn yn monitro cynnydd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny.

Mae Aelodau Anweithredol y Pwyllgor yn annibynnol ac ystyrir bod ganddyn nhw'r sgiliau a'r profiad perthnasol ar lefel uwch. Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn 2018, ac yn ogystal â'm profiad fel dadansoddwr ariannol, rwyf wedi bod yn gadeirydd neu'n aelod o nifer o Bwyllgorau Risg ac Archwilio a Phwyllgorau Cyllid, gan gynnwys Cadeirydd Pwyllgor Risg ac Archwilio Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.

Mae'r Pwyllgor yn trefnu sesiynau preifat bob blwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, yn ogystal â'r darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fel rhan o fy rôl i fel Cadeirydd y Pwyllgor, bûm yn cwrdd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r darparwr archwilio mewnol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd, heb fod rheolwyr Ofcom yn bresennol. Gall y darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gysylltu â mi yn uniongyrchol os ydyn nhw'n dymuno codi unrhyw beth maen nhw'n teimlo na fyddai'n briodol ei godi'n uniongyrchol gyda rheolwyr Ofcom.

## Gweithgareddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o dan gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i amlinellu yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor i'w weld yma.

Mae gwaith y Pwyllgor yn dilyn rhaglen waith flynyddol y cytunwyd arni, gyda'r Pwyllgor yn neilltuo ei amser yn 2025/26 fel hyn:

- adrodd ariannol a materion cysylltiedig;
- adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- llywodraethu, gan gynnwys diweddariadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol;
- rheoli risg;
- archwilio mewnol;
- archwilio allanol;
- diogelwch corfforaethol (gan gynnwys seiberddiogelwch a diogelwch TGCh, corfforol, personol a phersonél); ac
- arall (e.e. ymgyfreitha, llwgrwobrwyo a thwyll, rheoli gwybodaeth a data, a thargedau amgylcheddol).

## Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gyflawni ei gyfrifoldebau yn dryloyw ac yn onest. Yn ogystal ag Aelodau penodedig y Pwyllgor, mae gan y canlynol wahoddiadau parhaol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor:

**Ofcom:** Cadeirydd Ofcom, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol, Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol, Dirprwy Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO):** cynrychiolwyr Archwilydd Allanol Ofcom.

**Deloitte:** cynrychiolwyr Archwilydd Mewnol Ofcom.

## Datganiadau Ariannol a Pholisïau Cyfrifyddu

Ar y cyd â rheolwyr Ofcom, y darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, adolygodd y Pwyllgor y Datganiadau Ariannol a'r dogfennau cysylltiedig i weld a oedd y rhain yn cynnwys camddatganiadau o bwys, ac a oedden nhw wedi cael eu paratoi yn unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer adrodd ariannol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi herio penderfyniadau rheolwyr Ofcom, a'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a oedd yn sail i'r penderfyniadau hynny.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried polisïau cyfrifyddu ariannol Ofcom a'r rhagdybiaethau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd gyda'r canlyniadau, gan gynnwys yr asesiad a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.





## Y Fframwaith Risg a Rheolaeth, a Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn rhan bwysig o fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, ac mae'n cynnwys risgiau strategol a risgiau gweithredol mewn Polisi Rheoli Risg, sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu. Roedd y fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol presennol ar waith ar gyfer y flwyddyn adrodd ac mae wedi'i grynhoi isod. I sicrhau bod ein Fframwaith Rheolaeth a Rheoli Risg yn effeithiol ac yn gydnaws â'n gofynion, mae adolygiad o'n Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei gynnal yn rheolaidd.

Ym mis Mai 2025, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried Datganiad wedi'i Ddiweddaru ar Barodrwydd i Dderbyn Risg a Pholisi Rheoli Risg wedi'i ddiweddaru, a'u cymeradwyo i'w cyflwyno i Fwrdd Ofcom. Cafodd y ddau eu cymeradwyo wedyn gan Fwrdd Ofcom.

Mae diweddariad llafar ar faterion sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor yn cael ei roi yng nghyfarfod dilynol Bwrdd Ofcom, a bydd unrhyw newidiadau i'r sgoriau risg yn cael eu cymeradwyo i'w cyflwyno i'r Bwrdd gan y Pwyllgor. Hefyd, roedd y Pwyllgor wedi cynnal archwiliadau manwl o ran risg strategol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd.

## Archwiliadau manwl o'r risg strategol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2025/26

- Rheoleiddiwr Dibynadwy
- Gwybodaeth a Seiberddiogelwch
- Rheoli ein Hamgylchedd Rheoleiddio

## Rheolaethau Mewnol

Mae Ofcom yn cynnal fframwaith rheolaeth fewnol strwythuredig sydd wedi'i ddylunio i sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol, i gefnogi uniondeb penderfyniadau ariannol a gweithredol ac i sicrhau cydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol. Mae'r Pwyllgor, o dan ddirprwyaeth y Bwrdd, yn adolygu'r fframwaith, sy'n cynnwys rheolaethau ariannol, rheolaethau polisi a chydymffurfio (fel gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, diogelu data a chwythu'r chwiban) a rheolaethau gweithredol ac yn cynghori'r Bwrdd ar eu digonolrwydd a'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd ar amgylchedd rheolaeth ariannol ac ehangach Ofcom, gan gynnwys unrhyw achosion o dorri rheolaethau.

Yn 2025/26, cyfarfu'r Pwyllgor â'r tîm Cyllid i brofi'r rhagdybiaethau a'r rheolaethau sydd wrth wraidd y broses o gynllunio'r gyllideb, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro cynnydd yn erbyn y gyllideb y cytunwyd arni, ac adolygu'r gyllideb ddrafft cyn ei chyflwyno i'r Bwrdd. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch ymrwymiad Ofcom i gynnig gwerth am arian.

Daw rhagor o sicrwydd drwy waith timau arbenigol ar draws Ofcom, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Grŵp Llywio Gwybodaeth a Llywodraethu Data, y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, a'r Grŵp Parhad Busnes. Mae'r Fframwaith Polisi, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol, yn nodi'r llwybr llywodraethu priodol i gymeradwyo polisïau mewnol Ofcom ac yn rhoi rhagor o sicrwydd i'r Pwyllgor.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am nifer fach o wallau cyfrifo ffioedd hanesyddol a oedd yn effeithio ar dderbyniadau trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Di-wifr, gan arwain at or-godi a than-godi ffioedd, gydag effaith ariannol gyffredinol amherthnasol (0.01% o'r >£5.5bn dros y cyfnod perthnasol). Nododd y Pwyllgor y camau a gymerwyd i gryfhau rheolaethau i wella cywirdeb, sicrwydd a lleihau'r risg o ailadrodd. Gweler nodyn 24 i'r cyfrifon ar dudalen 159 am ragor o fanylion.

## Diogelwch Corfforaethol

Parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio parodrwydd Ofcom yn erbyn bygythiadau seiber a bygythiadau eraill i'w rwydweithiau diogel. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd y Pwyllgor wedi parhau i gymryd diddordeb penodol ynghylch i ba raddau roedd mesurau lliniaru Ofcom a'i barodrwydd ar gyfer ymosodiadau seiber yn effeithiol ac yn briodol.

Fe wnaeth y Pwyllgor barhau i gael diweddariadau ym mhob cyfarfod ar seiberddiogelwch, diogelwch ffisegol, diogelwch gwybodaeth a diogelwch personol a phersonél i sicrhau bod y gwaith yn parhau i gyd-fynd â gofynion y safon diogelwch ISO27001. Mae trosolwg o ddull diogelwch Ofcom ar gael ar dudalen 93-94.

## Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol a Ffocws Adolygiadau yn 2025/26

Roedd yr adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Archwiliadau Mewnol yn cynnwys rhaglen waith yn seiliedig ar risg ar draws ystod o elfennau rheoli allweddol. Roedd y rheolwyr wedi trafod y rhaglen, ac roedd wedi cael sêl bendith y Pwyllgor ar sail hanner blwyddyn. Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol gan y darparwr archwilio mewnol ar gynnydd ei archwiliadau, ei adroddiadau archwiliad mewnol terfynol (gan gynnwys ymateb rheolwyr Ofcom i'r canfyddiadau lle bo'n briodol) a'r cynnydd a wnaed i roi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliadau.

Cwblhawyd a chymeradwywyd cynllun archwilio mewnol blwyddyn ariannol 2025/26 gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio (RAC) ym mis Chwefror 2025. Ar gyfer y gwaith a wnaed yn 2025/26, mae'r archwilwyr mewnol wedi darparu sicrwydd cymedrol ynghylch effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y fframweithiau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

### Meysydd Archwilio Mewnol y rhoddwyd sylw iddyn nhw yn ystod 2025/26

- Diogelwch Ar-lein: Parodrwydd ar gyfer y Drefn Ffioedd
- Seiberddiogelwch: Bygythiad Pobl o'r Tu Mewn
- Cysylltedd y Cenhedloedd
- Diogelwch Personol
- Caffael
- Rheoli Risg

## Elfennau eraill i'w hadolygu

Mae Polisïau Ofcom ar Chwythu'r Chwiban, Atal Llwgrwobrwyo a Thwyll yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r polisi Chwythu'r Chwiban yn rhoi sylw i'r holl faterion sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae'r polisi hwn wedi cael ei gyfleu i'r holl gydweithwyr i'w hatgoffa y gallant godi materion yn ddienw gyda darparwr llinell gymorth chwythu'r chwiban Ofcom. Cafodd dau achos o chwythu'r chwiban eu cyfeirio a/neu eu hadrodd yn 2025/26.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau hefyd ar y canlynol:

- Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom;
- Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom (cyn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd);
- Cadernid sefydliadol Ofcom;
- Polisïau cyfrifyddu Ofcom;
- Polisi Rheoli'r Trysorlys Ofcom;
- Diweddariad blynyddol ar lywodraethu gwybodaeth; ac
- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch (cyn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd).

## Adrodd i'r Bwrdd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio, rwyf yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar y prif faterion a drafodir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Bwrdd wedi croesawu'r adolygiad llawn o gofrestr risg Ofcom a'r gwaith a wnaethpwyd.

## Perfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Cwblhawyd adolygiad dan arweiniad allanol o effeithiolrwydd Bwrdd Ofcom a'i Bwyllgorau ym mis Chwefror 2026 gan Independent Audit Limited. Roedd yr adolygiad yn ystyried papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau, yn arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgorau Risg ac Archwilio a Phobl, ac yn casglu adborth drwy holiaduron a chyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Weithrediaeth.

Nododd yr adolygiad fod goruchwyliaeth gyfrifyddu gan y Pwyllgor yn drylwyr ac yn gymesur, a bod goruchwyliaeth y Pwyllgor o risg hefyd yn drylwyr. Byddai argymhelliad i gynyddu maint y Pwyllgor yn parhau i gael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o gynllunio olyniaeth.



Angela Dean
Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

7 Gorffennaf 2026

# Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

## Presenoldeb aelodau yn ystod 2025/26

Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn 2025/26. Dyma Aelodau'r Pwyllgor yn ystod 2025/26 a'u presenoldeb:

| Aelod | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Tamara Ingram (Cadeirydd o 24 Medi 2025 ymlaen) | 3 |
| Ben Verwaayen (Cadeirydd ac aelod tan 23 Medi 2025) | 3 |
| Angela Dean (3) | 3 |
| Bob Downes (2) (aelod tan 31 Ionawr 2026) | 2 |
| Michael Grade | 3 |

Roedd yr holl aelodau'n bresennol ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd pan oedden nhw'n Aelod o'r Pwyllgor.

## Trosolwg

Ar ran Bwrdd Ofcom, mae'n bleser gennyf roi crynodeb o waith a chwmpas y Pwyllgor Pobl ar gyfer y cyfnod ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol, ar ran Bwrdd Ofcom, am ddarparu persbectif cynnar, hirdymor a strategol ar faterion sy'n ymwneud ag uwch Bobl ac am adolygu a gwerthuso cynnydd strategaeth Pobl a Diwylliant Ofcom.

## Gweithgareddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o dan gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i amlinellu yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor i'w weld yma.

Mae gwaith y Pwyllgor yn dilyn rhaglen waith flynyddol y cytunwyd arni, gydag eitemau sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Mae eitemau i'w trafod yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu cynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac uwch gydweithwyr
- Cymeradwyo adolygiadau perfformiad a chyflog ar gyfer uwch gydweithwyr
- Cymeradwyo dosbarthu'r gyllideb cyflogau i gydweithwyr
- Pennu amcanion y Prif Weithredwr ar gyfer 2025/26
- Cymeradwyo rhyddhau'r bonws i gydweithwyr am gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt
- Adolygu canfyddiadau'r Arolwg Cydweithwyr blynyddol
- Nodi'r adroddiad blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, Ethnigrwydd ac Anabledd
- Adolygu'r risg strategol i Bobl a Diwylliant
- Defnyddio absenoldeb garddio a chyfamodau cyfyngol ôl-derfynu ar gyfer uwch gydweithwyr
- Cymeradwyo'r polisi ar rolau anweithredol ar gyfer uwch gydweithwyr

## Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Mae aelodau'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys aelodau anweithredol annibynnol a Chadeirydd Ofcom, a oedd yn cael ei ystyried yn annibynnol pan gafodd ei benodi. Mae'n cael ei gadeirio gan aelod anweithredol. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer pob cydweithiwr, cyflogau a bonysau uwch gydweithwyr a'r dyfarniad bonws cyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cymeradwyo'r amcanion y bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn eu herbyn a datgloi'r bonws. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod cymhellion pob cydweithiwr yn cyd-fynd â chyflawni strategaeth a phwrpas cyffredinol Ofcom, agwedd allweddol ar y Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gyflawni ei gyfrifoldebau yn dryloyw ac yn onest. Yn ogystal ag aelodau penodedig y Pwyllgor, mae gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Pobl, Diwylliant a'r Gweithlu, y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth wahoddiadau sefydlog i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

## Perfformiad ac Effeithlonrwydd y Pwyllgor

Cwblhawyd adolygiad dan arweiniad allanol o effeithiolrwydd Bwrdd Ofcom a'i Bwyllgorau yn Chwefror 2026 gan Independent Audit Limited. Ystyriodd yr adolygiad bapurau'r Bwrdd a'r pwyllgor, arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgorau Risg ac Archwilio a Phobl, a chasglu adborth trwy holiaduron a chyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd ac aelodau o'r Weithrediaeth.

Nododd yr adolygiad fod gwaith y Pwyllgor Pobl wedi helpu i sicrhau bod cwestiynau ynghylch olyniaeth weithredol, rheoli talent a diwylliant sefydliadol yn cael eu trafod yn dda a bod roedd trafodaeth yn y Pwyllgor Pobl yn eang ac yn ymchwilio.



Tamara Ingram
Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

7 Gorffennaf 2026



# Ein gweithwyr

Mae Ofcom yn parhau i dyfu a datblygu fel sefydliad, ac rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan ein cydweithwyr yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Mae llawer o'n swyddi yn unigryw i Ofcom, gan roi cyfle i bobl ddatblygu sgiliau a galluoedd newydd.

Daw ein cydweithwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac mae gennym gymysgedd cryf o brofiad masnachol a phrofiad yn y diwydiant er mwyn gallu rheoleiddio'n effeithiol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i wella ôl troed ein cydweithwyr ledled y DU, gyda bron i 30% o'n gweithlu wedi'u lleoli y tu allan i Lundain.

Mae ein hagwedd at reoli perfformiad a gyrfa yn cyfuno ffocws ar ragoriaeth gyda chefnogaeth i'n cydweithwyr. Rydym yn cynnig pecyn hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer ein huwch dîm Arwain a'n Rheolwyr Gyrfa a Pherfformiad, sy'n cynnwys hyfforddiant penodol ar amrywiaeth a chynhwysiad. Mae hyn yn sicrhau bod pob cydweithiwr yn cael ei gefnogi'n llawn yn ei lwybrau gyrfa, yn cryfhau ein galluoedd arwain sefydliadol, ac yn helpu Ofcom i ddenu, tyfu a chadw'r dalent sydd ei hangen arnom i gyflawni ein dyletswyddau.

## Amrywiaeth a chynhwysiad

Credwn fod yn rhaid i Ofcom adlewyrchu amrywiaeth gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU, er mwyn gwasanaethu dinasyddion a defnyddwyr yn effeithiol. Lansiodd Ofcom strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad bum mlynedd yn 2021, gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth ein gweithlu a chryfhau diwylliant yn y gweithle lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys. Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar ein pum gwerth sefydliadol, sef rhagoriaeth, cydweithio, hyblygrwydd, grymuso a pharch.



Eleni, rydym wedi parhau i wneud cynnydd yn erbyn ein targedau amrywiaeth. Rydym wedi sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn rolau uwch ac wedi rhagori ar ein targed anabledd. Roeddem wedi gosod targed cychwynnol o 16% o uwch gydweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig erbyn 2026, ac rydym wedi cyrraedd y targed hwnnw ar adegau dros y pum mlynedd, gan weld cynnydd sylweddol o'i gymharu ag 11% yn 2021.

Mae cynnydd yn erbyn ein targedau wedi cael ei sbarduno gan ddull recriwtio cynhwysol sydd wedi'i wreiddio ar draws y broses recriwtio o'r dechrau i'r diwedd. Cefnogir rheolwyr sy'n penodi gydag offer ac arweiniad clir. Mae ein partner recriwtio allanol yn darparu data cadarn ar gynhwysiad ar bob cam, ochr yn ochr â gwybodaeth am ba mor effeithiol rydym yn datblygu ac yn cynnal piblinellau talent amrywiol.

Ym mis Mehefin 2026, fe wnaethom lansio strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad newydd dros ddwy flynedd, a oedd yn canolbwyntio ar greu gweithle teg, cynhwysol a chynrychioladol. Mae'n amlinellu ein cynlluniau i wreiddio cynhwysiad yn y ffordd rydym yn arwain, yn penderfynu ac yn gweithredu fel cyflogwr, gydag uchelgais i greu gweithle lle mae ein cydweithwyr yn ffynnu ac yn teimlo ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r strategaeth hefyd yn adeiladu ar gynnydd rhaglen 2021-26, gan ganolbwyntio o'r newydd ar gynhwysiad, cynnydd a chanlyniadau teg.

Rydym yn parhau i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal ar gyfer pob prosiect a phroses newydd, gan gynnwys ar draws ein polisïau Adnoddau Dynol, i sicrhau bod ein penderfyniadau'n deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd ag arferion gorau.

## Cefnogi llesiant cydweithwyr

Mae ein rhaglen llesiant Thrive@Ofcom yn dal i ganolbwyntio ar gefnogi llesiant cydweithwyr. Mae gan yr holl staff fynediad at fuddion sy'n ymwneud â llesiant corfforol, meddyliol ac ariannol. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan ein polisïau i weithwyr, sy'n ceisio cefnogi cydweithwyr yn eu gwaith drwy holl ddigwyddiadau a sefyllfaoedd bywyd.

Ein nod yw trin pobl sy'n sâl yn deg a gyda thosturi gan roi cefnogaeth iddyn nhw, lle bo modd, i'w helpu i wella a mynychu'r gwaith yn rheolaidd.

Rydym hefyd yn ymdrechu i fabwysiadu dull ataliol o ymdrin â llesiant drwy sicrhau ein bod yn creu'r amgylchedd a bod gennym yr adnoddau a'r gefnogaeth gynnar sy'n helpu cydweithwyr i gadw'n iach a ffynnu. Yn 2025/26, roedd gweithwyr Ofcom yn colli 5.6 diwrnod gwaith y flwyddyn (2024/25 = 5.3 diwrnod) o'i gymharu â chyfartaledd y gwasanaeth sifil o 8.2 diwrnod y flwyddyn ar ddiwedd Mawrth 2025.

## Monitro ac adrodd ar ein cynnydd

Rydym yn parhau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd ein polisïau, ein harferion a'n prosesau drwy ddadansoddi data'n gynhwysfawr ac adroddiadau mewnol rheolaidd, a'n harolygon blynyddol i gydweithwyr. Rydym hefyd yn cynnal archwiliad cyflog cyfartal rheolaidd ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog sy'n ymwneud ag ethnigrwydd, anabledd a rhywedd. Yn 2025, cawsom ein cydnabod am y pumed tro fel un o'r 50 Cyflogwr Gorau ar gyfer Cydraddoldeb Rhywedd gan The Times, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i hyrwyddo tegwch, tryloywder a chynhwysiad ar draws ein sefydliad.

ATEBOLRWYDD

**Tabl 8: Cynnydd o ran cynrychioli amrywiaeth**

| | Sefyllfa Gychwynnol Blwyddyn 1 (Mawrth 2021) | Y sefyllfa ar ddiwedd Blwyddyn 5 (Mawrth 2026) | Uchelgais terfynol (Mawrth 2026) |
|---|---|---|---|
| Menywod mewn rolau uwch | 44% | 49% | Cydbwysedd cyfartal |
| Ethnigrwydd mewn rolau uwch | 11% | 15% | 19% ( 16% yn wreiddiol) |
| Anabl – ar draws Ofcom | 12% | 16% | 15% |

*Sylfaen: Pob cydweithiwr ar ddiwedd Mawrth 2026. Mae lefelau uwch yn cynnwys staff ar raddfeydd Pennaeth ac uwch reolwyr ac arbenigwyr (SMS).*

Ewch at Atodiad 4 i gael rhagor o fanylion am broffil amrywiaeth ein cydweithwyr.



## Cynnwys ac ymgynghori â chydweithwyr

Ein nod yw sicrhau bod gan bob cydweithiwr lais, a bod ein penderfyniadau'n cael eu siapio gan amrywiaeth eang o safbwyntiau. Mae hynny'n rhan bwysig o wneud ein gwaith rheoleiddio'n effeithiol. Rydym yn defnyddio cymysgedd o sianeli ffurfiol ac anffurfiol i hysbysu, i ymgynghori ac i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y sefydliad.

- **Grŵp Ymgynghori ar y Cyd** – cyfarfod bob deufis sy'n dod â chynrychiolwyr cydweithwyr etholedig o bob rhan o Ofcom, aelodau o'r Fforwm Cydweithwyr, a chynrychiolwyr o'n hundeb llafur cydnabyddedig, Prospect, at ei gilydd.
- **Arolygon cydweithwyr** – arolygon rheolaidd, dienw sy'n gwahodd cydweithwyr i rannu eu safbwyntiau ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n cysylltu â'n strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i siapio blaenoriaethau datblygu ein sefydliad.
- **Rhwydweithiau cydweithwyr** – naw rhwydwaith dan arweiniad cydweithwyr sy'n cefnogi amrywiaeth eang o gymunedau ac elfennau cynhwysiad.
- **Fforymau agored** – cyfleoedd rheolaidd i gydweithwyr glywed gan y Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli, a siarad yn uniongyrchol â nhw.
- **Sesiynau cymunedol misol** – sesiynau datblygu a chyfathrebu wedi'u targedu i'n Rheolwyr Gyrfa a Pherfformiad, sy'n canolbwyntio ar feithrin sgiliau a chryfhau arweinyddiaeth ar draws y sefydliad.

## Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Mae ein polisïau a'n prosesau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn cyd-fynd â'r gyfraith cyflogaeth ddiweddaraf, yn adlewyrchu'r arferion gorau, ac yn diwallu anghenion Ofcom a'n gwerthoedd.

Rydym yn cynnig absenoldeb teuluol sy'n arwain y farchnad, fel gwell absenoldeb mamolaeth a thadolaeth, amser o'r gwaith gyda thâl i ofalwyr, a gweithio hyblyg. Rydym hefyd yn cynnig cymorth seicolegol allanol i gydweithwyr a allai ddod i gysylltiad â chynnwys trallodus fel rhan o'u rôl, yn enwedig y rhai sy'n gweithio yn ein Grŵp Diogelwch Ar-lein, er mwyn lleihau'r risgiau a sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir.

## Ymgysylltu â gweithwyr a throsiant

Rydym yn cadw golwg ar lefelau ymgysylltu â gweithwyr drwy arolwg blynyddol annibynnol o gydweithwyr. Ym mis Mehefin 2025, roedd ein sgôr ymgysylltu cyffredinol yn uchel ar 77%, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Ar gyfer 2025/26, roedd ein trosiant staff gros ar draws Ofcom yn 7.6% sy'n is na blynyddoedd blaenorol, ac mae o fewn ein lefel goddefgarwch sefydlog.

# Adroddiad taliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i gydymffurfio cymaint ag y bo modd ac i'r graddau sy'n ymarferol ac yn briodol ag Atodlen 8 o Reoliadau'r Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, er nad oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae dull gweithredu'r Bwrdd yn seiliedig ar egwyddorion penodol a nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac mae'n diwallu gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, dim ond lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol. Nid oes yn rhaid i Ofcom weithredu gofynion atebolrwydd Seneddol FReM yn ei adroddiadau blynyddol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn un o is-bwyllgorau Bwrdd Ofcom. Mae'r aelodaeth yn cynnwys o leiaf dri aelod anweithredol o Fwrdd Ofcom, gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen 86.

Byddai'r Pwyllgor hefyd fel arfer yn disgwyl i'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Pobl, Diwylliant a Gweithle, ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth fynychu cyfarfodydd. Pan fo angen a phan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor Pobl hefyd yn cael cyngor a/neu wasanaethau gan gydweithwyr yn Ofcom neu gan sefydliadau allanol arbenigol. Ni fydd yr un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi Taliadau

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Pobl y dylai Ofcom, gan ystyried ei fod yn gorff cyhoeddus, gynnig fframwaith gwobrau sefydlog a fydd yn denu ac yn cadw'r bobl o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol.

## Elfennau taliadau

Mae prif elfennau tâl Cyfarwyddwyr Grŵp a'r Prif Weithredwr yn cyd-fynd â'n dull o ymdrin â thâl pob cydweithiwr, sy'n cynnwys cyflog sylfaenol, cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer pob cydweithiwr, ac amrywiaeth o fuddion hyblyg sy'n cynnwys yswiriant bywyd, lwfans arian parod, yswiriant diogelu incwm grŵp, yswiriant meddygol preifat, ac archwiliad iechyd blynyddol fel elfennau safonol.

a) **Cyflog sylfaenol**

b) **Buddion safonol a hyblyg**

- Yswiriant meddygol preifat
- Yswiriant bywyd
- Gwarchodaeth incwm grŵp
- Archwiliad iechyd blynyddol

c) **Cynllun bonws blynyddol**

d) **Pensiwn**

- Cynllun pensiwn a'r cyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer pob cydweithiwr
- Lwfans pensiwn fel % o'r cyflog

ATEBOLRWYDD

## Cyflog sylfaenol

Mae cyflog sylfaenol pob cydweithiwr yn cael ei bennu yn unol â'n polisi cyflog. Mae pob cyflog sylfaenol yn cael ei ystyried yn flynyddol, ac mae unrhyw newidiadau fel arfer yn dod i rym ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Rydym yn cynnal archwiliad cyflog cyfartal blynyddol o ran rhywedd ac ethnigrwydd.

## Buddion hyblyg

Mae Ofcom yn cynnig lwfans buddion hyblyg i gydweithwyr ar sail eu graddfa. Mae'r tablau taliadau yn cynnwys y lwfans buddion hyblyg a buddion o fath arall. Gyda golwg ar y buddion o fath arall, dim ond gwerth yswiriant meddygol preifat sydd wedi'i gynnwys. Nid yw cyfanswm gwerth y warchodaeth incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol yn cael eu datgelu o dan fuddion o fath arall gan nad yw Cyllid a Thollau EF yn trin y rhain fel budd cyflogaeth sy'n drethadwy.


## Cynllun bonws blynyddol

Mae gennym gynllun bonws blynyddol ar waith ar gyfer pob cydweithiwr sy'n gwobrwyo cydweithwyr os bydd Ofcom yn cyflawni ei flaenoriaethau sefydliadol a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Pobl yn cymeradwyo'r gyllideb, y blaenoriaethau a'r dyfarniadau. Mae'r bonws blynyddol yn cael ei dalu ym mis Gorffennaf ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae ffigur y bonws yn cael ei gronni'n flynyddol.

Bydd cydweithwyr cymwys yn cael dyfarniad fel swm penodol fesul graddfa ar sail pro rata.

## Pensiwn

Mae Ofcom yn cynnig pensiwn cyfranddeiliaid (cyfraniad wedi ei ddiffinio) i bawb. Mae holl gydweithwyr Ofcom yn cael lwfans pensiwn, sy'n cael ei bennu fel % o'r cyflog sylfaenol. Gellir buddsoddi hyn mewn un o ddau gynllun pensiwn – y Brif Ymddiriedolaeth a'r Cynllun Pensiwn Grŵp (mae'r ddau gynllun yn caniatáu i unrhyw ddidyniadau gael eu gwneud drwy ildio cyflog) neu eu cymryd fel lwfans. Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol cyfredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw



## Datgeliad cyflog teg (wedi'i archwilio)

Mae Ofcom yn credu mewn cyflog teg. Rydym yn cadw golwg ar hyn drwy fonitro cymhareb cyflog teg, sy'n cymharu'r unigolyn â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweddill y sefydliad. Mae'r data'n cael ei gyfrifo a'i gyflwyno yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.

Ar gyfer datgeliadau cyflog teg, cymerir cyfanswm y ffigur tâl ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac mae'n cynnwys cyflog, tâl perfformiad heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau ac nid yw'n cynnwys lwfans hawl pensiwn nac unrhyw daliadau diswyddo. Nid ydy'r tâl canolrif yn cynnwys yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf ac mae'n seiliedig ar dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Tabl 9:Datgeliad cyflog teg**

| | | 2025/26 | | 2024/25 * | |
|---|---|---|---|---|---|
| % newid i'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf | Band cyflog (£'000) | 400-405 | | 380-385 | |
| | Cyflog a lwfansau | 4.87% | | 4.30% | |
| | Tâl perfformiad a thaliadau bonws sy'n daladwy | (40%) | | 66.67% | |
| % newid i bob gweithiwr | Cyflog a lwfansau | 2.69% | | 0.94% | |
| | Tâl perfformiad a thaliadau bonws sy'n daladwy | (1.81%) | | 0.33% | |
| Cymhareb Tâl cyflog a buddion cyfan | 25ain canradd | 8.51 | £47,282 | 8.28 | £46,180 |
| | Canolrif | 6.12 | £65,774 | 6.01 | £63,664 |
| | 75ain canradd | 4.48 | £89,836 | 4.35 | £87,928 |
| Cymhareb Tâl elfen cyflog a lwfans | 25ain canradd | 9.37 | £42,943 | 9.16 | £41,769 |
| | Canolrif | 7.07 | £56,945 | 6.95 | £55,000 |
| | 75ain canradd | 5.10 | £78,847 | 4.98 | £76,841 |
| Ystod tâl | Cyfanswm taliadau | £127.3m | | £120.8m | |
| | Ystod | £24,884-£403,155 | | £23,497-£384,443 | |

**2024/25 yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol*

## Newidiadau mewn cymarebau cyflogau

Mae'r gostyngiad o 40% ym monws y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn cael ei sbarduno gan ostyngiad o un flwyddyn i'r llall o £10,000 i £6,000.

Mae'r gostyngiad 1.81% mewn taliadau perfformiad a thaliadau bonws sy'n daladwy i bob gweithiwr yn ganlyniad i amseriad y rhai sy'n dechrau ac yn gadael yn ystod y flwyddyn ariannol.

# Tablau taliadau

## Mae manylion y tâl a dderbynnir gan aelodau Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys a Chyfarwyddwyr y Grŵp wedi'u harchwilio gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol ac maent wedi'u nodi yn y tablau a'r nodiadau canlynol.

Mae'r tablau'n adlewyrchu'r taliadau am y rhan o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau parhaol o Fwrdd Ofcom neu'r Bwrdd Cynnwys yn unig, neu'n Gyfarwyddwyr Grŵp.

Roedd yr unigolion hynny sydd â '+' wrth eu henw yn eu rôl am ran yn unig o flwyddyn ariannol 2025/26 neu 2024/25.

Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalen xx), dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y tablau taliadau.

Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys unrhyw dâl ychwanegol y tu hwnt i'w ffioedd. Mae Aelodau Anweithredol yn gallu cael darpariaeth offer TG os oes angen.

**Tabl 10: Taliadau Aelodau Anweithredol, Bwrdd Ofcom**

| Bwrdd Ofcom | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 2025/26 | Ffioedd 2024/25 |
|---|---|---|---|
| Angela Dean | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Ben Verwaayen | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Bob Downes + | 1, 2 | 35,433 | 42,519 |
| Clive Jones | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Karen Baxter | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Michael Grade | 1 | 142,500 | 142,500 |
| Richard Allan | 1 | 42,519 | 17,716 |
| Tamara Ingram | 1 | 70,000 | 23,333 |
| Will Harding | 1 | 42,519 | 42,519 |
| George Walker + | 1, 2 | 3,543 | - |
| **Cyfanswm** | | **506,590** | **438,663** |

**Nodyn Canllaw 1:**

Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn Nhabl 1 yn cynrychioli'r swm a dalwyd yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu. Mae'r ffi i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi aros yn £42,519 (Cadeirydd £142,500, Dirprwy Gadeirydd £70,000) y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008. Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm blwyddyn lawn a dalwyd neu, os yw'n briodol, rhan o'r flwyddyn (+), pan adawodd neu ymunodd yr Aelod Anweithredol â Bwrdd Ofcom.

**Nodyn Canllaw 2:**

Daeth tymor Bob Downes i ben fel Aelod Anweithredol Ofcom ar 31 Ionawr 2026.

Ymunodd George Walker fel Aelod Anweithredol Ofcom ar 1 Mawrth 2026.

### Tabl 11: Taliadau Aelodau Anweithredol, Bwrdd Cynnwys Ofcom

| Bwrdd Cynnwys Ofcom | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 2025/26 | Ffioedd 2024/25 |
|---|---|---|---|
| Dekan Apajee + | 3, 4 | 9,800 | 16,800 |
| Kim Shillinglaw | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Maggie Cunninham | 4 | - | 8,400 |
| Maria McCann | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Peter Horrocks | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Karen Marsh + | 3, 4 | 7,000 | - |
| Peter McMahon | 3 | 16,800 | 4,200 |
| Ruth McElroy | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Simon Bucks | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Stephen Nuttall | 4 | - | 11,582 |
| Yolisa Phahle | 3 | 16,800 | 4,200 |
| **Cyfanswm** | | **134,400** | **129,182** |

**Nodyn Canllaw 3:**

Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys. Y ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yw £16,800 y flwyddyn. Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm blwyddyn lawn a dalwyd neu, os yw'n briodol, rhan o'r flwyddyn (+), pan adawodd neu ymunodd yr Aelod Anweithredol â'r Bwrdd Cynnwys.

**Nodyn Canllaw 4:**

Gadawodd Dekan Apajee y Bwrdd Cynnwys ar 31 Hydref 2025.

Ymunodd Karen Marsh, adnabyddir fel Kate, a'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Tachwedd 2025.

Gadawodd Maggie Cunningham y Bwrdd Cynnwys ar 30 Medi 2024.

Gadawodd Stephen Nuttall y Bwrdd Cynnwys ar 09 Rhagfyr 2024.

Mae Cristina Nicolotti-Squires yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys. Mae ei thaliadau'n cael eu dangos yn Nhabl 13 isod.

### Tabl 12: Taliadau Aelodau Gweithredol, Bwrdd Ofcom (2025/26)

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | Cyfanswm y cyflog a dalwyd (cyfwerth â blwyddyn lawn lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Lwfans/hawl pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2025/26 £ | Cyfanswm y taliadau 2024/25 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Melanie Dawes | 5 | 12 | 378,000 | 75,600 | 15,000 | 4,184 | 6,000 | 478,784 | 455,324 |
| Natalie Black | 5 | 12 | 270,963 | 40,644 | 15,000 | 1,673 | 2,000 | 330,280 | 126,168 |
| Oliver Griffiths | 5, 6 | 12 | 270,963 | 40,644 | 15,000 | 4,184 | - | 330,791 | 13,957 |
| **Cyfanswm** | | | **919,926** | **156,888** | **45,000** | **10,041** | **8,000.00** | **1,139,855** | **595,449** |

*Bonws perfformiad a ddyfarnwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, a dalwyd ym mis Gorffennaf 2025*

### Tabl 13: Taliadau Aelodau Gweithredol, Bwrdd Cynnwys Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | **Cyfanswm y cyflog a dalwyd** (cyfwerth â blwyddyn lawn lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Lwfans/hawl pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2025/26 £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2024/25 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alison Marsden + | 7 | 11 | 144,338 (170,434) | 21,651 | 12,813 | 3,837 | 4,000 | 186,639 | 212,382 |
| Cristina Nicolotti Squires | 5 | 12 | 280,084 | 42,013 | 15,000 | 4,184 | 6,000 | 347,281 | 315,673 |
| **Cyfanswm** | | | **424,422** | **63,644** | **27,813** | **8,021** | **10,000** | **533,920** | **545,871** |

### Tabl 14: Taliadau Cyfarwyddwr Grŵp Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | **Cyfanswm y cyflog a dalwyd** (cyfwerth â blwyddyn lawn lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Lwfans/hawl pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2025/26 £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2024/25 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Luisa Affuso | 5 | 12 | 262,563 | 39,384 | 15,000 | 4,184 | 6,000 | 327,131 | 318,879 |
| Martin Ballantyne | 5 | 12 | 262,563 | 39,384 | 15,000 | 4,184 | 6,000 | 327,131 | 318,879 |
| Kate Davies + | 5, 6 | 7 | 148,750 (255,000) | 22,313 | 8,750 | 2,436 | 6,000 | 188,249 | - |
| David Willis | 5 | 12 | 276,108 | 40,145 | 15,000 | 13,327 | 6,000 | 350,580 | 312,238 |
| Melissa Tatton | 5 | 12 | 266,700 | 40,005 | 15,000 | 3,347 | 6,000 | 331,052 | 315,673 |
| **Cyfanswm** | | | **1,216,684** | **181,231** | **68,750** | **27,478** | **30,000** | **1,524,143** | **1,265,669** |

**Nodyn Canllaw 5:**

Dangosir cyfanswm y taliadau blynyddol ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom sydd, neu a oedd, yn Gyfarwyddwyr Grŵp yn ystod cyfnod adrodd 2025/26. Y ffigur hwn yw'r hawl am dâl am y cyfnod adrodd felly bydd yn llai na'r cyfwerth ag amser llawn os na chafodd blwyddyn lawn ei gweithio fel Cyfarwyddwr Grŵp.

Mae cyfanswm y tâl blynyddol yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad blynyddol, lwfans buddion hyblyg, canran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn a buddion trethadwy o fath arall sy'n adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat ar gyfer pob gweithredwr.

**Nodyn Canllaw 6:**

Ymunodd Oliver Griffiths ag Ofcom fel Cyfarwyddwr Grŵp, Diogelwch Ar-lein ar 17 Mawrth 2025. Fe'i penodwyd yn Aelod Bwrdd Gweithredol 9 Chwefror 2026.

Penodwyd Kate Davies yn Gyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth ac Ymchwil ar 1 Medi 2025. Cyn hynny, roedd yn Gyfarwyddwr yn Ofcom.

### Tabl 15: Cyfarwyddwyr Grŵp Dros Dro a'r sawl a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd: 2025/26

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | Cyfanswm y cyflog a dalwyd (cyfwerth â blwyddyn lawn lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Lwfans/hawl pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2025/26 £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2024/25 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yih-Choung Teh | 7 | 7 | 132,246 (250,000) | 19,837 | 7,935 | 2,446 | 6,000 | 168,464 | 310,613 |
| Ed Leighton | 7 | 5 | 70,833 (170,000) | 10,625 | 6,250 | 1,747 | 4,000 | 93,455 | - |
| Gillian Whitehead | 7 | - | | | | | | - | 389,770 |
| Lindsey Fussell | 7 | - | | | | | | - | 415,391 |
| David Clarkson | 7 | - | | | | | | - | 308,769 |
| **Cyfanswm** | | | **203,079** | **30,462** | **14,185** | **4,193** | **10,000** | **261,919** | **1,424,543** |

**Nodyn Canllaw 7:**

Mae'r symiau a ddangosir yn Nhabl 6 uchod yn rhai pro rata ar gyfer y cyfnod y cyflogwyd y Cyfarwyddwyr yn y flwyddyn ariannol 2025/26.

Yih-Choung Teh oedd Cyfarwyddwr y Grŵp Strategaeth ac Ymchwil, a gadawodd Ofcom ar 11 Hydref 2025.

Ed Leighton oedd Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Strategaeth ac Ymchwil rhwng 1 Mai a 30 Medi 2025.

Gadawodd Lindsey Fussell ei rôl yn Ofcom fel Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Diogelwch Ar-lein ar 14 Mawrth 2025

Roedd Alison Marsden yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys a gadawodd Ofcom ar 6 Chwefror 2026.

### Tabl 16: Cyfanswm costau Taliadau Blynyddol ar gyfer holl Swyddogion Gweithredol Ofcom yn ystod y cyfnod adrodd

| | Cyfanswm y cyflog gwirioneddol a dalwyd £ | Lwfans/hawl pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Taliadau bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2025/26 £ | Cyfanswm y taliadau 2024/25 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 2,764,111 | 432,245 | 155,748 | 49,733 | 58,000 | 3,459,837 | 3,831,532 |

*Mae'r tabl uchod yn gyfanswm rhifyddeg tablau 3-6 uchod.*

Mae'r bonws a delir i Gyfarwyddwyr Grŵp a'r Prif Weithredwr yn cynrychioli 2.1% o gyfanswm y bonws a dalwyd yn 2025/26 i bob cydweithiwr (2024/25: 2.8%).

## Taliadau neilltuol

Ni roddwyd blaensymiau na benthyciadau i staff sy'n ennill mwy na £100,000 yn ystod y cyfnod adrodd (2025/26).

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

Mae Ofcom yn defnyddio staff dros dro i ategu'r adnoddau sydd ei angen ar gyfer ei waith pan fydd prinder staff oherwydd amgylchiadau annisgwyl ac i helpu i reoli'r pwysau ar ei staff yn ystod cyfnodau prysur o waith.

Mae Ofcom hefyd, o bryd i'w gilydd, yn ymgysylltu ag unigolion i ddarparu arbenigedd masnachol, digidol, technegol neu reoli prosiectau. Fel rhan o'r broses ymgysylltu, bydd Ofcom yn ystyried a yw'r unigolion hyn yn rhwym wrth ddeddfwriaeth gweithio oddi ar y gyflogres ai peidio.

**Cyflogi gweithwyr oddi ar y gyflogres sy'n cael eu talu'n dda ar 31 Mawrth 2026 sy'n ennill £245 y diwrnod neu fwy.**

| Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd | 14 |
|---|---|
| Am lai na blwyddyn adeg adrodd | 10 |
| Am gyfnod o rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg adrodd | 2 |
| Am gyfnod o rhwng dwy a thair blynedd adeg adrodd | - |
| Am gyfnod o rhwng tair a phedair blynedd adeg adrodd | 1 |
| Am bedair blynedd neu fwy adeg adrodd | 1 |

*Ffynhonnell: Dadansoddi cyllid a data partneriaid allanol*

**Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres sy'n cael eu talu'n dda ac yn cael eu cyflogi ar unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, sy'n ennill £245 y diwrnod neu fwy.**

| Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd | 20 |
|---|---|
| Nad ydynt yn rhwym wrth ddeddfwriaeth gweithio oddi ar y gyflogres | 12 |
| Yn rhwym wrth ddeddfwriaeth gweithio oddi ar y gyflogres ac yn cael eu pennu fel eu bod yn rhan o gwmpas IR35 | - |
| Yn rhwym wrth ddeddfwriaeth gweithio oddi ar y gyflogres ac yn cael eu pennu fel eu bod y tu allan i gwmpas IR35 | 8 |
| Y mae nifer o'r rhai a gyflogwyd wedi cael eu hailasesu at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |
| Ac: Y mae nifer o'r rhai a gyflogwyd wedi gweld newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad | - |

Ni chafodd unrhyw aelodau'r Bwrdd nac uwch reolwyr gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol eu cyflogi oddi ar y gyflogres rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd Ofcom £2.4m ar ymgynghoriaeth yn 2025/26 (2024/25: £0.9m), sy'n cynrychioli tua 1% o gyfanswm gwariant Ofcom. Mae defnyddio ymgynghoriaeth wedi'i gyfyngu i'r cyngor a'r arbenigedd pwrpasol sy'n ofynnol er mwyn i Ofcom gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac mae ei gwmpas yn benodol ac yn rhwym wrth derfynau amser. Comisiynir ymgynghoriaeth lle nad yw sgiliau allanol ar gael yn fewnol. Pan ragwelir y bydd angen sgiliau o'r fath yn y tymor hwy, bydd Ofcom yn ceisio recriwtio'n barhaol. Y prif feysydd gwariant ar ymgynghoriaeth yn 2025/26 oedd Strategaeth, Polisi, Corfforaethol a Thrawsnewid.

## Cytundeb cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi eu penodi am dymor penodol gydag ymrwymiad amser i Ofcom o hyd at dri diwrnod yr wythnos (heblaw am y Cadeirydd sy'n neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos a'r Dirprwy Gadeirydd sy'n neilltuo hyd at ddeuddydd a hanner yr wythnos).

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom neu Gyfarwyddwr Grŵp, y Pwyllgor Pobl sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwyr Grŵp perthnasol. Ar draws pob cydweithiwr, mae gennym bolisi ar waith lle nad oes unrhyw daliadau ex-gratia mewn perthynas â therfynu cynnar yn fwy na £95,000. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

Ni wnaed unrhyw daliadau ex-Gratia i Gyfarwyddwyr Gweithredol na Chyfarwyddwyr Grŵp yn 2025/26 (2024/25: £216,307).

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Cyfeirir at fanylion ein dull gweithredu o ran gwrthdaro rhwng buddiannau, gan gynnwys buddiannau allanol ar gyfer Aelodau Anweithredol a Chydweithwyr, yn adran Lywodraethu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

## Colledion a thaliadau arbennig (archwiliwyd)

Yn unol â rheoli arian cyhoeddus, mae'n rhaid i Ofcom ddatgelu colledion unigol a thaliadau arbennig dros £300,000. Nid oedd dim colledion na thaliadau arbennig y mae angen eu datgelu yn 2025/26 (2024/25: dim).

Ar ran Ofcom,

Melanie Dawes

Y Fonesig Melanie Dawes DCB
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Tamara Ingram
Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

7 Gorffennaf 2026

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd, Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Swyddfa Gyfathrebiadau:

- Datganiad Incwm a Gwariant:
- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2026 a'i gwarged ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd Prydain, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs y DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y Swyddfa Gyfathrebiadau yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer rhoi sail i'm barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Swyddfa Gyfathrebiadau o sail cyfrifyddu busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau'n fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif archwilio ar hynny. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth rydym wedi'i chael yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad o bwys ynddi fel arall.

Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaethpwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion rwy'n adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Swyddfa Gyfathrebiadau a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan y Swyddfa Gyfathrebiadau neu nad oes ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF wedi cael eu datgelu neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at bobl yn y Swyddfa Gyfathrebiadau y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith yn ôl yr angen er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002; ac
- asesu gallu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes byw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes byw oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Swyddfa Gyfathrebiadau yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.



## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

## Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth ganfod ac asesu risgiau camddatganiadau o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf:

- wedi ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys sut mae polisïau cyfrifyddu'r Swyddfa Gyfathrebiadau yn cael eu llunio;
- wedi holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael gafael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ar:
  - canfod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a'r
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Swyddfa Gyfathrebiadau sy'n ymwneud â chydymffurfiad y Swyddfa Gyfathrebiadau â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch:
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

As a result of these procedures, I considered the opportunities and incentives that may exist within the Office of Communications for fraud and identified the greatest potential for fraud in the following areas: revenue recognition, posting of unusual journals, complex transactions, and bias in management estimates. In common with all audits under ISAs (UK), I am required to perform specific procedures to respond to the risk of management override.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Swyddfa Gyfathrebiadau a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau yn gweithredu yn unol â nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a deddfwriaeth treth.

## Ymateb yr archwiliad i'r risg a nodwyd

Ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a oeddent yn cydymffurfio â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holais reolwyr, y Pwyllgor Risg ac Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol; a
- Rhoddais sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau drwy brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu ac roeddwn yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n rhaid i mi gael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd Prydain a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Swyddfa Gyfathrebiadau yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Gareth Davies

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

7 Gorffennaf 2026

# DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r adran hon yn amlinellu ein datganiadau ariannol a'r nodiadau i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

# Datganiad incwm a gwariant

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodiadau | 2025/26<br>£'000 | 2024/25<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | 229,068 | 210,733 |
| Incwm clirio sbectrwm | 3 | - | 262 |
| **Cyfanswm incwm** | | **229,068** | **210,995** |
| Costau staff | 4 | (154,466) | (138,490) |
| Gwariant gweithredu arall | 6 | (74,278) | (70,477) |
| Gwariant clirio sbectrwm | 6 | - | (262) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **(228,744)** | **(209,229)** |
| **Gwarged gweithredol** | | **324** | **1,766** |
| Incwm cyllid | 14 | 198 | 215 |
| Costau cyllid | 17, 18 | (810) | (833) |
| Incwm llog pensiwn | 20 | 698 | 486 |
| **Gwarged cyn treth am y flwyddyn** | | **410** | **1,634** |
| Trethiant | 7 | - | - |
| **Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn** | | **410** | **1,634** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 124-160 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodiadau | 2025/26<br>£'000 | 2024/25<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn** | | **410** | **1,634** |
| (Gwariant)/incwm cynhwysfawr arall | | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | (843) | 1,024 |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr** | | **(433)** | **2,658** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 124-160 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad am y sefyllfa ariannol

Ar 31 Mawrth 2026

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2026 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 14,663 | 14,644 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 34,476 | 25,019 |
| Asedau anniriaethol | 10 | 68 | 149 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol | 12 | 1,282 | 2,093 |
| Symiau derbyniadwy lesoedd: asedau anghyfredol | 14 | 2,899 | 3,747 |
| Asedau buddion ymddeol | 20 | 12,349 | 13,371 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **65,737** | **59,023** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol | 11 | 14,224 | 13,468 |
| Symiau derbyniadwy lesoedd: asedau cyfredol | 14 | 848 | 794 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 13 | 14,798 | 20,353 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **29,870** | **34,615** |
| **Cyfanswm asedau** | | **95,607** | **93,638** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol | 15 | 29,193 | 35,187 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol | 17 | 4,359 | 5,342 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau cyfredol | 18 | 1,423 | 734 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **34,957** | **41,263** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol | 16 | 1,064 | 970 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 17 | 35,326 | 26,654 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau anghyfredol | 18 | 92 | 99 |
| Rhwymedigaethau buddion ymddeol | 20 | 586 | 655 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **37,068** | **28,378** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **72,043** | **69,641** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **23,564** | **23,997** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | 23,564 | 23,997 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **23,564** | **23,997** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 124-160 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 7 Gorffennaf 2026

Syr Ian Cheshire
Cadeirydd

Y Fonesig Melanie Dawes DCB Melanie Dawes
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

ARIANNOL

# Datganiad am newidiadau mewn ecwiti

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 01 Ebrill 2024** | | **21,339** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2024/25** | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | 1,024 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 1,634 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer 2024/25** | | **2,658** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **23,997** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2025/26** | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | (843) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 410 |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2025/26** | | **(433)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | | **23,564** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 124-160 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad am y llifoedd arian parod

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodiadau | 2025/26 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged gweithredol | Datganiad incwm a gwariant | 324 | 1,766 |
| **Addasiadau ar gyfer trafodiadau anariannol** | | | |
| Dibrisiant | 8 | 3,311 | 3,141 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 4,252 | 4,791 |
| Amorteiddiad | 10 | 81 | 59 |
| (Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol | 6 | (30) | 126 |
| Lleihad mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11,12 | 55 | 190 |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 15,16 | (5,900) | 11,538 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 18 | 672 | 705 |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn pensiwn ymddeol | 20 | 808 | (1,402) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **3,573** | **20,914** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (3,330) | (3,795) |
| Prynu asedau hawl i ddefnyddio | 9 | (585) | - |
| Prynu asedau anniriaethol | 10 | - | (99) |
| Enillion o werthu asedau anghyfredol | 6 | 30 | 7 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(3,885)** | **(3,887)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Derbyniad ar gyfer les derbyniadwy | 14 | 992 | 644 |
| Taliadau rhwymedigaethau lesoedd | 17 | (6,235) | (5,588) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(5,243)** | **(4,944)** |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(5,555)** | **12,083** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | | **20,353** | **8,270** |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn | | (5,555) | 12,083 |
| **Cronfeydd net terfynol** | **13** | **14,798** | **20,353** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 124-160 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

ARIANNOL

# Nodiadau i'r cyfrifon

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

## 1. Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisïau cyfrifyddu

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorfforaeth statudol sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Mae datganiadau ariannol Ofcom ar gyfer 31 Mawrth 2026 wedi cael eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) i gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Bydd Ofcom yn dilyn yr holl ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Drysorlys EM a DSIT, ac yn rhoi sylw i ofynion y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) i'r graddau y maent yn egluro neu'n adeiladu ar y gofynion hynny.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio ar gyfer ailbrisio rhai asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol sy'n cael eu mesur yn ôl symiau wedi eu hailbrisio neu werth teg, os oes o gwbl, o dan gyfarwyddyd cyfrifon yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

Caiff symiau yn y datganiadau ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, i'r fil agosaf, sef yr arian y mae Ofcom yn ei ddefnyddio.

## a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau, dehongliadau a diwygiadau newydd i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r safonau a'r datganiadau isod yn berthnasol i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol. Ar gyfer Ofcom, y dyddiad trosglwyddo oedd dechrau'r flwyddyn ariannol ar 1 Ebrill 2025.

Nid yw'r diwygiadau hyn yn effeithio ar ein ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

- Diwygiadau i IAS 21 Diffyg Cyfnewid sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2025. Mae hyn yn gofyn am ddull cyson o asesu a oes modd cyfnewid arian cyfred a, phan nad oes modd cyfnewid arian, pennu'r gyfradd gyfnewid i'w defnyddio a'r datgeliadau i'w darparu

Mae safonau, dehongliad a diwygiadau newydd eraill i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom ac mae'r rhain yn berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

- Diwygiadau i IFRS 9 ac IFRS 7 Diwygiadau i Ddosbarthu a Mesur Offerynnau Ariannol, sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2026 neu ar ôl hynny. Mae hyn yn egluro sut dylid asesu llif arian cytundebol ar asedau ariannol gyda nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) a nodweddion tebyg wrth benderfynu a ydynt yn cyd-fynd â threfniant benthyca sylfaenol ac, felly, a ydynt yn cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio neu werth teg. Mae'n egluro'r dyddiad y gellir dadgydnabod ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol pan fydd setliad yn cael ei wneud drwy drosglwyddiad arian parod electronig. Mae angen datgeliadau ychwanegol ar gyfer rhai buddsoddiadau ecwiti a buddsoddiadau ariannol gyda nodweddion amodol.
- Gwelliannau Blynyddol i IFRS Safonau Cyfrifyddu Cyfrol 11, sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2026 neu ar ôl hynny. Dyma fân ddiwygiadau i IFRS 1 Mabwysiadu Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol am y Tro Cyntaf, IFRS 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau, IFRS 9 Offerynnau Ariannol, IFRS 10 Datganiadau Ariannol Cyfunol ac IAS 7 Datganiad Llifoedd Arian.

- IFRS 18 Cyflwyno a datgelu mewn Datganiadau Ariannol, sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2027 neu ar ôl hynny. Mae hyn yn cyflwyno gofynion newydd i ddosbarthu incwm a threuliau mewn categorïau penodol a chyflwyno is-gyfansymiau diffiniedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant, canllawiau a gofynion gwell i gyfuno a dadgyfuno gwybodaeth yn fwy defnyddiol yn y prif ddatganiadau ariannol ac yn y nodiadau; a datgeliadau ychwanegol am fesurau perfformiad wedi'u diffinio gan reolwyr sy'n gysylltiedig â'r Datganiad Incwm a Gwariant. Yn disodli IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol.

## b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y taliadau sydd wedi'u derbyn neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgareddau arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau. Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy, a'i bod yn debygol y daw buddion economaidd i'r endid yn y dyfodol.

Mae goblygiadau mabwysiadu IFRS 15 yn uniongyrchol wedi cael eu hasesu. Fodd bynnag, o ystyried natur gweithgareddau Ofcom a bod IFRS 15 yn ymwneud â sefydliadau masnachol, nid oedd yn cael ei ystyried yn gwbl briodol. Yn unol â hynny, mae'r Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 8(10) wedi cael ei defnyddio i addasu IFRS 15 i gyd-destun y Sector Cyhoeddus, er mwyn datblygu polisi cyfrifyddu sy'n darparu gwybodaeth berthnasol a dibynadwy. Wrth wneud hynny, mae'r diffiniad o gontract wedi cael ei ehangu i gynnwys deddfwriaeth a rheoliadau.

Mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cynnwys model pum cam ar gyfer cydnabod incwm sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Yr egwyddor graidd oedd cydnabod incwm er mwyn iddo ddangos trosglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu haddo i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r endid yn disgwyl cael hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Roedd Ofcom wedi ystyried y broses pum cam ac wedi penderfynu peidio â newid y ffordd mae incwm yn cael ei gydnabod:

- Mae gweithgareddau rheoleiddio Ofcom yn cael eu cyflawni ar lefel sector ac felly nid ydynt yn benodol i gwsmeriaid unigol ac eithrio'r BBC. Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm o bob un o'r sectorau mae'n eu rheoleiddio er mwyn talu am y costau mae Ofcom yn eu hwynebu wrth reoleiddio'r sector hwnnw, ynghyd â chyfran briodol o 'gostau cyffredin' Ofcom ar gyfer pob un o'r sectorau hynny. Felly, mae deddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofcom i adennill ei gostau gan randdeiliaid.
- Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn ymwneud â'r gwaith sylfaenol a wneir gan Ofcom fel rheoleiddiwr y sector Cyfathrebiadau, ac fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol a gyhoeddir. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn cael eu bodloni pan fydd Ofcom wedi cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio.
- Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Ofcom gydbwyso ei gostau gyda'i incwm. Er mwyn sicrhau bod incwm yn adlewyrchu costau i'r sector priodol, mae costau'n cael eu dyrannu i sectorau/rhanddeiliaid yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Codi Tâl.
- Mae Ofcom yn diweddaru'r amcangyfrif o'r incwm i gynrychioli'n ffyddlon yr amgylchiadau sy'n bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod y flwyddyn ariannol; ac mae'n cyhoeddi'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn y tablau tariff.
- Felly, mae incwm yn cael ei gyfrifo a'i gydnabod yn y flwyddyn y mae'r goblygiadau perfformiad (costau) yn berthnasol iddi, ar sail adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofcom, a'u haddasu ar gyfer adennill gormod neu ddim digon yn y flwyddyn flaenorol. Cyfrifir y rhain yn y drefn honno fel incwm cronedig mewn asedau ac incwm gohiriedig mewn rhwymedigaethau, gan nad oes llawer o ansicrwydd, os o gwbl, ynghylch adennill incwm cronedig ac ad-dalu incwm gohiriedig sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol.
- Mae incwm hefyd yn cael ei gydnabod ar gyfer y costau hynny lle nad oes modd codi ffioedd na thaliadau ar randdeiliaid, yn bennaf am gost rheoli sbectrwm drwy gadw ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) yn unol ag adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad Egwyddorion Cyllido.
- Mae polisi cydnabod incwm Ofcom yn briodol ac yn unol â gofynion IFRS 15 fel y'i haddaswyd drwy IAS 8(10) a dehongliad Trysorlys EF ar gyfer y Sector Cyhoeddus.

Mae ffynonellau incwm Ofcom yn gymorth grant, derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA) sydd wedi'u cadw, incwm rhanddeiliaid ac incwm arall fel incwm rhent.

### Cymorth Grant gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg

Darperir cymorth grant gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i ariannu rhaglen clirio band 700MHz. Mae'r rhaglen hon yn goruchwylio'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posibl). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EF.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl i amodau'r grant gael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

### Derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw

Telir ffioedd i Ofcom mewn perthynas â'n swyddogaeth rheoli sbectrwm. Yn dilyn gweithredu Deddf yr Economi Ddigidol 2017, caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu'r costau o gyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall. Fel y cytunwyd â Thrysorlys Ei Fawrhydi a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, bydd derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu defnyddio hefyd i gyllido gwaith paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd gan gynnwys Diogelwch Ar-lein. Mae'r swm misol a gedwir yn dibynnu ar y gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y swyddogaethau hyn. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus, a bydd y swm a gedwir ar gyfer y mis canlynol yn cael ei addasu os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill.

## Incwm rhanddeiliaid

### Ffioedd gweinyddu gwasanaethau post, rhwydweithiau a gwasanaethau

Caiff y ffioedd hyn eu codi ar randdeiliaid yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau ynghyd â'r gwasanaethau post sy'n gweithredu o dan gyfundrefn heb drwydded, ond sy'n dod o dan bwerau rheoleiddio Ofcom. Mae'r costau hyn yn gyfuniad o wariant a gynlluniwyd ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, fel y nodir yn y Cynllun Gwaith, ac addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Ar ôl penderfynu'n derfynol ar y costau ar ddiwedd y flwyddyn, bydd incwm sy'n fwy na'r arian sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Yn groes i hynny, os bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

### Ffioedd trwyddedau darlledu

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebir i ddeiliaid trwyddedau darlledu ar gyfer ein gwaith rheoleiddio arfaethedig, gan gynnwys unrhyw addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n fwy na'r arian parod sydd wedi'i wario yn y sector darlledu ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Os bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

### Ffioedd ymgeisio

Am resymau ymarferol, rydym yn codi ffioedd penodedig ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio ar wahân sydd o dan reolaeth rhanddeiliaid unigol (er enghraifft, cais am drwydded ddarlledu), neu lle nad yw'r trosiant perthnasol yn sail briodol dros godi ffi (er enghraifft, radio cymunedol). Ni ellir ad-dalu'r ffioedd hyn, ac felly fe'u cofnodir fel refeniw pan ddaw cais y rhanddeiliad i law. Fodd bynnag, os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, caiff hynny

ei wrthbwyso yn erbyn cyfanswm costau'r sector yn y flwyddyn ganlynol. Er enghraifft, os yw cyfanswm y gwariant ar gyfer ceisiadau radio yn fwy na'r refeniw o'r ceisiadau, bydd y costau sydd heb gael eu hadennill yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm y costau rheoleiddio radio sydd i'w hadennill gan dalwyr ffi'r drwydded radio.

### Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth (NIS)

Mae incwm gan randdeiliaid rhwydweithiau a systemau gwybodaeth yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus gan weithredwyr dynodedig gwasanaethau hanfodol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Yn unol â rheoliadau rhwydweithiau a systemau gwybodaeth, mae'r incwm hwn yn cael ei adennill mewn ôl-daliadau; felly bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm cronedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### Incwm arall

Rhoddir cyfrif am incwm anstatudol ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

Mae deddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn cynhyrchu datganiad o incwm a dderbynnir, incwm sy'n ddyledus, incwm sy'n debygol o gael ei dalu neu ei adennill, a'r costau mewn perthynas â'i swyddogaethau rheoleiddio. Dangosir hyn yn Nodyn 2 y datganiadau ariannol, sy'n darparu tryloywder ar incwm gohiriedig a chronedig Ofcom fesul sector.

## c) MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, mae'r symiau mae Gweinidogion yr Alban yn eu talu i Ofcom yn cael eu talu wedyn gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg a reolir gan MG Alba. O ganlyniad, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom.

## d) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau.

Cesglir yr incwm o bum prif ffynhonnell:

- Ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr
- Ffioedd sbectrwm Adran Llywodraeth
- Cosbau Ariannol
- Taliadau Ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau teledu a radio
- Rhifau daearyddol

Cafodd yr incwm a gasglwyd (ac eithrio'r incwm a gadwyd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017) ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EF, yr Adran Cyllid a Phersonél – Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol 1991, Rhifau 998, 1710 ac 1709 yn y drefn honno, yn uniongyrchol neu drwy'r adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Mae Ofcom yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

Felly, ni wneir unrhyw dderbyniadau, taliadau nac eitemau sy'n gysylltiedig â'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn Natganiadau Ariannol Ofcom o ran trafodiadau sy'n gysylltiedig ag Adran 400, oni bai fod y taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

## e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Pan fydd eiddo, offer a chyfarpar yn gymwys i gael eu cydnabod fel ased, bydd yn cael ei fesur ar ei gost i ddechrau. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol. Er enghraifft, mae caledwedd cyfrifiadurol sefydlog fel gweinyddion, muriau cadarn a switshis rhwydwaith a ddefnyddir mewn swyddfeydd yn cael eu cyfalafu. Ar y llaw arall, mae cyfarpar TG symudol ag oes fer ac sy'n isel mewn gwerth yn cael ei gofnodi fel gwariant, oherwydd nad oes gan Ofcom reolaeth dros yr amgylchedd ffisegol na'r ffordd mae'n cael ei ddefnyddio.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i

Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Ar gyfer mesuriadau dilynol o'i holl eiddo, offer a chyfarpar, mae Ofcom yn dilyn y dull costio, fel y caniateir o dan IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

| Gwelliannau Lesddaliad | Cyfnod y les |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau | 5 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei ddyrannu i'r Datganiad Incwm a Gwariant, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli'r costau a wynebwyd yn datblygu asedau diriaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u dibrisio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod yn '(Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn y nodyn 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## f) Rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau lesoedd

Ar gyfer unrhyw gontract newydd, mae Ofcom yn ystyried a yw contract yn les, neu'n cynnwys les. Diffinnir les fel 'contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod yn gyfnewid am dâl cydnabyddiaeth.' I gymhwyso'r diffiniad hwn, mae Ofcom yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri gwerthusiad allweddol, sef:

- A yw'r contract yn cynnwys ased dynodedig, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg y bydd yr ased ar gael i Ofcom.
- a oes gan Ofcom yr hawl i gael yr holl fanteision economaidd o ddefnyddio'r ased dynodedig drwy gydol y cyfnod defnyddio, wrth ystyried ei hawliau o fewn cwmpas diffiniedig y contract.
- a oes gan Ofcom yr hawl i fynnu sut mae'r ased dynodedig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio. Mae Ofcom yn asesu a oes ganddo'r hawl i fynnu 'sut ac at ba ddiben' y mae'r ased yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio.

Ar ddyddiad cychwyn y les, mae Ofcom yn cydnabod y rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a'r rhwymedigaeth lesoedd, heb gynnwys TAW, ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur yn ôl cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o'r rhwymedigaeth lesoedd, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y les, ac unrhyw daliadau les a wnaed cyn dyddiad cychwyn y les (net o unrhyw gymelliadau a dderbyniwyd) hyd at ddiwedd y les neu'r cyfnod ymestyn, pa un bynnag yw'r hwyraf, neu hyd at derfynu'r les os oes rhai.

Mae Ofcom yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnyddio ar sail llinell syth ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau o'r mis y mae ased yn cael ei roi ar waith, hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y les – pa un bynnag yw'r cynharaf. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Mae Ofcom hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnyddio am amhariad pan fydd dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500, a chofnodir asedau hawl i ddefnyddio ar sail cyfanswm costau contract y les, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion yn sgil amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Ar ôl gwneud y mesuriadau cychwynnol, caiff swm cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio ei addasu yn ôl yr un swm â'r addasiad i werth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd. Nid oes enillion na cholledion yn syth, ond bydd y llifoedd arian parod diwygiedig yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant dros weddill cyfnod y les. Mae eithriadau i'r egwyddor hon: pan fydd gostyngiad yng ngwerth cario ymlaen rhwymedigaeth les yn fwy na gwerth cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio perthnasol ar adeg yr ail-fesur – os felly caiff yr ased ei ostwng i ddim, a bydd y swm dros ben yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant

– ac mewn sawl achos lle mae addasiad i les yn lleihau cwmpas les bresennol. Bydd ailbrisiadau o asedau hawl i ddefnyddio, os oes rhai, yn cael eu cydnabod yn y gronfa ailbrisio.

Mae Ofcom yn mesur y rhwymedigaeth lesoedd ar werth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd yn y les os yw'r gyfradd honno ar gael yn hwylus, neu yn unol â chyfradd Trysorlys EF o 5.32 y cant ar gyfer blwyddyn galendr 2026 (4.81 y cant ar gyfer blwyddyn galendr 2025).

Mae taliadau lesoedd sy'n cael eu cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth lesoedd yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys taliadau sefydlog gwirioneddol) ac, os oes rhai, y taliadau amrywiol ar sail mynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddyn nhw fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n eithaf sicr o gael eu harfer.

Ar ôl y mesur cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei lleihau ar gyfer taliadau a wneir ac yn cynyddu ar gyfer llog. Caiff ei hail-fesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog gwirioneddol.

Pan gaiff rhwymedigaeth les ei hail-fesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnyddio, neu'r Datganiad Incwm a Gwariant os yw'r ased hawl i ddefnyddio eisoes wedi'i leihau i sero.

Mae Ofcom wedi dewis rhoi cyfrif am lesoedd tymor byr ac am lesoedd asedau isel eu gwerth gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn hytrach na chydnabod rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesoedd, mae'r taliadau mewn perthynas â'r rhain yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

Mae rhwymedigaeth am lesoedd nad ydynt wedi dechrau eto, y mae Ofcom wedi ymrwymo iddyn nhw, yn cael ei chofnodi yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn unig o ddyddiad cytundeb les wedi'i llofnodi.

## Costau uniongyrchol cychwynnol

Mae hyn yn golygu'r costau cynyddrannol o gael les na fyddent wedi codi oni bai am y les. Gall gynnwys costau fel ffioedd canfyddwr, comisiynau i asiantau ar gyfer sefydlu'r les, a ffioedd ymlaen llaw. Mae Ofcom wedi wynebu costau o'r fath oherwydd llofnodi lesoedd newydd yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at yr asedau hawl i ddefnyddio yn y datganiadau ariannol.

## Defnyddio ôl-ddoethineb

Gall endid ddefnyddio ôl-ddoethineb wrth bennu cyfnod y les os bydd y contract yn cynnwys opsiynau i ymestyn y les neu i ddod â hi i ben. Dim ond pan fydd endid yn dilyn dull ôl-weithredol wedi ei addasu y bydd modd gwneud hynny. Un o fanteision allweddol dull ôl-weithredol wedi ei addasu yw y gall endid drosglwyddo ei lesoedd gweithredol gan ddefnyddio gwybodaeth ar y dyddiad y mae'n dechrau ei ddefnyddio.

## Is-lesoedd

Mae IFRS 16 Lesoedd yn ei gwneud yn ofynnol i leswyr canolradd ddosbarthu is-lesoedd fel les cyllid neu les weithredol fel a ganlyn:

- Os yw'r brif les yn les tymor byr, mae'r is-les yn cael ei dosbarthu fel les weithredol.
- Fel arall, mae'r is-les yn cael ei dosbarthu gan gyfeirio at yr ased hawl i ddefnyddio sy'n deillio o'r brif les, yn hytrach na chan gyfeirio at yr ased sylfaenol.

Mae Ofcom wedi dosbarthu ei is-lesoedd fel les cyllid ac felly:

- mae'n datgydnabod yr ased hawl i ddefnyddio sy'n ymwneud â'r brif les y mae'n ei throsglwyddo i ddaliwr yr is-les, ac mae'n cydnabod y buddsoddiad net yn yr is-les.
- mae'n cydnabod unrhyw wahaniaeth rhwng yr ased hawl i ddefnyddio a'r buddsoddiad net yn yr is-les yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel (Enillion)/Colledion wrth waredu asedau anghyfredol.
- mae'n cadw'r rhwymedigaeth lesoedd sy'n ymwneud â'r brif les yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol, sy'n cynrychioli taliadau'r les sy'n ddyledus i'r prif lesydd.

Yn ystod yr is-les, mae Ofcom, sef y lesydd canolradd, yn cydnabod y gwariant llog ar y brif les (rhwymedigaeth les) ac incwm cyllid ar yr is-les yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## g) Asedau anniriaethol

Ar ôl cydnabod ased anniriaethol i gychwyn, caiff ei gario ar ei gost, llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad sydd wedi cronni yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd, ffioedd trwyddedau cysylltiedig, a'r dechnoleg gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu ein systemau craidd. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os caiff ased ei greu y gellir ei ddynodi. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff cost datblygu ei chofnodi fel gwariant yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff amorteiddiad asedau anniriaethol a gyfalafwyd ei gofnodi ar y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o 3 i 5 mlynedd. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae systemau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu meddalwedd a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u hamorteiddio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod yn '(Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn y nodyn 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## h) Amhariad ar eiddo, peiriannau a chyfarpar, asedau anniriaethol ac asedau hawl i ddefnyddio

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth cario ymlaen asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth cario ymlaen yr asedau, yn unol ag IAS 36 Amhariad ar Asedau.

Caiff swm cario ymlaen ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adenilladwy os yw swm cario ymlaen yr ased yn fwy na'r amcangyfrif o'r swm adenilladwy.

Wrth fabwysiadu IFRS 16, cafodd yr holl lesoedd beichus ac amhariadau ar draws eiddo sydd eisoes yn cael ei lesio eu hailfesur er mwyn ystyried effaith newid y safonau cyfrifyddu ar gyfer lesoedd ar y broses o fesur amhariadau. Ni chafodd y rhagdybiaethau sylfaenol eu newid yn ystod yr ailfesuriad hwn.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

## i) Offerynnau ariannol

### Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill

Symiau derbyniadwy drwy fasnach yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill, a chânt eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg llai unrhyw ddiddymu ar gyfer amhariad. Mae enillion a cholledion wrth fesur wedi hynny yn cael eu cydnabod fel gwerth teg yn llwyr yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

Mae rhagdaliadau'n daliadau sydd wedi cael eu gwneud, ond nad yw'r buddion ohonyn nhw wedi cael eu defnyddio.

Incwm cronedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm.

## Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau, a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

## Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

Ystyr symiau taladwy drwy fasnach yw dyletswyddau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill, ac maen nhw'n cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg.

Mae symiau taladwy eraill yn cynrychioli arian sy'n ddyledus i drydydd partïon ar y dyddiad adrodd.

Incwm gohiriedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm.

## Risgiau ariannol ac amhariad ar offerynnau ariannol

Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol Cyflwyniad yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog, neu arian cyfred. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un lefel o risgiau ariannol y mae endidau busnes masnachol yn eu hwynebu.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg wrth gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn berthnasol iddyn nhw. Ychydig o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi arian dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid yw mabwysiadu IFRS 9 Offerynnau Ariannol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ganlyniadau Ofcom. Nid oes gan symiau derbyniadwy drwy fasnach nac asedau contract Ofcom ddim elfen gyllido sylweddol, ac nid ydynt yn agored chwaith i risgiau credyd, oherwydd os na fydd digon o ffioedd rhanddeiliaid wedi cael eu hadennill bob blwyddyn, byddan nhw'n cael eu hadennill drwy dariffau'r blynyddoedd dilynol. Mae Ofcom wedi asesu'r lwfans colledion wrth gydnabod hyn i gychwyn ar swm sy'n cyfateb i'r golled credyd ddisgwyliedig am oes, ac roedd y canlyniad yn amherthnasol. Felly, er mwyn sicrhau bod hyn yn aros yr un fath drwy gydol oes y swm derbyniadwy, mae Ofcom yn parhau i werthuso cadernid ei reolaeth credyd fisol a'r amhariad ar asedau ariannol, os o gwbl, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

# j) Buddion gweithwyr

## Pensiynau

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

## Cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod o fewn costau staff fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel y'u hwynebwyd. Gall gweithwyr newydd ymuno â'r cynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

## Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio, lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddyn nhw yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi'i ennill am y cyfnod maen nhw'n aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

ARIANNOL

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Mae colledion ac enillion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn llawn o dan incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall yn y Datganiad o Incwm/(Gwariant) Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y byddan nhw'n codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o reoleiddwyr blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae hwn yn gynllun aml-gyflogwr gydag Ofcom, S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) fel cyflogwyr sy'n cymryd rhan. Mae'r datganiadau ariannol yn cynrychioli cyfran Ofcom o'r asedau a'r rhwymedigaethau. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol o dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo oherwydd y gwarged.

### Cynlluniau heb eu cyllido

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, un cyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

### Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr

Dan IAS 19, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted ag y bydd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr yn codi. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan weithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos.

Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflogau, ei gynnwys fel rhan o groniadau. O 1 Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

## k) Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cydnabod fel a ganlyn:

Pan fydd y pecyn diswyddo ar gyfer rhai gweithwyr a symudodd i Ofcom ar hen delerau ac amodau cyflogaeth y Gwasanaeth Sifil yn cael ei ddarparu o'r dyddiad ymddeol yn gynnar tan yr oedran ymddeol. Bydd y gweithiwr yn cael taliad iawndal blynyddol sy'n hafal i'r pensiwn a gedwir, sy'n cael ei dalu drwy randaliadau misol mewn ôl-daliadau fel pensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

Mae gan Ofcom rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ar gyfer amcangyfrif o iawndal a chostau cyfreithiol trydydd parti mewn perthynas â heriau yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom pan fernir ei bod yn debygol y bydd yn rhaid talu'r rhain; mae'n debygol y bydd angen cael all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac mae'r amcangyfrif o'r swm yn un dibynadwy. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae darpariaeth o fewn darpariaethau eraill wedi'i chydnabod ar gyfer rhwymedigaethau treth posibl sy'n deillio o driniaeth dau ddeiliad swydd a ddylai, mewn cyfnodau blaenorol, fod wedi'u dosbarthu fel cyflogeion at ddibenion treth ac felly wedi bod yn ddarostyngedig i PAYE ac Yswiriant Gwladol. Yn seiliedig ar yr asesiadau presennol, ystyrir ei bod yn debygol y bydd angen gwneud taliad i CThEF mewn

perthynas â'r rhwymedigaethau hyn, ac mae'r swm wedi'i amcangyfrif ar sail resymol.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried y dosbarth rhwymedigaethau. Mae darpariaeth yn cael ei chydnabod hyd yn oed os gall y tebygolrwydd o all-lif mewn perthynas ag unrhyw un eitem sydd wedi'i chynnwys yn yr un dosbarth o rwymedigaethau, fod yn fach.

## l) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodiadau a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n bunnoedd yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

## m) Treth gyfredol

Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir ganddo fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

## n) Dadansoddiad segmentol

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgareddau mewn segment daearyddol na segment busnes, oherwydd mae holl weithgareddau Ofcom yn cael eu cynnal yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

## o) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau go iawn fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r meysydd y rhoddir barn arnynt sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Darpariaethau cyfreithiol – polisi cyfrifyddu (k)
- Cydnabod incwm ac asesu incwm heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)

Dyma'r meysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i swm cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (j)
- Barn ynghylch a yw contract yn cynnwys les (f)

## 2. Dadansoddiad Sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei baratoi yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt IFRS 8 Segmentau Gweithredu, yn unol â pholisi cyfrifyddu Nodyn 1 (n).

| | Rheoli Sbectrwm £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Ffeilio Lloerennau £'000 | Gwybodaeth Rhwydwaith a Gwasanaethau £'000 | Rhwydweithiau a Gwasanaethau £'000 | Darlledu £'000 | Diogelwch Ar-lein £'000 | Rheoleiddio Post £'000 | Gweithgareddau rheoleiddio eraill £'000 | 2025/26 Cyfanswm £'000 | 2024/25 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedu, rheoleiddio a gweinyddu | - | - | 458 | 48 | 38,356 | 22,892 | - | 3,242 | 3,555 | 68,551 | 71,765 |
| Ffioedd ymgeisio | - | - | - | - | 120 | 97 | - | - | - | 217 | 415 |
| Cymorth Grant (GIA) | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 262 |
| Derbyniadau y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr sydd wedi'u cadw | 57,588 | - | - | - | - | - | 91,726 | - | 15,457 | 164,771 | 151,220 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | (1,422) | - | 280 | 743 | (627) | (1,600) | (4,175) | 1,104 | (1,981) | (7,678) | (14,181) |
| **Incwm gweithredu** | **56,166** | **-** | **738** | **791** | **37,849** | **21,389** | **87,551** | **4,346** | **17,031** | **225,861** | **209,481** |
| Incwm arall | 591 | - | 8 | 9 | 420 | 237 | 971 | 48 | 189 | 2,473 | 672 |
| Llog sydd i'w dderbyn | 176 | - | 2 | 3 | 125 | 70 | 288 | 14 | 56 | 734 | 842 |
| **Cyfanswm yr incwm arian parod** | **56,933** | **-** | **748** | **803** | **38,394** | **21,696** | **88,810** | **4,408** | **17,276** | **229,068** | **210,995** |
| Addasiadau i'r gwariant gweithredu | (767) | - | (10) | (12) | (545) | (307) | (1,259) | (62) | (245) | (3,207) | (1,514) |
| Costau eraill | (56,166) | - | (738) | (791) | (37,849) | (21,389) | (87,551) | (4,346) | (17,031) | (225,861) | (209,481) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu arian parod** | **(56,933)** | **-** | **(748)** | **(803)** | **(38,394)** | **(21,696)** | **(88,810)** | **(4,408)** | **(17,276)** | **(229,068)** | **(210,995)** |
| **Gwarged ar sail costau arian parod** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026** | (56,933) | - | (748) | (803) | (38,394) | (21,696) | (88,810) | (4,408) | (17,276) | (229,068) | - |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | (52,598) | (262) | (757) | (673) | (36,492) | (25,932) | (71,641) | (4,434) | (18,206) | (210,995) | - |

Caiff y tabl ar dudalen xx ei baratoi ar sail ariannol wedi'i addasu (adjusted cash basis), sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol at gynlluniau pensiwn, ond ddim yn cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad. Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn Nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, mae cymorth grant a derbyniadau mewn perthynas â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu dyrannu a'u cyfateb i gostau yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Ffioedd trwyddedu a gweinyddu: Mae'r rhain yn cael eu pennu ar sail amcangyfrif Ofcom o'r costau arian parod. Pan geir mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid. I'r gwrthwyneb, pan geir mwy o wariant nag incwm, bydd y diffyg canlyniadol yn cael ei adennill gan y rhanddeiliaid, yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

Darlledu: Mae hyn yn cynnwys ffioedd trwydded a godir ar ddarlledwyr trwyddedig Ofcom, yn ogystal â'r tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'i gyfrifoldebau rheoleiddio.

Diogelwch Ar-lein: Cynyddodd gwariant yn ystod y flwyddyn yn unol â chwmpas estynedig y dyletswyddau Diogelwch Ar-lein.

Mae gweithgareddau rheoleiddio eraill yn cynnwys:

- Gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch prawf budd cyhoeddus, galwadau niwsans, diogelu defnyddwyr, a chostau ein dyletswyddau diogelwch telegyfathrebiadau; defnyddir derbyniadau mewn perthynas â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i gyllido'r categorïau cost hyn.
- Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm.
- Gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant parthed y sbectrwm.
- Incwm rhent ac ad-daliadau cost cysylltiedig o osod gofod eiddo dros ben

## Cysoni'r gwariant gweithredu â'r alldro costau gweithredu terfynol

| | Nodiadau | 2025/26 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredu – Datganiad Incwm a Gwariant** | | **228,744** | **209,229** |
| Addasiadau o ran rhwymedigaethau ac asedau pensiwn | | (902) | 1,311 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant ac amorteiddiad | 8,10 | (62) | 694 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | (4,252) | (4,791) |
| Symiau derbyniadwy lesoedd | 14 | (992) | (644) |
| Taliadau lesoedd | 17 | 6,235 | 5,588 |
| Addasiadau eraill | | 297 | (392) |
| **Gwariant gweithredu - arian parod** | | **229,068** | **210,995** |
| Clirio Sbectrwm | 3.6 | - | (262) |
| Tanysgrifiad yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) | | (2,889) | (2,891) |
| Incwm Anweithredol | | (3,207) | (1,514) |
| **Alldro costau gweithredu terfynol** | | **222,972** | **206,328** |

Mae'r addasiadau eraill yn adlewyrchu symudiadau o un flwyddyn i'r llall mewn eitemau anariannol, ac mae'r incwm anweithredol yn adlewyrchu cynnydd mewn dyfarniadau costau cyfreithiol ac incwm secondai.

Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011, mae'r tabl isod yn dangos yr arian parod a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol a'r swm sy'n ddyledus ar gyfer y sectorau Rhwydweithiau a Gwasanaethau, Darlledu a'r Post.

| | Arian parod a dderbyniwyd £'000 | Swm sy'n ddyledus £'000 |
|---|---|---|
| **Sectorau** | | |
| Rhwydweithiau a Gwasanaethau | 30,666 | 810 |
| Darlledu | 23,490 | 57 |
| Gwasanaethau Cyfradd Premiwm | 3,331 | 88 |
| Post | 2,920 | - |
| **Cyfanswm** | **60,407** | **955** |



## 3. Incwm

| | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2025/26 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg** | | | | | | |
| Cymorth Grant Clirio Sbectrwm | - | - | - | - | 262 | 262 |
| **Cyfanswm cymorth grant** | **-** | **-** | **-** | **-** | **262** | **262** |
| **Derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw** | | | | | | |
| Rheoli Sbectrwm WTA | 56,166 | - | 56,166 | 52,264 | - | 52,264 |
| Diogelwch Ar-lein WTA | 87,367 | - | 87,367 | 71,160 | - | 71,160 |
| Ôl-gystadleuaeth WTA | 171 | - | 171 | 246 | - | 246 |
| Galwadau Niwsans WTA | 63 | - | 63 | 1 | - | 1 |
| Diogelu Defnyddwyr WTA | 41 | - | 41 | - | - | - |
| Llwyfannau Rhannu Fideos WTA | 735 | - | 735 | 3,680 | - | 3,680 |
| Prawf Lles y Cyhoedd WTA | 191 | - | 191 | 5 | - | 5 |
| Deddf Diogelwch Telegyfathrebiadau WTA | 5,064 | - | 5,064 | 7,298 | - | 7,298 |
| Systemau Gwybodaeth a Rhwydweithiau WTA | 386 | - | 393 | 261 | - | 261 |
| Bwydydd Llai Iach WTA | 306 | - | 306 | 489 | - | 489 |
| Deddf Cyfryngau WTA | 6,950 | - | 6,950 | 3,442 | - | 3,442 |
| Perchnogaeth Cyfryngau WTA | 15 | - | 15 | 236 | - | 236 |
| Gwasanaeth Cynghori ar AI y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol WTA | 988 | - | 988 | 1,011 | - | 1,011 |
| Deddf Marchnadoedd Digidol Cystadleuaeth a Defnyddwyr WTA | 157 | - | 157 | 47 | - | 47 |
| Gwasanaethau Cyfradd Premiwm | - | - | - | 984 | - | 984 |
| Ffeilio Lloerennau | 738 | - | 738 | 752 | - | 752 |
| Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid WTA | (7) | - | (7) | - | - | - |
| Mynediad i Ymchwilwyr Diogelwch Ar-lein WTA | 184 | - | 184 | - | - | - |
| **Cyfanswm derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw** | **159,522** | **-** | **159,522** | **141,876** | **-** | **141,876** |
| **Incwm rhanddeiliaid** | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer Rhwydweithiau a Gwasanaethau | 37,849 | - | 37,849 | 36,247 | - | 36,247 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 21,330 | - | 21,330 | 25,630 | - | 25,630 |
| Rheoleiddio Post | 4,346 | - | 4,346 | 4,404 | - | 4,404 |
| Fideo Ar-alw | 59 | - | 59 | 128 | - | 128 |
| Systemau Gwybodaeth a Rhwydweithiau | 791 | - | 791 | 668 | - | 668 |
| Gwasanaethau Cyfradd Premiwm | 1,964 | - | 1,964 | 265 | - | 265 |
| Incwm is-les arall | 386 | - | 386 | 153 | - | 153 |
| Incwm arall | 2,821 | - | 2,821 | 1,362 | - | 1,362 |
| **Cyfanswm incwm rhanddeiliaid** | **69,546** | **-** | **69,546** | **68,857** | **-** | **68,857** |
| **Cyfanswm incwm** | **229,068** | **-** | **229,068** | **210,733** | **262** | **210,995** |

Mae ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC.

## 4. Costau staff

| | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2025/26 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyma'r costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd:** | | | | | | |
| Cyflogau a buddion | 124,415 | - | 124,415 | 113,210 | - | 113,210 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 16,579 | - | 16,579 | 13,057 | - | 13,057 |
| Costau pensiwn | 12,472 | - | 12,472 | 11,445 | - | 11,445 |
| Costau ailstrwythuro | 1,000 | - | 1,000 | 778 | - | 778 |
| **Cyfanswm costau staff** | **154,466** | **-** | **154,466** | **138,490** | **-** | **138,490** |

Mae'r cynnydd mewn cyflogau a buddion yn adlewyrchu'r cynnydd yn ein dyletswyddau o ran Diogelwch Ar-lein, y Ddeddf Cyfryngau a Gwasanaethau Cyfradd Premiwm. Mae cynnydd cyfatebol mewn Yswiriant Gwladol, yn ogystal â chynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr i 15% (2024/25: 13.8%). Yn ystod y flwyddyn cafodd 12 (2024/25: 9) o weithwyr secondiad i sefydliadau eraill.

Mae'r costau ailstrwythuro yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer 38 o weithwyr (2024/25: 15) ac mae'n cynnwys costau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn sy'n ymwneud â 14 o weithwyr (2024/25: 13).

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn uwch swyddogion gweithredol a Chyfarwyddwyr Grŵp ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 110-113.

## 5. Nifer y gweithwyr

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| **Nifer cyfartalog y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn** | **1,665** | **1,557** |

Mae nifer y gweithwyr amser llawn ar 31 Mawrth yn cael ei gategoreiddio yn ôl lefel rheoli yn y tabl isod. Mae'r cynnydd ers y flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd adnoddau ychwanegol a ddefnyddiwyd ar gyfer dyletswyddau Diogelwch Ar-lein.

| 31 Mawrth 2026 | 2025/26 | 2025/26 | 2024/25 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | Aelod Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE | % | Aelod Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE | % |
| Gweinyddwr | 63 | 4 | 76 | 5 |
| Aelod Cyswllt | 473 | 28 | 461 | 29 |
| Uwch Swyddog Cyswllt | 768 | 46 | 716 | 44 |
| Pennaeth | 291 | 17 | 280 | 17 |
| Uwch Arbenigwr Rheoli | 81 | 5 | 75 | 5 |
| **Cyfanswm y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn)** | **1,676** | **100** | **1,608** | **100** |

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi cael secondiad i Ofcom.

## 6. Gwariant gweithredu arall

| | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2025/26 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 166 | - | 166 | 156 | - | 156 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 20 | - | 20 | 19 | - | 19 |
| Ffioedd proffesiynol | 5,735 | - | 5,735 | 4,628 | - | 4,628 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 19,614 | - | 19,614 | 15,821 | - | 15,821 |
| Ymchwil cynulleidfaoedd a defnyddwyr | 9,074 | - | 9,074 | 9,449 | - | 9,449 |
| Ymchwil dechnolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 446 | - | 446 | 318 | - | 318 |
| Cynllun clirio sbectrwm | - | - | - | - | 262 | 262 |
| Staff dros dro a recriwtio | 2,942 | - | 2,942 | 4,234 | - | 4,234 |
| Teithio a chynhaliaeth | 2,293 | - | 2,293 | 2,190 | - | 2,190 |
| Costau eiddo | 6,782 | - | 6,782 | 6,566 | - | 6,566 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 9,776 | - | 9,776 | 9,578 | - | 9,578 |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 9,656 | - | 9,656 | 9,240 | - | 9,240 |
| Cerbydau | 160 | - | 160 | 150 | - | 150 |
| Drwgddyledion a dyledion amheus | - | - | - | 11 | - | 11 |
| Amorteiddiad | 81 | - | 81 | 59 | - | 59 |
| Dibrisiant | 3,311 | - | 3,311 | 3,141 | - | 3,141 |
| Dibrisiant asedau les Hawl i Ddefnyddio | 4,252 | - | 4,252 | 4,791 | - | 4,791 |
| (Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol | (30) | - | (30) | 126 | - | 126 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu arall** | **74,278** | **-** | **74,278** | **70,477** | **262** | **70,739** |

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i wariant gweithredu arall Ofcom, sy'n gostau craidd, er mwyn galluogi cymhariaeth gyson rhwng y blynyddoedd. Mae'r costau yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ymwneud â'r gwaith datgomisiynu sy'n cael ei wneud ar safle'r mast dros dro yn Emley Moor.

Gellir priodoli'r cynnydd mewn gwasanaethau a ddarperir yn allanol yn bennaf i gostau ychwanegol sy'n ymwneud â gwasanaethau technoleg gwybodaeth.

Mae'r cynnydd mewn Ffioedd Proffesiynol yn adlewyrchu defnyddio gwasanaethau allanol i gefnogi seilwaith digidol, gan wella ffyrdd effeithlon a diogel o weithio.

Mae'r gostyngiad mewn Staff Dros Dro a Recriwtio yn adlewyrchu'r defnydd uwch o adnoddau dros dro yn 2024/25 i fynd i'r afael â bylchau sgiliau tymor byr mewn dyletswyddau Diogelwch Ar-lein.

## 7. Trethiant

| | 2025/26<br>£'000 | 2024/25<br>[Cynrychiolwyd]<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cysoni'r tâl treth** | | |
| Gwarged cyn treth am y flwyddyn | 410 | 1,634 |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 25% (2024/25: 25%) | 103 | 409 |
| **Effaith treth:** | | |
| Incwm na thelir treth arno | (57,076) | (52,790) |
| Costau na thelir treth arnynt | 57,164 | 52,663 |
| Lleihad yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | (191) | (282) |
| **Costau treth** | - | - |

Ar y dyddiad adrodd, roedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol o £8,376k (2024/25: £9,138k). Nid oes unrhyw asedau treth gohiriedig yn cael eu cydnabod yng nghyswllt y colledion hyn, gan nad yw'n debygol y bydd digon o incwm trethadwy'n codi y gellir defnyddio'r colledion yn ei erbyn.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Ofcom ddiweddaru ei fethodoleg cyfrifo treth yn dilyn ei ddatganiad treth diweddaraf. Yn unol â hynny, mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi'u hail-ddatgan er mwyn cyd-fynd â'r datganiadau gwirioneddol a gyflwynwyd i CThEF. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar y tâl treth ar gyfer y flwyddyn.

## 8. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau lesddaliad £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Cyfarpar swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadu £'000 | Cerbydau £'000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **10,835** | **2,234** | **15,574** | **3,758** | **710** | **592** | **33,703** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 345 | 375 | 5 | 35 | - | 3,035 | 3,795 |
| Gwarediadau | - | (65) | (112) | (234) | (28) | - | (439) |
| Trosglwyddiadau | 271 | 56 | 503 | 85 | 35 | (950) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **11,451** | **2,600** | **15,970** | **3,644** | **717** | **2,677** | **37,059** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 304 | 149 | 298 | - | 17 | 2,562 | 3,330 |
| Gwarediadau | - | (73) | (704) | (557) | - | - | (1,334) |
| Trosglwyddiadau | 606 | 116 | 2,783 | 535 | 578 | (4,618) | - |
| **Cost ar 31 Mawrth 2026** | **12,361** | **2,792** | **18,347** | **3,622** | **1,312** | **621** | **39,055** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **4,356** | **1,583** | **10,723** | **2,331** | **710** | **-** | **19,703** |
| Tâl am y flwyddyn | 935 | 287 | 1,102 | 811 | 6 | - | 3,141 |
| Gwarediadau | - | (56) | (112) | (233) | (28) | - | (429) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **5,291** | **1,814** | **11,713** | **2,909** | **688** | **-** | **22,415** |
| Tâl am y flwyddyn | 1,028 | 218 | 1,292 | 752 | 21 | - | 3,311 |
| Gwarediadau | - | (73) | (704) | (557) | - | - | (1,334) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2026** | **6,319** | **1,959** | **12,301** | **3,104** | **709** | **-** | **24,392** |
| **Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2026** | **6,042** | **833** | **6,046** | **518** | **603** | **621** | **14,663** |
| Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2025 | 6,160 | 786 | 4,257 | 735 | 29 | 2,677 | 14,644 |

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri ein hasedau o dan Cyfarpar Maes.

## 9. Asedau hawl i ddefnyddio

Mae Ofcom yn lesio asedau, gan gynnwys adeiladau, cerbydau a chyfarpar swyddfa. Cyflwynir isod wybodaeth am leseodd y mae Ofcom yn lesddeiliaid arnynt.

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **55,308** | **584** | **114** | **56,006** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 12 | - | 44 | 56 |
| Gwarediadau | (7,832) | (25) | - | (7,857) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **47,488** | **559** | **158** | **48,205** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 13,546 | 163 | - | 13,709 |
| Gwarediadau | - | (44) | - | (44) |
| **Cost 31 Mawrth 2026** | **61,034** | **678** | **158** | **61,870** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **22,370** | **328** | **81** | **22,779** |
| Tâl am y flwyddyn | 4,662 | 107 | 22 | 4,791 |
| Gostyngiad | (4,359) | (25) | - | (4,384) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **22,673** | **410** | **103** | **23,186** |
| Tâl am y flwyddyn | 4,150 | 80 | 22 | 4,252 |
| Gostyngiad | - | (44) | - | (44) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2026** | **26,823** | **446** | **125** | **27,394** |
| | | | | |
| **Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2026** | **34,211** | **232** | **33** | **34,476** |
| Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2025 | 24,815 | 149 | 55 | 25,019 |

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd Ofcom i nifer o drefniadau prydles newydd ac ymgymerodd â sawl addasiad prydlesi. Roedd y rhain yn cynnwys caffael swyddfa newydd yn Warrington a gofod swyddfa ychwanegol ym Manceinion. Yn ogystal, ymestynnwyd telerau prydles swyddfa Llundain, safle mast Fife, cerbydau ac argraffwyr gan 10 mlynedd, 20 mlynedd, 2 flynedd, a 2 flynedd yn y drefn honno. Gyda'i gilydd, arweiniodd y newidiadau hyn at gynnydd o £13,124k mewn rhwymedigaethau prydles a gydnabyddir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

## 10. Asedau anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Systemau sy'n cael eu datblygu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **4,382** | **12,439** | **-** | **16,821** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | - | 99 | 99 |
| Gwarediadau | (30) | (27) | - | (57) |
| Trosglwyddiadau Cynrychiolwyd) | - | 99 | (99) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025 Cynrychiolwyd)** | **4,352** | **12,511** | **-** | **16,863** |
| Gwarediadau | - | (554) | - | (554) |
| **Cost 31 Mawrth 2026** | **4,352** | **11,957** | **-** | **16,309** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **4,379** | **12,333** | **-** | **16,712** |
| Tâl am y flwyddyn | 1 | 58 | - | 59 |
| Gwarediadau | (30) | (27) | - | (57) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **4,350** | **12,364** | **-** | **16,714** |
| Tâl am y flwyddyn | 1 | 80 | - | 81 |
| Gwarediadau | - | (554) | - | (554) |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2026** | **4,351** | **11,890** | **-** | **16,241** |
| **Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2026** | **1** | **67** | **-** | **68** |
| Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2025 | 2 | 147 | - | 149 |

Mae balansau cymharol y flwyddyn flaenorol wedi'u hailgyflwyno i adlewyrchu ailddosbarthiad o £99k o Systemau sy'n cael eu datblygu i Dechnoleg Gwybodaeth. Nid yw'r addasiad hwn yn cael unrhyw effaith ar gyfanswm y gost nac ar y gwerth llyfr net.

## 11. Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 20 26 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 1,012 | 531 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 349 | 71 |
| Rhagdaliadau | 7,800 | 8,953 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | 113 | 80 |
| Incwm Cronedig - Arall | 76 | - |
| Incwm Cronedig - Rhanddeiliad | 3,781 | 2,532 |
| Incwm cronedig - Derbyniadau WTA | 1,093 | 1,301 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol** | **14,224** | **13,468** |

Mae'r cynnydd mewn Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach i'w briodoli'n bennaf i anfonebau a godwyd tua diwedd mis Mawrth, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u setlo ym mis Ebrill. Mae'r cynnydd mewn Symiau Derbyniadwy Eraill yn ymwneud yn bennaf â phrosiect y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Mae'r gostyngiad mewn Rhagdaliadau yn adlewyrchu'r broses arferol o ddad-ddirwyn contractau tanysgrifio a chynnal a chadw meddalwedd blynyddol dros y flwyddyn ariannol. Mae'r cynnydd mewn Incwm Cronedig - Rhanddeiliad yn adlewyrchu bod gwariant yn y sectorau perthnasol yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd.

## 12. Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2026 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm Cronedig - Rhanddeiliad | 1,282 | 2,093 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol** | **1,282** | **2,093** |

Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu llai o amrywiaeth rhwng ffioedd a chostau wedi'u cyllidebu yn y sector darlledu.

## 13. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2026 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 14,798 | 20,353 |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **14,798** | **20,353** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau arian parod sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedu ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu cadw incwm is eleni. Ddiwedd 2024/25, cadwodd Ofcom incwm ychwanegol yn ôl ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio ar draws Rhwydweithiau a Gwasanaethau a Diogelwch Ar-lein, sydd wedi cael ei ddychwelyd i randdeiliaid ers hynny.

## 14. Symiau derbyniadwy lesoedd

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o daliadau les derbyniadwy ar sail llifoedd arian parod gros heb eu disgowntio a llifoedd arian parod net wedi'u disgowntio ar gyfer y rhent sy'n ddyledus ar is-osod rhan o adeilad Llundain wedi'i nodi yn y tabl isod:

| | Ar 31 Mawrth 2026 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian parod contractiol: heb eu disgowntio** | | |
| Y flwyddyn gyntaf | 1,011 | 991 |
| Yr ail flwyddyn | 1,032 | 1,012 |
| Y drydedd flwyddyn | 1,052 | 1,031 |
| Y bedwaredd flwyddyn | 1,073 | 1,052 |
| Y bumed flwyddyn | - | 1,073 |
| Mwy na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: heb eu disgowntio** | **4,168** | **5,159** |
| Incwm cyllid ar gyfer is-lesoedd | (421) | (618) |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: wedi'u disgowntio** | **3,747** | **4,541** |
| | | |
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol** | | |
| Symiau derbyniadwy lesoedd: asedau cyfredol | 848 | 794 |
| Symiau derbyniadwy lesoedd: asedau anghyfredol | 2,899 | 3,747 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: wedi'u disgowntio** | **3,747** | **4,541** |
| | | |
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant** | | |
| Llog ar symiau derbyniadwy lesoedd (wedi ei gynnwys o dan incwm cyllid) | (198) | (215) |
| Incwm o asedau hawl i ddefnyddio is-lesoedd (wedi'u cynnwys o dan incwm) | (386) | (153) |
| | | |
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian Parod** | | |
| Cyfanswm y mewnlif arian ar gyfer is-lesoedd | 992 | 644 |

Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 5.32 y cant ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2026 (2025: 4.81 y cant).

Mae contract y les yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r manteision o ddefnyddio'r gofod o Ofcom i'r is-denant. Mae hyn yn golygu mai dim ond yr is-denant gaiff ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio o dan gontract, a rhaid iddo ddychwelyd yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd yr is-les. Yn ogystal â'r rhent a delir gan yr is-denantiaid, mae costau cynnal a chadw a rhedeg cysylltiedig hefyd yn cael eu hail-godi iddynt. Nid oes unrhyw effaith ar delerau ac amodau'r les wreiddiol rhwng Ofcom a'r landlord a bydd Ofcom yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau i'r landlord.

## 15. Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2026 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy drwy fasnach | 1,474 | 1,890 |
| Symiau taladwy eraill | 386 | 95 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | 270 | 116 |
| Croniadau | 13,068 | 11,395 |
| Incwm Gohiriedig - Rhanddeiliad | 4,933 | 8,472 |
| Incwm Gohiriedig - Cymorth grant | 2 | 1 |
| Incwm Gohiriedig - Derbyniadau WTA | 9,060 | 13,218 |
| **Cyfanswm symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol** | **29,193** | **35,187** |

Mae'r cynnydd mewn Croniadau yn adlewyrchu'r costau a ysgwyddwyd wrth sefydlu prosiect ymchwil Llyfrgell Ddigidol a Traciwr Technoleg y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, yn ogystal â chostau yswiriant gwladol uwch sy'n ymwneud â buddion iechyd gweithwyr a dyfarniadau perfformiad.

Mae'r gostyngiad mewn Incwm Gohiriedig - Rhanddeiliad yn adlewyrchu costau sy'n cyd-fynd yn fras â ffioedd, yn enwedig yn y sector Rhwydweithiau a Gwasanaethau.

Mae'r gostyngiad mewn Incwm Gohiriedig - Derbyniadau WTA yn adlewyrchu'r ffaith bod y gwariant gwirioneddol yn cyd-fynd yn agosach â'r alldro disgwyliedig, yn enwedig yn sector Deddf y Cyfryngau.

## 16. Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2026 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm Gohiriedig - Rhanddeiliad | 1,064 | 970 |
| **Cyfanswm symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol** | **1,064** | **970** |

Mae'r cynnydd yn adlewyrchu costau is na'r rhagolwg yn y sector Gwasanaethau Cyfradd Premiwm.

## 17. Rhwymedigaethau lesoedd

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad aeddfedrwydd o'r rhwymedigaethau lesoedd ar sail llifoedd arian parod gros heb eu disgowntio:

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Ar 31 Mawrth 2026 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian parod contractiol: heb eu disgowntio** | | | | | |
| Llai na blwyddyn | 6,061 | 86 | 24 | 6,171 | 6,056 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 23,163 | 87 | 6 | 23,256 | 24,022 |
| Mwy na phum mlynedd | 41,750 | - | - | 41,750 | 4,601 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: heb eu disgowntio** | **70,974** | **173** | **30** | **71,177** | **34,679** |

Nid yw Ofcom yn wynebu risg sylweddol o ran hylifedd yng nghyswllt ei rwymedigaethau lesoedd

| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol** | | |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol | 4,359 | 5,342 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 35,326 | 26,654 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: wedi'u disgowntio** | **39,685** | **31,996** |

Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 5.32 y cant ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2026 (2025: 4.81%, 2024: 4.72%, 2023: 3.51%, 2022: 0.95%, 2021: 0.91%, 2020: 1.27%). Mae lesoedd a oedd wedi newid i IFRS 16 cyn Ionawr 2020 ac yn ystod blwyddyn galendr 2019 yn cael eu disgowntio ar gyfradd ddisgownt y flwyddyn flaenorol, sef 1.99%, yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi.

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd Ofcom i nifer o drefniadau les newydd ac addasiadau i brydlesi. Roedd y rhain yn cynnwys prydles swyddfa newydd 10 mlynedd yn Llundain, swyddfa newydd yn Warrington, a gofod swyddfa ychwanegol ym Manceinion. Ar ben hynny, cafodd telerau'r brydles ar gyfer safle mast Fife, cerbydau ac argraffwyr eu hymestyn 20 mlynedd, 2 flynedd a 2 flynedd yn y drefn honno yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd y newidiadau hyn at gynnydd o £30,614k mewn rhwymedigaethau lesoedd a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol.

Yn gyffredinol, mae pob les yn gosod cyfyngiad – oni bai fod gan Ofcom hawl gontractiol i isosod yr ased i barti arall, dim ond Ofcom all ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio. Ni ellir canslo lesoedd, neu ni ellir eu canslo heb dalu ffi terfynu sylweddol. Mae rhai lesoedd yn cynnwys opsiwn i brynu'r ased sylfaenol sy'n cael ei lesio ar ddiwedd y les, neu i ymestyn y les am gyfnod arall. Mae Ofcom wedi'i wahardd rhag gwerthu nac ymrwymo'r asedau sylfaenol sy'n cael eu lesio fel gwarant. O ran lesoedd adeiladau, rhaid i Ofcom gadw'r eiddo hwnnw mewn cyflwr da a dychwelyd yr eiddo yn ei gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y les. Ar ben hynny, rhaid i Ofcom yswirio asedau hawl i ddefnyddio a thalu ffioedd cynnal a chadw ar asedau o'r fath, yn unol â chontract y les.

| | Ar 31 Mawrth 2026 £'000 | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant** | | |
| Llog ar rwymedigaethau lesoedd (wedi ei gynnwys o dan gostau cyllid) | 800 | 815 |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd tymor byr (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 10 | 18 |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd asedau isel eu gwerth (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 21 | 21 |
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian Paro** | | |
| Cyfanswm y llif arian parod allan ar gyfer lesoedd | (6,235) | (5,588) |

## 18. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar ar gyfer Taliadau Iawndal Blynyddol, sy'n rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

Caiff y darpariaethau eu cyfrifo'n unol â gofynion IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol. Bydd disgownt o 2.95% ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar (2024/25: 2.40%) y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 1 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr 3.64% (2024/25: 4.03%), a bydd gan ddarpariaethau sydd â therfyn amser o 5 i 10 mlynedd gyfradd tymor canolig o 4.22% (2024/25: 4.07%).

Mae penderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn agored i apêl, a allai arwain at rwymedigaethau am gostau cyfreithiol. I fynd i'r afael â hyn, mae Ofcom wedi gwneud darpariaethau yn y datganiadau ariannol ar gyfer costau sy'n debygol ac yn fesuradwy. Ni chynhaliwyd unrhyw ddarpariaeth costau cyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth arall yn ymwneud â rhwymedigaethau treth posibl sy'n gysylltiedig â statws cyflogaeth dau ddeiliad swydd mewn cyfnodau blaenorol.

| | Ymddeoliad cynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **110** | **-** | **-** | **110** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | 18 | - | - | 18 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (15) | - | - | (15) |
| Darpariaeth cydnabyddedig | - | 720 | - | 720 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **113** | **720** | **-** | **833** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | 10 | - | - | 10 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (16) | (550) | - | (566) |
| Darpariaeth (wedi'i gwrthdroi)/cydnabyddedig | - | (170) | 1,408 | 1,238 |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2026** | **107** | **-** | **1,408** | **1,515** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o pryd y disgwylir y llifoedd arian parod** | | | | |
| **Cyfredol** | | | | |
| Llai na blwyddyn | 15 | - | 1,408 | 1,423 |
| **Cyfanswm cyfredol** | **15** | **-** | **1,408** | **1,423** |
| **Anghyfredol** | | | | |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 56 | - | - | 56 |
| Mwy na phum mlynedd | 36 | - | - | 36 |
| **Cyfanswm anghyfredol** | **92** | **-** | **-** | **92** |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2026** | **107** | **-** | **1,408** | **1,515** |

## 19. MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £15,648k (2024/25: £13,430k) i Ofcom. Nid yw'r symiau wedi'u hadlewyrchu yn ein datganiadau ariannol, gan fod Ofcom yn eu talu wedyn i'r Gronfa Darlledu Gaeleg o dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi adroddiadau a datganiadau ariannol ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

## 20. Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

**a) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio - cynllun pensiwn cyfranddeiliaid**

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £11,560k yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 (2024/25: £10,746k). Mae'r Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio hefyd yn cynnwys adran cyfraniadau wedi'u diffinio. Ond mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

**b) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio**

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlodd Ofcom ei Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi eu Diffinio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 oedd £3k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2024/25: £3k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £480k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 (2024/25: £760k); a
- Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (cynllun ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 oedd £7k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2024/25: £7k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £246k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Staff Ofcom (cynllun ITC gynt) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 (2024/25: £214k).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian parod Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiadau ariannu o dan y Ddeddf Pensiynau 2004, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2024, eu cwblhau ar gyfer y ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio ac, yn wahanol i IFRS, roedden nhw'n dangos diffyg o £0.4m gyda'i gilydd.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun o ganlyniad i'r prisiadau hyn. Dan yr amserlenni newydd, mae disgwyl i Ofcom gyfrannu £751k at y ddau gynllun â'r buddion wedi eu diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau. Mae Ofcom hefyd yn ad-dalu'r Cynlluniau ar gyfer ardollau sy'n gysylltiedig â phensiwn.

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom ydy'r mecanwaith mae Ofcom yn ei ddefnyddio i roi arian o'r neilltu er mwyn gwneud cyfraniadau yn y dyfodol ac i dalu am gostau rhedeg ei ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, Cynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio a Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt).

Mae arian sy'n cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol pan gaiff y trosglwyddiad ei wneud, ond wedyn mae modd defnyddio'r arian hwn mewn cyfnodau sydd i ddod. Bydd yr arian sy'n cael ei gadw yn y Cyfrif Bwydo yn cael ei ddefnyddio'n benodol i dalu am y cynlluniau pensiwn yn unol â'r atodlen gyfraniadau ar gyfer pob Cynllun neu drwy daliad ad hoc a fydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom mewn perthynas â phrosiect penodol (fel ymarfer i leihau risg) yn ogystal ag i dalu am gostau rhedeg y cynlluniau.

Nid oedd unrhyw gyfraniad yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 i'r Ymddiriedolaeth Bwydo (2024/25: £2,000k). Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2026 oedd £9,373k (2024/25: £9,763k).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

## Cydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarant

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Lloyds Bank ar 26 Hydref 2018, a ddyfarnodd ei bod yn rhaid i gynlluniau addasu buddion er mwyn cydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu (GMPs) rhwng dynion a menywod, fe wnaeth Ofcom gymryd effaith bosibl hyn i ystyriaeth ar 31 Mawrth 2019.

Mae hyn wedi cael ei ganiatáu ar gyfer cost gwasanaeth yn y gorffennol yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Roedd lwfans o £284k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (Hen Gynllun ITC), ac roedd lwfans o £14k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Ofcom â Buddion wedi'u Diffinio. Mae Ymddiriedolwyr y Cynlluniau'n dal i wneud cynnydd i gydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi eu Gwarantu. Ni fyddwn yn gwybod faint fydd hyn yn ei gostio i gyd nes byddan nhw wedi cael eu cydraddoli'n llawn (ac mae'n siŵr na fydd hynny'n digwydd am flynyddoedd lawer).

Ar gyfer diwedd y flwyddyn 2026, mae lwfans o 0.14% / 0.02% o'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig ar gyfer y Cynllun ITC / Cynllun Buddion Diffiniedig yn y drefn honno wedi cael ei wneud ar gyfer Cydraddoli GMP. Mae hyn yn cyd-fynd â'r lwfans a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

## Gwerthoedd Hanesyddol cydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu

Ar 20 Tachwedd 2020, gwnaeth yr Uchel Lys ei ddyfarniad diweddaraf ar gydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu mewn perthynas â thaliadau gwerth trosglwyddo. Daeth i'r casgliad y bydd yn rhaid i drosglwyddiadau hanesyddol ers 17 Mai 1990, a oedd yn cynnwys Pensiynau Sylfaenol wedi'u Gwarantu a gronnwyd ar ôl y dyddiad hwn, gael eu cydraddoli. Nid oes dadansoddiad wedi ei wneud i sefydlu atebolrwydd posibl y Cynlluniau o ganlyniad i'r dyfarniad diweddaraf gan mai cymharol gyfyngedig fu'r gweithgarwch gwerth trosglwyddo yn y gorffennol, ac felly ni ddisgwylir i'r atebolrwydd ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw werth trosglwyddo hanesyddol fod yn sylweddol.

## Gweithred Diwygio 2018

Darparwyd ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol ychwanegol o £377,000 yn y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2019. Roedd hyn o ganlyniad i Weithred Diwygio a gafodd ei gweithredu mewn perthynas â'r Cynllun Buddion wedi'u Diffinio ar 28 Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn i reolau, roedd yn rhaid ailgyfrifo buddion rhai aelodau sy'n bensiynwyr, a oedd wedi arwain at gynnydd yn eu buddion. O ganlyniad i gyfrifiadau diwygiedig fel rhan o'r ymarfer hwn, fe wnaeth gyfanswm yr addasiad godi ym Mlwyddyn Ariannol 2022 a chafodd £500k ei gydnabod yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022.

Cafodd symiau diwygiedig y pensiwn yn dilyn yr ymarfer hwn eu cynnwys yn y data aelodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiadau actiwaraidd y Cynlluniau ar 31 Mawrth 2024 (sydd wedi cael eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer datgeliadau IAS 31 Mawrth 2026). Nid yw'r budd wedi'i yswirio eto felly nid yw'r cynnydd IAS 19 i bensiynau (o £0.3m) wedi cael ei ganiatáu o fewn gwerth yr ased prynu i mewn ond mae wedi'i gynnwys yn y Rhwymedigaeth Buddion wedi'u Diffinio.

## Cost gwasanaeth yn y gorffennol

Roedd mater hanesyddol parhaus yn ymwneud ag aelod pensiynwr presennol yng Nghynllun ITC mewn perthynas â phrynu blynyddoedd ychwanegol. Ar ôl ymchwilio i'r mater, cytunodd yr Ymddiriedolwr (ym mis Gorffennaf 2024) i ganiatáu'r blynyddoedd ychwanegol a brynwyd, a arweiniodd at gynnydd o tua £1k y flwyddyn ym mhensiwn yr aelod. Arweiniodd hyn at gynnydd yn Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig Cynllun ITC, a gafodd ei gynnwys fel cost gwasanaeth yn y gorffenol o £15k yn y Datganiad o Incwm a Gwariant ar 31 Mawrth 2025. Nid oes angen unrhyw ddarpariaeth bellach ar 31 Mawrth 2026.

## Newidiadau posibl i'r Mynegai Prisiau Manwerthu

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) wedi dweud ei fod yn bwriadu newid y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), erbyn 2030 fan hwyraf, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r CPIH (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchnogion-feddianwyr). Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater yn ystod 2020, a oedd yn edrych ar yr amseru a'r fethodoleg i'w defnyddio mewn unrhyw newid. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn eu rhyddhau ar 25 Tachwedd 2020. Daeth i'r casgliad y bydd RPI yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r CPIH gyda'r trawsnewid yn digwydd yn ystod 2030, ac na fyddai iawndal yn cael ei dalu i ddeiliaid giltiau mynegrifol. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn, cafodd tarddiad rhagdybiaethau chwyddiant RPI a CPI eu hadolygu ar 31 Mawrth 2021. Bydd Ofcom yn parhau i ystyried canlyniad yr ymgynghoriad i bennu'r rhagdybiaethau chwyddiant a ddefnyddir i bennu'r DBO at ddibenion cyfrifyddu ar 31 Mawrth 2026.

Mae Ofcom wedi penderfynu bod cromlin chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), sy'n seiliedig ar y farchnad, yn dal yn sail resymol ar gyfer amcangyfrif cynnydd tymor hir mewn pensiynau sy'n gysylltiedig ag RPI ar 31 Mawrth 2026, gan gynnwys y newidiadau ym mynegai RPI i CPIH. Mae tarddiad rhagdybiaethau chwyddiant RPI ar 31 Mawrth 2026 wedi aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol. I darddu'r rhagdybiaeth CPI, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn briodol cynnal y dull a fabwysiadwyd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at wahaniaeth rhwng RPI a CPI o 0.45% ar 31 Mawrth 2026, gan ystyried nodweddion a phroffiliau aelodaeth y cynlluniau buddion wedi'u diffinio.

## Virgin Media yn erbyn NTL Pension Trustees II Limited

Ym mis Mehefin 2023, dyfarnodd yr Uchel Lys fod diwygiadau i rai buddion a wnaed i gynllun pensiwn Virgin Media yn annilys oherwydd nad oedd y dystysgrif Adran 37 angenrheidiol ar gael ar gyfer y diwygiadau hanesyddol hyn. Cafodd yr achos wedyn ei adolygu gan y Llys Apêl ym mis Gorffennaf 2024 a oedd yn cadarnhau penderfyniad yr Uchel Lys.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei bwriad i gyflwyno deddfwriaeth sy'n galluogi cynlluniau yr effeithir arnynt i gael cadarnhad actiwaraidd ysgrifenedig yn ôl-weithredol ar gyfer diwygiadau hanesyddol i fuddion. Disgwylir rhagor o fanylion am gwmpas a gweithrediad y broses hon.

Yng ngoleuni'r cyhoeddiad hwn, mae'r tebygolrwydd y bydd unrhyw addasiad i'r rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio yn deillio o'r mater hwn wedi lleihau'n sylweddol. Yn unol â hynny, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi cael ei chydnabod ar y dyddiad adrodd, er bod y sefyllfa'n dal i gael ei monitro.

## Crynodeb o rwymedigaethau pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio Ofcom

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedig-aethau pensiynau nad ydynt yn cael eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedig-aethau pensiynau nad ydynt yn cael eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
| Statws ariannu, diwedd y flwyddyn | | | | | | |
| - Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiriedig | (31,467) | - | (31,467) | (31,434) | - | (31,434) |
| - Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr | (133,761) | (586) | (134,347) | (137,889) | (655) | (138,544) |
| **Cyfanswm rhwymedig-aethau buddion** | **(165,228)** | **(586)** | **(165,814)** | **(169,323)** | **(655)** | **(169,978)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 177,577 | - | 177,577 | 182,694 | - | 182,694 |
| **Statws ariannu** | **12,349** | **(586)** | **11,763** | **13,371** | **(655)** | **12,716** |

Mae'n ofynnol o dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol oni bai fod budd economaidd ar gael i Ofcom yn sgil hynny. Mae'r holl warged yn y trefniadau ariannu yn gallu cael ei gydnabod oherwydd mae modd i Ofcom ei adennill.

| | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026** | | | | | |
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2025** | (169,323) | 182,694 | 13,371 | (655) | 12,716 |
| **Costau gweinyddu** | - | (912) | (912) | - | (912) |
| **Incwm/(cost) llog** | (9,129) | 9,860 | 731 | (33) | 698 |
| **Cyfraniadau cyflogwr** | - | 10 | 10 | - | 10 |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynlluns | 13,169 | (13,169) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 94 | 94 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **13,169** | **(13,169)** | **-** | **94** | **94** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | 55 | (906) | (851) | 8 | (843) |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2026** | **(165,228)** | **177,577** | **12,349** | **(586)** | **11,763** |
| **Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025** | | | | | |
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2024** | (191,944) | 202,508 | 10,564 | (760) | 9,804 |
| **Costau gweinyddu** | - | (684) | (684) | - | (684) |
| **Cost gwasanaeth** | (15) | - | (15) | - | (15) |
| **Incwm/(cost) llog** | (8,992) | 9,513 | 521 | (35) | 486 |
| **Cyfraniadau cyflogwr** | - | 2,010 | 2,010 | - | 2,010 |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 13,255 | (13,255) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 91 | 91 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **13,255** | **(13,255)** | **-** | **91** | **91** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | 18,373 | (17,398) | 975 | 49 | 1,024 |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2025** | **(169,323)** | **182,694** | **13,371** | **(655)** | **12,716** |

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2026** | | | |
| Incwm/(cost) llog | 731 | (33) | 698 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **731** | **(33)** | **698** |
| Costau gweinyddu | (912) | - | (912) |
| **Incwm/(cost) net a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(181)** | **(33)** | **(214)** |

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod fel Gwariant Cynhwysfawr Arall:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2026** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 2,537 | 8 | 2,545 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (2,197) | - | (2,197) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (285) | - | (285) |
| **Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **55** | **8** | **63** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (906) | - | (906) |
| **Enillion/(colledion) net** | **(851)** | **8** | **(843)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2025** | | | |
| Incwm/(cost) llog | 521 | (35) | 486 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **521** | **(35)** | **486** |
| Costau gweinyddu | (684) | - | (684) |
| **Incwm/(cost) net a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(178)** | **(33)** | **(214)** |

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2025** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 14,489 | 49 | 14,538 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 1,701 | - | 1,701 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | 2,183 | - | 2,183 |
| **Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **18,373** | **49** | **18,422** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (17,398) | - | (17,398) |
| **Enillion/(colledion) net** | **975** | **49** | **1,024** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

## Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun Dyfynbrisiau:

| | | Cyfanswm 31 Mawrth 2026 £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|
| Giltiau Mynegrifol | Lefel 2 | 561 | 709 |
| Portffolio buddsoddiadau a ysgogir gan rwymedigaethau | Lefel 2 | 27,163 | 26,696 |
| Blwydd-daliadau | Lefel 3 | 140,003 | 144,571 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | Lefel 1 | 9,850 | 10,718 |
| **Cyfanswm** | | **177,577** | **182,694** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg buddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisïau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau, ac mae gan Gynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giltiau a bondiau, pan ellir fforddio gwneud hynny.

## Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth 2026 (%) | | 31 Mawrth 2025 (%) | |
|---|---|---|---|---|
| | Y Cynllun DB | Y Cynllun ITC | Y Cynllun DB | Y Cynllun ITC |
| Cyfradd ddisgownt | 6.05 | 5.85 | 5.75 | 5.55 |
| Chwyddiant Prisiau Manwerthu | 3.35 | 3.45 | 3.15 | 3.30 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI uchafswm 5%) | 3.10 | 3.20 | 2.95 | 3.05 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%) | 2.20 | 2.25 | 2.05 | 2.15 |

## Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân, a dyma'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Y Cynllun DB | | Y Cynllun ITC | |
|---|---|---|---|---|
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n...** | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** |
| Dyn | 28 | 27 | 28 | 27 |
| Menyw | 31 | 30 | 31 | 30 |

## Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd:

| | Effaith ar | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y Cynllun DB | | | Y Cynllun ITC | | |
| Newid mewn rhagdybiaethau | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Gwarged statws ariannu £'000 | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Gwarged statws ariannu £'000 |
| **Cyfradd ddisgownt** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | gostwng £2,615 | gostwng £2,970 | gostwng £355 | gostwng £4,789 | gostwng £4,789 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | codi £2,878 | codi £3,293 | codi £415 | codi £5,176 | codi £5,176 | Dim newid |
| **Chwyddiant Prisiau Manwerthu** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | codi £2,636 | codi £3,029 | codi £393 | codi £4,251 | codi £4,251 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | gostwng £2,378 | gostwng £2,736 | gostwng £358 | gostwng £3,922 | gostwng £3,922 | Dim newid |
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed** | | | | | | |
| Yn codi - blwyddyn | codi £1,464 | codi £935 | gostwng £529 | codi £6,162 | codi £6,162 | Dim newid |
| Yn gostwng - blwyddyn | gostwng £1,464 | gostwng £935 | gostwng £529 | gostwng £6,162 | gostwng £6,162 | Dim newid |


## Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Mae'r siartiau'n dangos y buddion disgwyliedig sy'n daladwy gan y Cynlluniau perthnasol ar 31 Mawrth 2024.

Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr.


Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian parod wrth ymddeol.

## Cynllun Pensiwn Ofcom â'r Buddion wedi'u Diffinio




Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 12 mlynedd

## Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt)




Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 9 mlynedd

## 21. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol yn egluro sut dylid cyflwyno offerynnau ariannol, ac yn mynnu ei bod yn rhaid datgelu'r rôl maen nhw wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg wrth gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddyn nhw. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi arian dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth cario ymlaen y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, mae symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd, wedi cael eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 22. Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth reoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Datgeliadau Partïon Cysylltiedig.

Nid yw Aelodau'r Bwrdd wedi datgan bod ganddyn nhw fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaethau fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodiadau rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yw'r parti cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, sef S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 20 am ddatgeliad pellach.

Ni chafwyd dim trafodiadau partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 23. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2026, roedd ymrwymiadau cyfalaf o £40k yn ymwneud â gwella lesddaliadau (2024/25: £235k, yn cynnwys £201k ar gyfer pum cerbyd a £34k ar gyfer offer maes).

## 24. Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r/o'r Gronfa Gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £48,779k (2024/25: £34,494k) o Daliadau Ychwanegol yn ymwneud â'r Ddeddf Darlledu, Rhifau Daearyddol a Dirwyon i'r Gronfa Gyfunol.

Yn unol ag Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, cadwodd Ofcom £155,113k (2024/25: £151,117k) o dderbyniadau WTA i dalu am ei wariant perthnasol sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm.

Cafodd ffioedd trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 o £356,158k (2024/25: £422,411) eu hanfon i'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol.

Yn ystod y flwyddyn, nodwyd problemau camgyfrifo a arweiniodd at godi gormod a rhy ychydig, gan effeithio ar 0.2% o'r 413,000 o drwyddedau a weinyddir o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddiwifr. Gwerth y gordaliadau oedd £778k, a'r tandaliadau oedd £951k. Bydd hyn yn cael effaith ymylol ar y derbynebau a'r taliadau yn y flwyddyn ariannol 2026/27.

## 25. Rhwymedigaethau wrth gefn

Ym mis Mehefin 2023, dyfarnodd yr Uchel Lys fod diwygiadau i rai buddion a wnaed i gynllun pensiwn Virgin Media yn annilys oherwydd nad oedd y dystysgrif Adran 37 angenrheidiol ar gael ar gyfer y diwygiadau hanesyddol hyn. Cafodd yr achos wedyn ei adolygu gan y Llys Apêl ym mis Gorffennaf 2024 a oedd yn cadarnhau penderfyniad yr Uchel Lys.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei bwriad i gyflwyno deddfwriaeth sy'n galluogi cynlluniau yr effeithir arnynt i gael cadarnhad actiwaraidd ysgrifenedig yn ôl-weithredol ar gyfer diwygiadau hanesyddol i fuddion. Disgwylir rhagor o fanylion am gwmpas a gweithrediad y broses hon.

Yn sgil y cyhoeddiad hwn, mae'r tebygolrwydd o unrhyw addasiad i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n deillio o'r mater hwn wedi gostwng yn sylweddol. Yn unol â hynny, mae'r rheolwyr wedi asesu nad yw'r tebygolrwydd o all-lif sylweddol o adnoddau economaidd yn debygol, ac nid yw

unrhyw ddarpariaeth wedi'i chydnabod ar ddyddiad yr adroddiad.

Fodd bynnag, gan fod ansicrwydd yn parhau ynghylch canlyniad a chymhwyso'r ddeddfwriaeth arfaethedig, ystyrir y mater hwn yn rwymedigaeth amodol ar ddyddiad yr adroddiad. Nid yw'n ymarferol ar hyn o bryd i amcangyfrif yn ddibynadwy'r effaith ariannol bosibl, ac mae'r sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

## 26. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

## 27. Busnes byw

Bydd cyllido rhwymedigaethau Ofcom yn y dyfodol yn cael ei gynnwys drwy dariffau sector blynyddol gan randdeiliaid sy'n cael eu rheoleiddio a chadw derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr a gesglir o dan gyfrifon Adran 400. Bydd yr arian a gedwir gan Ofcom yn cefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud â sbectrwm a gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu gan dariffau, fel yr amlinellir yn Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Cafodd cynllun strategol a chap gwariant Ofcom ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2025/26 a 2027/28 eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Drysorlys Ei Fawrhydi a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ym mis Mawrth 2025. Felly, mae'n briodol mabwysiadu dull busnes byw er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol hyn.



# ATODIAD

Gwybodaeth a ffigurau atodol.

# Atodiad 1: Datganiadau rheoleiddio

## Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2025/26, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid

| | |
|---|---|
| A | Mwy o reoleiddio / rheoleiddio newydd |
| B | Cymysg / dim newid / parhaus |
| C | Wedi symleiddio / cyd-reoleiddio |
| D | Llai o reoleiddio |

**Darlledu**

| | |
|---|---|
| A | Dynodi gwasanaethau dethol teledu – egwyddorion a dulliau ar gyfer argymhellion Ofcom |
| A | Dynodi Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus |
| A | Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio – egwyddorion a dulliau ar gyfer argymhellion Ofcom |
| A | Canllawiau ar gyfer Datganiad Polisi Comisiynu Corfforaeth Channel 4 |
| A | Adroddiad terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddynodi gwasanaethau dethol teledu |
| A | Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio - adroddiad drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol |
| A | Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio |
| B | Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu: Ymgynghoriad ar ddiwygio'r gweithdrefnau |
| B | Gorsafoedd radio newydd arfaethedig DAB+ y BBC a newidiadau arfaethedig i Radio 5 Sports Extra |
| B | Canllawiau ar y Datganiad Polisi Rhaglenni a'r Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau |
| B | Newidiadau i BBC Radio Foyle a BBC Asian Network |
| B | Gwleidyddion yn cyflwyno newyddion: Diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom |
| B | Adnewyddu trwyddedau radio masnachol lleol |
| B | Newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC |
| B | Digwyddiadau rhestredig - gweithredu Deddf Cyfryngau 2024 |
| B | Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad 2026 |
| B | Gemau Paralympaidd y Gaeaf 2026 |
| B | Newid i ddarpariaeth DAB ar raddfa fach: Newcastle a Gateshead |
| B | Cynigion i ddiweddaru'r cwotâu ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus |
| B | Newyddion a gwybodaeth leol ar radio masnachol analog |
| B | Newid amledd DAB ar raddfa fach - Canol Swydd Gaer |
| B | Cais i newid Prif Ymrwymiadau ar gyfer Glow Radio (Farnborough) |
| D | Canllawiau Diwygiedig i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar Godau Ymarfer Comisiynu |

## Sbectrwm

| | |
|---|---|
| A | Penderfyniad i ddiwygio Rheoliadau Cofrestr Telegraffiaeth Ddi-wifr 2012 a Thelegraffiaeth Ddi-wifr 2012 |
| B | Penderfyniad i roi trwyddedau dros dro i Starlink Services LLC ddefnyddio 71-76 GHz ac 81-86 GHz ar gyfer gorsafoedd daear pyrth NGSO ar dri safle |
| B | Galluogi trwyddedau tymor byr, byr rybudd mewn 2.3 GHz |
| B | Galluogi cysylltedd lloeren yn uniongyrchol i ddyfeisiau mewn bandiau sbectrwm Symudol |
| B | Y rheoliadau terfynol ar gyfer awdurdodi gwasanaethau lloeren yn uniongyrchol i ddyfeisiau |
| B | Galluogi gwasanaethau lloeren yn uniongyrchol i ddyfeisiau mewn bandiau sbectrwm symudol |
| B | Ehangu mynediad sbectrwm ar gyfer pyrth lloeren |
| B | Kepler Communications Inc – cais am drwydded rhwydwaith gorsaf ddaear nad yw'n ddaearsefydlog |
| B | Y defnydd gorau posibl o sbectrwm 3.9 GHz |
| B | Adolygiad o Ffioedd Trwyddedau Blynyddol |
| B | Datganiad ar reoliadau i ddiweddaru'r ffioedd ar gyfer trwyddedau Rhannu Mynediad |
| B | Cais ar y cyd gan Inmarsat Global Limited a Space Norway am drwydded rhwydwaith gorsaf ddaear nad yw'n ddaearsefydlog |
| B | Cais Amazon Kuiper UK Limited am drwydded gorsaf ddaear porth nad yw'n ddaearsefydlog |
| B | Diweddariadau i Weithdrefnau ar gyfer rheoli ffeilio lloerennau |
| B | Diweddaru ffioedd ar gyfer Pyrth Lloeren |
| B | Cynigion ar gyfer diwygio a gwella ein proses drwyddedu NGSO |
| B | Awdurdodiad i'r dyfodol ar gyfer y band 1900–1920 MHz |
| B | Ehangu mynediad at y band 6 GHz ar gyfer gwasanaethau symudol a Wi-Fi |
| B | Penderfyniad ar ddyddiad dechrau trwydded porth ESN |
| D | Diweddaru'r Eithriadau ar gyfer Trwyddedau Telegraffiaeth Ddi-wifr |
| D | Penderfyniad i ddiwygio'r Rheoliadau Masnachu Symudol |
| D | Diweddaru'r rheoliadau eithriadau trwydded terfynell symudol |
| D | Canllawiau Diwygiedig ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar Godau Ymarfer Comisiynu |

### Telegyfathrebiadau

| | |
|---|---|
| A | Teitlau Byd-eang a Diogelwch Rhwydwaith Symudol |
| A | Adolygiad o Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod yn y sector telegyfathrebiadau |
| B | Adolygiad Rheoleiddio Cyfanwerthu Am Ddim i'r Galwr |
| B | Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau 2026-31 |
| C | Negeseuon busnes – Adolygiad o'r farchnad terfynu SMS A2P |
| D | Adolygiadau o Farchnadoedd Terfynu Galwadau ac Amodau Cysylltedd o'r Dechrau i'r Diwedd |

### Diogelwch Ar-lein

| | |
|---|---|
| A | Dioeglu plant rhag niwed ar-lein |
| A | Hysbysiadau Cadw Data |
| A | Canllawiau ar uwch gwynion o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 |
| B | Ffioedd diogelwch ar-lein - Canllawiau ar hysbysu |
| B | Bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched |
| B | Diogelwch Ar-lein - ffioedd a chosbau |
| B | Adrodd am Dryloywder |
| B | Canllawiau ar refeniw byd-eang cymwys - ffioedd a chosbau diogelwch ar-lein |
| B | Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl - Ffioedd Diogelwch Ar-lein |
| B | Diogelu plant rhag niwed ar-lein |
| B | Hysbysiadau Cadw Data |
| B | Canllawiau ar uwch gwynion o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 |

### Arall

| | |
|---|---|
| B | Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post |
| B | Cynllun Gwaith Ofcom 2026/27 |
| B | Y Diweddaraf am Gynllun Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon |

## Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2025/26 lle'r oedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad effaith

| Teitl y datganiad cyhoeddedig |
|---|
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Rocket Fibre Limited |
| Teitlau Byd-eang a Diogelwch Rhwydwaith Symudol |
| Dynodi gwasanaethau dethol teledu – egwyddorion a dulliau ar gyfer argymhellion Ofcom |
| Diogelu plant rhag niwed ar-lein |
| Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio – egwyddorion a dulliau ar gyfer argymhellion Ofcom |
| Penderfyniad i ddiwygio Rheoliadau Cofrestr Telegraffiaeth Ddi-wifr 2012 a Thelegraffiaeth Ddi-wifr 2012 |
| Newid i ddarpariaeth DAB ar raddfa fach: Newcastle a Gateshead |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i One Tek Business Solutions Ltd |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i TFW Fibre Limited |
| Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu: Ymgynghoriad ar ddiwygio'r gweithdrefnau |
| Diogelwch Ar-lein - ffioedd a chosbau |
| Gorsafoedd radio newydd arfaethedig DAB+ y BBC a newidiadau arfaethedig i Radio 5 Sports Extra |
| Adolygiad o Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod yn y sector telegyfathrebiadau |
| Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Cellnex Newco 3 Limited |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Apollo Submarine Cable System Limited |
| Y defnydd gorau posibl o sbectrwm 3.9 GHz |
| Adolygiad o Ffioedd Trwyddedau Blynyddol |
| Adrodd am Dryloywder |
| Dynodi Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus |
| Canllawiau ar y Datganiad Polisi Rhaglenni a'r Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau |
| Canllawiau Diwygiedig i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar Godau Ymarfer Comisiynu |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Jet Network Solutions Limited |
| Newidiadau i BBC Radio Foyle a BBC Asian Network |
| Y Diweddaraf am Gynllun Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i AWTG Limited |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Cellular Radio Limited |
| Datganiad ar reoliadau i ddiweddaru'r ffioedd ar gyfer trwyddedau Rhannu Mynediad |
| Cais ar y cyd gan Inmarsat Global Limited a Space Norway am drwydded rhwydwaith gorsaf ddaear nad yw'n ddaearsefydlog |
| Cynigion i ddiweddaru'r cwotâu ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus |
| Gwleidyddion yn cyflwyno newyddion: Datganiad ar ddiwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom |
| Awdurdodiad i'r dyfodol ar gyfer y band 1900–1920 MHz |
| Diweddaru'r Eithriadau ar gyfer Trwyddedau Telegraffiaeth Ddi-wifr |
| Penderfyniad i roi trwyddedau dros dro i Starlink Services LLC ddefnyddio 71-76 GHz ac 81-86 GHz ar gyfer gorsafoedd daear pyrth NGSO ar dri safle |
| Penderfyniad i ddiwygio'r Rheoliadau Masnachu Symudol |

| Teitl y datganiad cyhoeddedig |
|---|
| Cais Amazon Kuiper UK Limited am drwydded gorsaf ddaear porth nad yw'n ddaearsefydlog |
| Negeseuon busnes – Adolygiad o'r farchnad terfynu SMS A2P |
| Adnewyddu trwyddedau radio masnachol lleol |
| Canllawiau ar gyfer Datganiad Polisi Comisiynu Corfforaeth Channel 4 |
| Bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched |
| Galluogi trwyddedau tymor byr, byr rybudd mewn 2.3 GHz |
| Galluogi cysylltedd lloeren yn uniongyrchol i ddyfeisiau mewn bandiau sbectrwm Symudol |
| Adolygiad Rheoleiddio Cyfanwerthu Am Ddim i'r Galwr |
| Hysbysiadau Cadw Data |
| Adroddiad terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddynodi gwasanaethau dethol teledu |
| Newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC |
| Ehangu mynediad at y band 6 GHz ar gyfer gwasanaethau symudol a Wi-Fi |
| Penderfyniad ar ddyddiad dechrau trwydded porth ESN |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Teleauora Ltd |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Jet Infrastructure Limited |
| Digwyddiadau rhestredig - gweithredu Deddf y Cyfryngau 2024 |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Baltic Broadband Limited |
| Y rheoliadau terfynol ar gyfer awdurdodi gwasanaethau lloeren yn uniongyrchol i ddyfeisiau |
| Galluogi gwasanaethau lloeren yn uniongyrchol i ddyfeisiau mewn bandiau sbectrwm symudol |
| Newyddion a gwybodaeth leol ar radio masnachol analog |
| Diweddariadau i Weithdrefnau ar gyfer rheoli ffeilio lloerennau |
| Newid amledd DAB ar raddfa fach - Canol Swydd Gaer |
| Canllawiau ar uwch gŵynion o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 |
| Diweddaru'r rheoliadau eithriadau trwydded terfynell symudol |
| Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau 2026-31 |
| Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio - adroddiad drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol |
| Ehangu mynediad sbectrwm ar gyfer pyrth lloeren |
| Diweddaru ffioedd ar gyfer Pyrth Lloeren |
| Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio |
| Cynigion ar gyfer diwygio a gwella ein proses drwyddedu NGSO |
| Adolygiadau o Farchnadoedd Terfynu Galwadau ac Amodau Cysylltedd o'r Dechrau i'r Diwedd |
| Cais i newid Prif Ymrwymiadau ar gyfer Glow Radio (Farnborough) |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i River City Networks Limited |

# Ymgyngoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2025/26 a oedd yn cynnwys asesiad effaith a lle nad oedd datganiad terfynol wedi cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2026

| Teitl yr ymgynghoriad cyhoeddedig |
|---|
| Niwed anghyfreithlon: rheolaethau defnyddwyr |
| Cynnig i roi trwyddedau dros dro i Starlink Services LLC ddefnyddio 71-76 GHz ac 81-86 GHz ar gyfer gorsafoedd daear pyrth NGSO ar dri safle |
| Diogelwch Ar-lein - Mesurau Diogelwch Ychwanegol |
| Mynd i'r afael â galwadau sgam o dramor |
| Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a platfformau ar-lein |
| Mynd i'r afael â sgamiau negeseuon symudol |
| Hysbysiad o gynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Eithriad) (Diwygio) 2025 |
| Canllawiau - Dyletswyddau yng nghyswllt Defnyddwyr sy'n Blant a fu Farw |
| Cais i newid Trwydded STV |
| Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o Ardal Hull 2026-31 |
| Ehangu mynediad at y band 6 GHz ar gyfer gwasanaethau symudol a Wi-Fi masnachol |
| Galluogi cydlynu amledd awtomatig (AFC) yn y band 6 GHz |
| Amlygrwydd a hygyrchedd ar lwyfannau teledu cysylltiedig |
| Diweddariadau arfaethedig i Ganllawiau Ofcom ar gyfer asesu newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC |
| Ymgynghoriad ar ddull strategol arfaethedig Ofcom ar gyfer trwyddedu radio darlledu |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Boom Telecom Networks Limited |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Village Networks Limited |
| Newid i ddarpariaeth DAB ar raddfa fach - Torbay |
| Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i London Fibre Group Limited |
| Cais Starlink am ddwy drwydded gorsaf ddaear porth nad ydynt yn ddaearsefydlog |
| Dull Gweithredu ar gyfer cyfrifo ail drothwy'r broses o roi'r gorau i ddefnyddio copr - Adolygiad Mynediad Telegyfathrebu 2026-31 |
| Troseddau blaenoriaeth newydd - hunan-niweidio difrifol a seiberfflachio |
| Adolygu Trwyddedau Sbectrwm Morol y DU |

# Ymchwil Diogelwch Ar-lein a wnaethpwyd yn 2025/26

### Ymchwil yn Ch1 2025/26

| Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Rhwystrau i brofi oedran ar wefannau i oedolion - Ton 2: Comisiynodd Ofcom yr arolwg hwn gyda defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn a ddywedodd eu bod wedi cael gafael ar gynnwys pornograffig ar-lein. Bwriad yr arolwg oedd deall eu profiadau o gael gafael ar gynnwys o'r fath ac o basio unrhyw wiriadau oedran pe baent yn dod ar eu traws, yn ogystal â'u hagweddau at brofi eu hoedran ar wefannau i oedolion, a pha mor bwysig yw gwahanol ffactorau i'w hannog i gydymffurfio. | Sicrwydd oedran | 7 Ebrill 2025 |
| Chwilio am wybodaeth ar-lein (plant yn eu harddegau hŷn ac oedolion ym Mhrydain Fawr): Arolwg cyflym i edrych ar y mathau o wybodaeth roedd defnyddwyr y rhyngrwyd (16 oed a hŷn) yn chwilio amdani ar-lein, y mathau o wasanaethau sy'n cael eu defnyddio, ac i ba raddau maen nhw'n ymddiried yn yr wybodaeth maen nhw'n ei gweld ar wahanol wasanaethau. | Chwilio | 17 Ebrill 2025 |
| Chwilio am wybodaeth ar-lein (plant a phobl ifanc 13-17 oed ym Mhrydain Fawr): Arolwg cyflym i edrych ar y mathau o wybodaeth roedd plant sy'n defnyddio'r rhyngrwyd (13-17 oed) yn chwilio amdani ar-lein, y mathau o wasanaethau sy'n cael eu defnyddio, ac i ba raddau maen nhw'n ymddiried yn yr wybodaeth maen nhw'n ei gweld ar wahanol wasanaethau. | Chwilio | 17 Ebrill 2025 |
| Ymgysylltu â phlant ar fesurau i diogelu plant ar-lein: Mae dros 100 o blant ledled y DU wedi cymryd rhan mewn gweithdai cydgynghorol, gweithgareddau yn y cartref a chyfweliadau, i rannu eu barn ar amrywiaeth o gynigion i diogelu plant rhag niwed ar-lein. | Diogelu plant | 24 Ebrill 2025 |
| Traciwr Profiadau Ar-lein – Ton 7: Mae'r Traciwr Profiadau Ar-lein yn arolwg tracio meintiol sy'n edrych ar agweddau pobl at ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, a'u profiadau ohonynt. Gallai'r agweddau/profiadau hyn fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, gan gynnwys dod ar draws niwed ar-lein o bosibl. Rydym yn cynnal yr ymchwil hon ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio panel ar-lein i samplu dros 7,000 o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU. O Don 8 yn 2025, newidiodd ystod oedran y sampl o 13 oed a hŷn i 18 oed a hŷn (gweler rhagor o fanylion). | Defnydd ac agweddau ar-lein | 16 Ebrill 2025 |
| Arolwg cymharu lles: Astudiaeth feintiol i asesu sut mae plant ifanc yn eu harddegau hŷn ac oedolion (16 oed a hŷn) yn y DU yn gweld eu boddhad cyffredinol, eu teilyngdod, eu hapusrwydd a'u pryder yn eu bywydau personol a phan fyddant yn mynd ar-lein | Defnydd ac agweddau ar-lein | 17 Ebrill 2025 |
| Hybu diogelwch plant ar-lein: rheolaethau defnyddwyr: Hapdreial rheolaeth ar-lein gyda phlant 13-17 oed i brofi gwahanol ffyrdd o annog plant i ddewis defnyddio rheolaethau cynnwys i gyfyngu ar ddod i gysylltiad â chynnwys niweidiol yn ystod y broses gofrestru ar gyfer llwyfan cyfryngau cymdeithasol ffug. | Deall ymddygiad | 24 Ebrill 2025 |
| Oedran defnyddwyr plant ar-lein - Ton 4: Astudiaeth feintiol i ymchwilio i gyfran y plant 8-17 oed sydd ag 'oedran defnyddiwr' ffug ar eu proffil ar-lein, gan wneud iddynt ymddangos yn hŷn nag ydynt mewn gwirionedd. Sylwer: dyma don olaf yr astudiaeth hon, o ystyried nad yw amcangyfrif 'oedran defnyddiwr' plentyn gan ddefnyddio'r un fethodoleg yn ymarferol mwyach yng ngoleuni mesurau diogelwch newydd Ofcom. | Diogelu plant | 24 Ebrill 2025 |
| Safbwyntiau defnyddwyr ar gymedroli cynnwys: Arolwg cyflym i archwilio agweddau defnyddwyr y rhyngrwyd (18 oed a hŷn) at gymedroli cynnwys a'u hymgysylltiad ar-lein. | Mesurau diogelwch | 25 Ebrill 2025 |

| Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Traciwr Platfformau Rhannu Fideos (VSP) - Ton 7: Traciwr meintiol i ymchwilio i ba raddau y mae defnyddwyr VSP wedi dod ar draws cynnwys niweidiol, a'u hymwybyddiaeth a'u defnydd o fesurau ac adnoddau diogelwch. Sylwch mai hon yw ton olaf y traciwr VSP, gan fod rhai cwestiynau wedi cael eu symud i'r Traciwr Profiadau Ar-lein (gweler rhagor o fanylion). | Defnydd ac agweddau ar-lein | 30 Ebrill 2025 |
| Adroddiad ar agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau 2025: Mae'r adroddiad yn seiliedig yn bennaf ar ganfyddiadau meintiol Ofcom o'r Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau. Mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth fanwl o ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau tuag atyn nhw, a dealltwriaeth ohonyn nhw ymysg pobl yn y DU sy'n 16 oed a hŷn. Mae'r adroddiad yn ddogfen gyfeirio ar gyfer y diwydiant, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. | Llythrennedd yn y cyfryngau | 7 Mai 2025 |
| Plant a rhieni: adroddiad ar agweddau a'r defnydd o'r cyfryngau 2025: Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth plant 3-17 oed o'r cyfryngau. Mae hefyd yn cynnwys canfyddiadau ar farn rhieni am ddefnydd eu plant o'r cyfryngau, a sut mae rhieni plant 3-17 oed yn monitro ac yn rheoli defnydd eu plant. Mae'r adroddiad yn rhoi darlun cynhwysfawr o brofiadau plant o'r cyfryngau yn 2024 fel adnodd cyfeirio ar gyfer diwydiant, llunwyr polisïau, academyddion a'r cyhoedd yn gyffredinol. | Llythrennedd yn y cyfryngau | 7 Mai 2025 |
| Y Cyfryngau ym Mywydau Plant 2025: Mae prosiect ansoddol Y Cyfryngau ym Mywydau Plant yn dilyn yr un grŵp o 21 o blant rhwng 8 ac 17 oed, gan gynnal cyfweliadau wedi'u ffilmio gyda nhw bob blwyddyn i ddysgu am eu hagweddau a'u harferion yng nghyswllt y cyfryngau. Dechreuwyd ar y gwaith ymchwil yn 2014 fel ffordd o ddarparu astudiaeth ansoddol gyfoethog a manwl ar raddfa fach sy'n ategu arolygon meintiol Ofcom o llythrennedd yn y cyfryngau. | Llythrennedd yn y cyfryngau | 7 Mai 2025 |
| Y Cyfryngau ym Mywydau Oedolion 2025: Mae adroddiad Y Cyfryngau ym Mywydau Oedolion yn astudiaeth fideo ethnograffig ansoddol dros 20 mlynedd sy'n ceisio rhoi wyneb dynol i'r data. Mae'r astudiaeth yn dilyn yr un 20 o bobl dros amser, gan olrhain natur newidiol perthynas unigolion â'r cyfryngau digidol - sut maen nhw'n cyd-fynd â'u bywydau, beth sy'n eu cymell i fabwysiadu technoleg newydd ac i ddysgu sgiliau newydd, eu harferion defnyddio, lefelau dealltwriaeth, problemau a phryderon. | Llythrennedd yn y cyfryngau | 7 Mai 2025 |
| Casineb a chamdriniaeth ar-lein ym myd chwaraeon: adroddiad gan Ofcom mewn partneriaeth â Kick it Out: Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar brofiadau gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sectorau chwaraeon a darlledu o gasineb a chamdriniaeth ar-lein, ac fe'i cynhyrchwyd gan Ofcom ar y cyd â Kick it Out. | Casineb a chamdriniaeth | 16 Mai 2025 |
| Cyd-greu ffyrdd o lywio drwy gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a lliniaru'r risgiau hyn: Mae'r adroddiad hwn yn benllanw rhaglen gymysg o ymchwil a gynlluniwyd i ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth o ddealltwriaeth o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn y DU. Mae ein hastudiaeth ansoddol gyda phobl ifanc 16-34 oed yn adeiladu ar ganfyddiadau ein harolwg meintiol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, a oedd yn edrych ar ymddygiad ac agweddau oedolion y DU yn y maes hwn. | Llythrennedd yn y cyfryngau | 27 Mai 2025 |
| Deall ymddygiad i rymuso defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol: Mae'r gwaith ymchwil hwn yn ymdrin â dau arbrawf ar-lein a gynhaliwyd gan Hwb Deall Ymddygiad Ofcom a oedd yn profi sut mae pensaernïaeth dewis llwyfan yn effeithio ar y defnydd o reolaethau cynnwys ymysg defnyddwyr sy'n oedolion. | Deall ymddygiad | 10 Mehefin 2025 |

| Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Profiadau o ymgysylltu â'r manosffer: Mae'r adroddiad ymchwil ansoddol hwn yn nodi canfyddiadau a themâu o'n hymchwil ansoddol gyda sampl o bobl sy'n gwylio cynnwys sy'n gysylltiedig â'r manosffer ar-lein, yn ymgysylltu â chynnwys o'r fath neu'n ei greu. Mae'n edrych ar eu profiadau, eu hagweddau a'u llythrennedd yn y cyfryngau. | Llythrennedd yn y cyfryngau | 13 Mehefin 2025 |
| Ymchwil i nodweddion dylunio perswadiol a niwed ariannol posibl i blant: Mae'r adroddiadau ymchwil hyn yn nodi canfyddiadau a themâu ymchwil Ofcom i'r cysylltiadau posibl rhwng nodweddion perswadiol a niwed ariannol i blant. Mae hyn yn cynnwys astudiaeth ansoddol ac arolwg meintiol o blant (8-17 oed) a'u rhieni. | Llythrennedd yn y cyfryngau | 26 Mehefin 2025 |
| Mesur Defnydd Goddefol Ar-lein Plant: Mae'r astudiaeth Mesur Defnydd Goddefol Ar-lein Plant yn archwilio'r gwefannau a'r apiau y mae plant 8-14 oed yn y DU wedi ymweld â nhw a faint o amser a dreuliwyd ar y gwasanaethau yr ymwelwyd â nhw. | Defnydd ac agweddau ar-lein | 26 Mehefin 2025 |
| Archwiliad ymddygiadol o wasanaethau ar-lein: Archwiliad ymddygiadol o gyfryngau cymdeithasol poblogaidd a platfformau rhannu fideos (VSPs) a oedd yn mapio arferion dylunio ar-lein ac yn asesu eu heffaith bosibl ar ymddygiad a chanlyniadau defnyddwyr. Roedd yn canolbwyntio ar bedwar maes diddordeb craidd: 1) proses gofrestru, 2) nodweddion a swyddogaethau sy'n effeithio ar yr amser sy'n cael ei dreulio ar-lein, 3) adnoddau teimladau negyddol, a 4) adrodd. | Deall ymddygiad | 26 Mehefin 2025 |

### Ymchwil yn Ch2 2025/26

| Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Adnoddau grymuso defnyddwyr a rheoli cynnwys: profi sut mae dyluniad yn effeithio ar ddewisiadau pobl: Hapdreial rheoli ar-lein i brofi sut gall newidiadau dylunio bach effeithio ar faint o ddefnydd y mae pobl yn ei wneud o'r adnoddau rheoli cynnwys sydd ar gael iddynt. | Deall ymddygiad | 3 Gorffennaf 2025 |
| Safbwyntiau defnyddwyr ar labeli cynnwys deallusrwydd artiffisial (AI): Astudiaeth ansoddol a meintiol dulliau cymysg i ddeall profiad defnyddwyr y rhyngrwyd (16 oed a hŷn yn y DU) o labeli adnoddau neu eiconau gweledol sy'n dangos a ddefnyddiwyd AI (AI) i greu neu olygu'r cynnwys, yn ogystal â pha mor ddibynadwy yw'r cynnwys. | AI Cynhyrchiol | 11 Gorffennaf 2025 |
| Amddiffynfeydd ffugiadau dwfn 2 - y pecyn cymorth priodoli: Papur trafod ar rinweddau'r hyn a elwir yn 'fesurau priodoli'. Mae hyn yn cynnwys offer marcio dŵr, cynlluniau metadata tarddiad, labeli AI ac anodiadau cyd-destun. Mae'r papur yn defnyddio canfyddiadau adolygiad llenyddiaeth, cyfweliadau ag arbenigwyr, arolwg a chyfres o gyfweliadau â defnyddwyr platfformau ar-lein, a'n gwerthusiadau technegol mewnol ein hunain o'r offer marcio dŵr sydd ar gael yn agored. | AI Cynhyrchiol | 11 Gorffennaf 2025 |
| Profiadau menywod mewn gwleidyddiaeth o gasineb a chamdriniaeth ar-lein: Gan ddefnyddio arolwg a chyfweliadau manwl unigol, ymgysylltodd Ofcom â 23 o fenywod sy'n gwasanaethu neu a arferai wasanaethu fel ASau yn Senedd y DU, i glywed am y casineb a'r gamdriniaeth maen nhw wedi'u hwynebu ar-lein. | Casineb a chamdriniaeth | 14 Gorffennaf 2025 |
| Treial Gemau Difrifol: Twyll ar-lein: Mae'r ymchwil hon yn archwilio sut gall gemau difrifol rymuso pobl i adnabod a gwrthsefyll ymdrechion sgamiau rhamant. Hapdreial rheoledig ar-lein ar raddfa fawr gyda 4,201 o oedolion yn y DU i brofi effeithiolrwydd y dull gweithredu gemau difrifol. | Deall ymddygiad | 16 Gorffennaf 2025 |

| Trosolwg o’r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Canfyddiadau Rhieni o Fesurau Diogelu Plant - Ton 1: Arolwg cyflym i archwilio ymwybyddiaeth a chanfyddiadau rhieni sydd ag o leiaf un plentyn 17 oed neu iau ynghylch mesurau sicrwydd oedran ac Diogelu Plant, cyn eu rhoi ar waith. | Diogelu plant | 24 Gorffennaf 2025 |
| Profiadau defnyddwyr o chwiliadau AI cynhyrchiol (GenAI): Astudiaeth sy’n cynnwys 24 o gyfweliadau manwl ar-lein gydag oedolion sy’n defnyddio’r rhyngrwyd yn y DU i archwilio profiadau chwilio traddodiadol ar-lein a phrofiadau chwilio GenAI. | AI Cynhyrchiol | 26 Medi 2025 |

### Ymchwil yn Ch3 2025/26

| Trosolwg o’r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Traciwr Profiadau Ar-lein – Ton 8: Mae’r Traciwr Profiadau Ar-lein yn arolwg tracio meintiol sy’n edrych ar agweddau pobl at ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, a’u profiadau ohonynt. Gallai’r agweddau/profiadau hyn fod yn gadarnhaol neu’n negyddol, gan gynnwys dod ar draws niwed ar-lein o bosibl. Rydym yn cynnal yr ymchwil hon ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio panel ar-lein i samplu dros 7,000 o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU. O’r astudiaeth hon, Ton 8, newidiodd ystod oedran y sampl o 13 oed a hŷn i 18 oed a hŷn. | Defnydd ac agweddau ar-lein | 14 Hydref 2025 |
| Oes peiriannau ateb: Effaith AI cynhyrchiol ar brofiadau chwilio a diogelwch ar-lein: Papur trafod ar yr effaith ar brofiadau chwilio a diogelwch ar-lein, gan ddefnyddio gwybodaeth o’r astudiaeth ansoddol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2025. | AI Cynhyrchiol | 4 Tachwedd 2025 |
| Deall defnydd a chanfyddiadau plant o gynnwys ASMR a hunanwella: Astudiaeth feintiol ac ansoddol i archwilio sut roedd plant 11-17 oed yn gweld ac yn ymgysylltu â chynnwys hunanwella ac ASMR (Ymateb Meridian Synhwyraidd Ymreolaethol) ar-lein. | Llythrennedd yn y cyfryngau | 12 Tachwedd 2025 |
| Deall ymddygiad i ennyn diddordeb plant mewn rheolaethau cynnwys: Profi mesurau diogelwch ar-lein gyda phlant (13-17 oed): Roedd yr ymchwil hon yn defnyddio llwyfan cyfryngau cymdeithasol ffug i brofi sut roedd dyluniad a chyflwyniad gosodiadau rheoli cynnwys wrth gofrestru wedi dylanwadu ar p’un a oedd plant wedi dewis yr opsiwn mwy diogel, “Peidio ag argymell cynnwys niweidiol.” | Deall ymddygiad | 12 Tachwedd 2025 |
| Profiadau plant o gael cais i gadarnhau eu hoedran: Arolwg cyflym i archwilio profiadau plant (8-17 oed) y gofynnwyd iddynt brofi eu hoedran ar wasanaethau ar-lein poblogaidd, pan ofynnwyd iddynt brofi’r oedran a’r dull cadarnhau a ddefnyddiwyd. | Diogelu plant | 4 Rhagfyr 2025 |
| Canfyddiadau Rhieni o Fesurau Diogelu Plant - Ton 2: Arolwg cyflym i archwilio ymwybyddiaeth a chanfyddiadau rhieni sydd ag o leiaf un plentyn 17 oed neu iau ynghylch mesurau sicrwydd oedran ac Diogelu Plant, ar ôl eu rhoi ar waith i gychwyn. | Diogelu plant | 4 Rhagfyr 2025 |
| Y Traciwr Diogelwch Plant Ar-lein (COST) - Ton 1: Nod yr astudiaeth feintiol hon yw deall ymhellach ac olrhain profiadau plant y DU o fod ar-lein, gan gynnwys eu defnydd a’u hymwybyddiaeth o fesurau diogelwch a phrofiadau o gynnwys neu gyswllt niweidiol. Rydym yn cynnal yr ymchwil hon ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio panel ar-lein i samplu dros 7,000 o blant 8-17 oed bob blwyddyn. | Diogelu plant | 4 Rhagfyr 2025 |

| Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Panel Mewnwelediad Plant Ar-lein: Mae'r Panel Mewnwelediad Plant Ar-lein yn brosiect ymchwil ansoddol parhaus, sy'n ceisio rhoi cipolwg amserol ac uniongyrchol ar sut mae plant 8-17 oed yn profi ac yn llywio eu byd digidol. Cafodd ei greu yn 2025, ac mae'n cynnwys cysylltu'n rheolaidd â 15 o banelwyr drwy gymysgedd o ddyddiaduron digidol ar-lein a chyfweliadau manwl. Yr adroddiad hwn yw'r don gyntaf a'r ail don o gasglu data. | Diogelu plant | 9 Rhagfyr 2025 |
| Ein Gwlad Ar-lein 2025: Mae Ein Gwlad Ar-lein yn adroddiad blynyddol sy'n edrych ar yr hyn y mae pobl yn ei wneud ar-lein, sut wasanaeth y maent yn ei dderbyn gan ddarparwyr cynnwys a platfformau ar-lein, a'u hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau ohoni. | Defnydd ac agweddau ar-lein | 10 Rhagfyr 2025 |

## Ymchwil yn Ch4 2025/26

| Trosolwg o'r prosiect | Maes polisi | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Profi oedran i gael mynediad at bornograffi ar-lein - Ton 1: Arolwg meintiol o ddefnyddwyr rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn y DU sy'n dweud eu bod wedi gweld cynnwys pornograffig ar-lein, er mwyn deall sut maen nhw'n cael gafael ar gynnwys o'r fath a'u profiadau blaenorol o wirio oedran. | Sicrwydd oedran | 12 Chwefror 2026 |
| Helpu defnyddwyr i asesu cynnwys ar-lein: Hapdreial rheoledig addasol sy'n gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau ymddygiadol amrywiol a gynlluniwyd i helpu defnyddwyr i asesu dibynadwyedd, cywirdeb a dilysrwydd cynnwys ar-lein. | Deall Ymddygiad | 24 Chwefror 2026 |
| Adroddiad cyflawnwyr CSAM: Mae hwn yn adroddiad ymchwil a ysgrifennwyd gan Protect Children ac a gomisiynwyd gan Ofcom sy'n cyflwyno canlyniadau canfyddiadau arolwg y we dywyll o gyflawnwyr sy'n mynd ati i chwilio am ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r adroddiad yn archwilio sut mae cyflawnwyr yn defnyddio ac yn camfanteisio ar ddyluniadau gwasanaethau a blatfformau digidol i wylio, lletya a dosbarthu'r math hwn o gynnwys. | Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSAM) | 18 Mawrth 2026 |



# Atodiad 2: Gweithgarwch Gorfodi

Mae Tîm Gorfodi Ofcom yn delio ag amrywiaeth o faterion ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, gan gynnwys Telegyfathrebiadau, Diogelwch Ar-lein, Post, a Diogelwch a Chadernid Rhwydweithiau. Mae'r materion hyn yn ymwneud ag ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio, ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae Tabl 17 yn dangos cyfanswm yr ymchwiliadau a agorwyd yn ffurfiol a gafodd sylw gan y tîm. Mae Tabl 18 yn dangos cyfanswm y materion a gafodd eu hystyried, gyda'r mwyafrif yn cael eu dirwyn i ben ar sail blaenoriaeth weinyddol neu oherwydd nad oedd gweithredu ffurfiol yn cael ei ystyried yn ymateb priodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2026.

Mae rhagor o fanylion am achosion unigol yr ymchwiliwyd iddyn nhw o dan y rhaglen ymchwiliadau wedi'u nodi ar ein gwefan yn: https://www.ofcom.org.uk/cy/enforcement

**Tabl 17: Rhaglenni ac ymchwiliadau agored**

| Sector wedi'i reoleiddio | Cyfanswm a agorwyd | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2026) | Cyfanswm sydd wedi cael sylw |
|---|---|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 4 | 4 | 8 | **12** |
| Diogelwch Rhwydwaith | 3 | 0 | 3 | **3** |
| Post | 1 | 1 | 0 | **1** |
| Diogelwch Ar-lein | 35 | 12 | 26 | **38** |
| Gwasanaethau Cyfradd Premiwm | 0 | 0 | 2 | **2** |
| **Cyfanswm** | **43** | **17** | **39** | **56** |

**Tabl 18: Cyfanswm y materion a gafodd eu hystyried gan y Tîm Gorfodi**

| Sector wedi'i reoleiddio | Materion agored ar 1 Ebrill 2025 | Materion newydd a agorwyd yn ystod y flwyddyn | Materion a gafodd eu dirwyn i ben yn ystod y flwyddyn | Gweithgarwch agored (ar 31/3/2026) |
|---|---|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 15 | 46 | 58 | 4 |
| Post | 0 | 3 | 3 | 0 |
| Diogelwch Rhwydwaith | 0 | 4 | 2 | 2 |
| Platfformau Rhannu Fideos | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Diogelwch Ar-lein | 11 | 31 | 41 | 1 |
| **Cyfanswm** | **26** | **85** | **105** | **7** |

*Cyfanswm sydd wedi cael sylw = Cyfanswm a gafodd eu dirwyn i ben + gweithgarwch parhaus*
*Cyfanswm a agorwyd = Agorwyd yn ystod blwyddyn ariannol Ebrill 2025 - Ebrill 2026*
*Cyfanswm a gafodd eu dirwyn i ben = Cyfanswm a gafodd eu dirwyn i ben yn ystod blwyddyn ariannol Ebrill 2025 - Ebrill 2026, does dim ots pryd cawsant eu hagor*
*Gweithgarwch Parhaus = Beth sydd ar agor nawr*

# Atodiad 3: Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

Mae gan Ofcom ddyletswydd o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion gan wrandawyr a gwylwyr am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gennym ni, yn ogystal ag S4C. Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Siarter a Chytundeb y BBC i osod gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a gyfeirir atom am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC. Rydym hefyd yn gorfodi safonau cynnwys ar wasanaethau fideo ar-alw yn y DU [6].

Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom. Rydym yn asesu pob un, ac maen nhw'n ein helpu i ddeall a yw darlledwr neu ddarparwr gwasanaeth ar-alw yn methu â chydymffurfio â'n rheolau.

Yn ogystal â lansio ymchwiliadau ar ôl asesu cwynion, gallwn wneud hynny ar ein liwt ein hunain hefyd. Rydym yn defnyddio'r un gweithdrefnau i ddelio ag ymchwiliadau yn sgil cwynion ac ymchwiliadau a roddwyd ar waith gennym ni ein hunain.

Mae cwynion unigol a gaiff Ofcom yn cael eu neilltuo i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu mater neu raglen benodol, a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Yn y cyfnod dan sylw, cawsom gyfanswm o **65,968** o gwynion am safonau, a oedd yn ymwneud â chyfanswm o **8,544** o achosion a gafodd eu hasesu wedyn. (Mae'r rhif cyntaf yn uwch oherwydd bod llawer o achosion yn arwain at nifer o gŵynion.)

## Safonau Cynnwys Darlledu

Mae cwynion am safonau cynnwys yn cael sylw o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. Mae cwynion am safonau cynnwys y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

## Asesiad cychwynnol o gŵynion

Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac, yn y rhan fwyaf o achosion, ar ôl ystyried y cynnwys teledu neu radio perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a yw'r gŵyn yn codi materion sylweddol o dan y Cod Darlledu (neu godau eraill Ofcom) sy'n cyfiawnhau ymchwiliad. Os na, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn ei Fwletin Broadcast and On Demand..

Aseswyd 8,544 o achosion (65,968 o gwynion) yn y ffordd hon yn ystod y cyfnod adrodd.

**Tabl 19 – cwynion ac achosion a aseswyd yn ôl blwyddyn**

| Math | 2025/26 | 2024/25 | 2023/24 | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion | 65,968 | 72,442 | 69,807 | 36,908 | 99,562 |
| Achosion | 8,544 | 9,408 | 9,957 | 8,725 | 11,932 |

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith.
Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 6.7 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

6. O dan y fframwaith statudol, gelwir y rhain yn "wasanaethau rhaglenni ar-alw".

# Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion posibl yn unol â'n rheolau, byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

O'r 8,544 o achosion, fe wnaethom gyfeirio **28** achos ar gyfer ymchwiliad o dan ein rheolau yn y cyfnod adrodd.

Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd **25** ymchwiliad gennym[7]. O'r 25 ymchwiliad a gwblhawyd gennym, cafodd **10** eu lansio cyn 2025/26. Cafodd y **15** arall eu lansio a'u cwblhau yn 2025/26.

**Tabl 20: Cwynion, achosion ac ymchwiliadau yn ôl mater allweddol y Cod Darlledu8[3]**

| Math | Achosion | Ymchwiliadau | Ymchwiliadau | Torri amodau |
|---|---|---|---|---|
| Tramgwyddo | 48,924 | 4,558 | 6 | 2 |
| Niwed | 46,408 | 4,471 | 7 | 5 |
| Didueddrwydd Dyladwy | 5,285 | 1,491 | 1 | 1 |
| Diogelu plant | 2,939 | 680 | 3 | 2 |
| Arall[9] | 2,113 | 1,232 | 9 | 6 |

Canfu Ofcom:

- fod **14** o'r achosion yr ymchwiliwyd iddyn nhw wedi arwain at gofnodi bod amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri.
- bod **6** o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu datrys[10];
- Nid oedd **1** o'r achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi torri'r Cod;
- Nid aethpwyd ymlaen â **4** o'r achosion yr ymchwiliwyd iddynt.

Anelwn at gwblhau'r achosion hynny y penderfynwn ymchwilio iddyn nhw cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 67.7 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Roedd hyn oherwydd cymhlethdod gweithdrefnol a chyfreithiol llawer o'r achosion roeddem wedi ymchwilio iddyn nhw.

7. Gall ymchwiliad gael ei gwblhau dros fwy nag un flwyddyn ariannol yn dibynnu ar ffactorau fel pryd cafodd ei lansio a chymhlethdod yr ymchwiliad.
8. Mae cyfanswm y cwynion a'r achosion ar gyfer bob blwyddyn yn uwch yn y tabl hwn na'r ffigurau yn Ffigur 1 oherwydd bod gorgyffwrdd yn y ffordd y caiff achosion eu categoreiddio yn ein system rheoli achosion.
9. Mae mathau eraill o achosion yn cynnwys cyfeiriadau masnachol, apeliadau elusennau a munudau hysbysebu.
10. Gellir defnyddio canlyniad 'datryswyd' mewn achosion, er enghraifft, lle mae darlledwr wedi cymryd camau priodol i unioni achos o dorri'r Cod. Mewn achosion o'r fath, gall Ofcom ystyried ei bod yn briodol peidio â chofnodi torri'r amodau, a phenderfynu mai'r canlyniad priodol yw penderfynu bod yr achos wedi'i ddatrys. Mae 'datryswyd' yn cael ei gadw ar gofnod ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei ystyried os bydd rhagor o bryderon ynghylch cydymffurfiaeth darlledwr penodol.

# Tegwch a Phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn ymwneud â thriniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddyn nhw). Bydd y cwynion hyn yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnyn nhw'n uniongyrchol.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu yn eu cylch. Bydd cwynion am degwch a phreifatrwydd ar raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC..

Yn 2025/26, fe wnaethom ystyried **218** o gŵynion Tegwch a Phreifatrwydd.

# Penderfyniadau i'w Hystyried

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, bu Ofcom yn asesu ac yn penderfynu a ddylid ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a hynny cyn pen 14.2 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

# Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei hystyried gan Ofcom, byddwn yn ymchwilio i'r mater i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri. Bydd dyfarniad terfynol yn cael ei wneud ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a deunydd perthnasol.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o **4** cwyn yn ystod y cyfnod dan sylw. O'r rhain:

- **ni** chafodd yr un gŵyn ei chadarnhau;
- roedd **3** cwyn heb eu cadarnhau;
- ni fwriwyd ymlaen ag **1** gŵyn, neu fe'i tynnwyd yn ôl.

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnyn nhw, o fewn 90 diwrnod gwaith i ystyried y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen **93.3** diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

# Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri amodau'r Cod Darlledu neu un o godau eraill Ofcom, ac yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gall ystyried a yw am roi sancsiwn statudol i'r darlledwr.

Mae gan Ofcom amrywiaeth o sancsiynau ar gael, gan gynnwys: cyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb, cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom, rhoi cosb ariannol[11]; cwtogi trwydded neu ei hatal (ar gyfer rhai categorïau trwyddedau), a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, penderfynodd Ofcom roi'r sancsiynau statudol canlynol:

- Word Network Operating Company Limited - tri sancsiwn mewn perthynas â'i wasanaeth, Word Network, gyda chyfanswm o £375,000 o gosbau ariannol[12];
- Salaam Radio Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Salaam Radio – cosb ariannol o £400[13];
- Y BBC mewn perthynas â deunydd a ddarlledir ar BBC2 a BBC iPlayer - cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyd diadau Ofcom[14]; a
- Markaz-Al-Huda Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Salaam BCR - cosb ariannol o £3,500[15].

# Safonau ac ymchwiliadau i gynnwys y BBC

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf'. Mae hyn yn golygu os oes gan rywun gŵyn am rywbeth maen nhw wedi'i weld neu ei glywed ar raglen deledu, radio neu ar-alw gan y BBC, mae'n rhaid iddyn nhw gwyno wrth y BBC yn gyntaf fel rheol[16]. Mae modd i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom os byddan nhw'n anfodlon ar ymateb y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. Mae modd cyfeirio cwyn hefyd os yw'r sawl sy'n cwyno'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn yn erbyn y BBC.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cael ac wedi asesu 1,648 o gwynion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion safonau ar gynnwys y BBC. O'r rhain:

- Cafodd 1,486 eu cyfeirio'n ôl at y BBC o dan ddull gweithredu 'BBC yn Gyntaf', gan nad oeddent wedi cwblhau proses gwyno'r BBC ac
- aeth 162 drwy ein proses Safonau'r BBC.

Roedd 1,023 o achosion i gyd - roedd 885 ohonynt wedi'u dosbarthu yn rhai 'BBC yn Gyntaf' a 138 o'r rhain wedi dilyn ein proses Safonau'r BBC. Ni chododd yr un ohonynt faterion sylweddol a oedd yn galw am weithredu pellach gan Ofcom.

11. Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EF i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.
12. Penderfyniad - Word Network Operating Company Limited, 9 Rhagfyr 2025
13. Penderfyniad - Salaam Radio Limited, 16 Mawrth 2026
14. Penderfyniad - BBC, 8 Rhagfyr 2025
15. Penderfyniad - Markaz-Al-Huda Limited, 14 Gorffennaf 2025
16. Nid yw'r fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf' yn berthnasol i gwynion tegwch a phreifatrwydd am gynnwys y BBC.

# Deunydd ar-lein y BBC

O dan Siarter a Chytundeb y BBC, a osodir gan y Llywodraeth a'r Senedd, mae'r BBC yn gyfrifol am safonau golygyddol ei ddeunydd ar-lein. Mae gan Ofcom gyfrifoldeb i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein[17]. Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefannau ac apiau'r BBC, fel erthyglau, delweddau a fideos, ac maen nhw wedi'u diffinio yn y ddogfen Trefniadau Ar-lein y BBC Ofcom. Nid yw'r diffiniad yn ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC ac nid yw'n cynnwys y rhaglenni ar BBC iPlayer a BBC Sounds sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau Cod Darlledu Ofcom.

Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 gwnaethom asesu a chau cyfanswm o 112 cwyn am ddeunydd ar-lein y BBC.

Roedd 552 o gŵynion eraill am ddeunydd ar-lein y BBC wedi cael eu cyfeirio'n ôl at y BBC o dan y dull 'BBC yn Gyntaf', neu roeddent y tu allan i'n cylch gwaith. Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 11.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ni wnaethom gwblhau unrhyw ymchwiliad yn ymwneud â deunydd ar-lein y BBC.

# Gwasanaethau rhaglenni ar-alw

Rydym hefyd yn ystyried cwynion am safonau cynnwys ar wasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS)[18] yn unol â dogfen Ofcom Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri rheolau gwasanaethau rhaglenni ar-alw. Yn 2025/26, gwnaethom asesu 738 o gŵynion, a arweiniodd at 638 o achosion am gynnwys ODPS. Eleni, cwblhaodd Ofcom ddau ymchwiliad: canfu'r cyntaf fod gwasanaeth wedi torri rheolau ODPS ar diogelu pobl ifanc dan 18 oed a daeth yr ail ymchwiliad (a agorwyd yn 2024/25) i ben.

Yn hanesyddol, nid yw ODPS wedi cael eu rheoleiddio i'r un graddau â theledu darlledu traddodiadol. Cyflwynodd Deddf y Cyfryngau 2024 fframwaith newydd i wella'r gwaith o reoleiddio'r gwasanaethau hyn. O dan y drefn reoleiddio newydd, bydd gwasanaethau yn y DU a'r tu allan i'r DU sy'n cael eu categoreiddio fel 'Gwasanaethau Haen 1' yn destun 'Cod Safonau Haen 1' newydd sy'n cysoni'r gwaith o reoleiddio'r gwasanaethau hyn yn agosach â theledu sy'n cael ei ddarlledu. Ar ben hynny, bydd yn rhaid i Wasanaethau Haen 1 gydymffurfio â 'Chod Hygyrchedd Haen 1' newydd a fydd yn gosod gofynion sylfaenol ar gyfer isdeitlau, disgrifiadau sain a chynnwys ag iaith arwyddion.

- Ym mis Mai 2025, gwnaethom anfon adroddiad ar farchnad y DU ar gyfer ODPS at y Llywodraeth. Roedd yn ofynnol i'r Llywodraeth ystyried yr adroddiad hwn wrth ystyried pa wasanaethau y byddai'r rheolau newydd yn berthnasol iddynt.
- Ym mis Tachwedd 2025, gwnaethom gyhoeddi adolygiad o fesurau diogelu cynulleidfaoedd (fel sgoriau oedran a rhybuddion cynnwys) a ddarperir gan wasanaethau ODPS, ochr yn ochr ag ymchwil i ddeall beth yw barn cynulleidfaoedd amdanynt.
- Ym mis Chwefror 2026 cadarnhaodd y Llywodraeth y bydd gwasanaethau sydd â mwy na 500,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU, ar gyfartaledd, yn cael eu cwmpasu gan y rheolau newydd.[19]
- Ym mis Mai 2026, gwnaethom gyhoeddi ein hymgynghoriad ar 'God Safonau Haen 1'[20] arfaethedig a 'Cod Hygyrchedd Haen 1'.

17. Rydym yn delio ar hyn o bryd â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC. Fodd bynnag, yn dilyn newidiadau i Gytundeb y BBC a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025, bydd gan Ofcom bwerau gorfodi llawn mewn perthynas â deunydd ar-lein yn y dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi i ymgynghori ar God Deunydd Ar-lein drafft y BBC, a disgwylir i'r Cod fynd yn fyw ym mis Medi/Hydref 2026.
18. Ac eithrio ODPD gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan y BBC, ac sy'n dod o dan y Cod Darlledu, mae'n rhaid i ODPS gydymffurfio â set o Reolau Statudol sydd ar wahân i'r Cod Darlledu.
19. Datganiad ar ddynodi gwasanaethau Fideo ar-alw Haen 1
20. Ymgynghoriad: Cod Safonau Haen 1

# Atodiad 4: Proffil amrywiaeth ein gweithwyr

Mae Ofcom yn rhwym wrth Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae cyhoeddi proffil amrywiaeth cydweithwyr yn cefnogi ein dyletswydd i ystyried cydraddoldeb yn y ffordd rydym yn gweithio ac i gymryd camau sy'n hyrwyddo tegwch a chynhwysiant. Mae'r wybodaeth hon yn sail i'n strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ac yn ein helpu i olrhain cynnydd yn erbyn ein huchelgeisiau, gan sicrhau atebolrwydd a gwelliant parhaus wrth greu gweithle cynrychioliadol a chynhwysol.

Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran; anabledd; ethnigrwydd (y cyfeirir ato fel 'hil' yn y Ddeddf); rhyw; hunaniaeth rhywedd (y cyfeirir ato fel 'ailbennu rhywedd' yn y Ddeddf); priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd neu famolaeth; crefydd neu gred; a chyfeiriadedd rhywiol.

Nid oes gennym ddigon o wybodaeth i gyhoeddi data dibynadwy ym meysydd hunaniaeth rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd neu famolaeth.

**Tabl 21: Proffil Amrywiaeth Cydweithwyr**

| Nodwedd | | 31 Mawrth 26 | 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** | Dynion | 44% | 45% |
| | Menywod | 56% | 55% |
| **Ethnigrwydd** | Cefndiroedd ethnig gwyn | 69% | 70% |
| | Cefndiroedd ethnig Asiaidd | *15%* | *14%* |
| | Cefndiroedd ethnig du | *7%* | *7%* |
| | Cefndiroedd ethnig cymysg | *4%* | *4%* |
| | Cefndiroedd ethnig arall | *1%* | *2%* |
| | Cefndiroedd ethnig lleiafrifol | 27% | 27% |
| | Mae'n well gen i beidio â dweud | 3% | 3% |
| | Dim Data | 0% | 0% |
| **Oedran** | Dan 30 | 22% | 23% |
| | 30-39 | 31% | 31% |
| | 40-49 | 25% | 24% |
| | 50-59 | 17% | 17% |
| | 60+ | 5% | 5% |

| Nodwedd | | 31 Mawrth 26 | 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|
| Crefydd neu gred | Cristion | 5% | 5% |
| | Mwslim | 6% | 6% |
| | Hindŵ | 4% | 4% |
| | Iddew | 1% | 1% |
| | Sikh | 1% | 1% |
| | Bwdhydd | 1% | 1% |
| | Crefydd / ffydd arall | 2% | 2% |
| | Crefyddol | 42% | 41% |
| | Ddim yn grefyddol | 47% | 46% |
| | Mae'n well gen i beidio â dweud | 10% | 10% |
| | Dim Data | 1% | 2% |
| Anabledd | Anabl | 16% | 12% |
| | Ddim yn anabl | 73% | 71% |
| | Mae'n well gen i beidio â dweud | 8% | 9% |
| | Dim Data | 3% | 8% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Heterorywiol | 78% | 78% |
| | Lesbiaidd/Hoyw | 4% | 4% |
| | Deurywiol | 5% | 5% |
| | Arall | 1% | 0% |
| | LHD | 10% | 9% |
| | Mae'n well gen i beidio â dweud | 11% | 11% |
| | Dim Data | 1% | 3% |



# Atodiad 5: Sicrwydd Sbectrwm a Chydymffurfedd

## Dangosydd perfformiad allweddol

**Tabl 22: Prif Weithgareddau**

| Digwyddiad/Gweithgarwch Rhaglen Waith | Ebrill 25 – Mawrth 26 | Ebrill 24 – Mawrth 25 |
|---|---|---|
| Cwynion a gafwyd am Ymyriant[21] | 1,528 | 1,710 |
| Gwirio cydymffurfedd â thrwyddedau systemau radio[22] | 3,826 | 3,393 |
| Nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd[23] | 15 | 42 |
| Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm[24] | 1 | 0 |

**Tabl 23: Targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cwynion a gafwyd am ymyriant**

| | | | Targed wedi'i gyflawni | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Blaenoriaeth Achos | Target | Ebrill 25 – Mawrth 26 | Ebrill 24 – Mawrth 25 |
| **Amser cyn yr ymweliad cyntaf:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes). | 1 | 8 awr | 100% | 100% |
| | 2 | 18 awr | 100% | 100% |
| | 3 | 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 100% |
| | 4 | 5 diwrnod gwaith | 98% | 100% |
| | 5 | 15 diwrnod gwaith | 99% | 100% |
| | 6 | Dim target | | |
| **Datrysiad:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys | 1 | 2 ddiwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 2 | 3 diwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 3 | 6 diwrnod gwaith | 100% | 98% |
| | 4 | 20 diwrnod gwaith | 96% | 97% |
| | 5 | 40 diwrnod gwaith | 99% | 99% |
| | 6 | 60 diwrnod gwaith | 99% | 100% |

21. Achosion ymyriant a nodwyd gan y cyhoedd a busnesau.
22. Gwaith gan Ofcom i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau, neu nad oes defnydd didrwydded yn digwydd.
23. Fel arfer, rhoddir Hysbysiadau Cosb Benodedig yn hytrach na chychwyn achosion cyfreithiol. Gall peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig arwain at gymryd camau cyfreithiol.
24. Erlyniadau yng nghyswllt gorsafoedd radio anghyfreithlon neu fethiant i dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig.

# Atodiad 6: Trwyddedu sbectrwm

## Categori A

Trwyddedau lle nad oes gofyn neilltuo amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol ac mae ganddynt ddangosydd perfformiad allweddol 7 diwrnod

| Math o Drwydded | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebr 25-Maw 26 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebr 24-Maw 25 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn - Syml DU (dim gorsaf ganolog) | 1,648 | 1,711 | 15,721 | 15,600 |
| Radio Busnes – Safle Syml | 959 | 1,181 | 9389 | 9,424 |
| Radio Busnes – Cyflenwyr Ysgafn | 76 | 103 | 1,229 | 1,228 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 34 | 39 | 334 | 338 |
| Dyfais Mwyhau GNSS | 14 | 14 | 443 | 429 |
| Heddlu a Thân | 0 | 0 | 122 | 122 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,731** | **3,048** | **27,238** | **27,141** |
| | | | | |
| Trwyddedau Awyrennol (awyrennau ysgafn a chludo) | 2,013 | 1,790 | 12,251 | 12,048 |
| Medrydd Lefel Radar | 0 | 0 | 124 | 124 |
| UAS (System awyrennau di-griw)25 | 43 | 59 | 98 | 72 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Awyrennol a Radar** | **2,056** | **1,849** | **12,473** | **12,244** |
| | | | | |
| PMSE a Rennir | 3,674 | 3,199 | 5,602 | 5,447 |
| EHF Sbectrwm | 69 | 85 | 341 | 301 |
| | | | | |
| **Cyfanswm ar gyfer pob trwydded gyda DPA 7 diwrnod** | **8,530** | **8,181** | **45,654** | **45,133** |
| Cyfartaledd DPA ar gyfer Categori A (90% mewn 7 diwrnod) | **99%** | **99%** | | |

Trwyddedau lle nad oes gofyn neilltuo amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol ac mae ganddynt DPA 10 diwrnod.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amatur a Llongau** | **14,273** | **14,339** | **319,641** | **313,152** |
| Cyfartaledd DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (90% mewn 10 diwrnod) | **100%** | **100%** | | |
| | | | | |
| **Cyfanswm ar gyfer pob un yng Nghategori A** | **22,803** | **22,520** | **365,295** | **358,285** |
| Cyfartaledd DPA ar gyfer pob un yng Nghategori A | 99% | 100% | | |

25. Cafodd trwyddedau UAS ac EHF Sbectrwm eu symud i'r porth ar-lein o 7 Ebrill 2025 ymlaen.

## Categori B

Trwyddedau lle mae gofyn neilltuo amledd, ond dim clirio safle na chydlynu rhyngwladol ac mae ganddynt ddangosydd perfformiad allweddol 42 diwrnod.

| Math o Drwydded | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebr 25-Maw 26 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebr 24-Maw 25 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 26 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | 31 | 64 | 599 | 555 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | 6 | 6 | 370 | 373 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | 8 | 7 | 287 | 292 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | 13 | 15 | 366 | 374 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | 41 | 48 | 732 | 699 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | 0 | 4 | 66 | 67 |
| Radar a Chymhorthion Llywio Morol | 31 | 18 | 179 | 162 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS) | 0 | 0 | 3 | 4 |
| Radio Busnes wedi'i Neilltuo'n Dechnegol | 1,547 | 1,599 | 20,466 | 20,954 |
| Radio Busnes wedi'i Neilltuo fesul Ardal | 29 | 18 | 435 | 422 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) Ardal wedi ei Diffinio | 3 | 1 | 16 | 13 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) Ardal wedi ei Diffinio | 1 | 2 | 12 | 11 |
| Radar Profi'r Tir | 37 | 30 | 267 | 260 |
| Telemetreg Sganio | 1 | 1 | 23 | 27 |
| Cysylltiadau hunangydlynol | 19 | 12 | 143 | 140 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **1,767** | **1,825** | **23,964** | **24,353** |
| | | | | |
| Gorsaf Awyrennol Tir[26] | 233 | 190 | 1,663 | 1,653 |
| PMSE a gydlynir (Tach a Thrwyddedau) | 38,457 | 37,388 | 2,585 | 2,353 |
| | | | | |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Isel) | 114 | 240 | 412 | 519 |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Canolig) | 343 | 217 | 731 | 534 |
| SAL 2.3 GHz | 2 | 0 | 2 | 0 |
| | | | | |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | **40,916** | **39,860** | **29,357** | **29,412** |
| DPA ar gyfer Categori B | 97% | 92% | | |

26. Nid oes DPA ar gyfer trwyddedau gorsafoedd awyrennol tir gan ein bod yn gweithio gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil i gadarnhau cyn cyhoeddi'r drwydded.

# Categori C

Trwyddedau lle mae gofyn neilltuo amledd a chlirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol ac mae ganddynt ddangosydd perfformiad allweddol o gwblhau 90% mewn 42 diwrnod (trwyddedau lloeren a chyswllt sefydlog yn unig) neu 100% mewn 60 diwrnod ar gyfer yr holl drwyddedau CAT C.

Mae'n cynnwys trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi.

| Math o Drwydded | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 25 -Maw 26 | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 24 -Maw 25 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | 1,486 | 1,438 | 17,303 | 17,576 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaear Barhaol) | 2 | 6 | 99 | 99 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaear Gludadwy) | 9 | 60 | 55 | 83 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaear) | 4 | 8 | 54 | 61 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaear heb fod yn sefydlog) | 3 | 3 | 19 | 15 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaear heb fod yn ddaearsefydlog) | 4 | 3 | 11 | 9 |
| Trwydded Ymchwil ac Arloesi | 325 | 413 | 528 | 669 |
| Trwydded Treialu ac Arddangos | 250 | 349 | 325 | 413 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | **2,083** | **2,280** | **18,394** | **18,925** |
| **DPA Cyfartalog ar gyfer Categori A (90% mewn 42 diwrnod)** | **96%** | **97%** | | |
| **100% mewn 60 diwrnod** | **99%** | **99%** | | |

# Trwyddedau band eang di-wifr a symudol

Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm

| Math o Drwydded | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 25 -Maw 26 | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 24 -Maw 25 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad at Sbectrwm: 412 - 414 MHz | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad at Sbectrwm: 700 MHz | 1 | 0 | 3 | 3 |
| Mynediad at Sbectrwm: 800 MHz, 2.6 GHz | 5 | 0 | 8 | 6 |
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800 MHz | 0 | 4 | 8 | 4 |
| Mynediad at Sbectrwm: 1452 - 1492 MHz | 2 | 1 | 1 | 3 |
| Mynediad at Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad at Sbectrwm: 2100 MHz | 1 | 3 | 5 | 1 |
| Mynediad at Sbectrwm: 2.3 GHz | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad at Sbectrwm: 3.4-3.6, 3.5, 3.6, 3.6-3.8 GHz | 6 | 3 | 15 | 16 |
| Mynediad at Sbectrwm: 3.9 GHz | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad at Sbectrwm: 10, 28, 32, 40 GHz | 1 | 8 | 20 | 22 |
| Mynediad at Sbectrwm ar y Môr | 0 | 1 | 13 | 14 |
| Mynediad Lleol i Sbectrwm | 4 | 2 | 13 | 27 |
| Mynediad at Sbectrwm: Twnnel y Siane[27] | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **20** | **23** | **89** | **100** |

27. Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU a'r twnnel i gyfeiriad y DU o Ffrainc.

ATODIADAU

# Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol

| Math o Drwydded | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 25 -Maw 26 | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 24 -Maw 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 0 | 0 | 14 | 30 |
| Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28 GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 0 | 0 | 18 | 9 |
| **Y cyfanswm ar gyfer Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | **0** | **0** | **32** | **39** |

# Trwyddedau sbectrwm y difidend digidol

Trwyddedau DOR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm

| Math o Drwydded | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 25 -Maw 26 | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 24 -Maw 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad at Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad at Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm trwyddedau'r Difidend Digidol** | **0** | **0** | **2** | **2** |

# Cyfanswm y trwyddedau

| Math o Drwydded | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 25 -Maw 26 | Trwyddedau newydd a gyhoeddwyd Ebr 24 -Maw 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 26 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 25 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y trwyddedau - pob categori** | **65,822** | **64,683** | **413,169** | **406,763** |

# Atodiad 7: Cynaliadwyedd

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr, 2017/18 i 2025/26

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli CO2e)** | Allyriadau ar gyfer cwmpas 1 | 400 | 327 | 185 | 108 | 115 | 140 | 148 | 133 | 148 |
| | Allyriadau ar gyfer cwmpas 2 | 809 | 528 | 308 | 189 | 172 | 398 | 340 | 292 | 306 |
| | Allyriadau ar gyfer cwmpas 3 | 519 | 555 | 594 | 7 | 57 | 347 | 674 | 719 | 580 |
| | **Cyfanswm yr allyriadau** | **1,728** | **1,410** | **1,087** | **304** | **344** | **886** | **1,162** | **1,144** | **1,034** |
| **Defnydd ynni cysylltiedig** | Tanwydd Fflyd (litrau) | 73,659 | 64,710 | 62,665 | 35,465 | 35,406 | 57,175 | 58,578 | 51,195 | 66,764 |
| | Nwy (kWh) | 1,014,202 | 802,709 | 120,016 | 95,613 | 148,858 | 41,671 | 90,344 | 83,322 | 108,806 |
| | Trydan (kWh) | 2,103,652 | 1,720,333 | 1,112,349 | 747,108 | 809,159 | 2,059,489 | 1,759,447 | 1,507,758 | 1,583,216 |
| **Data teithio busnes cysylltiedig (km)** | Hedfan - domestig | 581,902 | 537,247 | 725,261 | - | 50,324 | 284,544 | 569,197 | 515,128 | 464.670 |
| | Hedfan - rhyngwladol | 1,617,386 | 1,776,192 | 1,680,572 | 653 | 108,509 | 1,062,786 | 1,758,892 | 2,118,110 | 1,761,924 |
| | Rheilffyrdd neu reilffyrdd tanddaearol | 1,793,809 | 1,784,741 | 2,000,504 | 13,146 | 437,355 | 1,109,722 | 1,277,695 | 1,603,332 | 1,885,860 |
| | Teithio ar y ffyrdd | 244,308 | 220,376 | 254,311 | 32,544 | 68,955 | 247,452 | 274,043 | 169,790 | 264,037 |
| **Dangosyddion ariannol (£'k)** | Tanwydd Fflyd | £94k | £90k | £85k | £43k | £49k | £98k | £88k | £75k | £79k |
| | Nwy | £25k | £27k | £11k | £12k | £12k | £8k | £13k | £10k | £8k |
| | Trydan | £340k | £287k | £158k | £128k | £146k | £909k | £997k | £688k | £799k |
| | Teithiau Busnes | £706k | £743k | £838k | £5k | £139k | £660k | £998k | £1,118k | £1,109k |

**Cwmpas 1** – Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnyddio tanwydd yng ngheir fflyd Ofcom. Mae'r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Caeredin, Haydock (a wnaeth gau yn 2018) a Livingston (a wnaeth gau yn 2017). Bydd Ofcom yn talu am danwydd petrol a diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi.

**Cwmpas 2** – Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Haydock (a wnaeth gau yn 2018), Warrington, Manceinion a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y DU. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

**Cwmpas 3** – Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o'n system cofnodi, ac mae'n cynnwys teithiau gan bob cydweithiwr ni waeth ble maen nhw wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithio ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithio ar ffyrdd i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae'r data am deithiau hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig a rhyngwladol, yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

# Lleihau a rheoli gwastraff

Mae’r data am y defnydd o wastraff ar hyd y blynyddoedd yn ymwneud â phrif swyddfa Ofcom yn Llundain. Nid oes data cywir am y defnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae’r costau sy’n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi’u cynnwys. O fis Mehefin 2017, mae cost gwastraff wedi’i gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae ein hasiant rheoli’n gweithredu ar sail ‘dim gwastraff i safleoedd tirlenwi’, ac mae’r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosy-ddion anariannol (tunelli)** | Cyfanswm gwastraff | 183 | 198 | 189 | 69 | 161 | 72 | 143 | 192 | 172 |
| | Cyfanswm i safleoedd tirlenwi | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Cyfanswm wedi’i ailgylchu | 125 | 71 | 92 | 38 | 79 | 21 | 55 | 108 | 88 |
| | Cyfanswm wedi’i gompostio | - | - | - | 3 | 0 | 15 | 41 | 38 | 40 |
| | Cyfanswm gwastraff wedi’i losgi gan adfer ynni | 58 | 127 | 98 | 28 | 82 | 36 | 46 | 45 | 46 |
| **Materion Ariannol** | **Gwastraff** | **£7,004** | **£43,805** | **£35,000** | **£12,470** | **£27,569** | **£26,949** | **£25,440** | **£34,232** | **£30,846** |

# Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae’r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Baldock a Birmingham. Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny.

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosy-ddion anariannol (tunelli)** | Defnydd dŵr (m3) | 9,379 | 13,988 | 18,874 | 6,375 | 13,075 | 20,842 | 9,469 | 5,890 | 7,635 |
| | Rimiau papur | 3,915 | 2,579 | 2,446 | 23 | 16 | 168 | 183 | 85 | 81 |
| | Rimiau A3 | 50 | 127 | 106 | 0 | 1 | 9 | 6 | 3 | 0 |
| | Rimiau A4 | 3,865 | 2,452 | 2,305 | 23 | 15 | 159 | 177 | 82 | 81 |
| | Rimiau A5 | - | - | 35 | - | - | - | - | - | - |
| **Materion Ariannol** | **Dŵr** | **£6,929** | **£19,583** | **£23,321** | **£14,820** | **£25,049** | **£35,851** | **£16,288** | **£10,132** | **£13,134** |

**Prif Swyddfa Ofcom**
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

**Manceinion**
6th Floor
1 Circle Square
Oxford Road
Manceinion M1 7ED
+44 (0)289 026 5509

**Cymru**
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ
+44 (0)29 2046 7200

**Yr Alban**
Quartermile 1
15 Lauriston Place
Caeredin EH3 9EP
+44 (0)131 220 7300

**Gogledd Iwerddon**
Landmark House
The Gasworks
Ormeau Road
Belfast BT7 2JD
+44 (0)28 9041 7500

**Swtishfwrdd**
0300 123 3000
Neu 020 7981 3000

**Cyngor a chwynion**
0300 123 3333
Neu 020 7981 3040

**Llinell Iaith Gymraeg - Cyngor a Chwynion**
0300 123 2023

**Trwyddedu Sbectrwm**
0300 123 1000
Neu 020 7981 3131

**Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)**
020 7981 3803

E03613868

978-1-5286-6525-4